

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

**DYDD IAU
10 MAWRTH 2016
am 2.00 o'r gloch**

**THURSDAY
10 MARCH 2016
at 2.00 pm**

R H A G L E N

1. COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

- 9 Rhagfyr, 2015 (Arbennig)(10.00am)
- 9 Rhagfyr, 2015 (2.00pm)

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

4. CYFLWYNO DEISEBAU

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. CYLLIDEB 2016/17

a) **Cyllideb Refeniw 2016/17**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

b) **Rhaglen Gyfalaf**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

c) **Y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

ch) **Gosod y Dreth Gyngor**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

d) **Newidiadau i'r Gyllideb**

Cyflwyno unrhyw newidiadau i'r gyllideb y derbyniwyd rhybudd yn eu cylch yn unol â Pharagraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad.

(Sylwer: Rhaid ystyried y cyfan o'r papurau uchod fel un pecyn).

6. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2015/16

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

7. PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR AR GYFER AIL GARTREFI AC EIDDO SYDD WEDI BOD YN WAG AM GYFNOD HIR

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

8. POLISI TRWYDDEDU

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

9. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD - AMSERLEN CYTUNDEB CYFLAWNI

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y broses a ddilynwyd yn cynnwys cyfeiriad i'r Asesiad o'r effaith ar y Iaith Gymraeg a chynaliadwyedd.

10. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER RHEOLI ASED AU (TIR AC ADEILADAU)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

11. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRY S

Rhoi gwybod, er gwybodaeth, am y penderfyniadau brys a ganlyn a wnaed yn unol â Rhan 4.5.16.10 y Cyfansoddiad.

1. 3 Chwefror 2016 – Adroddiad – yn awdurdodi caffael rhanbarthol (cefnogaeth i ysgolion) a sicrhau'r pris gorau (gwybodaeth yn y ddolen sydd ynghlwm).

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/r/f/o/Binder---Capita-Sims_Cymraeg_CYHOEDDUS.pdf

2. 4 Chwefror 2016 – Adroddiad yn rhyddhau arian i drwsio difrod a achoswyd i ganolfannau hamdden gan stormydd fel nad oes angen eu cau am gyfnod dros dro (gwybodaeth yn y ddolen sydd ynghlwm).

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/j/i/t/Arweinydd_050216.pdf

3. 22 Chwefror 2016 – Adroddiad ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol, Llangefni i gwrdd ag amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer derbyn grant ac i sicrhau na cholli'r cymorth grant (gwybodaeth yn y ddolen sydd ynghlwm).

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/g2978/Penderfyniadau%2022ain-Chwe-2016%2009.00%20Pwyllgor%20Gwaith.pdf?T=2&LLL=1>

12. YMGYNGHORIAD HORIZON IONAWR 2016 - DIWEDDARIAD AR BROSIECT WYLFA NEWYDD A FFEITHLENNI AR BROSIECTAU

Y Prif Weithredwr i adrodd ar yr angen i ymateb i'r adroddiad, gan gynnwys trefnu sesiwn frifio ar gyfer Aelodau a pharatoi ymateb y Cyngor mewn ymgynghoriad gyda'r arweinyddion grŵpiau.

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

“Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm”.

14. DATGANIAD AR Y POLISI TÂL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2015

- YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Jim Evans (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Robert G Parry OBE (Is-gadeirydd)
- Y Cyngorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, A M Jones, G O Jones, H E Jones, Raymond Jones, R. Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, J A Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams.
- WRTH LAW:** Y Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT),
Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),
Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy,
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned,
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Prif Swyddog Cynllunio (EGJ),
Swyddog Caniatadau Mawr(S0),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mr. Peter Hulson – Arup
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr Ann Griffith, D R Hughes, T LI Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R LI Jones, Jeffrey M. Evans, Dylan Rees, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. PROSIECT CYSYLLTEDD GOGLEDD CYMRU GAN Y NATIONAL GRID – YMGYNGHORIAD CAM 2

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddogion o'r Adran Gynllunio a Mr. Peter Hulson o ARUP Consultants i'r cyfarfod.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio fod Adran 42 Deddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i 'hyrwyddwr' prosiectau isadeiledd sydd o bwys cenedlaethol (NSIP), sef National Grid yn yr achos hwn, gynnal ymgynghoriad cyn-gwneud-cais gyda rhestr benodedig o gyrrff, awdurdodau lleol a'r rheini sydd â diddordeb yn y tir y mae'r prosiect yn effeithio arno, cyn gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Yn ôl amserlen gyfredol National Grid, disgwylir y bydd y broses statudol hon o ymgynghori ac ymgysylltu yn digwydd yn hwyrach yn 2016.

Mae'r deunydd ymgynghori gerbron yr Awdurdod ar hyn o bryd ac mae'n ffurfio rhan o ymgynghoriad cam 2 National Grid, sef ymgynghoriad anstatudol ei natur, ynghyd â'r deunydd ymgynghori ar leoli ceblau o dan ddaear yn ardal y Fenai ac sydd i fod i gael ei ryddhau yn ystod gwanwyn – haf 2016. Pwrpas y deunydd ymgynghori yw cyfrannu at y

broses a dylanwadu arni. Er bod ymgynghoriad diweddaraf National Grid o natur anstatudol, ni ellir gorbwysleisio difrifoldeb a phwysigrwydd y mater dan sylw i'r Ynys a'i thrigolion, ac mae'r Awdurdod wedi llunio ymateb yn erbyn y cefndir hwn ac mae'n ymateb sydd mor fanwl, cynhwysfawr a chadarn â'r ymateb a roddir gan yr Awdurdod fel rhan o'i ymwneud â gweithdrefnau ymgynghori ffurfiol.

Nodwyd bod ail gam yr ymgynghoriad anstatudol gan National Grid ynglŷn ag adeiladu ail linell drosglwyddo trydan foltedd uchel 400kv a pheilonau ar draws Ynys Môn wedi dechrau ar 21 Hydref, 2015 a bydd yn rhedeg am gyfnod o 8 wythnos tan 16 Rhagfyr, 2015. Roedd dogfen yr ymateb ffurfiol gan yr Awdurdod ynghlwm yn yr adroddiad. Mae ymateb yr Awdurdod wedi arwain at gynnal dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o gyflwyniad National Grid, sydd wedi arwain at ryw 345 o sylwadau gwahanol.

Rhestrodd y Swyddog Caniatadau Mawr y prif themâu a adnabuwyd yn yr ymgynghoriad ail gam a rhoddodd ddadansoddiad manwl o'r materion a godwyd ym mhob un o'r themâu allweddol hyn i'r Cyngor Sir:-

- Yn gynamserol ac â diffygion
- Cymdeithasol-economaidd
- Cyfleoedd am Swyddi a chyfleoedd i'r Gadwyn Gyflenwi
- Yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Effaith ar Iechyd
- Effeithiau cronus
- Lliniaru
- Costau

Nodwyd bod nifer o sylwadau, pwyntiau eglurhad a cheisiadau am wybodaeth bellach wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth fel y gallai National Grid roi sylw i'r pwyntiau a godwyd pan fo angen a chywiro unrhyw ddiffygion a ganfuwyd.

Nododd Mr. Peter Hulson, ARUP eu bod yn rhannu pryderon yr Awdurdod ynglŷn â diffiniad y prosiect, eglurder ar y strategaeth i sicrhau caniatâd ac ymgysylltu'n foddhaol â'r gymuned â budd-ddeiliaid ehangach ar gamau lliniaru a rheoli. Mae'n rhaid i National Grid amlinellu sut bydd yn ymgynghori ar groesi'r Fenai, gan gynnwys y dulliau adeiladu arfaethedig a'r camau lliniaru. Mae angen gadael digon o amser i'r awdurdod lleol gael trafodaeth ddigonol yng nghyswllt gofynion cynllunio a mesurau o reoli ynghyd â mesurau iawndal ehangach o dan rwymedigaethau cynllunio.

Nododd ymhellach eu bod yn ceisio cael manylion ac ymrwymadau ehangach mewn perthynas â'r rhaglen adeiladu h.y. Rheolaeth Amgylcheddol, Bioamrywiaeth, Sŵn a Dirgryniad, Iechyd, Traffig a Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae National Grid yn ymroddedig i 'wirio'n ôl' fel eu bod yn gwerthuso eu cynigion yn gyson ac maent yn ymroddedig i ddarparu tystiolaeth o ba mor ymarferol fyddai rhoi'r ceblau dan ddaear yn llawn rhwng Wylfa a Phentir. Dylai National Grid hefyd ystyried cyfleoedd ehangach i ymrwymo i leihau'r effeithiau o'r isadeiledd 400kV presennol ochr yn ochr â'r cynllun arfaethedig.

Roedd aelodau'r Cyngor llawn yn unfrydol o'r farn, fel yr oeddent wedi'i ddatgan yn flaenorol, na ddylid adeiladu unrhyw beilonau neu linellau trosglwyddo trydan ychwanegol ar draws yr Ynys a'r Fenai. Nodwyd y dylai National Grid roi'r ceblau o dan ddaear er mwyn cysylltu'r orsaf bŵer niwclear arfaethedig yn Wylfa Newydd i'r rhwydwaith trydan.

Nododd yr aelodau ymhellach y dylai National Grid dynnu'r logo 'Ynys Ynni' o ddogfennaeth gyhoeddus.

PENDERFYNWYD

- **Bod yr Awdurdod yn glynu at y farn y daeth iddi'n flaenorol ym mis Rhagfyr 2012 na ddylai unrhyw beilonau neu linellau trosglwyddo trydan ychwanegol gael eu hadeiladu ar draws yr Ynys a'r Fenai;**
- **Bod y materion a'r pryderon a nodir yn yr Ymgynghoriad hwn yn derbyn sylw ym mhrif gorff yr adroddiad ac y bydd National Grid yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r rhain fel rhan o'r ymgynghoriad anstatudol;**
- **Y dylai National Grid dynnu'r logo 'Ynys Ynni' o bob dogfennaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â Phrosiect Cysylltedd Gogledd Cymru.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am

Y CYNGHORYDD JIM EVANS
Cadeirydd

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2015

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert G Parry OBE (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, Raymond Jones, R LI Jones, R. Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams
- WRTH LAW:** Y Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT),
Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (GC),
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cynladwyedd (AO),
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (GM),
Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau (GHJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Andy Bruce a Mr Jeremy Evans – Swyddfa Archwilio Cymru.
- APOLOGIES:** Y Cynghorydd D R Hughes, T LI Hughes, T. Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas.

1. DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr R. Meirion Jones a Peter S. Rogers ddiddordeb sy'n rhagfarnu yng nghyswllt Eitem 6 a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

2. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2015 yn gywir.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Fe wnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Croesawodd y ddwy Brif Weithredwr Cynorthwyol newydd, Dr Caroline Turner a Mrs Anwen Morgan i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir.
- Llongyfarchwyd staff yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol am ennill y wobwr John Connoll 2015. Roedd y Cynghorydd R.A. Dew - Deilydd Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a Swyddogion wedi mynychu seremoni wobrwyo yn Llundain.
- Llongyfarchwyd Gwen Elin o Fenllech am ennill Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Mae Gwen yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor.
- Llongyfarchwyd Steffan Lloyd Owen o Bentre Berw am ennill gwobr Kathleen Ferrier.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn y Ffair Aeaf a gynhaliwyd ym Mona yn ddiweddar ac yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Ffermwyr Ifanc Môn a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Ffermwyr Ifanc yn Aberystwyth.
- Diolchodd y Cadeirydd i staff Blaen y Coed a Gerddi Haulfre am addurno'r goeden Nadolig yn y prif gyntedd yn y Cyngor Sir.

Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r Cyngor Sir i Mr Arthur Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cynladwyedd a Mrs Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau. Diolchodd i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth i'r Cyngor.

Ategodd y Prif Weithredwr ei ddiolch i Mr Arthur Owen a Mrs Gwen Carrington am eu gwasanaeth i'r Cyngor a dymunodd yn dda iddynt at y dyfodol.

Estynnodd aelodau'r Cyngor Sir eu dymuniadau gorau i Mr Owen a Mrs Carrington hefyd.

4. ASESAD CORFFORAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Andy Bruce a Mr Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Nododd Mr Bruce nad oedd Mr Huw Lloyd Jones yn medru dod i'r cyfarfod am ei fod wedi colli ei fam yn ddiweddar. Roedd Aelodau a Swyddogion y Cyngor Sir yn dymuno mynegi eu cydymdeimlad dwysaf â Mr Huw Lloyd Jones a'i deulu.

Rhoddodd Mr Bruce grynodedb o'r meysydd allweddol o'r Aseiad Corfforaethol i'r Cyngor llawn. Nododd fod sylwadau AGGCC ac Estyn wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn h.y. -

- Roedd y Cyngor wedi perfformio'n dda yn erbyn cyfran uchel o ddangosyddion cenedlaethol 2013/14, sy'n ymgorffori ystod eang o wasanaethau;
- Roedd Estyn wedi barnu bod newid a gwelliant sylweddol wedi digwydd dros gyfnod cymharol fyr, o fewn y gwasanaeth ysgolion ac yn gorfforaethol;

- Roedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi barnu, yn 2013/14, bod y Cyngor yn y camau cynnar o weithredu rhaglen drawsnewid uchelgeisiol ar gyfer y gwasanaethau oedolion a phlant, ac
- Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella medrusrwydd ei staff gyda'r iaith Gymraeg.

Adroddwyd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn ystod gwaith blaenorol y flwyddyn hon ac nad yw wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiad Cenedlaethol i Lywodraeth Leol, fel a ganlyn:-

Cynigion ar gyfer gwelliant:-

- Dylai'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau gwelliant i sicrhau bod graddfa ei uchelgeisiau yn glir ai fod yn adlewyrchiad realistig o'r capasiti a'r adnoddau sydd gan y Cyngor i'w defnyddio.
- Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei strategaethau ar gyfer Pobl, TGCh a Rheoli Asedau wedi'u cysylltu'n glir â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'r strategaeth ariannol gysylltiedig.
- Dylai'r Cyngor:-
 - Wreiddio ymhellach ddiwylliant o weithio corfforaethol cyson ymysg staff ar bob lefel; a
 - Sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael eu dal yn atebol am gydymffurfio â pholisiau'r Cyngor a rhoi penderfyniadau ar waith.
- Wrth weithredu ei strategaeth gaffael newydd, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu ac yn defnyddio'r sgiliau angenrheidiol i reoli a monitro'n well ei gontractau gyda chyflenwyr allanol nwyddau a gwasanaethau.
- Dylai'r Cyngor sicrhau ymagwedd gyson tuag at gynllunio gweithlu a defnyddio'r canlyniadau fel sail i ostyngiadau mewn niferoedd staff yn y dyfodol.
- Dylai'r Cyngor roi sylw'n systematig a phan fo'n briodol, yn gorfforaethol, i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwelliant sydd wedi eu cynnwys yn:-
 - Adolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant a Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn;
 - Yr adolygiad o'r gwasanaeth TGCh a gomisiynwyd gan y Cyngor;
 - Y Rhybudd Gorfodaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
 - Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013/14 a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; ac
 - Adroddiadau a gynhyrchwyd gan Archwilio Mewnol.

Roedd Aelodau'r Cyngor Sir yn croesawu'r Asesiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn llongyfarch Arweinydd y Cyngor, yr Uwch Dîm Rheoli a holl aelodau'r Cyngor am y gwaith caled wrth wneud cynnydd da yn erbyn ei brif flaenoriaethau gwelliant.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion oedd wedi'u cynnwys ynddo fel y nodir uchod.

5. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2016/17

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn gosod y cynigion ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr, 2015.

PENDERFYNWYD cefnogi'r argymhellion oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17.

6. PWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELODAU NEWYDD O'R CYNGHORAU CYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â phenodi Aelodau o Gyngorau Cymuned i'r Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd John Chorlton – Cyngor Tref Caerdybi a'r Cynghorydd John Roberts – Cyngor Cymuned Llanfairpwll yn cael eu penodi yn gynrychiolwyr o Gyngorau Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr, 2015 hyd nes 17 Rhagfyr, 2019.

7. ADOLYGU CYNLLUN RHEOLI'R ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL 2015-2019

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â'r uchod.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynllun rheoli diwygiedig fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

8. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd R. Meirion Jones:-

“Yn dilyn cwestiwn i'r Cyngor ar 14 Mai 2015 penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r mater o warchod enwau tai ac anheddau i Grŵp Tasg Iaith y Cyngor i lunio argymhellion a pholisi penodol i'w cyflwyno i'r pwyllgor perthnasol, ac wedyn penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 19 Hydref 2015 gymeradwyo'r polisi ar enwi a

rhifo strydoedd a thai sy'n hyrwyddo traddodiadau ac etifeddiaeth ddiwylliannol yr ynys.

Yn dilyn hyn gofynnir i'r Cyngor Sir ddatgan ei gefnogaeth i ymdrechion yn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaeth ym Mesur yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i warchod enwau cyffredin cyfredol a hanesyddol adeiladau a thirnodau, i gynnwys tai ac anheddau, ac mai'r manylion hynny fydd yr ystyr i'r rhestr o enwau lleoedd yn ardal yr awdurdod."

Nododd y Cynghorydd R. Meirion Jones fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei wneud ar ran Plaid Cymru fel yr Wrthblaid.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor Sir yn datgan ei gefnogaeth i ymdrechion yn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaeth ym Mesur yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i warchod enwau cyffredin cyfredol a hanesyddol adeiladau a thirnodau, i gynnwys tai ac anheddau.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm

**Y CYNGHORYDD JIM EVANS
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I'R:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	10 MAWRTH, 2016
PWNC:	CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2016/17
DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD HE JONES
PENNAETH Y GWASANAETH:	MARC JONES (EST. 2601)
AWDUR YR ADRODDIAD:	Marc Jones
FFÔN:	2601
E-BOST:	rmjfi
AELODAU LLEOL:	d/b

A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau

1. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2016/17

1.1 Pwrpas

Mae gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2016/17. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, 2016. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw: -

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 yn sgil hynny; a nodi:
- Strategaeth Ariannol ddiweddaedig y Cyngor ar gyfer y Tymor Canol;
- Defnydd o arian unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

1.2 Crynodeb

Mae'r papur hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw y mae angen eu hadolygu a'u cytuno arnynt yn derfynol ar gyfer 2016/17 ac effaith ddilynol hynny ar Gyllideb Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae hefyd yn diweddarau'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol.

2. ARGYMHELLION YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR AM 2016/17

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith: -

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn sgil hynny ac fel yr amlinellir yn Adran 2 ac Atodiad 1;
- Nodi'r crynodeb yn Adran 11 ar oblygiadau'r cynigion cyllidebol o safbwynt cydraddoldebau;
- Cytuno bod ysgolion, o fewn y gyllideb arfaethedig, yn cael cynnydd yn eu cyllidebau er mwyn cwrdd ag addewid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid ysgolion, fel y nodir ym mharagraff 4.3;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb, buddsoddiadau, pwysau ac arbedion arfaethedig y Cyngor fel y dangosir ym mharagraff 10 ac Atodiad 5;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod isafswm o £5m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol, y cadarnhad a gafwyd o ran cadernid yr amcangyfrifon sy'n sail i'r cynigion a digonolrwydd y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol yng nghyd-destun y cronfeydd eraill wrth gefn a glustnodwyd;
- Argymhell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Mawrth, 2016;

- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r mater i'r Cyngor;
- Cytuno fod unrhyw gyllideb a arweinir gan y galw ac y ceir pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol, yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau wrth gefn cyffredinol;
- Argymell cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol. Mae'r gyllideb arfaethedig yn sicrhau bod y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys tra'n cymryd i ystyriaeth y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

C - Pam fod y penderfyniad hwn yn un i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D/B

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

D/B

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth wnaethon nhw ei ddweud?

1	Prif Weithredwr / Tîm Strategol Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr wedi bod yn rhan o broses gosod y gyllideb ac yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynigion cyllideb terfynol
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	d/b - Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim Sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrrff allanol / eraill	

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori
 Atodiad 2 - Dadansoddiad o'r Arbedion Arfaethedig
 Atodiad 3 - Adroddiad ar y Pwysau ar y Gyllideb - Pennaeth Gwasanaethau Plant
 Atodiad 4 - Adroddiad ar y Pwysau ar y Gyllideb - Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
 Atodiad 5 - Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2016/17 fesul Gwasanaeth

FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2016/17 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau bod y cyllid sydd gan y Cyngor yn cael ei ddyrannu i fodloni ei flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill sy'n ffurfio rhan o gyfres o adroddiadau yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2016/17, Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, Ffioedd a Thaliadau a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.
- 1.2** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion refeniw wedi cael ei yrru gan y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Gellir crynhoi'r Strategaeth a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2015 fel a ganlyn: -

Tabl 1
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2016/17 i 2019/20

	2016/17 £ 'm	2017/18 £ 'm	2018/19 £ 'm	2019/20 £ 'm
Cyllideb Refeniw Net D/Y	124.6	121.9	119.4	117.8
Pwysau Cyllideb a Chwyddiant	2.3	2.6	2.7	2.7
Cyllideb ddiwygiedig	126.9	124.5	122.1	120.5
Cyllid Allanol Cyfun	(89.6)	(86.1)	(83.5)	(81.0)
Y Dreth Gyngor	(32.3)	(33.3)	(34.3)	(35.3)
Cyfanswm y Cyllid	121.9	119.4	117.8	116.3
Arbedion Angenrheidiol	5.0	5.1	4.3	4.2
Prif Ragdybiaethau				
Dyfarniadau cyflog	1%	1%	1%	1%
Chwyddiant cyffredinol	1.25%	1.50%	1.50%	1.50%
Gostyngiad mewn Cyllid Allanol	-4.5%	-3%	-3%	-3%
Cyfun (AEF)				
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	4.5%	3%	3%	3%

- 1.3** Roedd cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith (cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 9 Tachwedd, 2015) yn gosod y gyllideb ddisymyd ar £126.7m ac, yn seiliedig ar gynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor, nodwyd mai £5.57m oedd y bwlc cyllidebol a'r arbedion arfaethedig yn £ 3.91m. Byddai hyn wedi arwain at orfod dod o hyd i £1.66m o arbedion ychwanegol.

2. YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

- 2.1** Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2015 ac yna cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus am saith wythnos. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, rhanddeiliaid a staff i ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau, gan gynnwys: -
- Arolygon ar-lein;
 - Ysgrifennu llythyr neu anfon e-bost at y Cyngor;
 - Mynychu un o 13 sesiynau galw i mewn gydag Arweinydd y Cyngor.
- 2.2** Yn ogystal, cynhaliodd y Cyngor: -
- Grwpiau ffocws ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed;
 - Arolwg ar-lein ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed;
 - Sesiwn ar gyfer nifer o randdeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Bwrdd Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau 3ydd sector.
- 2.3** Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 1.

3. Y GYLLIDEB DDISYMUDD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2016/17 A'R BWLCH CYLLIDEBOL

- 3.1 Ers cwblhau'r cynnigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed ychwaneg o waith i adolygu a diwygio'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2016/17. Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau a manylir ar y rhain isod: -

Tabl 2
Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud

	£ 'm	£ 'm
Y Gyllideb Ddisymud fel yr oedd ar 16 Tachwedd, 2015		126.701
Cywiro Cyllidebau Yswiriant Gwladol - yn wreiddiol, roedd y gyllideb ddisymud yn cynnwys swm wrth gefn o £1.5 miliwn	(0.202)	
Uwch Swydddog Addysg - cynnwys swydd ychwanegol fel y cytunwyd yn flaenorol	0.083	
Gostyngiad mewn cyllidebau teithio - yn dilyn diwygio amodau gwasanaeth	(0.094)	
Cynnydd yn y gronfa wrth gefn ar gyfer Cost Newid	0.088	
Gostyngiad yn yr Ardoll Tân - yn dilyn cadarnhad terfynol	(0.010)	
Addasiadau Amrywiol Eraill	0.073	
Cyfanswm yr Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud		(0.062)
Y Gyllideb Ddisymud Ddiwygiedig fel yr oedd ar 7 Mawrth, 2016		126.639

- 3.2 Derbyniwyd y setliad dros dro ar 9 Rhagfyr 2015, ond ni fydd y setliad terfynol i law tan 9 Mawrth, 2016. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud mai bychan iawn fydd unrhyw symudiad rhwng y setliad dros dro a'r un terfynol ac y byddir yn cyfrif am unrhyw addasiad y bydd ei angen drwy wneud cyfraniad bychan i neu o'r balansau cyffredinol.
- 3.3 Roedd ffigyrau'r setliad dros dro yn dangos gostyngiad o 2% mewn cyllid a oedd yn rhoi ffigwr o £91.925m ar gyfer y Cyllid Allanol Cyfun (AEF). Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru, diwygiwyd yr AEF at i fyny i £91.928m. Er mwyn ariannu'r gyllideb ddisymud, byddai angen i incwm y Dreth Gyngor fod yn £34.711m sy'n cyfateb i gynnydd o 11.88%. Os byddai cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor, sef cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith, yna byddai cyfanswm y cyllid sydd ar gael (AEF a'r Dreth Gyngor) yn £124.348m, diffyg o £2.291m.

4. ARBEDION

- 4.1 Yn ei gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi nodi £3.913m o arbedion posibl. Mae'r arbedion arfaethedig wedi cael eu hadolygu ymhellach gan y Rheolwyr Cyllid, y Cyfrifwyr a'r Rheolwyr Gwasanaeth. Canfuwyd yn yr adolygiad bod modd cyflawni gwerth £2.955m o'r arbedion yn ystod y flwyddyn. Mae crynodeb fesul Gwasanaeth yn Nhabl 3 isod a fesul categori Arbedion yn Nhabl 4 isod (mae dadansoddiad llawn ynghlwm fel Atodiad 2):-

Tabl 3
Crynodeb o'r Cynigion ar gyfer Arbedion gan Wasanaethau

Gwasanaeth	Cynigiwyd £ '000	I'w gweithredu £ '000	Ddim yn Bosibl i'w Gweithredu £ '000
Oedolion	475	335	140
Plant	168	143	25
Tai	99	74	25
Addysg	1,279	1,267	12
Diwylliant	41	41	0
Hamdden	145	103	42
Economaidd a Morwrol	44	44	0
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	490	490	0
Eiddo	135	85	50
Gwastraff	414	155	259
Gwarchod y Cyhoedd	67	67	0
Cynllunio	44	44	0
Busnes y Cyngor	76	56	20
Trawsnewid	59	4	55
Adnoddau	127	72	55
Awdurdod Cyfan	250	0	250
Cyfanswm	3,913	2,980	933

Tabl 4
Crynodeb o'r Arbedion yn ôl Categori

Categori arbedion	Cynigiwyd £ '000	I'w gweithredu £ '000	Ddim yn Bosibl i'w Gweithredu £ '000
Rhoi'r Gorau / Trosglwyddo Gwasanaeth	598	528	70
Dileu swyddi gweigion / swyddi nad oes eu hangen	397	309	88
Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol	227	187	40
Gostyngiad mewn Cyllidebau Ysgolion	1,000	988	12
Cynhyrchu Incwm	322	273	49
Gostyngiad yn y Grantiau a Ddyfarnwyd	383	125	258
Tynnu Cyllidebau sydd heb eu defnyddio	292	257	35
Ail-dendro / arbedion caffael	160	130	30
Trawsnewid Gwasanaethau	534	183	351
Cyfanswm	3,913	2,980	933

4.2 Wrth adolygu'r arbedion arfaethedig, ystyriwyd yn drwyadl a oedd modd cyflawni'r arbedion ac roedd y rhesymau dros benderfynu nad oedd modd eu cyflawni yn amrywio ond gellir eu crynhoi i'r categorïau canlynol: -

- Bod penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn lleihau neu'n atal yr arbediad rhag cael ei wneud (Gwerthu Garreglwyd, casglu sbwriel bob tair wythnos);
- Roedd yr arbediad yn gysylltiedig â'r broses ddiswyddo gwirfoddol ac mae wedi'i gynnwys yn y ffigwr arbedion cyffredinol o ddiswyddiadau gwirfoddol (gweler paragraff 4.3 isod);
- Mae'r angen i gydymffurfio â gofynion y setliad yn lleihau'r swm y gellir ei dynnu o'r gyllideb (cyllidebau ysgolion a'r angen am gynnydd o 1.85% mewn termau arian parod);
- Y cynnig oedd cynyddu cyllidebau incwm yn 2016/17 er nad oedd y targed incwm wedi cael ei gyflawni yn 2015/16;
- Nid oedd llawer o bosibilrwydd y byddai'r targed arbedion yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn ariannol ac roedd angen gwneud gwaith pellach (gostwng y cyfraniadau i'r trydydd sector);
- Gostyngiadau mewn grantiau cysylltiedig yn gwrthbwysu unrhyw arbedion posibl (Grant Amgylcheddol Sengl).

- 4.3** Fel rhan o'r setliad, mae gofyniad i sicrhau bod cynnydd o 1.85% i gyllidebau ysgolion mewn termau arian parod. Gosodwyd y gyllideb ddisymyd ar gyfer 2016/17 ar £40.455m sef £1.705m yn uwch mewn termau arian parod na'r gyllideb ar gyfer 2015/16 a £0.988m yn uwch na'r cynnydd ariannol a ddisgwylwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pwysau ar y gyllideb sydd wedi cael eu hariannu yn cynnwys y canlynol: - Incrementau Tâl a Dyfarniadau Tâl - £ 503k, Cynnydd yn y Cyfraniad at Bensiynau Athrawon - £183k, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol - £691k, Cynnydd yn Niferoedd y Disgyblion - £207k, Addasiadau Cyllidebol Eraill - £121k .
- 4.4** Yn ychwanegol at yr arbedion arfaethedig, gwahoddodd y Cyngor hefyd geisiadau am ddiswyddo gwirfoddol. O'r 95 o geisiadau a dderbyniwyd, derbyniwyd 32 ohonynt, a bydd y staff yn cael eu rhyddhau yn ystod y misoedd sydd i ddod. Bydd y gostyngiad yn nifer y staff yn arwain at arbedion ychwanegol o £400k.
- 4.5** Ers cwblhau'r cynigion cyllidebol cychwynnol, mae'r gyllideb ar gyfer Uned Bartneriaeth Gwynedd a Môn wedi cael ei chwblhau'n derfynol a bydd cyfraniad Ynys Môn yr un ag yr oedd yn 2015/16. Mae'r gyllideb ddisymud ar gyfer y Bartneriaeth £80k yn uwch na'r cyfraniad ac mae'r gwahaniaeth hwn bellach wedi'i ymgorffori yn y pecyn arbedion.
- 4.6** Felly, gan gymryd i ystyriaeth yr arbedion a nodwyd, dangosir y sefyllfa o ran y gyllideb ddiwygiedig yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5
Sefyllfa'r Gyllideb Ddiwygiedig ar ôl gwneud Arbedion

	£ 'm	£ 'm
Y Gyllideb Ddisymud fel yr oedd ar 7 Mawrth, 2016		126.639
Arbedion a nodwyd	(2.980)	
Uned Bartneriaeth Gwynedd a Môn	(0.080)	
Arbedion a Gafwyd drwy Diswyddo Gwirfoddol	(0.400)	
		(3.460)
Cyllideb Refeniw Ddiwygiedig ar ôl Arbedion		123.179
Cyllid Allanol Cyfun		(91.928)
Y Cyfran o'r Gyllideb i'w hariannu gan y Dreth Gyngor		31.251

- 4.7** I ariannu'r gyllideb refeniw ddiwygiedig o £123.179m, byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor o 0.73%. Fodd bynnag, y cynnig gwreiddiol yn y gyllideb oedd cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor. Ar y lefel hon, byddai'r cyllid sydd ar gael £1.169m yn fwy na'r Gofyniad Cyllidebol.

5. PWYSAU A THWF

- 5.1** Byddai cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor yn caniatáu ar gyfer cyllido rhai pwysau twf. Y ddau brif faes lle gwelir pwysau twf yw yn y Gwasanaethau Plant ac, yn ogystal, gallu'r Cyngor i ymateb i argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr ac ymgynghorwyr allanol a gomisiynwyd gan y Cyngor.
- 5.2** Yn Atodiad 3, mae adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant sy'n amlinellu'r cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth a'r effaith ar y gyllideb. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cynnwys yr adroddiad ac a ddylid cefnogi'r pwysau ar y gyllideb hon drwy roddi rhagor o gyllid yn y gyllideb ar gyfer 2016/17.
- 5.3** Yn Atodiad 4, mae adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sy'n amlinellu'r pwysau o ran costau y bydd y gwasanaeth yn eu hwynebu yn ystod 2016/17. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cynnwys yr adroddiad ac a ddylid cefnogi'r pwysau ar y gyllideb hon drwy roddi rhagor o gyllid yn y gyllideb ar gyfer 2016/17.
- 5.4** Comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i adolygu'r Gwasanaeth TGCh. Yn dilyn yr adolygiad, gwnaed nifer o argymhellion i wella'r Gwasanaeth ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu gweithredu heb adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, er mwyn parhau i weithredu ar y rhain, mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi gofyn am £50k ychwanegol er mwyn cynyddu a diogelu adnoddau staffio. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y cais hwn.

6. Y DRETH GYNGOR

- 6.1 Y ffi ar gyfer Band D y Dreth Gyngor yn 2015/16 oedd £1,025.57, sef yr 8fed isaf yng Nghymru. Yn bwysicach na hyn yw sut mae lefel y Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn cymharu â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru? Gweler y gymhariaeth yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Cymharu Taliadau Band D y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru

Awdurdod	Ffi Band D 2015/16 £	Swm yn uwch / yn is nag Ynys Môn £	Canran yn uwch / yn is nag Ynys Môn %
Ynys Môn	1,025.57		
Gwynedd	1,161.07	+ 135.50	+ 13.2%
Conwy	1,013.11	- 12.46	-1.2%
Sir Ddinbych	1,142.22	116.65	+ 11.4%
Sir y Fflint	1,025.27	-0.30	0.0%
Wrecsam	994.23	-31.34	-3.1%

- 6.2 Cyllideb y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16 (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sail y Dreth Gyngor) oedd £31.024m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £310,000 ychwanegol. Cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith oedd cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n creu £ 1.396m ychwanegol ac yn rhoi tâl band D o £1,071.72, sef cynnydd o £ 46.15 (£0.89 yr wythnos).
- 6.3 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.7, gallai'r gyllideb refeniw bresennol o £123.179m gael ei hariannu gan gynnydd 0.73% yn y Dreth Gyngor. Byddai hyn yn cynyddu'r tâl Band D i £1,033.02, sef cynnydd blynyddol o £7.45 neu £0.14 yr wythnos. Dangosir effaith pob cynnydd 0.5% o 1% i gynnig cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith o 4.5% yn Nhabl 7 isod: -

Tabl 7
Effaith Amrywio'r Cynnydd yn Lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17

Canran y Cynnydd	Newid o ran Cyllid Cyffredinol y Cyngor £	Y Gwarged uwchben Cyllideb Sail Ddiwygiedig 2016/17 £	Tâl Band D 2016/17 £	Cynyddu o gymharu â Thâl 2015/16 £	Cynnydd Wythnosol gymharu â Thâl 2015/16 £
4.5%	+ 1.396m	+ 1.079m	1,071.72	46.15	0.89
4.0%	+ 1.241m	+ 0.924m	1,066.59	41.02	0.79
3.5%	+ 1.086m	+ 0.769m	1,061.46	35.89	0.69
3.0%	+ 0.931m	+ 0.613m	1,056.33	30.76	0.59
2.5%	+ 0.776m	+ 0.458m	1,051.20	25.63	0.49
2.0%	+ 0.620m	+ 0.303m	1,046.07	20.50	0.39
1.5%	+ 0.465m	+ 0.148m	1,040.94	15.37	0.30
1.0%	+ 0.310m	0.000m	1,035.81	10.24	0.20

- 6.4 Mae datganiad ysgrifenedig y Gweinidog, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r setliad dros dro, hefyd yn cynnwys y cyfeiriad canlynol at osod y Dreth Gyngor: -

"... Am 2016-17, yr wyf yn disgwyl i bob Awdurdod ystyried yr holl ffrydiau ariannu sydd ar gael wrth ystyried darparu gwasanaethau a gosod eu cyllidebau a'u Treth Gyngor. Er mai'r Grant Cymorth Refeniw yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol, nid dyma'r unig un.

Wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2016-17, yr wyf yn annog Awdurdodau Lleol i feddwl o ddifrif am yr heriau cyllidol y maent yn eu hwynebu ac i gydbwysu hyn gydag ystyriaeth o'r baich ariannol ar deuluoedd. Rydym yn cynnig cryn hyblygrwydd i Awdurdodau yng Nghymru nad yw ar gael i'w cymheiriaid yn Lloegr "

- 6.5 Dylid nodi y dylai lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor adlewyrchu gofynion incwm y Cyngor ac mae'n rhaid cymryd i ystyriaeth hefyd ddatganiad uchod y Gweinidog. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod y cynnydd ar gyfer 2016/17 yn gosod y sefyllfa sail ar gyfer 2017/18 ac nid fedrir ond adennill sefyllfa sail is drwy gynnydd uwch yn 2017/18.

7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, ARIAN WRTH GEFN AR GYFER ARGYFYNGAU A RISG ARIANNOL

- 7.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau tebygol incwm a gwariant yn y dyfodol. Felly, yn anochel, mae yna nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Mae'r risgiau ariannol allweddol wedi'u hamlygu isod: -
- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2015/16 oblygiadau uniongyrchol ar gyfer cyllideb 2016/17, a hynny o ran asesu cadernid cyllidebau gwasanaethau unigol ac o ran digonolrwydd lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant net o £470k ar gyfer cyllideb 2015/16, gyda rhai gwasanaethau yn wynebu cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'r sefyllfa gyllidebol bresennol wedi bod yn ffactor pwysig wrth ystyried cynigion terfynol o ran arbedion a chynlluniau wrth gefn;
 - Mae'r cynigion o ran arbedion yn yr adroddiad hwn yn werth £3.46m a bydd angen eu cyflawni er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2016/17. Mae'r lwfans wedi'i wneud, lle y mae'n briodol, ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol yn gysylltiedig â chyflawni'r holl arbedion yn llawn, gyda'r risg honno yn amrywio'n sylweddol rhwng y cynigion unigol. Mae rhagdybiaethau realistig wedi cael eu gwneud ar gyfer rhan o'r flwyddyn lle na fedrir gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol gynhenid yn gysylltiedig â sicrhau'r newidiadau mewn pryd i gyflawni'r math hwn o arbediad a gynlluniwyd;
 - Nid yw cynnydd mewn chwyddiant ond wedi cael ei briodoli i gostau gweithwyr ac unrhyw ymrwymadau cytundebol parhaus. Mae cynnydd o 5% wedi cael ei osod ar yr holl gyllidebau incwm anstatudol.
- 7.2** O ran cronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ochr yn ochr â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad gynnwys golwg tymor canol lle mae angen hynny a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am adnoddau unwaith ac am byth a'r defnydd ohonynt.
- 7.3.** Mae ystyriaeth drylwyr a chadarn yn cael ei rhoddi i risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae angen diogelu arian unwaith ac am byth yn ddigonol fel y gellir ei ddefnyddio i ariannu newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol yn hytrach nag i ariannu gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.
- 7.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiadau gwariant a wneir yn syth ac effaith hynny wedyn ar wasanaethau i'r lefel isaf bosib, ond rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, ac i arbedion gael eu gweithredu dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae risg bob amser y bydd rhywfaint o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb y gwasanaeth, a rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i gwrdd â'r pwysau hyn.
- 7.5** Ar 31 Mawrth 2015, roedd £7.193m yng Nghronfeydd Cyffredinol y Cyngor, fodd bynnag, roedd y penderfyniad a wnaed ar gyllideb y Cyngor ym Mawrth 2015 yn caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith ddefnyddio hyd at £500k o'r balansau cyffredinol i ymdrin â blaenoriaethau a allai godi yn ystod y flwyddyn. Mae'n debygol y bydd angen yr arian hwn. O ganlyniad, balans y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol yw £6.693m sy'n cyfateb i 5.32% o gyllideb refeniw net 2015/16, 7.4% os yw'r gyllideb a ddirprwywyd i'r ysgolion yn cael ei heithrio. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a gedwir yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, dylai lefel y cronfeydd wrth gefn fod o leiaf 5% o'r gyllideb refeniw flynyddol (ac eithrio cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion). Yn seiliedig ar gyllideb refeniw 2015/16, byddai angen £4.5m yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol.
- 7.6** Mewn adegau o galedi ariannol, mae cyllidebau'n cael eu lleihau ac nid oes ganddynt y capasiti i ddelio â chynnydd mewn pwysau yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw ee Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae dadl bod yr angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn fwy oherwydd bod y risg o orwario ar gyllidebau'n cynyddu a bydd y Cyngor angen lefel uwch o adnoddau ariannol er mwyn lleihau'r risg.

- 7.7** Yn fy marn broffesiynol i, byddai gostwng lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol i £4.5m yn risg annerbyniol ar hyn o bryd yn wyneb yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllido yn y dyfodol, ond mae lle i leihau lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Fodd bynnag, nid wyf yn argymhell y dylai cronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio fel ffordd o wneud i fyny'r diffyg ariannol mewn blwyddyn benodol, oherwydd byddai hynny ond yn gohirio'r angen i wneud toriadau yn y gyllideb i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- 7.8** Fodd bynnag, mae lle i ddefnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn i ddarparu cymorth TG ar gyfer trawsnewid prosesau busnes. Bydd angen gwaith pellach i bennu lefel y cyllid sydd ei angen a byddai'n rhaid i bob achos busnes unigol ddangos y byddai'r prosiect yn cyflawni arbedion ariannol yn y dyfodol. Gellid rhyddhau swm o £1 filiwn o'r balansau cyffredinol a hynny'n golygu y byddai modd cynnal lefel ddarbodus o falansau cyffredinol.
- 7.9** Mae adroddiad llawn ar y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael ei gynnwys fel eitem ar wahân ar Raglen y Pwyllgor.
- 7.10** Mae'r gyllideb yn cynnwys £1.831m fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd. Mae'r eitemau sydd i'w hariannu o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynnwys gwelliannau i systemau TG, costau diswyddo posibl yn y dyfodol, costau yn ymwneud â pharhau i redeg Cartref Preswyl Haulfre a swyddi cyfnod penodol ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi'r Rhaglen Newid. Yn ogystal, mae swm o £310k wedi'i ddyrannu fel arian wrth gefn cyffredinol a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu unrhyw gostau annisgwyl sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

8. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

- 8.1** Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.
- 8.2** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
- 8.3** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt yn cael eu cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau yn cael eu darparu, neu dargedau'n cael eu cyflawni. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod: -
- **Risg Chwyddiant** - Mae hyn yn golygu'r risg y gallai chwyddiant droi allan i fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2016/17, nid yw chwyddiant ond wedi cael ei ganiatáu ar gyfer codiadau cyflog (1%) ac unrhyw gytundebau contract y mae angen cynyddu chwyddiant ar eu cyfer. Mae lefel chwyddiant yn isel ar hyn o bryd, sef ychydig yn uwch na 0% ac ni ddisgwylir cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod y mae'r gyllideb yn ymwneud ag ef, ac o ganlyniad, mae'r risg o gamgymeriadau yn y rhagdybiaethau chwyddiant yn isel;
 - **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir - hy mae cynnydd yn y gyfradd log yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod, rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad fel yr ystyriaeth gyntaf a bydd enillion ar y buddsoddiadau'n cael llai o flaenoriaeth, felly, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion uchel yn sgil buddsoddi. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o ddechrau codi hyd at 2017. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel, ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hon yn risg ddigolledu ar gyfer risg chwyddiant oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd;

- **Risgiau Grantiau** - Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop neu gyrff eraill sy'n cynnal cyfran dda o Wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn cael eu gostwng yn sylweddol neu'n cael eu torri yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y darlun hwn ar gael hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd yn rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm neu os yw'n ymwneud â chostau diswyddo sydd heb eu hariannu. Efallai na fydd yn bosibl os yw'r gweithgaredd a ariennir yn troi allan i fod mor bwysig i gyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael ar bob grant: ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn;
- **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 5% yn y ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 5%. Os bydd hyblygrwydd y galw am Wasanaethau Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa o ran y gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm;
- **Risg Optimwm** - Mae'n debyg mai'r perygl mwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd o ran yr arbedion fydd yn cael eu cyflawni. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol;
- **Y Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg optimwm: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy ofalus ac, o'r herwydd, yn fwy nag sydd ei angen;
- **Risgiau Arbedion** - Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys £3.35 miliwn o arbedion refeniw ac, er bod pob cynnig wedi cael ei asesu a swm yr arbediad wedi ei addasu i gymryd i ystyriaeth y dyddiad gweithredu arfaethedig, mae perygl na fydd yr holl gynigion yn cael eu gweithredu erbyn y dyddiad arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y cynigion sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'n sylweddol, diswyddo staff, cynhyrchu incwm neu newidiadau i gontractau presennol. Bydd unrhyw oedi o'r dyddiad dechrau arfaethedig yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw;
- **Risgiau Cyflogau a Graddfeydd** - Daeth y broses arfarnu swyddi i ben yn ystod 2015/16 ac mae pob cyllideb staffio yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog newydd. Mae rhai ceisiadau am ail-asesiad o'r graddfeydd wedi'u cyflwyno, ond bydd unrhyw gostau uwch yn gorfod cael eu hariannu o gyllidebau presennol y gwasanaethau, gan leihau'r risg i gyllideb 2016/17;
- **Costau Diswyddo Staff** - Mae'r cynnig o ran y gyllideb yn cynnwys £400k o arbedion yn deillio o ddiswyddiadau gwirfoddol. Yn dilyn rhyddhau rhai aelodau o staff, bydd rhaid ad-drefnu o fewn gwasanaethau, a gall y prosesau hyn achosi oedi neu fethiant i wneud yr arbedion a ragwelwyd. Yn ogystal, efallai y bydd rhai cynigion yn golygu diswyddiadau ychwanegol. I liniaru'r risg, mae cronfa wrth gefn o £500k wedi cael ei chynnwys yn y gyllideb.

8.4 Mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn, felly, bod y cyllidebau yn gadarn ac yn gyflawnadwy.

9. PWYLLGOR SGRIWTINI

9.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.7, mae'r cyfanswm AEF a'r Dreth Gyngor ar lefel o 4.5% yn uwch na'r gyllideb ddisymyd o £1.169m. Cyflwynwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor Sgriwtini i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror, 2016. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cwestiynau canlynol: -

- P'un a yw'r arbedion a nodwyd fel rhai cyraeddadwy yn 2016/17 yn cael eu huchafu gan gadw mewn cof bod sicrhau'r arbedion mwyaf posibl yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb i bwysau ar wasanaethau a gofynion o ran arbedion yn y dyfodol;

- P'un a yw'r Aelodau'n cefnogi argymhelliad, i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, bod swm yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau mewn prosesau busnes a gynlluniwyd i ryddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd y gellir eu defnyddio i ymateb i welliannau / pwysau ar wasanaethau;
- Lefel y Dreth Gyngor wrth symud ymlaen gyda golwg ar y materion a nodir yn yr adroddiad hwn, y cyfraniad y mae'r Dreth y Gyngor yn ei wneud i refeniw cyffredinol y Cyngor a'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu o 2017/18 ymlaen;
- Lefel y warchodaeth a roddir i gyllidebau ysgolion gan gadw mewn cof yr angen i ysgolion gyfrannu at yr arbedion cyffredinol y mae'r Cyngor eu hangen;
- Os gwneir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor Gwaith i weithredu arbedion effeithlonrwydd ar gyllidebau'r Ysgolion, gofynnir i Aelodau gynnig sylwadau ar a ddylai'r lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn y sector cynradd ddylanwadu ar y penderfyniad o ran y modd y bydd yr arbedion yn cael eu dyrannu ar draws y sectorau.

9.2 Mae ymateb y Pwyllgor Sgriwtini wedi ei gynnwys fel adroddiad ar wahân ar agenda'r Pwyllgor yma.

10. CYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL Y DRETH GYNGOR

10.1 Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael a'r cynnydd yn yr AEF ers i'r cynigion cyllidebol cychwynnol gael eu llunio, ar ôl ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini ac ystyried penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn hynny, bod y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb yn cynnwys y newidiadau canlynol o'r cynnig cyllidebol cychwynnol: -

1. Bod y gyllideb ddisymud ar gyfer 2016/17 yn £126.639m.
2. Bod arbedion effeithlonrwydd o £3.46m yn cael eu gweithredu gan gynnwys arbedion drwy ddiswyddiadau gwirfoddol a gostyngiad o £0.988m yn y gyllideb a ddirprwywyd i'r ysgolion.
3. Bod £400k o'r cyllid addysg canolog yn cael ei ddefnyddio i leihau effaith y gostyngiad yng nghyllidebau'r ysgolion ar gyfer 2016/17 ac yn caniatáu amser i ysgolion i leihau eu costau drwy gaffael yn well a thrwy adolygu costau nad ydynt yn rhai dysgu. Mae hyn yn lleihau'r arbediad arfaethedig ar gyllideb yr Ysgolion i £600k ac yn gostwng y pecyn arbedion cyffredinol i £3.06m. Yn ychwanegol, trosglwyddir £100k o'r elfen sydd heb ei ddirprwyo i gyllideb yr ysgolion, yn ôl i'r gyllideb a ddirprwywyd i'r ysgolion a'i ddyrannu i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido, a thrwy hynny'n lleihau'r effaith ar ysgolion gan £100k pellach yn 2016/17.
4. Cynnydd o £500k yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant i adlewyrchu'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth.
5. Cynnydd o £100k yng nghyllideb y Gwasanaethau Oedolion i adlewyrchu'r pwysau costau cynyddol yn y gwasanaeth a bod £200k pellach yn cael ei gadw wrth gefn i ariannu colli incwm gofal seibiant petai'r newid arfaethedig yn y polisi codi tâl yn cael ei weithredu.
6. Cynnydd o £50k yn y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau TG er mwyn iddynt gyflawni'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad allanol.
7. Cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17.
8. Bod y balans o £8,562 sy'n weddill yn cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn gyffredinol.
9. Bod swm o £1.0 miliwn yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu cost trawsnewid prosesau busnes. Byddai pob cais unigol yn cael ei asesu ar sail yr arbedion y maent yn eu darparu ar gyfer y dyfodol neu'r gwelliant i'r modd y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu o ganlyniad i'r buddsoddiad.

10.2 Mae Tabl 8 isod yn dangos yr arian sydd ar gael a'r arian sydd ei angen ar ôl cymryd i ystyriaeth y cynigion a nodir yn y cynigion cyllidebol cychwynnol a'r newidiadau a wnaed wedyn fel y nodir ym mharagraff 10.1 uchod.

Tabl 8
Gofynion o ran y Gyllideb Arfaethedig ac ariannu yn 2016/17

Gofyniad y gyllideb	£ 'm
Cyllideb Derfynol 2015/16	124.646
Chwyddiant ac Addasiadau yn sgil Ail-Brisio	1.993
Cyllideb Sylfaenol 2015/16 (cyn Buddsoddiadau / Arbedion)	126.639
Arbedion cyllidebol	(3.060)
Buddsoddi mewn Pwysau Gwasanaeth	0.650
Cynnydd mewn Cyllidebau wrth gefn	0.208
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	0.400
Cyllideb Sylfaenol 2016/17	124.037
AEF terfynol	91.928
Y Dreth Gyngor gyda chynnydd o 3.5%	32.109
Cyfanswm Cyllid	124.037

10.3 Mae'r cynnydd o 3.5% yn cynrychioli cynnydd o £35.89 y flwyddyn neu £0.69 yr wythnos ar Eiddo Band D.

10.4 Mae dadansoddiad llawn o'r gyllideb a gynigiwyd fesul Gwasanaeth yn Atodiad 5.

11. ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

11.1. Wrth gyflwyno ei wasanaethau, rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchoddedig a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

11.2 Fel rhan o'r broses o lunio cyllideb 2015/16, gofynnwyd i wasanaethau gynnal asesiad cychwynnol ar effaith pob cynnig o safbwynt cydraddoldeb. Cafodd arweiniad ei gynnwys gyda'r pro-forma cyllidebol ac roedd canllawiau pellach ar gael ar gynnal EIA ar safle mewnwyd y Cyngor. Mae sylwadau ar gynigion unigol wedi eu cynnwys yn yr atodiadau. Bydd angen i'r gwasanaethau fonitro'n agos y cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol.

12. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

12.1 Mae'r cynigion cyllidebol cychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Tachwedd, 2015 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym Mis Chwefror 2015 (gweler Tabl 1).

12.2 Y gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y setliad a ragwelwyd ym mis Tachwedd 2015 a chanlyniad y setliad dros dro wedi cael effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Ynys Môn ac roedd y rhan fwyaf o Gynghorau yng Nghymru wedi cynllunio ar gyfer toriad mwy yn yr AEF nac a gafwyd mewn gwirionedd. Mae'r diffyg sicrwydd ynghylch setliadau yn y dyfodol yn sgil etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai a'r ansicrwydd ynghylch sefyllfa economaidd gyffredinol y DU yn ei gwneud yn anodd cwblhau Strategaeth Ariannol Tymor Canol gydag unrhyw sicrwydd a chywirdeb.

12.3 Mae CLILC wedi gwneud rhywfaint o waith ar y setliadau tebygol yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ar sail eu dadansoddiad o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adolygiad Wariant a wnaed yn yr hydref a chyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17. Mae llawer yn dibynnu ar y lefel o amddiffyniad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol. Mae eu dadansoddiad yn dangos ystod o bosibiliadau o dwf o 3.2% yn yr AEF dros 3 blynedd os bydd cyllidebau llywodraeth leol yn cael eu diogelu i doriad o 7.5% dros yr un cyfnod os bydd meysydd eraill yn cael eu gwarchod yn gryf.

12.4 Mae Tabl 9 isod yn rhoi syniad o'r arbedion tebyol y bydd angen eu gwneud os cymerir yn ganiataol y bydd gwariant net yn tyfu gan 2% y flwyddyn, y bydd cynnydd o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor, a bod yr AEF yn cael ei ostwng gan 2% yn 2017/18, 2.6% yn 2018/19 a 2.7% yn 2019/20.

Tabl 9
Yr Arbedion Posibl y bydd eu hangen 2017/18 - 2019/20

	2017/18 £ 'm	2018/19 £ 'm	2019/20 £ 'm
Cyllideb Refeniw Net D/Y	124.3	123.7	122.7
Llai yn cael ei ariannu gan gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn flaenorol	(0.4)	0.0	0.0
Pwysau Cyllideb a Chwyddiant	2.5	2.5	2.5
Cyllideb ddiwygiedig	126.4	126.2	125.2
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	(90.0)	(87.7)	(85.3)
Y Dreth Gyngor	(33.7)	(35.0)	(36.4)
Cyfanswm Cyllid	123.7	122.7	121.7
Arbedion Angenrheidiol	2.7	3.5	3.5

12.5 Bydd diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel y daw gwybodaeth ar setliadau yn y dyfodol yn gliriach.

13. ARGYMHELLION

13.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynig terfynol ar gyfer y gyllideb fel y nodir ym Mharagraff 10 i gyfarfod llawn y Cyngor ar 10 Mawrth, 2016.

Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – Cwrdd a'r Heriau 2016**CYNGOR SIR YNYS MÔN****Ionawr 2016****Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad****Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad****Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol****1. Rhagarweiniad**

- 1.1. Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynol y Pwyllgor Gwaith - 'Cwrdd â'r Heriau' rhwng 16 Tachwedd a 31 Rhagfyr, 2015. Roedd y cyfnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar fwy na 80 o gynigion a gyflwynwyd gan y gwasanaethau a'i herio gan aelodau. Rhannwyd yr 80 i mewn i 6 thema effeithlonrwydd fel yr amlinellir yn Strategaeth Effeithlonrwydd 2014-2017 y Cyngor, sef:-
- Sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn darparu gwerth am arian
 - Lleihau costau Rheoli, Democratiaeth a Biwrocratiaeth
 - Trawsnewid y gwasanaethau mae dyletswydd gyfreithiol arnom i'w darparu; gan sicrhau eu bod yn fodern, effeithiol ac yn effeithlon
 - Gweithio gydag eraill i arbed arian a chael y gorau allan o'n staff
 - Cynyddu incwm ar gyfer y Cyngor
 - Herio a ddylem ddarparu gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol neu'n anstatudol; lle mae eraill hefyd yn eu darparu neu lle gall eraill eu darparu
- 1.2. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her fewnol wedi arwain at gynigion sy'n amrywio o ddyrannu lleoedd hysbysebu ar finiau i fusnesau lleol, i gludo gwastraff i St Helens / Runcorn i'w ailgylchu yn hytrach na anfon i safleoedd tirlenwi yn Llanddulas. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd; o'r erthyglau yn y wasg, i hyrwyddo ar y dudalen cartref o wefan y Cyngor trwy'r defnydd o Twitter, Facebook ac e-byst. Roedd pob un wedi'u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynol.
- 1.3. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:-
- Dau arolwg ar-lein ar ein gwefan
 - Arolwg ar gyfer pawb
 - Arolwg yn benodol ar gyfer yr ifanc (gweler isod)
 - E-bostio neu ysgrifennu atom
 - Mynychu un o'r 13 sesiwn galw heibio gyda Arweinydd y Cyngor
 - Blychau awgrymiadau ar gefer staff a leolir y nein derbynfeydd
- 1.4. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y cyngor:-
- 7 sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl o dan 25 oed ym mhob ysgol uwchradd, fforwm ffermwyr ifanc a llety digartref
 - Arolwg ar-lein gynllunwyd gan Llais Ni i bobl o dan 25
 - Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.
 - Sesiwn cynnal gyda Lleisiau Lleol Ynys Môn yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor gyda'r 65+

- 1.5. Roedd yr ymgynghoriad yma yn ddilyn digwyddiadau ymgynghori blaenorol a gynhaliwyd ar ddiwedd 2013 a 2014 lle cafwyd tua 1400 o ymatebion oedd eisoes wedi cael eu ystyried wrth trafod ein cynigion cyllideb blaenorol ar gyfer 2015/16.

2. Canlyniadau

- 2.1. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 16/17 dros cyfnod o 7 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae tua 450 o ymatebion (0.65% o'r boblogaeth) wedi'i dderbyn oddi draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.
- 2.2. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o ymgysylltu oedd y grwpiau ffocws wyneb yn wyneb a'r cyfarfodydd gyda thua 65% o'r holl ymatebwyr yn bresennol. Dilynwyd hyn gyda thua 30% yn ymateb drwy'r arolygon ar-lein a'r gweddill drwy ddulliau traddodiadol. Barnwyd bod y sesiynau galw i mewn, a gynhaliwyd ar draws yr ynys mewn 13 lleoliad gwahanol, oedd y lleiaf llwyddiannus gydag un neu ddau o'r sesiynau hefo neb yn ymgysylltu.
- 2.3. Y prif feysydd ffocws o'r ymatebion oedd fel a ganlyn a gellir eu dychmygu drwy ddefnyddio'r wordle isod ar lun 1:-
1. Casgliadau Gwastraff Tŷ a Casglu Gwastraff Swmpus
 2. Ffioedd Meysydd Parcio
 3. Caffis Canolfannau Hamdden
 4. Swyddi AHNE
 5. Toriadau mewn Cyllido Addysg
 6. Toriadau Cyllid Grant
 7. Lleihad mewn Rheoli a Gweinyddu
 8. Darpariaeth Cartrefi Gofal Mewnol yn y dyfodol



Llun 1.

- 2.4. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn rhoi ystyriaeth gytbwys o'r dasg anodd sy'n wynebu'r Cyngor ac mae'r gweddill yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd:-

2.4.1. **Casgliadau Gwastraff Tŷ a Casglu Gwastraff Swmpus**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn erbyn y newidiadau i gasgliadau biniau bob pythefnos. Fodd bynnag, os oes angen newid yna'r casgliad y gellid ei gwneud yw y byddai llawer mwy bodlon gyda chyfnod casgliad bob 3 wythnos yn hytrach na bob 4. Mae'r cwynion yn ymddangos i ganolbwyntio ar y ffaith bod biniau yn llawn ar ôl pythefnos sy'n golygu y byddai angen i liniaru'r newid trwy sicrhau ailgylchu ychwanegol, a hefyd y pryder y bydd cael gwared ar gasglu gwastraff swmpus am ddim yn arwain at dipio anghyfreithlon a chost ychwanegol i'r cyngor oherwydd hyn.

Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:

"Peidiwch a thorri casgliadau bin y tu hwnt i'r casgliad biniau bob pythefnos sy'n bodoli eisioes. Dydi fy min i ddim yn llawn fel arfer bob pythefnos, on dos rwyf yn methu casgliad oherwydd fy mod ar wyliau neu beth bynag, bydd yr egwyl o gasglu'r

sbwriel yn ddwbl a nodir. Felly posib fyswn i yn mynd 8 wythnos heb gasgliad bin, sydd yn amlwg yn annerbyniol”

“Byddai casglu biniau du 3 wythnos yn iawn gan ddarparu teuluoedd â clytiau (phlant ifanc o dan 4 oed) yn cael eu darparu ar gyfer ... Fodd bynnag ni fyddai 4 wythnos neu bin llai yn iawn (hyd yn oed gyda biniau ychwanegol) i ni ... Byddwn hefyd yn cynnig casgliad bob 4 wythnos o finiau gwyrdd yn ystod y gaeaf gan fod y mwyafrif o'r llenwad yn bioddiraddadwy ac yn gallu aros ychydig mwy o wythnosau.”

“O ran y cynigion ar gyfer casgliadau gwastraff bob 3 neu efallai 4 wythnos a gostyngiad posibl ym maint biniau gwastraff ... Rwy'n protestio yn y telerau cryfaf phosibl nad yw'r dull symlach hyn yn dderbyniol ac ei fod wedi ei feddwl allan yn wael iawn fel 'adwaith 'knee-jerk' 'i wella targedau gwastraff ac arbed arian ... Rwy'n argymhell eich bod yn ystyried edrych ar gartrefi eu hunain, y nifer o bobl mewn cyfeiriad penodol, eu hoedran a'u hamgylchiadau ac yn y blaen.”

“Os oes rhaid i ni newid casgliadau bin, dylem yn newid i bob 3 wythnos nid bob 4 wythnos”

“Byddwn yn gefnogol i casgliadau bob 3 wythnos ar yr amod bod gennym bocsys ailgylchu mwy ... Dylai'r cyngor roi'r gorau i gasgliadau bin gwyrdd o 1 Tachwedd / Rhagfyr i ddiwedd Chwefror.”

“Na i newid casgliadau bin i bob 3 neu 4 wythnos. Mae gen i deulu mawr ac rydym yn rhedeg allan o le ar gyfer ein sbwriel hyd yn oed gyda chasgliadau biniau 2 wythnos”

“Yr wyf yn deall bod Ynys Môn yw'r unig gyngor i gynnig system gwastraff swmpus am ddim, ac yr wyf yn teimlo fel y dylem aros felly. Yr wyf yn gwybod cheir rhestr aros hir, ond os ydych yn addysgu pobl er mwyn iddynt wybod ein bod yn ffodus i gael y gwasanaeth am ddim, yna gallant fod yn fwy dealladwy pan ddaw i amseroedd aros.”

“Teimlwn y dylai casgliad yn rhad ac am ddim ar gwastraff swmpus barhau er mwyn osgoi cynnydd sylweddol mewn tipio anghyfreithlon, a fyddai ynddo'i hun yn cael costau cysylltiedig”

Cafwyd pleidlais unfrydol yn y digwyddiad ymgynghori Lleisiau Lleol Ynys Môn yn erbyn casgliad ysbwriel bob 4 wythnos, ond gydag amheuan ar gasgliad bob 3 wythnos hefyd . Roedd rhai yn pryderu am yr aelwydydd hynny nad ydynt yn ailgylchu a hefyd y rhai â theuluoedd mawr gyda biniau llawn ar ôl 2 wythnos.

2.4.2. Incwm Meysydd Parcio

Roedd nifer o'r sylwadau yn negyddol ac yn ymwneud â cynyddu ffioedd parcio ceir gyda nifer yn dweud y bydd y ffioedd yn gyrru pobl oddi wrth siopa Tref neu yn effeithio ar dwristiaeth.

Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:-

“Byddwch yn cael mwy o bobl sy'n eu defnyddio os ydych yn gostwng y gost - bydd mwy o bobl yn ei ddefnyddio am 30c / awr. Mae llawer o bobl, gan gynnwys fi, cau talu am feysydd parcio. Rwy'n berchen ar siop yng Nghaergybi, swm y cwynion yr ydym yn clywed am y pris i barcio. Yn fwy tebygol o ddenu ymwelwyr i mewn i drefi drwy ei wneud yn rhatach.”

“Rwy'n llwyr anghytuno â taliadau meysydd parcio, nhw sy'n gyfrifol am pam bod ein trefi a'n strydoedd mawr mor wag â busnesau yn brwydro i aros ar agor. Pam y byddai rhywun yn talu i barcio pryd y gallant fynd i archfarchnad ac parcio am ddim?”

“Mae cynyddu taliadau meysydd parcio yn wrthgynhyrchiol mewn sawl ardal, gan ei fod yn rhoi pobl i ffwrdd o siopa yn eu stryd fawr lleol ... ac yn annog pobl i barcio ar y ffyrdd yn lle, gan achosi tagfeydd ychwanegol.”
Roedd y 46 o fynychwyr yn y digwyddiad ymgynghori Lleisiau Lleol Ynys Môn yn erbyn cynyddu ffioedd parcio.

2.4.3. Caffis Canolfanau Hamdden

O'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'r rhan fwyaf naill ai'n cwestiynu'r angen am gaffi neu nodi nad oeddent yn gwerthu bwyd iach ar hyn o bryd.

T Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:-

“Hoffwn eich bod yn ystyried mynd ymhellach nag adolygu'r bwydlenni ac oriau staffio. A oes angen i gael caffi mewn Canolfan Hamdden?”

“Ni ddylai rhain dderbyn cymhorthdal gan y cyngor. Mae canolfannau hamdden mewn trefi lle mae adwerthwyr bwyd eraill felly nid yw'r caffis yn perfformio gwasanaeth hollbwysig. Gellid eu cynnig i gwmnïau preifat i redeg heb unrhyw gost i'r cyngor.”

“Nid oes unrhyw opsiynau ffrwythau neu bwydydd iach yn y caffis, mae angen mwy o amrywiaeth.”

“Dwi'n credu bod y bwyd yn rhy ddrud, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc”

2.4.4. Swyddi AHNE

Mae yna cefnogaeth i gadw'r arian AHNE yn ei le gyda llawer yn datgan y gwaith da y maent yn ei wneud gyda gwirfoddolwyr wrth gadw'r AHNE lân ac yn ddefnyddiadwy.

Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:-

“...credwn y bydd y canlyniadau o golli swyddi hyn yn gorbwyso'r arbedion. Mae'r cynnig o dan-amcangyfrif pwysigrwydd yr AHNE i'r ynys ac yn anwybyddu'r cyfraniad gwerthfawr y gwirfoddolwyr i'w cynnal a chadw”

“Ar hyn o bryd y Swyddogion AHNE sy'n rhedeg y rhaglen Ceidwaid Ieuenctid. Mae fy merch wedi bod yn ymwneud â hyn ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ... Mae wedi rhoi cyfle iddi gyflawni nifer o weithgareddau awyr agored a rhyngweithio gyda phobl ifanc eraill, ac felly yn ennill sgiliau bywyd sylweddol”

“Byddai lleihad yn y gweithlu AHNE a cholli y gwirfoddolwyr yn effeithio ar nifer o weithgareddau ar draws yr ynys, gan gynnwys llwybrau cerdded ac gwaith cynnal a chadw ... rheoli eithin ... codi waliau cerrig sych ... adfer cynefinoedd ... a glanhau'r traeth”

“Mae eu gwaith yn amhrisiadwy wrth helpu i warchod harddwch arfordirol yr AHNE a hefyd yn annog mynediad cyhoeddus a thwristiaeth i rai o brif atyniadau yr ynys.”

2.4.5. Toriadau i Gyllideb Addysg

Gwelwyd hyn fel maes pwysig o drafodaeth yn Sesiynau Galw Heibio yr Arweinydd y Cyngor gyda unigolion yn teimlo y dylai'r gyllideb addysg gael ei diogelu neu byddai effaith ar lefelau cyrhaeddiad. Cafodd hyn hefyd ei ailadrodd yn y cyfarfod traws-sector lle'r oedd cais, os digwydd gostyngiad o'r fath, gofynnwyd a ellid ei gynllunio a'i strwythuro dros nifer o flynyddoedd.

Dim ond ychydig o sylwadau yn erbyn y toriadau ddaeth i law fodd bynnag, drwy'r arolygon a sesiynau eraill:-

"Parhau i amddiffyn y gyllideb Addysg. Dyma'r swyddogaeth fwyaf pwysig ac mae'n hanfodol ar gyfer dyfodol pob Ynys Môn"

"Dylid cylch-ffensio cyllideb addysg ac nid ei gyffwrdd mewn unrhyw ffordd – mae addysg ein plant mor bwysig i ddyfodol yr ynys hon ac mae ysgolion yn cael trafferth fel y mae."

"Mae £1m o doriad yng nghyllideb ddirprwyedig ysgolion yn swm sylweddol yn enwedig o ystyried y toriadau parhaus mewn cyllid allanol sy'n cyfrannu at ariannu ysgolion. Ar gyfer 2016/17 byddwn i yn lleihau cyllidebau dirprwyedig i'r ysgolion hynny gyda balansau sylweddol > £ 150k. "

"Pryder y gallai toriadau effeithio ar safonau addysg a chyrrhaeddiad plant ac mae angen bod yn ymwybodol o wendidau yn y gorfennol ac i ba raddau mae'r cyngor wedi dod ymlaen ers ymyrraeth Estyn - a bod yn ymwybodol nad ydym eisiau mynd yn ôl at y sefyllfa honno"

2.4.6. Toriadau cyllid Grantiau

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion i dorri y gwahanol grantiau o'r gyllideb. Roedd llawer o sylwadau yn cytuno â'r toriadau, ond bu nifer o lythyrau yn cefnogi'r gadw'r grantiau hefyd.

Roedd y sylwadau yn cynnwys:-

"Rydym wedi cael torri ein grant yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac wedi gorfod codi arian yn gyson i gadw ein grŵp ar agor. Mae swm y grant yn uniongyrchol gymharol i ansawdd yr addysg Cyfnod Sylfaen a ddarperir i'r plant yn ein gofal ... Bob tro mae y grant yn cael ei leihau, rhaid torri o'r gyllideb eitemau ... nid oes mewn gwirionedd unrhyw beth arall y gallwn ei wneud hebdo." Cylch Chwarae Benllech

"Rydym yn credu y gall y Biwro weithio gyda'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ond rydym yn poeni y bydd toriadau yn uniongyrchol i'n cyllid craidd yn lleihau ein gallu i reoli'r gwirfoddolwyr ac i ddenu arian grant penodol ... rydym yn awyddus i gyfrannu at ddylunio model gwasanaeth at y dyfodol (fodd bynnag), rydym yn pryderu gall y toriadau sy'n cael eu cynnig yma ddyblygu unrhyw doriadau i'n cyllid craidd a gwanhau ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a ddarperir ar draws yr ynys." Cadeirydd Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

"Rwy'n ymwybodol bod arian ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn debygol o gael ei leihau ac y bydd Cyngor Sir Ynys Môn, yn ddealladwy, yn edrych i wneud arbedion ariannol. Hoffwn sicrhau eich bod yn ymwybodol o rôl bwysig mae Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru yn ei chwarae wrth gyfrannu at annibyniaeth, amddiffyn, diogelwch, hyder a'r gallu i ymgymryd yn llwyddiannusa tasgau bob dydd y byddai fel arall yn amhosib i lawer o bobl â nam synhwyraidd ... Byddwn yn dymuno yn gryf i chi fod y bartneriaeth buddiol hyn yn parhau yn 2016 ac ar gyfer y dyfodol rhagweladwy." Dros 30 o gefnogwyr Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

"Y Celfyddydau a grantiau addysg - bechod, ond dealladwy - dylid rhoi cefnogaeth i'w helpu i ddod o hyd i incwm o rywle arall."

"Mae'n bwysig amddiffyn cyllideb Amgueddfeudd ac Diwylliant - mae'r rhain yn bwysig o ran hyrwyddo cymdeithas sy'n feddylol-iach ac sy'n cymryd diddordeb mewn hanes a diwylliant ... gall fod yn rhesymol i ofyn bod unrhyw grant i gyrff gwirfoddol yn cyfateb 50 / 50 gan y sefydliad o'i gyllid ei hun, er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cael cymorth gwirioneddol gan y gymuned"

"Rwy'n cytuno â lleihau grantiau i fudiadau trydydd sector, ond dwi'n anghytuno â thoriad cyffredinol ar gyfer yr holl wasanaethau trydydd sector fel hyngan ei fod yn eu rhoi o dan anfantais gystadleuol wrth gystadlu gyda'r sector breifat."

2.4.7. Gostyngiad mewn Rheoli a Gweinyddu

Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cytuno â'r angen i dorri swyddi rheoli a gweinyddu gyda rhai yn gofyn am fwy o doriadau, roedd yn amlwg bod pobl o dan 25 yn teimlo'n bryderus am golli swyddi.

Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys:-

“Anghytuno (gyda'r toriadau) bydd y gwasanaeth ddim mor effeithiol”

“Bydd pobl yn ei chael yn anodd dod o hyd i swyddi ac yn dod yn ddi-waith”

“A wnewch chi ddod o hyd i waith arall ar gyfer pobl sy'n colli swyddi?”

“Mae rhai gwasanaethau o fewn y cyngor gyda rheolwyr sydd ond yn rheoli / yn gyfrifol am un neu ddau o staff. Gellid gwneud arbedion drwy gael y Pennaeth Gwasanaeth ac un rheolwr dros fwy o staff.”

“Symleiddio rheolaeth ganol - ni ddylai unedau sy'n llai na 5 aelod gael goruchwyliaeth reolaethol cost uchel yn ogystal â phennaeth gwasanaeth. Mae gormod o ddyblygu rheolwyr ar draws yr awdurdod gyda rhai adrannau efo un neu ddau aelod o staff dan arweiniad rheolwr, lle efallai'r hyn sydd ei angen yw goruchwyliaeth syml.”

“Dylai'r cyngor edrych ar leihau rôl rheoli sydd ond yn rheoli hyd at dri o bobl. Dylai'r rhain fod yn rolau goruchwyllo.”

2.4.8. Darpariaeth Cartrefi Gofal Mewnol yn y dyfodol

Er bod y mwyafrif o'r adborth o'r sesiynau a'r ymatebion ar-lein ddim yn sôn am y maes yma mewn unrhyw fanylder, roedd y sesiwn a gynhaliwyd gyda Lleisiau'n Lleol Ynys Môn yn credu bod hyn yn fater pwysig iddyn nhw.

Mae rhai o'r pryderon yn cael eu rhestru isod:-

Mae'r angen am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i bobl yn eu cartrefi eu hunain, i'r rhai sydd yn denantiaid a pherchnogion cartrefi.

Dylid ymgynghori gyda ni os oes unrhyw benderfyniadau am i neud gyda'r maes yma.

I helpu gyda byw'n annibynnol, mae'r angen i foderneiddio rhywfaint o lety cyngor

Nid oes digon o ofal ysbaid ar gyfer gofalwyr llawn amser

Beth sy'n digwydd gyda Garreglwyd a beth sy'n digwydd os bydd yn cau?

Mae'r safon y gofal ac ansawdd adeiladau cartrefi'r Cyngor yn well na chartrefi preifat

Byddai pobl yn hoffi rhywbeth tebyg i Benucheldre mewn lleoliadau gwledig

Gwasanaeth	ARBEDION ARFAETHEDIG	CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG £000	
Oedolion	System Rheoli Gofal Cartref Electronig	7	
Oedolion	Lleihau nifer y swyddi rheoli	48	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Oedolion	Lleihau nifer y swyddi gweinyddu	22	
Oedolion	Lleihau nifer y swyddi rheoli'r Uned Ddarparu	38	
Oedolion	Adolygu'r contractau a gomisiynwyd yn allanol ar gyfer Gwasanaethau Dydd ar gyfer Cleientiaid ag Anableddau Dysgu a gefnogir	28	
Oedolion	Ail-dendro prosiectau byw â chymorth	42	Ni fydd newid sylweddol i ddarpariaeth er, efallai, rhoddi'r darparwyr newydd mewn lle.
Oedolion	Gwasanaethau Gofal Dydd Mewnol – Adolygu a Rhesymoli	26	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Oedolion	Ailstrwythuro trefniadau rheoli ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	43	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Oedolion	Allanoli byw â chymorth mewnol	31	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Oedolion	Taliadau'r Sector Gwirfoddol	30	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Oedolion	Cyllideb CRT ar gyfer Therapydd Galwedigaethol	20	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
	Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	335	

	TAI		
Tai	Gwasanaeth Galluogi Tai Gwladol	4	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Tai	Cefnogaeth Busnes – dyraniad CRT o gostau staffio	20	
Tai	Diwygio Lles yn cynnwys CAB a JR O'Toole	37	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Tai	Cymunedau'n Gyntaf Mân – ad-daliad amser Pennaeth Gwasanaeth	2	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Tai	Cartrefi Gwag – codi tâl am werthu	11	
	Cyfanswm Gwasanaethau Tai	74	
	PLANT		
Plant	Gorffen y swydd Sicrwydd Ansawdd	53	
Plant	Dileu swydd Cynorthwydd Gweinyddol o'r strwythur	13	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Plant	Swydd Rheolwr Gwasanaethau Cefnogaeth	32	
Plant	Lleihau Cyllideb y Panel Maethu	16	
Plant	Panel Maethu ddi-bapur	2	
Plant	Torri cyfraniad i Cynefin – swydd gweithiwr Plant	13	
Plant	Lleihau'r gyllideb gwarloddin gan 10%	9	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Plant	Lleihad yng nghyllideb Cyfiawnder Ieuencid	5	
	Cyfanswm Gwasanaethau Plant	143	

	ADDYSG		
Addysg	Dyslecsia	20	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Addysg	Grant Celfyddyd ac Addysg	41	
Addysg	Grant Gwisg Ysgol Dewisol	19	
Addysg	Rheoli Perfformiad – nawr yn cael ei wneud yn rhanbarthol	24	
Addysg	Cynyddu Cyllideb Prydau Ysgol – Ysgol y Bont	9	
Addysg	Clybiau Ieuenctid – tynnu'r gyllideb sydd wedi tanwario	15	
Addysg	Staff Asesu Cyn Ysgol – cyllidir gan y Grant Gwella Addysg	37	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Addysg	Gweithgareddau Ychwanegol Gwasanaeth Ieuenctid – tynnu'r gyllideb sydd wedi tanwario	5	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Addysg	Cynyddu prisiau prydau ysgol gan 10c y diwrnod	17	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Addysg	Lleihau bwrsari lynyddoedd cynnar i Fudiad Ysgolion Meithrin ac Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru	26	Bydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
Addysg	Blas am Oes – dim angen y gyllideb bellach	51	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Addysg	Strategaeth Gofal Plan Cenedlaethol – tanwariant hanesyddol	15	
Addysg	Lleihau'r gyllideb ysgolion dirprwyedig	988	
	Cyfanswm Gwasanaethau Addysg	1,267	

	DIWYLLIANT		
Diwylliant	Dileu'r swydd wag – Oriol Ynys Môn	31	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Diwylliant	System Rheoli Llyfrgelloedd – cydweithio rhanbarthol	10	
	Cyfanswm Gwasanaeth Diwylliant	41	
	HAMDDEN		
Hamdden	Canolfan Hamdden Biwmares – dileu'r cymhorthdal	20	Cyfnod Ymgynghori wedi bod yn barod.
Hamdden	Cynyddu incwm y caffi yn Llangefni a Chaergybi	28	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Hamdden	Incwm Gwersi Nofio	55	
	Cyfanswm Gwasanaethau Hamdden	103	
	ECONOMAIDD A MORWROL		
Economaidd a Morwrol	Warden Traeth – cyfraniad o Gyngor Cymuned Llanfaelog	1	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Economaidd a Morwrol	Ailstrwythuro'r Tîm Morwrol	10	
Economaidd a Morwrol	Marchnata – torri'r cymhorthdal i 'Visit Anglesey'	25	
Economaidd a Morwrol	Gweithgareddau'r Haf – atal y grant nawr fod y gweithgareddau wedi eu sefydlu	6	
Economaidd a Morwrol	Gwybodaeth Twristiaeth – lleihau costau pwyntiau G.	2	
	Cyfanswm Gwasanaethau Economaidd a Morwrol	44	

PRIFFYRDD			
Priffyrdd	Tendro Bysus		60
Priffyrdd	Patrolau Croesfannau ysgol		10
Priffyrdd	Lleihau cyllideb Trafnidiaeth môn sydd heb ei wario		20
Priffyrdd	Cychwyn codi ffi parcio mewn 5 maes parcio newydd		40
Priffyrdd	Llusernau LED – lleihau costau ynni		100
Priffyrdd	Lleihau Cyllideb Gweithfeydd Traffig Bychan		10
Priffyrdd	Cyfalafu cyllideb gweithfeydd cynnal a chadw		200
Priffyrdd	Cynnal a chadw'r Gaeaf - graeanu		50
Cyfanswm Gwasanaethau Priffyrdd			490
EIDDO			
Eiddo	Contract glanhau		50
Eiddo	Incwm mân ddaliadau – atal neilltuo'r arian am atgyweiriadau		35
Cyfanswm Gwasanaethau Eiddo			85
GWASTRAFF			
Gwastraff	Trosglwyddo PC i TC – tanc septig ym Mhorth Swtan		14
Gwastraff	Hysbysebu ar finiau		10
Gwastraff	Casglu Gwastraff		41
Gwastraff	Atal y casgliadau casglu gwastraff swmpus		90
Cyfanswm Gwasanaethau Gwastraff			155

Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.

Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.

Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.

	GWARCHOD Y CYHOEDD		
Gwarchod y Cyhoedd	Cynyddu incwm rheoli pla	13	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchodedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Gwarchod y Cyhoedd	Ail-strwythuro staffio	20	
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm o seremonïau priodas	6	
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm o arolygiadau tai FRA ???	1	
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm o godi am gwynion niwsans sŵn	1	
Gwarchod y Cyhoedd	Incwm o ymgynghoriaeth iechyd a diogelwch	2	
Gwarchod y Cyhoedd	Cynydd incwm o Fasnachu Stryd	11	
Gwarchod y Cyhoedd	FSA i gyllido'r arolygiadau hylendid bwyd anifeiliaid	13	
	Cyfanswm Gwarchod y Cyhoedd	67	
	CYNLLUNIO		
Cynllunio	Lleihau staffio Coed Cymru	18	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchodedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Cynllunio	Ardal o Harddwch Naturiol Rhagorol	11	
Cynllunio	Cynyddu Cyllideb Incwm Ffioedd Cynllunio	15	
	Cyfanswm Gwasanaethau Cynllunio	44	
	BUSNES Y CYNGOR		
Busnes y Cyngor	Dileu Swydd Unsain	26	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchodedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Busnes y Cyngor	Ymchwil – lleihau'r gyllideb sgrwtini	5	
Busnes y Cyngor	Lleihau'r gyllideb lyfrau a chyfnodolion cyfreithiol	25	
	Cyfanswm Busnes y Cyngor	56	
	TRAWSNEWID		
Trawsnewid	Gorffen Les Ty William	4	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchodedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
	Cyfanswm Trawsnewid	4	

	ADNODDAU		
Adnoddau	Lleihau cyllideb staffio	52	Ni fydd yr arbedion cyllidol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, yn cael effaith andwyol ar grwpiau gwarchoddedig, cyfaddawdu cydradoldeb cyfle nac yn cael effaith negyddol ar gysylltiadau rhwng grwpiau gwahanol.
Adnoddau	Lleihau cyllideb lwfans car	3	
Adnoddau	Lleihau cyllideb atgyweiriadau swyddfa	1	
Adnoddau	Lleihau cyllideb ymgynghorwyr allanol	10	
Adnoddau	Lleihau cyllideb treuliau cyfweld	2	
Adnoddau	Lleihau cyllideb treuliau cyffredinol	4	
	Cyfanswm Gwasanaethau Adnoddau	72	
	CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG	2,980	

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I'R:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	7FED MAWRTH 2016
PWNC:	GWASANAETHAU PLANT – CWRDD Â CHYNNYDD YN Y GALW
DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES
PENNAETH GWASANAETH:	ANWEN HUWS
AWDUR YR ADRODDIAD:	ANWEN HUWS
FFÔN:	01248751811
E-BOST:	ANWENMHUWS@YNYSMON.GOV.UK
AELODAU LLEOL:	DDIM YN BERTHNASOL

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn :

- A. Cymeradwyo'r buddsoddiadau arfaethedig i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â galwadau cynyddol a materion gweithlu sy'n wynebu'r Gwasanaethau Plant:-

	Cost 16/17	Cost 17/18 gan dybio cynnydd 1%
Cynnal y Capasiti Rheoli Cyfredol	Gostyngiad o £25k yn y cynnig arbedion o £78k ar gyfer 2016/17	
Cynyddu'r capasiti gwaith cymdeithasol	£ 120,810	£ 122,018
Cynyddu'r capasiti Cadeirio Annibynnol	£ 51,284	£ 51,797
Ymarferydd Arweiniol ar faterion Rheolaeth Llys	£ 53,810.	

- B. Cymeradwyo bod costau cynyddol lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael sylw wrth osod cyllideb y Cyngor am 2016/17. Mae amcanestyniad dim twf ar gyfer 2016/17 ar yr un llinellau gwariant yn gost o £2,496,716 yn erbyn cyllideb o £2,301,390. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth cyllid i ddadansoddi a rhagweld y costau hyn i'r dyfodol yn seiliedig ar y cynnydd tebygol.
- C. Cymeradwyo bod costau newydd y Cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael sylw wrth osod cyllideb y Cyngor am 2016/17. Costau ychwanegol o hyd at £133k dros y tair blynedd nesaf.
- D. Nodi y bydd nifer o achosion busnes yn cael eu cyflwyno gyda hyn:-

Cynyddu'r Capasiti Cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Plant	Ystyried yr Achos Busnes i gynyddu'r capasiti cyfreithiol a p'un a fyddai hynny'n arwain at ostyngiad yn y defnydd o gwnsleriaid ar gyfer achosion – a fyddai'n ariannu cost y capasiti cyfreithiol.
Gweithiwr Cymdeithasol (Dros Dro) - am ddwy flynedd - Tîm Maethu	Ystyried a fyddai buddsoddiad yn ychwanegol i'r Cynllun Buddsoddi i Arbed yn cynyddu'r ystod o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn arwain at arbedion yn ogystal ag osgoi costau.
Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd	Ystyried yr achos busnes i sefydlu gwasanaeth trothwy gofal / cymorth argyfwng i fod yn sylfaen ar gyfer y strategaeth i gefnogi cadernid teuluoedd, osgoi uwchgyfeirio, a gostwng nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system gofal. <i>Bydd angen Achos Busnes Manwl er mwyn sicrhau y bydd hyn yn arwain at arbedion yn ogystal ag osgoi costau.</i>

Rheswm / Rhesymau

Mae gwaith maes statudol yn y Gwasanaeth Plant yn faes risg cynhenid gydag achosion cymhleth. Pan fo sialensiau gyda materion gweithlu hefyd mae'r risg honno'n cynyddu. Rydym yn wynebu heriau sylweddol oherwydd caledi ariannol, cynnydd yn y galw a materion capasiti ac effeithiolrwydd, yn ogystal â chymhlethdodau'r llwybrau sydd ar gael i deuluoedd sy'n chwilio am help.

Y Gweithlu – Sicrhau gweithlu digonol a sefydlog, sy'n cael ei oruchwylio, ei reoli a'i gefnogi i gyflawni'r gwaith yn effeithiol. Mae angen cynyddu'r capasiti gwaith cymdeithasol o fewn y gwasanaeth gweithredol er mwyn ymateb i'r galw cynyddol ac i sicrhau bod llwythi gwaith unigol yn cael eu rheoli, gan alluogi gweithwyr i dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda theuluoedd sy'n gweithio i wneud newidiadau fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant. **Fy argymhelliad yw ein bod yn penodi 3 o weithwyr cymdeithasol ychwanegol i ostwng y llwyth gwaith i 19 o achosion ar gyfartaledd.** Yn ystod 2016/17 cynhelir dadansoddiad pellach o'r llwythi achosion a'r galw am y gwasanaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Rheoli Llwyth Achosion ac ailstrwythuro'r gwasanaeth.

Yn ogystal â chynnydd yn y gweithlu, mae angen y gymysgedd iawn o allu, profiad, gwybodaeth a sgiliau i gwrdd â'r disgwyliadau cenedlaethol a lleol a osodir ar yr Awdurdod Lleol ac i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n gwella canlyniadau i blant a theuluoedd ar Ynys Môn. Mae hyn yn golygu y dylai bod cyfleoedd i staff ddilyn gweithgareddau datblygiad proffesiynol er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Caiff hyn ei gyflawni drwy Gynllun Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a thrwy hyfforddi / mentora mewnlol: gan gyflymu datblygiad gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd y gweithwyr a'r rheolwyr fel ei gilydd.

Y sefyllfa ddelfrydol fyddai medru recriwtio staff cymwys a phrofiadol. Y gwir amdani yw ei bod yn fwy anodd denu ymgeiswyr gyda'r profiadau iawn. Yn y tymor byr mae angen parhau â'r staff asiantaeth, tra bod penodiadau parhaol a sylweddol yn cael eu gwneud, ac i ddarparu cymysgedd o sgiliau yn ein timau sy'n cyfuno profiad ymarferol gyda brwdfrydedd a chreadigrwydd gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.

Ansawdd ac Atebolrwydd

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwreiddio Fframwaith Sicrhau Ansawdd cadarn gan ei fod yn darparu mecanwaith sy'n sicrhau arferion da ac sy'n galluogi gwneud penderfyniadau diogel ar lefel weithredol. Mae gan bob rheolwr rôl allweddol yn hyn o beth, ac mae Rheolwyr Gwasanaeth yn benodol yn gyfrifol fel uwch reolwyr am "reoli ansawdd". Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar ostyngiad yn y capasiti rheoli yn y gwasanaethau plant yn ystod y cynigion cyllideb cyfredol. O gofio'r ystod o gyfrifoldebau statudol sydd gan y gwasanaeth, y newidiadau sydd i'w gweithredu yn sgil y Ddeddf newydd a'r diffyg profiad yn y grŵp rheolwyr llinell gyntaf, mae'n anodd gweld sut y gellir cyflawni hyn heb gapasiti rheolaeth ganol effeithiol.

Mae'r Uned Ddiogelu yn gyfrifol am elfen allweddol o ran sicrhau bod penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud ar lefel weithredol. Mae angen cynyddu'r capasiti ar gyfer Cadeirio Cynadleddau Achos ac Adolygiadau Statudol oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac yn nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Nid yn unig y mae hyn yn effeithio ar berfformiad, ond mae methiant i adolygu achosion yn drylwyr yn sicr o arwain at oedi a defnydd aneffeithlon o Adnoddau. **Fy argymhelliad yw ein bod yn penodi un Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol ychwanegol am gyfnod o 2 flynedd.**

Gwella arferion a'r broses gwneud penderfyniadau o fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

I rai plant mae angen gweithredu'n amserol trwy'r prosesau llys i'w symud oddi wrth eu teuluoedd a dod o hyd i leoliad parhaol ar eu cyfer gyda theulu arall. Mae cyflwyno'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi golygu pwysau sylweddol yng nghyd-destun cynnydd yn nifer y ceisiadau. Unwaith eto, un agwedd allweddol o gyflawni hyn yw sicrhau gweithlu sefydlog sy'n cael ei oruchwylio, ei reoli a'i gefnogi i gyflawni'r gwaith yn effeithiol o fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. **Fy argymhelliad yw ein bod yn penodi Ymarferydd Arweinïol i ddarparu hyfforddiant / mentora / cymhelliant i ymarferwyr yn eu datblygiad fel arbenigwyr wrth ymdrin ag achosion yn y llys.** Prif ddiben y swydd hon fyddai monitro achosion o fewn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gweithio gydag ymarferwyr i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau ar amser ac i safon, darparu rhaglen datblygu sgiliau ynghyd a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac ansawdd i'r Tîm Rheoli Gwasanaeth.

Rhennir y cynnydd hwn yn y galw a'r disgwyliadau gyda'r gwasanaeth cyfreithiol: mae angen ystyried yr achos dros gynyddu'r capasiti cyfreithiol i sicrhau bod y Gwasanaethau Plant yn cael mynediad i'r gwasanaeth cyfreithiol y maent ei angen ar gyfer amrywiaeth eang o faterion. Gellir dadlau y dylai hyn arwain at ostyngiad yn y defnydd o gwnsleriaid ar gyfer achosion – a fyddai'n ariannu cost y capasiti cyfreithiol am gyfnod dros dro.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae Aelodau wedi cael gwybod bod nifer a chost y lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynyddu, sy'n golygu y rhagwelir gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ar gyllideb y Gwasanaethau Plant. Yn seiliedig ar linell sylfaen 13.01.16 amcangyfrifir y bydd cost lleoliadau ansafonol a lleoliadau allsirol ar gyfer 2015/16 yn £2,836,490 yn erbyn cyllideb o £2,301,390. Mae amcanestyniad dim twf ar gyfer 2016/17 ar yr un llinellau gwariant yn awgrymu cost o £2,496,716 yn erbyn cyllideb o £2,301,390. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth cyllid i ddadansoddi a rhagweld y costau hyn wrth symud ymlaen yn seiliedig ar y cynnydd tebygol.

I sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol mae'n rhaid cynyddu'r ystod o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth wedi bod yn fuddiol a llwyddwyd i osgoi costau. Fodd bynnag, yng nghyd-destun cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn gofal, mae angen recriwtio mwy o ofalwyr maeth. Fy argymhelliad yw ein bod yn penodi Gweithiwr Cymdeithasol – am ddwy flynedd – er mwyn cyrraedd targed recriwtio uwch. Bydd angen Achos Busnes Manwl er mwyn sicrhau y bydd hyn yn arwain at arbedion yn ogystal ag osgoi gwariant ar leoliadau asiantaeth.

Bydd disgwyl i'r Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth newydd o'r enw "Pan Fydda i'n Barod" o fis Ebrill 2016 ymlaen. Amcangyfrifir y bydd costau ychwanegol o hyd at £133k dros y tair blynedd nesaf.

Os ydym am ostwng nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal dylem geisio gwella'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd, yn arbennig felly i ddarparu cymorth cyflym a dwys pan fydd y teulu yn torri i lawr, gyda'r nod o gadw'r teulu gyda'i gilydd. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn gwario tua £350k ar ei wasanaethau cymorth. Nodwyd eisoes y gellid sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy fireinio rheolaeth y ddau wasanaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid trawsnewid y model gwasanaeth. Byddai angen i ni sefydlu Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd sy'n gweithio o 07:00am tan 10:00pm a fyddai'n cynnwys arbenigwyr Ymyraethau Teuluol a Gweithwyr Cymorth: gan sicrhau ein bod yn gallu ymateb drwy raglenni ymyrraeth sydd wedi'u teilwra o amgylch y teulu ond a fyddai ag amcan clir o ostwng yr angen, hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch. Bydd angen Achos Busnes Manwl er mwyn sicrhau y bydd hyn yn arwain at arbedion yn ogystal ag osgoi costau.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Efallai yr hoffai'r Aelodau ystyried opsiwn Gwneud Dim a pharhau i geisio ateb y galw cynyddol o fewn yr adnoddau presennol. Byddai hynny'n effeithio ar allu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau statudol ac yn y pen draw byddai'n golygu nad yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn Gwneud Dim yn sylweddol:-

- Methu cyflawni ein dyletswyddau statudol a'n hamcanion a'n targedau allweddol
- Peryglu ymyraethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant
- Peryglu'r gallu i sicrhau canlyniadau da i blant
- Risg o ymyrraeth allanol
- Defnydd aneffeithlon o adnoddau.
- Difrod i enw da
- Gweithlu – morâl isel ymysg staff: lefelau salwch: trosiant staff

Mae goblygiadau ariannol i'r cynigion a'r buddsoddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn; fodd bynnag, yn fy marn i hwn yw'r datrysiaid mwyaf effeithiol. Bydd mabwysiadu'r cynnig yn galluogi'r Awdurdod Lleol i fod mewn gwell sefyllfa i :-

<ul style="list-style-type: none"> • Gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i amcanion a'i dargedau allweddol • Cyflawni canlyniadau da i blant trwy reoli'r llwyth achosion a thrwy gynorthwyo ymarferwyr i dreulio amser gwerthfawr gyda theuluoedd. • Gweithredu strategaeth gydlynol ar gyfer y gweithlu • Gwella ansawdd y broses gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd • Darparu ystod o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal • Gyrru gwaith ar y Fframwaith Sicrhau Ansawdd, gan flaenoriaethu camau sydd raid wrthynt i wella'r gwasanaeth a ddarperir 		
C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
<p>Mae angen cyllid ychwanegol i weithredu'r argymhellion a gyflwynir.</p> <p>Yn unol â'r Cyfansoddiad, ystyrir bod raid felly cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad yn unol â :</p> <p>4.8 Rheolau Gweithdrefn Ariannol ar gyfer unrhyw hawl i drosglwyddo arian / gorwario a nodir neu a fydd yn angenrheidiol ar gyfer y cyfnod 2015/16, a</p> <p>4.3 Rheolau Gweithdrefn Polisi a Chyllideb ar gyfer cyfnod gosod a datgan cyllideb 2016/17</p>		
D - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydy		
DD - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Blwyddyn ariannol 2015/16 – Na		
<p>Byddai gweithredu'r argymhellion yn golygu y byddai angen arian ychwanegol nad yw yng nghyllideb y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r Swyddog Adran 151 yn ymwybodol o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen ac mae wedi rhoi sylw i'r mater hwn yn ei adroddiad dan yr adran 'pwysau ar y gyllideb'. Mae adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad hwnnw fel atodiad.</p>		
E - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?		Beth wnaethon nhw ei ddweud?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (Gorfodol)	Mae'r UDA yn cefnogi'r adroddiad
2	Cyllid / Adran 151(Gorfodol)	Fel ym mhwynt 1 uchod
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)	Fel ym mhwynt 1 uchod
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo (Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)	
7	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau lleol	
10	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
F - Risgiau a lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Dim
2	Gwrth-dlodi	Dim
3	Troseddau ac Anhrefn	Dim
4	Amgylcheddol	Dim
5	Cydraddoldebau	Dim
6	Cytundebau Canlyniadau	Cytundeb Canlyniadau Cyngor Sir Ynys Môn 2013/16: Canlyniad Eang: Rhoi llais cryfach i ddefnyddwyr a gofalwyr a rhoi mwy o reolaeth iddynt dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn
7	Arall	

FF - Atodiadau:
G - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	1 Mawrth 2016
pwnc:	Meysydd lle mae Pwysau o ran y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Deilydd (ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Aled Morris Jones
Pennaeth y Gwasanaeth:	Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Awdur yr Adroddiad:	Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Ffôn:	2707
E-bost:	AlwynJones3@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amrywiol
A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau	
<p>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith: -</p> <ol style="list-style-type: none"> Gydnabod y pwysau o ran y costau a wynebir o ran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn 2016/17 Cefnogi'r camau y bwriedir eu cymryd i liniaru'r rhain yn 2016/17 <p>Dyma'r pwysau a fydd yn wynebu'r adran yn 2016/17: -</p> <p>Deddfwriaethol</p> <p>Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2016. O ganlyniad i newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu mewn perthynas â strwythurau codi tâl o fewn y ddeddf yn y dyfodol pan fydd unigolyn yn gofyn am fynd i aros i gartref gofal am gyfnod byr, rhaid codi tâl fel petai'r person yn derbyn gofal dibreswyl. O'r herwydd, y swm uchaf y gellir ei godi ar y person yw £ 60 yr wythnos. Ni fedrir codi unrhyw ffi ychwanegol ar gyfer costau o fath gwesty. Y pwysau o ran cost a amcangyfrifir yn sgil y newid hwn yw £ 297,000.</p> <p>Er mwyn rheoli a lleihau effaith y newid, mae'r adran yn gofyn am ganiatâd i adolygu trefniadau codi tâl hanesyddol sydd wedi cael effaith negyddol ar y lefel o incwm a dderbyniwyd gan y rheini sy'n derbyn budd-daliadau. Ar hyn o bryd, mae'r adran yn codi cyfradd sefydlog o £14.25 ar bob unigolyn sydd angen gofal cartref ac sydd ar hyn o bryd yn derbyn budd-daliadau. Trwy addasu'r strwythur i fod yn fwy hyblyg, amcangyfrifir y gellir arbed £100,000. Bydd newid o'r math hwn yn gofyn am ymgynghori'n llawn ac yn briodol, fodd bynnag, mae'r adran yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen er mwyn lliniaru pwysau ffioedd sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru. Ni fydd gweithredu hyn am ran o'r flwyddyn yn unig ond yn lliniaru'r costau yn rhannol.</p> <p>Dylid nodi bod cyfreithlondeb y newid hwn yn y ffioedd yn cael ei ystyried ar sail genedlaethol gan mai newid a wnaed yn hwyr i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ydyw ac efallai y bydd angen i'r Pwyllgor gwaith adolygu trefniadau rheoli a chymorth yn yr adran petai'r pwysau'n cael eu gwireddu'n llawn yn 2016/17.</p> <p>Pwysau o ran Ffioedd</p> <p>Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ffioedd cartref gofal y sector annibynnol yn flynyddol. Wrth bennu lefelau'r ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, rhaid i'r Awdurdod Lleol ddangos eu bod wedi ystyried yn llawn gostau'r ddarpariaeth wrth bennu'r ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg / Pecyn Cymorth rhanbarthol ar gyfer pennu.</p>	

Yn seiliedig ar weithredu'r ffioedd hyn, byddai'r gost bosibl o ran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Ynys Môn yn £ 308,000. Er nad yw gweithredu'r ffioedd yn unol â'r fethodoleg ar gyfer pennu ffioedd yn goresgyn y risg o her gyfreithiol yn gyfan gwbl, ystyrir y byddai'n haws i'r awdurdod amddiffyn her gyfreithiol. Mae 3 sir arall wedi nodi y byddant yn gweithredu'r ffioedd yn unol â'r model ac mae 2 awdurdod arall yn parhau i drafod ffioedd.

Mae tueddiadau diweddar mewn lleoliadau preswyl a nyrsio yn Ynys Môn yn dangos gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn yn nifer y lleoliadau. Er mwyn cwrdd â'r pwysau a nodir o ran ffioedd, credir y bydd angen 17 yn llai o leoliadau ar gyfer 2016/17. Dengys tueddiadau ei bod yn bosibl y bydd y lefel hon o ostyngiad yn digwydd yn 2016/17. O ganlyniad, mae'r adran yn cynnig bod y cynnydd mewn ffioedd yn cael ei gefnogi trwy barhau i ganolbwyntio ar gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnal felly'r lleihad mewn lleoliadau o'r math yma.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sectorau annibynnol ar gost uned o £ 14.50 fesul awr neu bob rhan o awr. Ni chafodd y ffi hon ei chynyddu yn 2015/16 gan olygu bod y ffioedd wedi aros yr un fath am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd.

Yn y 5 mlynedd ddiwethaf, mae'r gallu i gomisiynu gofal yn Ynys Môn wedi bod yn dda ac, ymhlith pethau eraill, mae hyn wedi cefnogi'r sir i berfformio'n gadarnhaol o safbwynt atal Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Yn ystod y flwyddyn hon, mae ein gallu i gomisiynu wedi cael ei leihau yn sylweddol gyda dirywiad o ganlyniad yn ein perfformiad yn y maes hwn. O ganlyniad i'r dirywiad hwn a'r angen i gydnabod y pwysau yn gyson â'r rhai a nodwyd mewn gofal preswyl - y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chostau cyflogaeth - rydym o'r farn y bydd angen cynnydd o 7% mewn ffioedd. Yn seiliedig ar hyn, byddai angen cost ychwanegol o £187,249 i gwrdd â'r cynnydd hwn mewn ffioedd. I sicrhau hynny, byddai'n rhaid cynyddu'r ffi i £15.50. Yn ôl arwyddion cynnar gan ddarparwr lleol, maent yn parhau i deimlo y bydd ffioedd ar y lefel hon yn annigonol. Cynigiwyd y bydd ffioedd Gwynedd yn codi i £16.06.

Er mwyn cwrdd â'r cynnydd hwn, mae'r adran yn bwriadu defnyddio arbedion a wnaed yn 2016/17 i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r pwysau hyn, ond mae'n ceisio cymorth ariannol gan y cyngor i gwrdd â'r gweddill. Cynigiwyd £125,000 o arbedion yn erbyn llinellau sydd ar hyn o bryd yn gorwario. Mae'r adran yn bwriadu gwireddu'r arbedion hyn ond yn gofyn am sicrwydd na fyddant yn cael eu tynnu o gyllidebau'r adrannau. Bydd y camau hyn, ynghyd â buddsoddiad o £62,249 yn y setliad presennol yn caniatáu i'r adran gwrdd â'r pwysau hyn.

Model Gofal Penucheldre

Agorwyd Uned Tai Gofal Ychwanegol Penucheldre yn 2012. Pan gytunwyd i'r datblygiad, ni chafodd unrhyw fodel gofal ei weithredu. O ganlyniad, nid yw'r enillion a ddisgwyliwyd yn sgil y ffaith y byddai'r datblygiad yn rhoi dewis arall o safbwynt gofal preswyl wedi cael eu gwireddu yn y tymor byr. I wireddu'r enillion hyn, mae'n hanfodol bod model o ofal yn cael ei weithredu.

Ein bwriad yw gweithredu'r model hwn o 1 Ebrill, 2016. Mae'r gost o wneud hynny yn £37,286 ar gyfer 2016/17. Yn 2017/18 a'r tu draw i hynny, disgwyli'r arbedion yn sgil gweithredu'r model oherwydd gostyngiad yn nifer y lleoliadau parhaus mewn gofal preswyl. Ar y sail hon, mae'r adran yn gofyn am fuddsoddiad tymor byr i gefnogi pwysau hwn yn 2016/17.

Arall

Mae'r adran yn cydnabod y bydd pwysau eraill o ran ffioedd a gwasanaethau eraill yn ystod y flwyddyn i ddod, sef pwysau sy'n gysylltiedig â lleoliadau ychwanegol o fewn y gwasanaethau anabledd dysgu, pwysau o ran ffioedd mewn gwasanaethau byw â chymorth a thoriadau posibl yn y maes cefnogi pobl.

Bydd yr adran yn ceisio rheoli'r pwysau hyn o fewn yr adnoddau presennol.

Crynodeb

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gydnabod y pwysau a nodwyd uchod a chymeradwyo'r camau a restrir isod i reoli'r pwysau hyn yn 2016/17: -

- i. **Deddfwriaethol** - Cefnogi adolygiad o'r modd y codir tâl am ofal cartref er mwyn lliniaru'r pwysau yn sgil y gostyngiad mewn ffioedd ar gyfer gofal ysbaid. Adolygu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn.
- ii. **Pwysau ffioedd** - Cefnogi cynnig yr adran i reoli'r galw i gwrdd â ffioedd preswyl. Cefnogi'r adran gyda buddsoddiad ailadroddus o £ 38,249 mewn ffioedd gofal cartref yn 2016/17.
- iii. **Model Gofal Penucheldre** - Cefnogi buddsoddiad o £ 37,286 yn 2016/17 yn unig i gefnogi'r gwaith o weithredu model gofal ym Mhenucheldre.
- iv. **Meysydd Eraill** - Cydnabod pwysau posibl a chefnogi'r adran i gwrdd â'r rhain o fewn yr adnoddau presennol.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd opsiynau i leihau i'r eithaf lefel y cynnydd a gynigir i ddarparwyr yn y sector annibynnol. Nid ydynt wedi cael eu hargymell oherwydd gallai methiant i gydnabod pwysau cost yn 2016/17 gymhlethu'r heriau mewn marchnad sydd eisoes wedi wynebu pwysau difrifol yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r pwysau hyn wedi cael effaith negyddol ar berfformiad cynghorau wrth gefnogi pobl wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Nid oes gan y Cyngor ddewis ond gweithredu'r newidiadau i ffioedd fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gwrthodwyd yr opsiwn o beidio â gweithredu model gofal ym Mhenucheldre oherwydd na fyddai'n arwain at arbedion yn y tymor cynnal nac ychwaith yn cefnogi'r datblygiad i weithredu fel Uned Gofal Ychwanegol fel y cynigiwyd yn wreiddiol.

C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae angen cyllid ychwanegol i weithredu'r argymhellion arfaethedig.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, ystyrir ei fod yn orfodol bod gofynion o'r fath yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor gwaith am benderfyniad dan y ddau bwynt isod:-

4.8 Rheolau gweithdrefn ariannol ar gyfer unrhyw hawl i drosglwyddo arian / gorwariant a nodwyd neu sy'n ofynnol ar gyfer y cyfnod 2015/16, ac

4.3 Y Rheolau gweithdrefn sy'n ymwneud â'r gyllideb a fframwaith polisi ar gyfer pennu'r gyllideb a chyfnod datgan 2016/17.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydw

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

I weithredu'r argymhellion, byddai angen arian ychwanegol nad yw ar gael ar hyn o bryd o fewn cyllideb y gwasanaeth. Mae'r swyddog Adran 151 yn ymwybodol o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen ac mae wedi cynnwys hyn yn ei adroddiad ar y gyllideb dan y pennawd 'pwysau ar y gyllideb'. Mae adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion yn cael ei gynnwys yn y ddogfen hon fel atodiad.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (Gorfodol)	Mae'r UDA yn cefnogi'r adroddiad
2	Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)	Fel yr uchod
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)	Fel yr uchod
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Craffu	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Dim
2	Gwrth-dlodi	Dim
3	Troseddau ac Anhrefn	Dim
4	Amgylcheddol	Dim
5	Cydraddoldebau	Dim
6	Cytundebau Canlyniadau	Dim
7	Arall	Dim
F - Atodiadau:		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2016/17 FESUL GWASANAETH

	Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol	Addasiadau i'r Gyllideb Arfaethedig Gychwynnol	Cyllideb ddi-symud yn dilyn y Setliad Dros Dro	Arbedion	Pwysau Cyllidebol	Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2016/17
	£	£	£	£	£	£
Addysg a Diwylliant	49,412,810	684,490	50,097,300	-908,000	0	49,189,300
Gwasanaethau Oedolion	22,383,430	193,460	22,576,890	-335,000	500,000	22,741,890
Gwasanaethau Plant	7,023,870	61,360	7,085,230	-143,000	100,000	7,042,230
Gwasanaethau Tai	915,610	21,310	936,920	-74,000	0	862,920
Amgylcheddol a Thechnegol	14,847,510	159,920	15,007,430	-730,000	0	14,277,430
Rheoleiddio	2,617,880	48,150	2,666,030	-111,000	0	2,555,030
Economaidd ac Adfywio'r Gymuned	2,094,390	53,970	2,148,360	-147,000	0	2,001,360
Trawsnewid Corfforaethol	3,232,250	333,770	3,566,020	-84,000	50,000	3,532,020
Adnoddau (yn cynwys budd-daliadau roddwyd)	8,802,450	60,410	8,862,860	-72,000	0	8,790,860
Busnes y Cyngor	1,541,150	26,910	1,568,060	-56,000	0	1,512,060
Rheolaeth Corfforaethol	716,750	5,040	721,790	0	0	721,790
Arfarnu Swyddi (Cyllidir drwy arian wrth Gefn)	-2,916,390	0	-2,916,390	0	0	-2,916,390
Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau	110,671,710	1,648,790	112,320,500	-2,660,000	650,000	110,310,500
Costau Corfforaethol a Democrataidd Costau	1,913,150	0	1,913,150	0	0	1,913,150
Ad-daliadau i'r CRT	-621,950	0	-621,950	0	0	-621,950
Ardollau	3,203,890	-9,710	3,194,180	0	0	3,194,180
Cyllido Cyfalaf	8,301,957	0	8,301,957	0	0	8,301,957
Rhyddhad Trethi Dewisol	50,000	10,000	60,000	0	0	60,000
Cyfanswm Cyllidebau Ddyrannwyd	123,518,757	1,649,080	125,167,837	-2,660,000	650,000	123,157,837
Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	3,183,000	-1,712,000	1,471,000	-400,000	208,617	1,279,617
Defnydd o'r Arian wrth Gefn	0	0	0	-400,000		-400,000
Cyfanswm Cyllideb 2016/17	126,701,757	-62,920	126,638,837	-3,460,000	858,617	124,037,454
Cyllidir gan						
Grant Cymorth Refeniw	67,785,900	-	70,619,353	-	-	70,619,353
Trethi Annomestig Cenedlaethol	20,996,630	-	21,308,694	-	-	21,308,694
Treth y Cyngor	32,348,076	-	32,419,643	-	-	32,109,407
Cyfanswm Cyllid	121,130,606	-	124,347,690	-	-	124,037,454
Bwlch Cyllidebol	5,571,151	-	2,291,147	-	-	0

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	10 MAWRTH 2016
PWNC:	BIDIAU CYFALAF 2016/17
AELOD PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD H E JONES
SWYDDOG SY’N ARWAIN:	MARC JONES
SWYDDOG CYSWLLT:	CLAIRE KLIMASZEWSKI / GARETH ROBERTS (EST: 2675)

Natur a rheswm dros adrodd:

Fel bod modd i'r Cyngor Sir gymeradwyo ac awdurdodi Rhaglen Gyfalaf am 2016/17.

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

1. CEFNDIR

- 1.1 Dyma'r rhestr o'r Bidiau Cyfalaf a gynigiwyd gan adrannau ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21.
- 1.2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r UDA ar 12/10/15 ac i'r Pwyllgor Gwaith ar y 9fed o Dachwedd 2015 ac ar y 1af Mawrth 2016, lle argymhellir y bydd yr eitemau sydd wedi eu lliwio yn Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £26.933m) yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21. Mae £9,657m o hyn yn ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o 2015/16 ar gyfer y ddwy Ysgol 21^{ain} Ganrif. Mae'r cynlluniau a gyllidir o'r CRT ar gyfer 2016/17 yn £11.636m.

2. CYNNYDD

- 2.1 Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014 yn nodi Strategaeth Gyfalaf, gofynnwyd i'r adrannau gyflwyno bidiau ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd.
- 2.2 Cafwyd mwy o atebion o lawer na'r disgwyl ac mae'r rhestr lawn o'r bidiau am 2016/17 i'w gweld yn Atodiad A(1) ac Atodiad A(2). Mae Atodiad A(1) yn dangos y bidiau a'r cyllid sydd ei angen ar eu cyfer ac mae Atodiad A(2) yn dangos y modd y cafodd y bidiau eu sgorio yn erbyn cyfes o feini prawf penodol.
- 2.3 Adolygwyd pob bid o ran cyfanrwydd ac yna, cawsant eu blaenoriaethu gan y Grŵp Asedau Cyfalaf yn unol â'r pwyntiau a neilltuwyd sy'n seiliedig ar gyfres benodol o feini prawf fel y nodir yn Atodiad B.
- 2.4 Cafodd amcangyfrif o'r adnoddau cyfalaf a oedd ar gael (Atodiad C) ei baratoi ac yn erbyn hwnnw, cymharwyd y rhestr o fidiau. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, tybiwyd mai'r bidiau a fydd yn cael eu hargymell ar gyfer eu cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2016/17 fydd yr eitemau hynny sydd wedi eu lliwio ar Atodiad A. Bydd bidiau a gynhwysir yn y blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd cynnwys prosiectau yn 2016/17 yn cael effaith ar ymrwymiad ar flynyddoedd yn y dyfodol.
- 2.5 Bydd cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2016/17 yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Os byddwn yn derbyn mwy o dderbyniadau cyfalaf na'r disgwyl, mae hyn yn golygu y gellir ystyried cynlluniau pellach a rhoddir gwybod am hynny i'r Pwyllgor Gwaith cyn gynted ag sy'n bosibl ac yna gellir gwneud penderfyniad ar ba gynlluniau newydd, os o gwbl, i'w cymeradwyo .
- 2.6 Adolygodd y Grŵp Asedau Cyfalaf rywfaint o'r gofyniad cyllido ar gyfer y bidiau Addysg yn unol â rhestr a ddarparwyd. Ystyriwyd y rhestr o fidiau yn nhrefn blaenoriaeth a'r rheini gyda blaenoriaeth D oedd y mwyaf hanfodol.

- 2.7** Yn wreiddiol, penderfynodd y Grŵp Asedau Cyfalaf adolygu'r fid ynghylch Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol gan ei bod yn cynnwys rhai costau referniw. Fodd bynnag, ers hyn cytunwyd y cyllidir yr holl gostau drwy'r rhaglen Gyfalaf yma.
- 2.8** Mae angen y Grant Cyfleusterau i'r Anabl drwy statud. Fodd bynnag, nid oes rhaid iddo fod mor uchel â'r £0.816m y gofynnwyd amdano. Gellir gwneud penderfyniad i ostwng y swm hwn ond dylid cymryd i ystyriaeth y risgiau yn sgil gwneud hynny.
- 2.9** Amcangyfrifir bod y rhaglen a argymhellir yn £26.3m. Nid yw hyn yn cynnwys cynllun sy'n sgorio yn uchel ond nad yw'n fforddiadwy. Mae'r rhaglen yn argymhell cynnwys buddsoddiad o £1m mewn tai gofal ychwanegol ym Miwmares ar gyfer 2017/18 a fyddai'n denu buddsoddiad o £14m gan landlord cymdeithasol cofrestredig ar draws 2018/19 a 2019/20. Mae hyn yn ychwanegol at y prosiect tai gofal ychwanegol presennol yn Llangefni. Cyflwynwyd bid hefyd am £6m ar gyfer tai gofal ychwanegol yn Amlwch. Roedd hyn wedi ei broffilio i wario £3m yn 2016/17 a £3m yn 2017/18. Nid yw'r prosiect hwn wedi denu buddsoddiad allanol hyd yma. Petai cynllun tai gofal ychwanegol Amlwch yn cael ei adael allan, yna gellid derbyn 24 o brosiectau newydd a fyddai'n cyfrannu tuag at amrediad o flaenoriaethau corfforaethol yn ychwanegol at y ddau brosiect Ysgolion 21^{ain} Ganrif a gymeradwywyd yn 2015/16. Os caiff tai gofal ychwanegol ei gynnwys yn y rhaglen, dim ond 5 prosiect fyddai'n fforddiadwy yn ychwanegol at y prosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghaerdybi a'r Llannau.
- 2.10** Er bod y fid am Borth Ymwelwyr Ynys Gybi (Ranc Pwysoli o 35) yn aflwyddiannus, dylid nodi y gallai'r fid am £80,000 dros gyfnod o 2 flynedd gan Gyngor Sir Ynys Môn arwain at Gyllid Allanol o £4.92m ac y dylid ei hystyried.
- 2.11** Nid yw rhai cynlluniau megis cael Cerbydau Newydd a Thrwyddedu Meddalwedd yn cwrdd â Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol. Fodd bynnag, heb y cynlluniau hyn, teimlir na fyddai modd i rai gwasanaethau allweddol weithredu felly maent wedi eu hargymhell ar gyfer eu cymeradwyo.
- 2.12** Er y gall cynllun a dderbynnir fod ag ymrwymadau yn 2017/18 ac ymlaen, bydd angen i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu o ran eu fforddiadwyedd yn ystod y broses o gyflwyno Bidiau Cyfalaf yn 2017/18. Bydd angen cyflwyno bid newydd gyda gwybodaeth ariannol ddiweddaedig a bydd angen i'r fid gael ei derbyn eto fel rhan o'r broses o bennu Cyllideb Gyfalaf 2017/18 i fynd yn ei blaen.
- 2.13** Mae Atodiad D yn dangos y gost o fenthycia i'r awdurdod er mwyn cyllido Rhaglen Gyfalaf 2016/17. Ceir y costau benthycia eu hymgorffori i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys (gweler eitem ar wahan ar yr agenda). Cadarnheir y strategaeth fod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy o fewn y cyfyngiadau a osodir allan yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.
- 2.14** Mae'r Cyngor yn debygol o wynebu costau sylweddol mewn perthynas â Thâl Cyfartal a bydd yn cyflwyno Cais Cyfalafu i gyllido'r costau hyn. Nid yw cost Tâl Cyfartal wedi cael ei fesur ond mae'n debygol o fod yn sylweddol (o bosibl oddeutu £4.5m) a bydd yn ychwanegol at y prosiectau ar gyfer rhaglen gyfalaf 2016/17 a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Efallai y bydd angen cyllido hyn o fenthyciadau digefnogaeth os nad oes cyllid cyfalaf arall ar gael.
- 2.15** Er bod y bid am System casglu gwastraff newydd (Ranc Pwysoli o 33) am £0.523m yn aflwyddiannus, dylid nodi y bydd y system newydd yn creu arbedion referniw o £0.300m y flwyddyn. Mae hyn wedi ei gynnig fel arbediad effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17, ac yn ffurfio rhan o gyllideb referniw ddrafft 2016/17. Gallai y cynllun yma fynd yn ei flaen drwy gynyddu y Benthycia Digefnogaeth o £0.523m, neu drwy gymeryd lle un o'r cynlluniau sydd ar y funud yn llwyddianus. Ers hyn cymeradwywyd y cynllun yma gan y Pwyllgor Gwaith; felly, mae wedi ei gynnwys yn Atodiad A i'w gymeradwyo. Cyllidir y gost ychwanegol o £0.509m drwy benthycia di-gefnogaeth.

3. MATER I'W BENDERFYNU ARNO

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn argymhell –

- a)** Bod yr eitemau sydd yn y blychau lliw yn Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £26.933m) yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i 2020/21.

- b)** Bod yr eitemau ar gyfer y CRT sydd wedi eu lliwio yn ail dabl Atodiad A yr adroddiad (eitemau sy'n werth hyd at £11,636m yn cel eu cyfeirio i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai ar gyfer eu hystyried ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2020/21.

ATODIAD A(1)

Tudalen 50

Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Bhwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Bhwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Bhwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Bhwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Bhwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbyniadau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu gyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu Difefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu Difefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Defnyddio (Cyfalaf) (£'000)
Dysgu Gydol Oes	Addysg	1	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi		5,697	149				2,849						2,849
Dysgu Gydol Oes	Addysg	2	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau		3,960	131				1,980	332					1,648
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	3	Tai Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys	Mae'r cais hwn am gefnogaeth gyfalaf yn cael ei wneud er mwyn darparu cefnogaeth uniongyrchol ac fel bod modd symud ymlaen gyda'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol yn ne'r Ynys. Os byddai modd sicrhau'r £1m, byddai'r cartref gofal yn cael ei ddatblygu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.	0	1,000	7,150	7,150			0					
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	4	Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll	Mae'r rhaglen adnewydd ar gyfer Plas Crigyll yn cynnwys: • 4 o ystafelloedd ymolchi newydd (15k yr un) • 9 o ddoileddau newydd i'r anabl (1k yr un) • Lloriau newydd ar ddwy uned (9,250k) • Adnewyddu'n llwyr 13 o ystafelloedd gwely (1,500k yr un) • Gwydr dwbl ar yr holl ffenestri cyfredol (dim costau ar hyn o bryd) H4	98						0	98				
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	5	Prifffyrdd newydd ar gyfer Wylfa Newydd	Bydd angen gwella'r rhwydwaith prifffyrdd cyfredol ar Ynys Môn ar gyfer datblygu'r orsaf niwclear newydd yn Wylfa. Mae'r Cyngror wedi nodi ei ddull yn seiliedig ar dystiolaeth o asesu'r gwelliannau angenrheidiol i'r prifffyrdd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae'n cydnabod yr angen i wella'r A5025 a Lôn Nanner	3,784	4,918	5,876	14,168			3,784					
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	6	Cerbydau Newydd	Mae'r Cyngror yn gweithredu fflyd o amryw o gerbydau a pheiriannau gan gynnwys bysus, Cerbydau Nwyddau Trwm a faniau. Mae angen y gronfa hon er mwyn cael cerbydau newydd yn lle'r rheiny sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes economaidd. .	150	0	0	0	0	0	0	150				
Cymuned	Tai - Y Gronfa Gyffredinol	7	Grant Cyfleusterau i'r Anabl	Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant mandadol o hyd at £36,000 ac mae'r Cyngror yn derbyn oddeutu 180 o ymholiadau y flwyddyn am wahanol addasiadau i gartrefi. Mae oddeutu 120 o'r ymholiadau hyn yn cael eu cymeradwyo ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl.	816	0	0	0	0	0	816					
Dysgu Gydol Oes	Addysg	8	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont		150	874	13			75	75					
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	9	Gweithredu CCIS	Mae'r fid yn gofyn am £222,500, dim on £50,000 o hyn sydd yn gysylltiedig gyda costau cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gwneud yn siwr fod System Wylfa Gofal Cymunedol (CCIS) Cymru Gyfan , sydd wedi sicrhau £6.7 millwn o gyllid yn genedlaethol gan Gynulliad Cymru, yn cael ei gweithredu a'i defnyddio i'w potensial llawn gan wneud y mwyafrad o unrhyw welliannau i brosesau a lif gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir yn Ynys Môn ac ar hyd a lled Cymru.	336	25					311	25				
Dysgu Gydol Oes	Addysg	10	Ysgolion y 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw		390	3,696	1,037	68		195	195					
Dysgu Gydol Oes	Addysg	11	Ysgolion y 21ain Ganrif - Bro Seiriol		207	718	3,668	939		103	104					
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	12	Uliniaru Llifogydd ym Miwmares	Yn hanesyddol, mae tref Biwmares wedi dioddef llifogydd. Mae'r cofnodadau o ddiwyddiadau'n cychwyn yn 1863, gyda digwyddiadau o bwys yn 1915, 1957, 2004, 2007 a 2012. Mae mwy o dywydd stormus a'r llanw uchel o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu fod llifogydd yn digwydd yn amlach a'u bod yn fwy difrifol. Ymhellach i'r llifogydd a gafwyd yn 2004, gwnaed rhywfaint o waith i wella capasiti'r systemau draenio cyfredol a lleihau'r risg o lifogydd, fodd bynnag, erys risg gan gyfuniad o lifogydd glawol a llanwol. Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ymchwilio i lifogydd a, lle mae hynny'n briodol, i mofyn cyllid gan LIC ar gyfer gwelliannau.	600						510	90				
Cymuned	Tai - Cronfa Gyffredinol	13	Datblygu safle preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r costau sydd wedi eu cynnwys yn y fid gyfalaf hon ar gyfer y mathau isod o safleoedd: 1 x safle preswyl parhaol ar gyfer hyd at 11 o aelwydydd 2 x llefydd aros dros dro ar gyfer hyd at 20 o garafanau yr un. Mae'r costau'n ymwneud â: Prynau'r tir Datblygu'r safle (i safon a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru)	247	1,500				Potensial	200			47		

Cyfradrn	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbynladau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycyda Ddefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Ddefnyddio (Cyfalaf) (£'000)
Dysgu Gydol Oes	Addysg	14	Gostwng Risgiau Tân yn adeiladau'r Cyngor	Alli flwyddyn rhaglen gyfalaf barhaus. Mae Rhan 1 y gwaith a oedd yn cynnwys gosod systemau larwm tâ newydd yn Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Bodedernbron wedi ei gwblhau. Mae cynnau tanau'n fwrriadol yn ychwanegu at y tebygolrwydd o dân mewn ysgol. Cafwyd nifer o ymosodiadau yn y gorffennol ac mae'n eithaf tebygol y bydd mwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol felly y gwneir pob ymdrech i leihau'r risg y bydd tân yn digwydd ac yn lledaenu a sicrhau y bydd modd gwagio'r adeilad yn ddiogel. Mae rhagfalon tân mewn ysgolion yn cynnwys adranu gan ddefnyddio drysau tân a walla solet, larnau tân a goleuadau argyfwng a darparu dlangfeydd. Mae systemau chwistrellu wedi cael eu gosod mewn ysgolion newydd ond nid oes chwistrellwyr mewn unrhyw adeiladau eraill. Roedd y bid gwreiddiol am £150k, ond nid oedd unrhyw gynllun ar yr amserlen yn flaenoriaeth D, felly ceir £dim gyllideb ei argymhell.	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	15	County Prudential Borrowing Initiative (Road Surfacing)	Roedd y toriadau mewn refereniw ar gyfer 2015/16 yn golygu y byddai'r Awdurdod yn methu cwddd â golygonion sylfaenol y contract o arian refereniw ac yn cael ei hun mewn sefyllfa o fod wedi torri amodau'r contract gyda'r ddatau contractwr. Byddai buddsoddiad cyfalaf yn fodd i'r Cyngor aros o fewn telerau'r contract a bod mewn sefyllfa i adolygu'r contractau ar gyfer unrhyw estyniad neu ailendro y tu draw i fis Mawrth 2017.	2,200	0					0		2,189		11
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffyrdd	16	Ffordd Gyswilt Llangedfni	Mae'r cynnyg yn un i adeiladu 2.5km o ffordd gyswilt newydd i'r de-ddwyrain o Langefni gyda'r cynllun yn cael ei rannu'n bedair rhan ar wahân.	2,725	1,450	2,850			2,452				273	
Datblygiad Cynaliadwy	Adfywio Economaidd a Chymunedol	17	Isadeiledd Strategol Caerdybi	Adedladu unedau diwydiannol newydd yn Unedau Busnes Stad Ddiwydiannol Penrhos	1,257	1,957	1,957			1,222	35				
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	18	Canolfan Byron - Storfa Offer Cymunedol	Mae Canolfan Byron yn gyfrifol am ddarparu cymorthion a chyfarpar newydd a chasglu offer ar gyfer ei ailgylchu sy'n cael ei ddilheintio ar y safle ar gyfer ei aildefnyddio ble bynnag y mae hynny'n bosibl. Mae'r Uned Ddheintio o fewn y gwasanaeth yn hen bellach ac mae angen codi uned newydd.	150					0				150	
Sustainable Development	Property	19	Disabled Access	The Equality Act 2010, which replaces the Disabled Discrimination Act, is a statutory requirement for the authority to carry out reasonable adjustments to its properties. Works are required to ensure all disabled people have access to services. An ongoing programme needs to be carried out to demonstrate compliance with The Equality Act 2010. Initially a complete survey of existing buildings is required and a programme of works developed thereafter.	100	0	0	0	0	0				100	
Datblygiad Cynaliadwy	Adfywio Economaidd a Chymunedol	20	Isadeiledd Strategol Llangedfni	Adedladu Unedau diwydiannol newydd yn Hyfforddiant Môn	1,157	1,157	1,257			1,122				35	
Dirprwy Brif Weithredwr	TGCh	21	System Rheoli Cynnwys y Wefan Gorfforaethol	Nid bid ar gyfer uwchraddio dylunad y wefan gorfforaethol yn unig mo hon. Mae'n fid i'w gwneud yn haws ac yn hwylus i ddefnyddwyr gael yr holl wybodaeth, ffurflenni a chyngor y maent eu hangen tra'n sicrhau arbediad sylweddol i'r Cyngor a gyrru Rhaglen Drawnewid y Cyngor yn ei blaen.	75	25				0				75	
Dysgu Gydol Oes	Addysg	22	Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysg	Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n disodli'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sall Anabledd, rhaid i'r awdurdod wneud addasiadau rhesymol i eddo'r Awdurdod tra'n sicrhau mynediad a defnydd effeithlon o adnoddau'r awdurdod.	300	0	0	0	0	0	0	0	0	300	
Dysgu Gydol Oes	Addysg	23	Cyfleusterau Arlwy mewn Ysgolion	Derbyniodd yr awdurdod nifer o rybuddion 'Mewn Perygl' yn dilyn gwaith cynnal a chadw a wnaed ar systemau awyriant ar lwy mewn ysgolion. Pan mae angen gosod poptal newydd, rhaid gwneud hynny i'r safonau cyfredol sy'n golygu bod angen uwchraddio'r systemau awyriant yn y ceginau sy'n waith eithriadol o ddrud. Mae'r rhaglen barhaus i uwchraddio'r rhain yn hanfodol ac mae angen cyllid digonol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chwblhau.	165	0	0	0	0	0	0			165	
Dysgu Gydol Oes	Addysg	24	Gwaith Ailweirio mewn Adeiladau Addysg	Blwyddyn 2 rhaglen barhaus; mae prosiectau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys gwaith ailweirio yn Ysgol Moelfre, Ysgol Uwchradd Caerdybi ac Ysgol Gynradd Bodffordd ac mae'r gwaith bron wedi'i gwblhau. Yn ôl Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989, rhaid cymryd rhagfalon yn erbyn y risg o farwolaeth neu anaf personol o drydan yn y gwaith. Rhaid i'r holl ysgolion gael profion bob 5 mlynedd gan drydanwyr cymwys a'r Adain Eiddo sy'n trefnu'r gwaith hwn ac yn derbyn adroddiadau ar y canfyddiadau. Calff cynllun gweithredu ei lunio ar gyfer pob adeilad gyda rhestr o'r gwaith yr argymhellir ei wneud. Mewn rhai achosion, mae angen gwneud mân-waith trwsio ond mewn achosion eraill, chwyddid oedran y gosodiadau, rhaid ailweirio'n gyfan gwbl. Mae'r fid hon ar gyfer cynnwys rhaglen ailweirio yn yr ysgolion hynny sydd, fe dybir, yn rhai risg uchel. Nid yw'r ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen ad-drefnu ysgolion am y 5 mlynedd nesaf wedi eu cynnwys yn y fid hon.	37	0	0	0	0	0	0			37	

Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Bhwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Bhwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Bhwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Bhwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Bhwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbyniadau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycia gyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycia Dddefnydd (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Defnyddio (Cyfalaf) (£'000)
Cymuned	Tai - Cronfa Gyffredinol	25	Cynllun Pryniant Gorfolod / Prynu trwy Gytundeb	Mae'r fid yn gofyn am gyllid i barhau i ariannu hyn am y 5 mlynedd nesaf. Ar ôl bhwyddyn 1, disgwylir y bydd modd ailgylchu'r cyllid ac ni fydd angen unrhyw gyllid ychwanegol. Golyga hyn y bydd modd dod â nifer o eiddo problemaus sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd lle mae'r trafodaethau gyda'r perchennogion wedi methu â sicrhau hynny.	280								140		140
Dirprwy Brif Weithredwr	ICT	26	Trwyddedu Meddalwedd	Mae CSYM wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant a'r defnydd o gynhyrchion MS a byddai'r fid gyfalaf hon yn fodd i CSYM barhau i elwa o'r buddsoddiad hwnnw. Mae gan CSYM ar hyn o bryd 1050 o ddefnyddwyr sydd wedi eu trwyddedu i ddefnyddio cynhyrchion MS. Caen ein harchwilio yn erbyn y defnyddwyr hyn bob blwyddyn a gall unrhyw feithiant i brynu cytundeb trwydded newydd olygu bod rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio'r cynhyrchion.	72	72	72			0					72
Dysgu Gydol Oes	Addysg	27	Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caerbybi	Mae'r prosiect yn golygu trawsnewid yr hen Neuadd y Farchnad, Adeilad Rhestredig Graddfa II yng nghanol tref Caerbybi nad oes defnydd yn cael ei wneud ohoni mwyach ac sydd wedi mynd â'i phen iddi.	970					970					
Dirprwy Brif Weithredwr	TGCh	28	Uwchraddio'r Rhwydwaith	Heb y rhwydwaith, ni fyddai modd i ddefnyddwyr ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Yn y misoedd diwethaf, mae rhywfaint o'r caledwedd wedi bod yn methu gan arwain at goll gwasanaeth. Nid yw'r offer cyfredol mwyach yn cael ei gefnogi gan y gweuthurwr ac nid oes modd ei adnewyddu tebyg am debyg. Gall offer sy'n methu effeithio ar unrhyw nifer o rhyw ddau ddswn i Adrannau cyfan. Mae angen cysylltiad rhwydwaith diogel ac effeithlon er mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau TGCh barhau i weithredu.	60					0					60
Dirprwy Brif Weithredwr	ICT	29	Rhagio dreigl ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r serfwr a'r cyfleusterau storio	Rydym yn bwriadu newid y serfwr hyn am nifer tai o beiriannau mwy pŵer a fydd yn caniatáu i'r gwasanaethau ffsecol fod yn rhai 'rithioli' fel y gall pob serfwr modern redg yr hyn sy'n cyfatebi i nifer o serfwr traddodiadol.	150	100	100			0					150
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	30	Cartref Gofal Preswyl Haulfre	Cychwyn ymgynghori ar unwaith ar ddyfodol Haulfre fel cartref gofal preswyl. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'i addasrwydd a'i ddichonoldeb yn seiliedig ar feysydd allweddol megis ansawdd y gofal, addasrwydd yr adeilad a materion iechyd a diogelwch. Byddai'r ymgynghoriad ffurfiol hwn yn hysbysu penderfyniad terfynol y Pwyllgor Gwaith yn mis Hydref a gallai gynnwys y posibilrwydd oga'u cartref.	168					98					69
Datblygiad Cynaliadwy	Gwastraff	33	System Casgu Gwastraff Newydd	Mae gan y Cngor ddytetswydd statudol i gasgu gwastraff y cartref. Hefyd, mae gan y Cngor dargedau ailgylchu statudol y mae'n rhaid iddo eu cyflawni (58% ar gyfer 2015/16 yn codi i 70% ar gyfer 2024/25 gyda thargedau yn y cyfamer rhwng y ddau gyfnod). Os bydd y Cngor yn methu â chyrraedd y targedau hyn, fe gallf ddirwyon trwm iawn gan Lywodraeth Cymru	509										509
					26,933	17,822	23,980	22,325	0	15,561	2,120	2,189	1,333	5,230	500
Dysgu Gydol Oes	Addysg	31	Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion	Bid yw hon i fynd i'r afael â'r diffygion yn yr holl adeiladau nad ydynt wedi eu heffeithio gan y cynllun ad-drefnu ysgolion. Oherwydd diffyg arian cyfalaf i wneud gwaith trwsio hanfodol ac ond ychydig o fuddsoddiad yn y gwaith cynnal a chadw a thrwsio mewn ysgolion dros nifer o flynyddoedd, mae cyflwr y stoc o ysgolion yn Ynys Môn yn anffodolhaaf.	1,424	1,800	1,800	1,800	1,800		1,424				
Dysgu Gydol Oes	Addysg	32	Risg syrthio o uchder	Mae ysgolion gyda thoeau fflat a hen ffenestri yn y toeau gyda gwyrdr nad yw'n wydr diogelwch yn risg sylweddol i gontractwyr sy'n gwneud gwaith, i syrfeyr ac i dresbaswyr. Gallir erlyn yr awdurdod petai modd profi y cafwyd niwed o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda safonau.	24							24			
Dysgu Gydol Oes	Addysg	34	Adnewyddu toiledau ysgolion	Mae archwiliad o doiledau ysgolion yn ystod 2013 wedi datgelu eu bod mewn cyflwr gwael ac ystyrir bod eu gwella'n flaenoriaeth uchel. Mewn rhai achosion, mae'r plant yn gwrthod defnyddio'r cyfleusterau hyn oherwydd nad ydynt yn lân.	66										66
Datblygiad Cynaliadwy	Adfywio Economaidd a Chymunedol	35	Porth Ymwelwyr Ynys Gybi	Mae Cngor Sir Ynys Môn, mewn partneriaeth gyda chydranddeiliaid allweddol wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol mewn twristiaeth gyda golwg ar "Transforming Holy Island into an iconic destination, that's befitting of its strategic location as a key international visitor Gateway to Wales and the UK". Mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu fel rhan o'r broses fideo ar gyfer 'Rhaglen Isadeiledd Twristiaeth Eiconig' sy'n cael ei harwain gan Croeso Cymru a'i chyllido o'r ERDF. Nod y prosiect yw gweithio ochr yn ochr â chrosiectau allweddol eraill yng Nghaerbybi sef V&P, HLF, a T4I.	1,050	1,600	1600	750		1,010					40
Dysgu Gydol Oes	Addysg	36	Rhagio Adnewyddu Bwyleri mewn Adeiladau Addysgol	Mae nifer o'r bwyleri mewn ysgolion yn nesau at ddiwedd eu hoes ymarferol ac mae angen gosod rhai newydd. Mae 249 o bwyleri i gyd yn yr ysgolion. Ar gyfartaledd, mae bwyler nodweddiadol yn parhau am oddeutu 30 o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu y dyld adnewyddu o leiaf 8 bwyler bob blwyddyn ar gost o rhwng x ac x gan ddblynnu ar faint y bwyler.	150	150	150	150	150						150
Datblygiad Cynaliadwy	Eiddo	37	Trwsio a Chynnal a Chadw Eiddo	Mae cyflwr adeiladau ar Ynys Môn yn dirywio bob blwyddyn oherwydd nad oes digon o arian cyfalaf i wneud gwaith trwsio hanfodol. Bellach, mae yn nifer o'r adeiladau doeau sy'n gollwng, ffenestri nad oes modd eu hagog neu sydd wedi cydru, tamprwydd a risgiau eraill i iechyd a diogelwch. Nod y fid hon yw rhoi sylw i'r holl diffygion mewn adeiladau nad ydynt yn rhai addysgi gan gynnwys canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, adeiladau gwasanaethau cymdeithasol, stadau diwydiannol ac eiddo a thir amrywiol.	200	200	200	200	200			200			

Cyfradrn	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Derbyniadau Cyfalaf (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu gyda Chefnogaeth (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Benthycu Ddefnyddio (£'000)	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 - Cyfraniad Refeniw o'r Gronfa Wrth Gefn Sydd Heb ei Defnyddio (Cyfalaf) (£'000)	
Dirprwy Brif Weithredwr	Trawsnewid	38	System Electronig ar gyfer Rheoli Perfformiad	Mae'r angen am system electronig newydd ar gyfer rheoli perfformiad wedi cael ei nodi fel rhan o'r gwaith gwella y mae angen wi wneud yn hunanasesiad corfforaethol y Cyngor (Ionawr 2015) ac mae wedi ei gynnwys hefyd fel rhan o ymateb yr UDA i asesiad corfforaethol SAC sydd ar y gweill. Mae'r system gyfredol ar gyfer rheoli perfformiad yn un bapur a yrrir gan swyddogion, mae'n draul ar amser ac ymhell o fod yn addas ar gyfer sefydliad modern sy'n gweithio'n gallach. Mae ymrwymiad statudol ar y Cyngor i gwrdd â disgyrddiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwelliant gan gyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau perfformiad erbyn dyddiadau cau statudol. .	125	25					125					
Datblygiad Cynaliadwy	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	39	Safle arfaethedig ar gyfer Cartrefi Modur a Charafanau Teithiol ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Caerdybi	Mae'r cynnig yn rhan o raglen barhaus i wella'r hyn yr ydym yn ei gynnig a'r cyfeusterau sydd ar gael i'r cyhoedd ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaerdybi y mae'r Cyngor yn berchen arno. Bydd y gwelliannau ar ôl eu cwmbhau yn darparu potensial ar gyfer cyllid refeniw ychwanegol a fydd o gymorth i sicrhau fod y Parc yn ariannu ei hun yn y dyfodol gan ddibynnu llai ar gyllid craidd y Cyngor.	50						50					
Dysgu Gydol Oes	Amgueddfeydd a Threfnadaeth	40	Gwaith hanfodol i Jêl a Llys Bwmares	Er mwyn denu asiantaeth allanol (e.e. menter gymdeithasol, elusen neu ymddiriedolaeth) i fabwysiadu a chymryd arni'r cyfrifoldeb o redeg y safleoedd hyn yn lle'r Cyngor, neu i ddefnyddio'r safleoedd i ddibenion gwahanol, rhaid i'r adeiladau fod mewn cyflwr digon da i gael eu hystyried fel cynhywchwr incwm twristiaeth hyfryd neu fel lleoliadau busnesau newydd hyfryd. Mae adroddiad manwl wedi cael ei gomisiynu i ddarparu manylion am gostau'r gwaith trwsio hanfodol yn Jêl a Llys Bwmares er mwyn sicrhau fod yr adeiladau'n cwrdd â'r safonau sylfaenol a ddisgwyllir gan unrhyw asiantaeth a fyddai'n eu cymryd drosodd.	232						232					
Dysgu Gydol Oes	Amgueddfeydd a Threfnadaeth	41	Gwaith hanfodol ym Melin Llannon	Y felin wynt yw'r unig un weithredol o'i math yng Nghymru, yn cynhyrchu blawd mál organig. Mae corff y felin yn adeilad rhestredig Graddfa II ac o'r herwydd mae angen gwneud gwaith i'r safonau cadwraeth uchaf. Ar hyn o bryd, y Cyngor sy'n gyfrifol am hyn. Er bod gwaith yn cael ei wneud ar y felin yn gysgon i'w chadw mewn cyflwr gweithio da, nid yw'r rendr ar y felin yn cwrdd â safonau cadwraeth sy'n achosi lledaeniad craciau a thamprrwydd ac oherwydd stormydd enbyd 2014, mae mwy o frys i'r gwaith. Bwriedir tynnu'r rendr presennol a rhoi rendr calch hydrolog naturiol hyblyg ac anadladwy yn ei lle a chael plastrwyr cadwraeth profffesiynol i'w blastru.	56							56				
Dirprwy Brif Weithredwr	ICT	42	Rheoli dyfeisiau symudol	Yn y papur hwn, cyflwynir yr achos am gyllid cyfalaf i weithredu meddalwedd 'Rheoli Dyfeisiau Symudol' a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor sicrhau'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithio symudol tra'n cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Diogelu Data a CoCo.	48						48					
Datblygiad Cynaliadwy	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	43	Cais Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi	Mae angen cyflwyno'r cais rownd gyntaf am gyllid i'r HLF erbyn 1 Mehefin 2016. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n ystyried faint o waith y mae angen ei wneud ar gyfer y cyflwyniad ac wedi mapio'r anghenion amlmellol. Rhwng rwan a'r cyfnod hwnnw, bydd angen cael cefnogaeth allanol i: 1) Nodi cydranddeiliaid newydd, yn enwedig o'r sector preifat megis gweithredwyr twristiaeth 2) Nodi meysydd allweddol o waith sy'n berthnasol 9 canlyniad y cynllun HLF fel y mae'n berthnasol i Ynys Gybi 3) Ail-lunio'r fid flaenorol er mwyn adeiladu ar y cryfderau a nodwyd ond rhoi sylw hefyd i'r gwendidau 4) Nodi'n glir y gwaith y mae angen ei wneud 5) Ymgysylltu gyda'r gymuned a chydanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn prynu i mewn er mwyn cwrdd ag anghenion HLF	10	10						10				
					3,958	3,785	3,750	2,900	2,150	1,010	2,948					

Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid Net gan CSYM 2016/17 (£'000)	
Cymuned	Tai - CRT		1	Trawsnewid yr UCA - 5 cerbyd	Nod y fid hon yw cael 5 o faniau newydd yn lle'r hen rai sydd ddim mwyach yn addas i'r pwrpas ac yn ddrrud i'w cynnal a'u cadw. I gyflawni'r weledigaeth, rhaid i'r UCA ddefnyddio cytundebau fframwaith cyfredol Rheolwr y Ffilyd.	80					80	
Cymuned	Tai - CRT		2	Gwaith Atgyweirio wedi ei gynllunio	Bydd y gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol a gynlluniwyd yn parhau i ffurfio sylfaen ein cynllun buddsoddi cyfalaif ar gyfer 2016-17 a'r tu draw i hynny. Bydd gwelliannau i gartrefi yn yr holl gynlluniau yn cynnwys ail-dol, defnyddio system rendr wedi ei inswleiddio, gosod ffenestr a drysau newydd lle mae hynny'n briodol, gwaith allanol gan gynnwys lwybrau, ffensys a waliau terfyn. Bydd rhai eiddo nad ydynt ar rwydwaith y prif gyflenwad nwy yn elwa o osod systemau PV solar.	5,404	5,492	4,160	4,223	4,229	2650	2,754
Cymuned	Tai - CRT		3	Datblygu tai cyngor ychwanegol	Mae'r cais hwn am gyllid yn 'Opsiwn Gwneud Rhywbeth' yn dilyn ein gallu drwy huanacharu'r cyfrif refeniw tai i ddarparu ychwaneg o dai fforddiadwy y mae gwir angen amdanant ar yr ymys a fydd yn gwella iechyd a lles cymunedau a'u ffrwynt economaidd.	5,669	2,184	2,242	2,331	1,622	5,669	
Cymuned	Tai - CRT		4	Ailfodelu Llawr y Dref, Llangedfni	Wedi ei adeiladu yn 1982, mae gan Llawr y Dref 51 o fflatiau un a dwy lofft gyda'r mwyafrif ohonynt mewn blociau dau neu dri llawr. Mae gweithgor mefrol wedi cael ei sefydlu i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer ailfodelu'r cynllun yn dilyn gwerthusiad opsiynau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan ymgynghorwyr allanol.	450					450	
Cymuned	Tai - CRT		5	Trawsnewid yr UCA - Offer	Nod y fid hon yw darparu offer newydd yn lle rhai offer sydd ddim yn addas i'r pwrpas ac yn anfeithiol i'w cynnal.	33					33	
					11,636	7,676	6,402	6,554	5,851	2,650	8,986	

Tudalen 54

refeniw

Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid net gan CSYM 2016/17 (£'000)
Datblygiad Cynaliadwy Dirprwy Brif Weithredwr	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd			Digiddeiddio gweddill y Ceisiadau Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu - Ffeiliau Papur Hanesyddol	Byddai'r Fid Gyfalaf yn cael ei defnyddio i dalu am ddiuideiddio'r ffeiliau sy'n weddill.	450					450
	Polisi			System Rheoli Polisiâu Corfforaethol	8	3	3	3	3		8
Datblygiad Cynaliadwy	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd			Cofnodi amser i flaenoriaethu gwaith sy'n denu ffi a gweithredu fel arbraf ar gyfer gwasanaethau eraill	Byddai'r fid gyfalaf yn cael ei defnyddio i gyllido'r sefydlu cychwynnol a chynnal yn flynyddol y System Cofnodi Amser SAGE ar gyfer ei defnyddio ar draws y Gwasanaeth.	14	6	6	6		14
					472	9	9	9	3	0	472

Removed

Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Disgrifiad Cryno	2016/17 Cost Blwyddyn (£'000)	2017/18 Cost Blwyddyn 2 (£'000)	2018/19 Cost Blwyddyn 3 (£'000)	2019/20 Cost Blwyddyn 4 (£'000)	2020/21 Cost Blwyddyn 5 (£'000)	Grant 2016/17	Cyllid net gan CSYM 2016/17 (£'000)
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion		Tai_gof	Cais yw hwn am gefnogaeth gyfalaf i gefnogi'n uniongyrchol y flaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu a symud ymlaen gyda chynlluniau gofal ychwanegol.	3,065	3,065				0	3,065
					3,065	3,065	0	0	0	0	3,065
					45,432	32,307	34,141	31,788	8,004	19,322	17,591

Cyfanswm

ATODIAD A(2)

		Pwysoliad		30		20		15		10		20		5		
				Meini Prawf Sgorio (pwyntiau a ddyfarnwyd o 0-10)												
Cyfadran	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi	Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi	Cyfraniad y prosiect tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol	Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru	Gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, lechyd, DDA er mwyn lliniaru her	Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael	Effaith ffafriol ar y gyllideb referio neu potensial o ran buddsoddi i arbed	Cadernid y gwaith Rheoli Prosiect	Cyfanswm				
Dysgu Gydol Oes	Addysg	1	Ysgollon yr 21ain Ganrif - Caerdybi													
Dysgu Gydol Oes	Addysg	2	Ysgollon yr 21ain Ganrif - Y Llannau													
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	3	Tai Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys	A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Datblygu a sefydlu mewn cydweithrediad gyda phartneriaid, dda o gynlluniau tai gofal ychwanegol yng ngogledd a chanol yr Ynys gan gynllunio cynllun pellach yn y de ar gyfer pobl mewn na fedrant aros yn eu cartrefi.	300	140	75	100	200		50	865			
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	4	Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll	A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Datblygu darpariaeth o wasanaethau a rheolaeth ar y cyd yn arbennig o ran dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chefnogaeth ar gyfer gofawyr er mwyn cydlun'u well y ddarpariaeth a hynny mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Lechyd.	300	140	150	0	100		50	740			
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffydd	5	Prifffydd newydd ar gyfer Wylfa Newydd	B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi	Gweithio gyda phartneriaid i wella'r rhwydwaith prifffydd drwy ailwynebu, trin yr arwynebedd gan buddsoddi mewn agweddau eraill o'r isadeiledd gan gynnwys uwchraddio 12 milltir o'r A5025 rhwng y Fall a Wylfa	300	200	0	100	50		50	700			
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffydd	6	Cerbydau Newydd	Dim	Dim yn cwrdd â Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol ond mae'n hanfodol ar gyfer darparu nifer o wasanaethau.	300	200	150	0	0		50	700			
Cymuned	Tai - Y Gronfa Gyffredinol	7	Grant Cyfleusterau yr Anabl	D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Todi	Work with partners to modernise and co-ordinate the benefits advice service so as to improve independence	300	0	150	0	200		40	690			
Dysgu Gydol Oes	Addysg	8	Ysgollon yr 21ain Ganrif - Parc y Bont	C - Gwella Addysg, Sgillau a Moderneiddio ein Hysgollon	Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgollon i arwain penderfyniadau tymor hir.	300	100	30	50	140		50	670			
Cymuned	Gwasanaethau Oedolion	9	Gweithredu CCIS	G - Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu	Sicrhau bod gwasanaethau'n defnyddio technoleg yn ehangach er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.	300	100	150	60	0		50	660			
Dysgu Gydol Oes	Addysg	10	Ysgollon y 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw	C - Gwella Addysg, Sgillau a Moderneiddio ein Hysgollon	Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgollon i arwain penderfyniadau tymor hir.	300	90	30	50	140		50	660			
Dysgu Gydol Oes	Addysg	11	Ysgollon y 21ain Ganrif - Bro Seiriol	C - Gwella Addysg, Sgillau a Moderneiddio ein Hysgollon	Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgollon i arwain penderfyniadau tymor hir.	300	80	30	50	140		50	650			
Datblygiad Cynaliadwy	Prifffydd	12	Lliniaru Llifogydd ym Mwymmar	B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi and Developing the Economy	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gyflwynu gallu'r economi leol i fod yn gystadleuol a chefnogi cwmnïau lleol.	300	140	0	85	100		25	650			
Cymuned	Tai - Cronfa Gyffredinol	13	Datblygu safle preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Todi		300	150	150	0	0		35	635			

		Pwysoliad		30		20		15		10		20		5	
				Meini Prawf Sgorio (pwyntiau a ddyfarnwyd o 0-10)											
Cyfradrn	Adran	Ranc wedi ei Bwysoli	Cynllun Arfaethedig	Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrrdd â hi	Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrrdd â hi	Cyfraniad y prosiect tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol	Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru	Gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru her	Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael	Effaith ffatriol ar y gyllideb refereniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed	Cadernid y gwaith Rheoli Prosiect	Cyfanswm			
Dysgu Gydol Oes	Addysg	14	Gostwng Risgiau Tân yn adeiladau'r Cyngor	C - Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio Ysgollon	Parhau godi safonau a lefelau cyrhaeddiad mewn Addysg 1	240	200	150	0	0	30	620			
Datblygiad Cynaliadwy	Priffyrdd	15	County Prudential Borrowing Initiative (Road Surfacing)	B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi	Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn y cyfyngiadau isadeiledd er mwyn buddsoddi mewn datblygiadau a chreu swyddi.	120	200	100	0	150	50	620			
- i ddefnyddio'r swm angenrheidiol o'r dyraniad benthyca gyda chefnogaeth cyffredinol sydd ar gael o £2.189m (£2.189m yn 2014/15) ynghyd ag unrhyw ddyraniad y flwyddyn gyfredol sydd heb ei ddefnyddio;
- i fenthyca, ar sail ddi-gefnogaeth, i gyllido blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf, gan gysylltu i mewn i'r amcanion trawsnewid.

11. Argymhellion

11.1 I ystyried cynnwys yr adroddiad a'i gyfeirio i gyfarfod nesaf y Cyngor Sir ynghyd ag unrhyw sylwadau.

11.2 Cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio i'w adolygu a rhoi atborth i'r Pwyllgor Gwaith.

Perfformiad Economaidd hyd yma a'r rhagolygiad/ Economic performance to date and outlook**1. U.K.**

UK GDP growth rates in 2013 of 2.2% and 2.9% in 2014 were the strongest growth rates of any G7 country; the 2014 growth rate was also the strongest UK rate since 2006 and the 2015 growth rate is likely to be a leading rate in the G7 again, possibly being equal to that of the US. However, quarter 1 of 2015 was weak at +0.4% though there was a rebound in quarter 2 to +0.7%. The Bank of England's August Inflation Report included a forecast for growth to remain around 2.4 – 2.8% over the next three years. However, the subsequent forward looking Purchasing Manager's Index, (PMI), surveys in both September and early October for the services and manufacturing sectors showed a marked slowdown in the likely future overall rate of GDP growth to about +0.3% in quarter 4 from +0.5% in quarter 3. This is not too surprising given the appreciation of Sterling against the Euro and weak growth in the EU, China and emerging markets creating headwinds for UK exporters. Also, falls in business and consumer confidence in September, due to an increase in concerns for the economic outlook, could also contribute to a dampening of growth through weakening investment and consumer expenditure. For this recovery to become more balanced and sustainable in the longer term, the recovery still needs to move away from dependence on consumer expenditure and the housing market to manufacturing and investment expenditure. The strong growth since 2012 has resulted in unemployment falling quickly over the last few years although it has now ticked up recently after the Chancellor announced in July significant increases planned in the minimum (living) wage over the course of this Parliament.

The MPC has been particularly concerned that the squeeze on the disposable incomes of consumers should be reversed by wage inflation rising back above the level of inflation in order to ensure that the recovery will be sustainable. It has therefore been encouraging in 2015 to see wage inflation rising significantly above CPI inflation which slipped back to zero in June and again in August. However, with the price of oil taking a fresh downward direction and Iran expected to soon rejoin the world oil market after the impending lifting of sanctions, there could be several more months of low inflation still to come, especially as world commodity prices have generally been depressed by the Chinese economic downturn. The August Bank of England Inflation Report forecast was notably subdued with inflation barely getting back up to the 2% target within the 2-3 year time horizon. Despite average weekly earnings ticking up to 2.9% y/y in the three months ending in July, (as announced in mid-September), this was unlikely to provide ammunition for the MPC to take action to raise Bank Rate soon as labour productivity growth meant that net labour unit costs appeared to be only rising by about 1% y/y. However, at the start of October, statistics came out that annual labour cost growth had actually jumped sharply in quarter 2 from +0.3% to +2.2%: time will tell if this is just a blip or the start of a trend.

There are therefore considerable risks around whether inflation will rise in the near future as strongly and as quickly as previously expected; this will make it more difficult for the central banks of both the US and the UK to raise rates as soon as had previously been expected, especially given the recent major concerns around the slowdown in Chinese growth, the knock on impact on the earnings of emerging countries from falling oil and commodity prices, and the volatility we have seen in equity and bond markets in 2015 so far, which could potentially spill over to impact the real economies rather than just financial markets. On the other hand, there are also concerns around the fact that the central banks of the UK and US have few monetary policy options left to them given that central rates are near to zero and huge QE is already in place. There are therefore arguments that they need to raise rates sooner, rather than later, so as to have ammunition to use if there was a sudden second major financial crisis. But it is hardly likely that they would raise rates until they are sure that growth was securely embedded and 'noflation' was not a significant threat.

The forecast for the first increase in Bank Rate has therefore progressively been pushed back during 2015 from Q4 2015 to Q2 2016 and increases after that will be at a much slower pace, and to much lower levels than prevailed before 2008, as increases in Bank Rate will have a much bigger effect on heavily indebted consumers than they did before 2008.

The Government's revised Budget in July eased the pace of cut backs from achieving a budget surplus in 2018/19 to achieving that in 2019/20.

2. U.S.

GDP growth in 2014 of 2.4% was followed by first quarter 2015 growth depressed by exceptionally bad winter weather at only +0.6% (annualised). However, growth rebounded very strongly in Q2 to 3.9% (annualised) and strong growth was initially expected going forward. Until the turmoil in financial markets in August caused by fears about the slowdown in Chinese growth, it had been strongly expected that the Fed. might start to increase rates in September. However, the Fed pulled back from that first increase due to global risks which might depress US growth and put downward pressure on inflation, and due to a 20% appreciation of the dollar which has caused the Fed to lower its growth forecasts. Since then the nonfarm payrolls figures for September and revised August, issued on 2 October, were disappointingly weak and confirmed concerns that US growth is likely to significantly weaken. This has pushed back expectations of the first rate increase from 2015 into 2016.

3. Eurozone

The ECB fired its big bazooka by announcing a massive €1.1 trillion programme of quantitative easing in January 2015 to buy up high credit quality government debt of selected EZ countries. This programme started in March and will run to September 2016. This seems to have already had a beneficial impact in improving confidence and sentiment. There has also been a continuing trend of marginal increases in the GDP growth rate which hit 0.4% in quarter 1 2015 (1.0% y/y) and +0.4%, (1.5% y/y) in Q2 GDP. The ECB has also stated it would extend its QE programme if inflation failed to return to its target of 2% within this initial time period.

Greece. During July, Greece finally capitulated to EU demands to implement a major programme of austerity and is now cooperating fully with EU demands. An €86bn third bailout package has since been agreed though it did nothing to address the unsupportable size of total debt compared to GDP. However, huge damage has been done to the Greek banking system and economy by the resistance of the Syriza Government, elected in January, to EU demands. The surprise general election in September gave the Syriza government a mandate to stay in power to implement austerity measures. However, there are major doubts as to whether the size of cuts and degree of reforms required can be fully implemented and so Greek exit from the euro may only have been delayed by this latest bailout.

4. China and Japan

Japan is causing considerable concern as the increase in sales tax in April 2014 has suppressed consumer expenditure and growth. In Q2 2015 growth was -1.6% (annualised) after a short burst of strong growth of 4.5% in Q1. During 2015, Japan has been hit hard by the downturn in China. This does not bode well for Japan as the Abe government has already fired its first two arrows to try to stimulate recovery and a rise in inflation from near zero, but has dithered about firing the third, deregulation of protected and inefficient areas of the economy, due to political lobbies which have traditionally been supporters of Abe's party.

As for China, the Government has been very active during 2015 in implementing several stimulus measures to try to ensure the economy hits the growth target of 7% for the current year and to bring some stability after the major fall in the onshore Chinese stock market. Many commentators are concerned that recent growth figures around that figure, could have been massaged to hide a downturn to a lower growth figure. There are also major concerns as to the creditworthiness of much bank lending to corporates and local government during the post 2008 credit expansion period and whether the bursting of a bubble in housing prices is drawing nearer. Overall, China is still expected to achieve a growth figure that the EU would be envious of. However, concerns about whether the Chinese cooling of the economy could be heading for a hard landing, and the volatility of the Chinese stock market, have caused major volatility in financial markets in August and September such that confidence is, at best, fragile.

5. Emerging countries

There are considerable concerns about the vulnerability of some emerging countries and their corporates which are getting caught in a perfect storm. Having borrowed massively in western currency denominated debt since the financial crisis, caused by western investors searching for yield by channeling investment cash away from western economies with dismal growth, depressed bond yields (due to QE), and near zero interest rates, into emerging countries, there is now a strong current flowing to reverse that flow back to those western economies with strong growth and an imminent rise in interest rates and bond yields. This change in investors' strategy and the massive reverse cash flow, has depressed emerging country currencies and, together with a rise in expectations of a start to central interest rate increases in the US and UK, has helped to cause the dollar and sterling to appreciate. In turn, this has made it much more costly for emerging countries to service their western currency denominated debt at a time when their earnings from commodities are depressed. There are also going to be major issues when previously borrowed debt comes to maturity and requires refinancing at much more expensive rates, if available at all.

Corporates (worldwide) heavily involved in mineral extraction and / or the commodities market may also be at risk and this could also cause volatility in equities and safe haven flows to bonds. Financial markets may also be buffeted by sovereign wealth funds of countries highly exposed to falls in commodity prices which, therefore, may have to liquidate investments in order to cover national budget deficits.

Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset Services

Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog/ Commentary on the latest interest rates forecasts

The Councils treasury advisors undertook its last review of interest rate forecasts on 11 August shortly after the quarterly Bank of England Inflation Report. Later in August, fears around the slowdown in China and Japan caused major volatility in equities and bonds and sparked a flight from equities into safe havens like gilts and so caused PWLB rates to fall below the above forecasts for quarter 4 2015. However, there is much volatility in rates as news ebbs and flows in negative or positive ways and news in September in respect of Volkswagen, and other corporates, has compounded downward pressure on equity prices. This latest forecast includes a first increase in Bank Rate in quarter 2 of 2016.

Despite market turbulence since late August causing a sharp downturn in PWLB rates, the overall trend in the longer term will be for gilt yields and PWLB rates to rise when economic recovery is firmly established accompanied by rising inflation and consequent increases in Bank Rate, and the eventual unwinding of QE. Increasing investor confidence in eventual world economic recovery is also likely to compound this effect as recovery will encourage investors to switch from bonds to equities.

The overall balance of risks to economic recovery in the UK is currently evenly balanced. Only time will tell just how long this current period of strong economic growth will last; it also remains exposed to vulnerabilities in a number of key areas.

The disappointing US nonfarm payrolls figures and UK PMI services figures at the beginning of October have served to reinforce a trend of increasing concerns that growth is likely to be significantly weaker than had previously been expected. This, therefore, has markedly increased concerns, both in the US and UK, that growth is only being achieved by monetary policy being highly aggressive with central rates at near zero and huge QE in place. In turn, this is also causing an increasing debate as to how realistic it will be for central banks to start on reversing such aggressive monetary policy until such time as strong growth rates are more firmly established and confidence increases that inflation is going to get back to around 2% within a 2-3 year time horizon. Market expectations in October for the first Bank Rate increase have therefore shifted back sharply into the second half of 2016.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:-

- Geopolitical risks in Eastern Europe, the Middle East and Asia, increasing safe haven flows;
- UK economic growth turns significantly weaker than we currently anticipate;
- Weak growth or recession in the UK's main trading partners - the EU, US and China;
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis;
- Recapitalisation of European banks requiring more government financial support;
- Emerging country economies, currencies and corporates destabilised by falling commodity prices and / or the start of Fed. rate increases, causing a flight to safe havens.

The potential for upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates, especially for longer term PWLB rates include:-

- Uncertainty around the risk of a UK exit from the EU;
- The ECB severely disappointing financial markets with a programme of asset purchases which proves insufficient to significantly stimulate growth in the EZ;
- The commencement by the US Federal Reserve of increases in the Fed. funds rate causing a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds as opposed to equities and leading to a major flight from bonds to equities;
- UK inflation returning to significantly higher levels than in the wider EU and US, causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset Services

Crynodeb Benthycyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2015/16
Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2015/16

	30 Medi / Sept 2015		30 Mehefin / June 2015	
	£m	% (paid on borrowing and received on investment)	£m	% (paid on borrowing and received on investment)
Benthycyca – graddfa sefydlog Borrowing – fixed rate	110.7	5.42	110.7	5.42
Benthycyca – graddfa amrywiol Borrowing – variable rate	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod Deposits – Call to 30 days	21.0	0.36	25.0	0.34
Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl. Deposits – Fixed Term < 1 year	5.0	0.5	0.0	nil
Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. + Deposits – Fixed Term 1 year +	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Cyfanswm Adneuon Total Deposits	26.0	0.38	25.0	0.34
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Highest Deposits in the Quarter	33.4	d/b / n/a	32.0	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Lowest Deposits in the Quarter	25.5	d/b / n/a	11.0	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Average Deposits in the Quarter	28.0	0.34	26.5	0.34

Ni thorwyd unrhyw un o'r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

APPENDIX 5

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuron a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2015*
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2015***

Tudalen 118


Grŵp Bancio/ Banking Group	Sefydliad/ Institution	Adneuron / Deposit £'000	Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**)	Cyfnod (O/I)/ Period (From / To)	Graddfa Dychweliad/ Rate of Return %	Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating	Lliw Sector/ Hyd Awgrymedig/ Sector Colour / Suggested Duration
Lloyds Banking Group plc	Bank of Scotland plc	7,488	Galw/ Call	n/a	0.40	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch - 6 mis/ Red - 6 months
HSBC Holdings plc	HSBC Bank plc	500	Galw/ Call	n/a	0.25	AA-	F1+	Aa2	P-1	AA-	A-1+	Oren - 12 mis / Orange - 12months
Santander Group plc	Santander UK plc	7,198	Galw/ Call	n/a	0.40	A	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch - 6 mis/ Red - 6 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	The Royal Bank of Scotland plc	5,789	Galw/ Call	n/a	0.25	BBB+	F2	A3	P-2	BBB+	A-2	Glas - 12 mis / Blue - 12 months
Nationwide Building Society	Nationwide Building Society	5,000	Fixed Term	18/08/2015 – 17/11/2015	0.50	A	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch - 6 mis/ Red - 6 months

* Ceir y Rhestr Benthycu Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2015/16 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

- Yn Atodiad 5 ceir y graddfeydd credyd cyfatebol ar gyfer y 3 asiantaeth graddio y cyfeirir atynt uchod./The equivalent credit ratings for the 3 rating agencies referred to above can be found at Appendix 6.

Graddfeydd Credyd Cyfatebol/
Equivalent Credit Ratings (Fitch, Moodys, S&P)



1. This comparison highlights the differences and similarities in the use of nomenclature between the rating agencies
2. The lines linking the short-term and long-term indicate normal (although not absolute) relationships between the two rating scales at each agency

**CRYNODEB O'R BENTHYCIADAU A GYMERWYD AR GYFER Y SETLIAD CRT
SUMMARY OF THE LOANS TAKEN OUT TO FUND THE HRA SETTLEMENT**

Date of Loan	Maturity Date	Interest Rate %	Amount (£)
02/04/2015	01/04/2026	3.67	527,601.00
02/04/2015	01/04/2027	3.73	490,601.00
02/04/2015	01/04/2028	3.80	262,440.00
02/04/2015	01/04/2029	3.85	684,697.00
02/04/2015	01/04/2030	3.91	450,706.00
02/04/2015	01/04/2031	3.96	660,449.00
02/04/2015	01/04/2032	4.01	314,886.00
02/04/2015	01/04/2033	4.05	636,565.00
02/04/2015	01/04/2034	4.09	623,834.00
02/04/2015	01/04/2035	4.13	611,357.00
02/04/2015	01/04/2036	4.16	599,130.00
02/04/2015	01/04/2037	4.18	587,147.00
02/04/2015	01/04/2038	4.20	225,467.00
02/04/2015	01/04/2042	4.25	999,781.00
02/04/2015	01/04/2043	4.25	1,020,120.00
02/04/2015	01/04/2044	4.25	1,009,718.00
02/04/2015	01/04/2045	4.25	11,464,215.00
			<u>21,168,714.00</u>

Approved countries for investments

Based upon lowest available sovereign credit rating

AAA

- Australia
- Canada
- Denmark
- Germany
- Luxembourg
- Norway
- Singapore
- Sweden
- Switzerland

AA+

- Finland
- Hong Kong
- Netherlands
- U.K.
- U.S.A.

AA

- Abu Dhabi (UAE)
- Qatar

AA-

- Belgium
- France
- Saudi Arabia

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	Y CYNGOR SIR
DYDDIAD:	10 MAWRTH 2016
TESTUN:	PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR: ANHEDDAU GWAG HIRDYMOR AC ANHEDDAU A FEDDIANNIR YN ACHLYSUROL (A ELWIR FEL RHEOL YN AIL GARTREFI)
SWYDDOG/SWYDDOGION ARWEINIOL	MARC JONES PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/(SWYDDOG ADRAN 151)
SWYDDOG CYSWLLT	GERAINT JONES RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU (EST. 2651)
GWEITHREDU:	1. Penderfynu a ddylid codi premiymau'r Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel rheol yn ail gartrefi) o 1 Ebrill 2017; ac 2. Os penderfynir gwneud hynny, penderfynu ar lefel canran premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel rheol yn ail gartrefi) o 1 Ebrill 2017.

1. Pwrpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn egluro'r gofyniad ar Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio ei ardal, i benderfynu a ddylid codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi erbyn 31 Mawrth 2016 fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2017.

2. Gwybodaeth Gefndirol

- 2.1** Gwnaethpwyd newidiadau deddfwriaethol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") sy'n rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol mewn perthynas â chodi premiwm ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau). Bu i Ddeddf 2014 ddiwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") drwy fewnosod adrannau 12A a 12B newydd er mwyn galluogi awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiateir i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiannir yn achlysurol ac i gymhwyso mwy o'r dreth gyngor (premiwm).
- 2.2** Polisi presennol y Cyngor Llawn yw peidio â chaniatáu unrhyw ddisgownt i berchnogion eiddo gwag hirdymor h.y. gwag a heb ei ddodrefnu'n sylweddol am 6 mis neu fwy, ac i berchnogion ail gartrefi h.y. eiddo sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol nad yw'n brif neu'n unig gartref i'r perchennog. Ar hyn o bryd, mae perchnogion anheddau gwag hirdymor a pherchnogion ail gartrefi yn atebol i dalu 100% o'r Dreth Gyngor (h.y. y gyfradd safonol).
- 2.3** Nawr bydd gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm y mae'n dymuno ei gymhwyso i'r anheddau hyn, o 0% i uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor. Gall awdurdod bilio wneud, amrywio neu ddiwygio penderfyniad a wneir o dan adrannau 12A a 12B Deddf 1992, ond dim ond cyn cychwyn y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad hwnnw'n gymwys iddi. Fodd bynnag, yn achos ail gartrefi, **mae'n RHAIID i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad cyntaf o dan adran 12B o leiaf un flwyddyn cyn cychwyn y flwyddyn ariannol** y mae'r premiwm yn gymwys iddi. Mae hyn yn golygu, er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017, mae'n rhaid i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad ynglŷn ag ail gartrefi cyn 1 Ebrill 2016. Nid yw'r un gofyniad yn gymwys i eiddo gwag hirdymor, ond nid oes dim i rwystro penderfyniad ynglŷn ag anheddau gwag hirdymor rhag cael ei wneud ar yr un adeg.

- 2.4** Diffinnir **annedd gwag hirdymor** (at ddibenion premiwm y Dreth Gyngor) fel annedd sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol na feddiannir am gyfnod parhaus **o flwyddyn o leiaf**. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, ni fyddir yn ystyried unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, gall bennu canrannau gwahanol (hyd at uchafswm o 100%) ar gyfer gwahanol anheddau yn seiliedig ar hyd y cyfnodau y bu iddynt fod yn wag. Bydd hyn yn galluogi dull fesul cam gyda chodiadau cynnydd graddol dros gyfnod o amser..
- 2.5** Diffinnir **ail gartref** fel annedd sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol nad yw'n brif neu'n unig gartref i'r perchennog. Mae Deddf 1992 yn cyfeirio atynt fel anheddau a feddiannir yn achlysurol.
- 2.6** Amcan Llywodraeth Cymru wrth roi'r disgresiwn i awdurdodau lleol godi premiwm, yn ychwanegol at y gyfradd safonol, oedd i hynny fod yn fodd i helpu awdurdodau lleol i:-
- Sicrhau bod tai sy'n wag am gyfnodau hir yn cael eu defnyddio eto er mwyn darparu tai diogel, saff a fforddiadwy; a
 - Chefnogi awdurdodau lleol mewn perthynas â chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.
- 2.7** Wrth ystyried codi premiwm neu beidio, bydd yr amcanion hyn yn cael eu hystyried yn ogystal ag anghenion tai a'r amgylchiadau yn ardal yr awdurdod. Mae'r ffactorau fydd yn helpu awdurdod lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm neu beidio yn cynnwys -
- nifer a chanrannau'r anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yn ei ardal;
 - gwasgariad anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill yn yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werth eiddo mewn ardaloedd penodol;
 - effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;
 - patrymau'r galw am dai fforddiadwy a'u hargaeledd;
 - effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
 - mesurau eraill sydd ar gael i'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r cyflenwad tai a defnyddio eiddo gwag unwaith eto.
- 2.8** Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio eu pwerau o dan Ddeddf 1992 i lunio rheoliadau er mwyn rhagnodi un neu ragor o ddsbarthiadau o anheddau na all awdurdod bilio benderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor arnynt. Mae'r rhain yn gynwysedig yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch Cymru) 2015, ac fe'u rhestrir yn **Atodiad 1**.
- 2.9** Hefyd, ni ellir codi premiymau'r Dreth Gyngor ar annedd nad yw'r dreth gyngor yn gymwys iddo o dan Orchymyn y dreth gyngor (Anheddau wedi'u Heithrio) 1992. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 2**.
- 2.10** Ni ellir codi premiwm ar anheddau ble mae meddiannu drwy gydol y flwyddyn yn cael ei wahardd (gweler Dosbarth 6 yn Atodiad 1). Mae hyn yn golygu bod anheddau a hysbysebiri eu bod ar gael i'w gosod ar gyfer gwyliau am 140 diwrnod y flwyddyn, a'r perchnogion yn gallu darparu tystiolaeth eu bod yn cael eu gosod am 70 o ddyddiau'r flwyddyn neu ragor, yn gymwys i dalu cyfraddau busnes yn hytrach na'r Dreth Gyngor domestig. Mae yna 292 o anheddau o'r fath wedi'u dosbarthu fel busnesau yn ardal y Cyngor ar hyn o bryd ac ni fydd y newidiadau mewn perthynas â phremiymau'r Dreth Gyngor yn effeithio arnynt.
- 2.11** Mae gan y Cyngor Llawn, fel awdurdod bilio, o dan adran 13A Deddf 1992, bwerau dewisol i ostwng atebolrwydd y dreth gyngor i'r graddau y mae'n ystyried sy'n addas. Gellir defnyddio'r pŵer dewisol hwn mewn achosion penodol neu drwy benderfynu ar ddsbarth neu achos. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i ostwng atebolrwydd y dreth gyngor mewn amgylchiadau pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu newid premiwm. Mae enghreifftiau o bryd y gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:-

- pan fo rhesymau pam na ellir byw mewn annedd;
- pan fo rhesymau pam na ellir gwerthu neu osod annedd;
- pan fo cynnig wedi cael ei dderbyn am annedd ond nad yw'r gwerthiant wedi'i gwblhau a bod y cyfnod eithrio wedi dod i ben;
- pan allai newid premiwm achosi caledi.

2.12 Mae sut y defnyddir y pwerau a ganiateir o dan adran 13A yn fater i'r awdurdod lleol, ond er mwy tegwch a thryloywder, dylid sicrhau polisi clir mewn perthynas ag a ddylid defnyddio'r pwerau hyn neu beidio, a sut. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried pob achos yn ôl teilyngdod, gan ystyried amgylchiadau pob achos.

2.13 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys yr etholwyr lleol, cyn penderfynu codi'r naill breimiwm neu'r llall, neu'r ddau. Oherwydd bod yr amserlen yn dynn rhwng llunio a chyhoeddi'r canllawiau statudol ym mis Rhagfyr 2015 a'r rheoliadau eithrio a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2016 a'r angen i benderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor neu beidio ar ail gartrefi erbyn 31 Mawrth 2016, mae'r ymgynghori wedi cael ei docio i gyfnod rhwng 16 Chwefror 2016 a 4 Mawrth 2016.

2.14 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal cyfres o ymgynghoriadau mewn perthynas â rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol yng Nghymru godi treth gyngor ychwanegol ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac ystyriwyd y rhain wrth iddynt gwblhau eu polisi. Y rhain oedd:-

- Y Dreth Gyngor a Chartrefi Gwag Hirdymor yng Nghymru: 31 Gorffennaf 2012 – 30 Hydref 2012;
- Ymgynghoriad ar Bwerau Dewisol i awdurdodau lleol gynyddu'r dreth gyngor ar Ail Gartrefi: 16 Medi 2013 – 28 Hydref 2013;
- Eithriadau i Breimiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi yng Nghymru: 13 Mawrth 2015 - 13 Mehefin 2015;
- Eithriadau i Breimiwm y Dreth Gyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor yng Nghymru: 13 Mawrth 2015 – 13 Mehefin 2015;
- Ymgynghoriad technegol ar reoliadau'r dreth gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch Cymru) 2015: 16 Hydref 2015 – 13 Tachwedd 2015.

2.15 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac fe'i cyflwynwyd i'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus i'w ystyried ynghyd â'r bil drafft a'r rheoliadau.

2.16 Petai'r Cyngor Llawn yn penderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, mae'n ofynnol iddo gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod yn dilyn ei benderfyniad. Yna dylai ystyried sut mae ei benderfyniad yn cael ei gyfathrebu yn ehangach, yn arbennig i'r rhai yr effeithir arnynt ac sydd fel arfer yn byw y tu allan i'r ardal leol.

3. Y prif faterion ynglŷn â phenderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor neu beidio a lefel y Ganran i'w chymhwyso

3.1 Erbyn 31 Mawrth 2016, bydd angen i'r Cyngor Llawn benderfynu a ddylid codi premiwm y Dreth Gyngor neu beidio ar ail gartrefi a phenderfynu ar lefel y ganran y mae'n dymuno ei chymhwyso o 1 Ebrill 2017. Ar yr un adeg, gall y Cyngor Llawn benderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor, ac ar lefel y ganran y mae'n dymuno ei chymhwyso o 1 Ebrill 2017. Wrth benderfynu a ddylid codi premiwm neu beidio, ac fel y crybwyllwyd eisoes, mae angen iddo ystyried amcanion Llywodraeth Cymru wrth ddarparu pwerau dewisol i awdurdodau lleol yng Nghymru a ffactorau perthnasol hefyd.

3.2 Prif amcan Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newid premiwm y Dreth Gyngor oedd cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy. Mae hwn yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol. Gall anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi leihau nifer y tai sydd ar gael i bobl leol.

- 3.3** Mewn perthynas ag Ynys Môn, dangosodd cyfrifiad 2011 nad oedd neb yn preswyllo fel arfer mewn 10.5% o dai'r Ynys. Roedd hyn yn amrywio o 1.8% yn Ward Ffordd Llundain yng Nghaerdybi i 42.7% o'r cartrefi yn Rhosneigr, oedd naill ai'n wag neu'n ail gartrefi (gweler **Atodiad 3** i gael rhagor o fanylion). Mae hyn yn gosod yr Ynys ymysg y 10 ardal awdurdod lleol uchaf yng Nghymru a Lloegr sydd â'r canrannau uchaf o gartrefi nad oes neb yn preswyllo ynddynt fel arfer.
- 3.4** Mae cofnodion presennol y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yn adlewyrchu data Cyfrifiad 2011 mewn perthynas â gwasgariad eiddo o'r fath. Mae nifer uwch o ail gartrefi yn tueddu i fod mewn aneddiadau arfordirol ble ceir prinder tai fforddiadwy yn aml, ac mae yna nifer uwch o anheddau gwag hirdymor ym mhrif drefi'r Ynys. Mae hyn yn effeithio ar nifer y tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hyn ac yn gyffredinol ar yr Ynys (gweler **Atodiadau 4a a 4b** i gael mwy o fanylion mewn perthynas â chofnodion presennol y Dreth Gyngor).
- 3.5** Hefyd, mae cofnodion presennol y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yn dangos gwasgariad eiddo o'r fath yn unol â'u bandiau Treth Cyngor. (gweler **Atodiad 5**)
- 3.6** Yn seiliedig ar gofnodion presennol y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi, y refeniw ychwanegol fydd yn cael ei greu, yn ddibynol ar y premiwm a godir, fydd £730k ar breimiwm o 25% hyd at £3m ar breimiwm o 100%. (gweler **Atodiad 6**). Mae'n rhaid pwylllo ychydig wrth ystyried y ffigyrau hyn. Gwnaethpwyd addasiad gostyngiad net o 30% ar yr incwm posibl y gellir ei greu, er mwyn ystyried eithriadau posibl o dan y rheoliadau, ac ystyried diffyg cydnerthedd a chywirdeb cronfa ddata'r Dreth Gyngor hefyd.
- 3.7** Bu i Gronfa Ddata Tai Gwag Gwasanaethau Tai ar 1 Ebrill 2015 nodi bod yna 863 o dai gwag ar yr Ynys, a bod 80% ohonynt yn wag am 12 mis neu ragor. Mae 35% o'r eiddo gwag hirdymor ar yr Ynys wedi bod yn wag am dros 4 blynedd. Efallai bod cyflwr y cyfryw eiddo wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd, gan effeithio o bosibl ar eiddo cyfagos a gwerth eiddo. (gweler **Atodiad 7**)
- 3.8** Er mwyn gallu codi premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor, mae'n rhaid i'r annedd fod yn wag am 12 mis neu ragor (oni bai y'i heithrir) o 1 Ebrill 2016 - nid yw cyfnodau blaenorol yn cael eu cyfrif. Petai'r Cyngor Llawn yn penderfynu defnyddio ei bwerau dewisol i bennu gwahanol ganrannau ar gyfer gwahanol anheddau gwag hirdymor yn seiliedig ar hyd amser, bydd y rhain yn cael eu mesur o 1 Ebrill 2016 e.e. petai'r Cyngor Llawn yn penderfynu codi premiwm o 100% ar y Dreth Gyngor pan fo'r eiddo wedi bod yn wag am 4 blynedd neu ragor - byddai hynny ond yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. A fydd dull fesul cam o'r fath, gyda chodiadau cynnydd graddol yn cael eu cymhwyso gydag amser, yn ffordd lwyddiannus o sicrhau bod eiddo o'r fath yn cael eu defnyddio eto?
- 3.9** **Sut fydd codi premiwm y Dreth Gyngor yn ychwanegol at y dreth gyngor safonol ar annedd ar yr Ynys yn ei gymharu â'r dreth gyngor sy'n daladwy gan berchnogion y mae eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa yn rhywle arall?** Y Dreth Gyngor Band D gyfartalog a bennir gan awdurdodau lleol (yn cynnwys plwyfi) yn Lloegr ar gyfer 2016/16 yw £1,484; £164 ar gyfer comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a £68 ar gyfer awdurdodau Tân ac Achub, sy'n rhoi cyfanswm cyfartalog o **£1,716** ar gyfer Band D (yn achos Manceinion Fwyaf y Band D cyfartalog yw £1,694 ac yn achos Glannau Mersi, y Band D cyfartalog yw £1,759). Y Band D Cyfartalog ar gyfer yr Ynys yn 2015/16 oedd **£1,296** (£1,327 yn achos Cymru) yn cynnwys comisiynydd yr Heddlu a throsedd a chynghorau tref/cymuned.
- 3.10** A fydd raid ystyried yr amrywiadau hyn wrth benderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor neu beidio, ac os bydd, pa lefel canran a ddylid ei gymhwyso? Sut fydd hyn yn effeithio ar berchnogion anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi ar yr Ynys o ran sut maent yn trin eu heiddo e.e. newid defnydd i fod yn dai gosod ar gyfer gwyliau, gwerthu/rhentuo eiddo, neu ddim effaith o gwbl?

- 3.11 Sut mae anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cael eu trin yn yr Alban a Lloegr mewn perthynas â disgowntiau a phreimiymau?** Yn Lloegr, gall awdurdodau ostwng y disgownt safonol ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi o 50% i 0%. Mae gan awdurdodau yn Lloegr y pŵer i gynyddu'r dreth gyngor ar eiddo sydd wedi "bod yn wag ac sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol" am dros 2 flynedd. Yna gall awdurdodau yn Lloegr godi hyd at uchafswm premiwm o 50% ar y Dreth Gyngor safonol ar eiddo o'r fath.
- 3.12** Yn Yr Alban, gall awdurdodau ostwng y disgownt safonol ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi o 50% i 10%. Gellir codi Premiwm Cartref Gwag o hyd at 100% yn Yr Alban ar eiddo gwag sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol sydd wedi bod yn wag am dros 1 flwyddyn.
- 3.13** Yng Nghymru, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ostwng y disgownt safonol ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi o 50% i 0%. Mewn perthynas ag anheddau gwag hirdymor mae'r gyfraith (mewn perthynas â chodi Premiwm y Dreth Gyngor) yn debyg i'r hyn a geir yn yr Alban, ond gall awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd godi premiwm o hyd at 100% o'r Dreth Gyngor safonol ar ail gartrefi nad oes neb yn byw ynddynt yn barhaol, ond mae'n rhaid rhoi rhybudd o 12 mis o leiaf o'u bwriad i gyflwyno premiwm ar ail gartrefi. A yw'r pŵer i gyfyngu ar ddisgowntiau a chodi premiwm ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Nghymru yn golygu y bydd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo o'r fath yn debycach i dreth eiddo yn hytrach na threth bersonol ar gyfer gwasanaethau lleol?
- 3.14** Mae'r gallu i godi premiymau'r Dreth Gyngor yn Yr Alban a Lloegr wedi bod mewn grym ers Ebrill 2013. Gellir ond cymhwyso premiymau'r Dreth Gyngor i eiddo gwag hirdymor, ac mae adolygiadau diweddar gan rai cynghorau o'u polisi i godi premiwm o 50% ar y Dreth Gyngor wedi dangos y bu llwyddiant o ran sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto (ac mae hynny'n arf ychwanegol defnyddiol i Swyddogion Tai Gwag), ond bu'n fwy dadleuol na'r disgwyl gan arwain at apeliadau i Dribiwnlysoedd Prisio yng nghyd-destun pennu Premiwm y Dreth Gyngor, a hefyd bu tystiolaeth o waith gweinyddol ychwanegol yn deillio o geisiadau eithrio ac archwilio eiddo ac o ran gorfodi taliadau. Roedd nifer y trethdalwyr oedd yn cael anawsterau talu yn isel, ond mae'r dystiolaeth yn dangos cynnydd mewn defnyddio gorchmynion arwystlo er mwyn sicrhau'r ddyled nes bod yr eiddo yn cael ei werthu.
- 3.15** Mae cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor wedi golygu cyflogi staff dros dro ychwanegol (yn cynnwys staff asiantaeth) a staff rhan amser a llawn amser ychwanegol. Fodd bynnag, bu i breimiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor hefyd gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Gronfa Gasglu (yn Lloegr mae'r incwm ychwanegol hefyd yn cael ei ddsbarthu i gomisiynwyr trosedd a phlwyfi – ni fydd hynny'n digwydd yng Nghymru). Yn wahanol i'r sefyllfa yn Yr Alban a Lloegr, mae awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd wedi derbyn pwerau dewisol gan Lywodraeth Cymru i godi premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi. Mae'n debygol y bydd angen gwaith gweinyddol ychwanegol er mwyn sicrhau bod y sylfaen dreth yn adlewyrchu statws cywir yr anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi mewn perthynas ag a ellir codi premiwm neu beidio, a hefyd efallai y bydd hynny'n golygu y bydd angen adnodd gorfodi ychwanegol er mwyn casglu'r premiwm.
- 3.16** Bydd raid i'r Awdurdod hefyd ystyried a ddylid codi'r un ganran premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac os penderfynir pennu canrannau gwahanol, sut fydd perchnogion yn ymateb?
- 3.17** Mae'r diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi'r Ynys. Mae bron i 300 o dai'n cael eu defnyddio fel eiddo i'w gosod at bwrpas gwyliau ac oherwydd hynny maent yn cael eu dosbarthu fel busnesau, ac ni fydd y newidiadau hyn o ran cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor yn effeithio arnynt. A fydd cyflwyno Premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi yn effeithio ar berchnogion yr eiddo hynny fel eu bod yn dosbarthu'r eiddo fel tai gosod ar gyfer gwyliau, ac felly busnesau? Fodd bynnag, dylid nodi bod yr opsiwn i ailddosbarthu eiddo fel eiddo busnes ar gael i berchnogion ar hyn o bryd, ond dim ond 11% o berchnogion ail gartrefi sydd wedi dewis yr opsiwn hwn.

3.18 Gan ystyried y prif faterion a restrir uchod, mae'r adran ganlynol yn darparu amryw o benderfyniadau y gall y Cyngor Llawn eu hystyried ynghylch codi premiymau neu beidio, ac os penderfynir gwneud hynny, darperir gwahanol opsiynau ynghylch lefelau canran premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

4. Penderfyniadau ynghylch premiymau'r Dreth Gyngor

4.1 Penderfyniad 1:

4.1.1 Bydd angen i'r Cyngor Llawn benderfynu a yw'n dymuno cyflwyno premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi neu beidio. Drwy beidio â chyflwyno premiymau o'r fath bydd y Cyngor Llawn yn cadarnhau'r status quo o godi'r Dreth Gyngor safonol lawn ar aneddiadau gwag hirdymor ar ôl 6 mis, ac ar ail gartrefi o'r diwrnod cyntaf pan na ddefnyddir yr annedd fel unig neu brif breswylfa'r perchennog.

4.1.2 Drwy gyflwyno premiymau o'r fath bydd y Cyngor Llawn yn cytuno i godi premiwm yn ychwanegol at y Dreth Gyngor safonol lawn ar eiddo gwag hirdymor ar ôl 12 mis (a fesurir o 1 Ebrill 2016) ac ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2017. Bydd incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu i'r Cyngor i'w gadw a'i wario fel y dymuna, a hefyd er mwyn gwireddu amcan Llywodraeth Cymru o sicrhau bod eiddo o'r fath yn cael ei ddefnyddio unwaith eto gan bobl leol, gan ystyried bod 10.5% o gartrefi'r ynys fel arfer yn wag. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu y bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn gweinyddu a gorfodi taliadau premiymau'r Dreth Gyngor.

4.2 Penderfyniad 2:

4.2.1 Os mai dymuniad y Cyngor Llawn yw codi premiwm y Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi, bydd angen i'r Cyngor Llawn benderfynu a ddylai lefel y premiwm a godir fod yr un faint ar gyfer y ddau fath o annedd, neu a fydd gwahanol lefelau'n gymwys, yn benodol yn achos eiddo gwag hirdymor yn seiliedig ar hyd yr amser y maent wedi bod yn wag.

4.2.2 Byddai cymhwyso'r un lefel i'r ddau fath o annedd yn hwyluso'r gwaith gweinyddol, yn haws ei ddeall ac ni fyddai unrhyw fantais amlwg i'w gael o newid statws yr annedd o fod yn annedd gwag hirdymor i fod yn ail gartref, a newid yn ôl eto er mwyn talu llai o Dreth Gyngor o bosibl.

4.2.3 Byddai penderfynu codi lefelau gwahanol ar y ddau fath o annedd yn galluogi'r Cyngor Llawn i'w trin yn wahanol er mwyn blaenoriaethu a gwireddu amcanion yr Awdurdod, er enghraifft, targedu canran uwch ar anheddau gwag hirdymor er mwyn gallu eu defnyddio eto. Er y byddai hynny'n gwireddu amcanion yr Awdurdod, byddai cynllun codi tâl cymhlethach yn anoddach i'w weinyddu, yn anoddach i'w ddeall a gallai perchnogion fanteisio ar y gwahanol ganrannau fydd yn cael eu pennu. Gallai'r sefyllfa honno hefyd arwain at annedd gwag hirdymor yn talu mwy o breimiwm y Dreth Gyngor nag ail gartref.

4.3 Penderfyniad 3:

4.3.1 Os bydd y Cyngor Llawn yn dymuno codi'r un ganran mewn perthynas â phreimiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, bydd angen i'r Cyngor Llawn benderfynu pa lefel ddylai'r ganran honno fod, hyd at uchafswm o 100% o'r Dreth Gyngor safonol.

4.3.2 Mae Atodiad 6 yr adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Cyngor Llawn ynglŷn â'r incwm ychwanegol disgwyliedig fydd yn cael ei gynhyrchu wrth gymhwyso'r gwahanol ganrannau yn ychwanegol at y Dreth Gyngor safonol. Wrth wneud ei benderfyniad, yn ogystal ag ystyried yr incwm ychwanegol fydd yn cael ei gynhyrchu, bydd angen i'r Cyngor Llawn hefyd ystyried y canlynol (er nad yw hon yn rhestr gyflawn efallai):-

- os pennir canran o 25% neu 30%, a fydd hyn yn ddigon o ysgogiad i berchnogion werthu neu rentu'r anheddau fel eu bod yn cael eu defnyddio eto? Yn benodol, byddai premiwm y Dreth Gyngor ar y lefel hon yn golygu y bydd perchnogion anheddau sy'n byw yn Lloegr yn talu tua'r un faint, neu lai, o Dreth Gyngor ar eu heiddo ar yr Ynys nag ar eu prif gartref (ond i berchnogion sy'n byw yng Nghymru byddai hynny'n golygu y byddent yn talu 23% neu 28% yn fwy ar eu hail annedd ar yr Ynys o'i gymharu â'r prif gartrefi). Os pennir canran o 25% neu 30%, byddai'n ymddangos nad oes ond ychydig neu ddim cymhelliant amlwg i newid yr eiddo domestig i fod yn dŷ i'w osod ar gyfer gwyliau neu i hawlio newid i unig neu brif breswylfa?
- os pennir canran o 50%, 75% neu 100% - a fydd hynny'n ddigon o ysgogiad i berchnogion naill ai werthu neu rentu anheddau fel eu bod yn cael eu defnyddio eto, neu a fydd y perchnogion yn dal i fod yn fodlon talu premiwm y Dreth Gyngor? Po uchaf y ganran a godir, byddai cost y Dreth Gyngor am annedd ar yr Ynys yn gynyddol fwy na'r hyn y mae perchnogion yn ei dalu am eu prif gartrefi (ar 50% - 13% yn fwy; ar 75% - 37% yn fwy ac 100% - 73% yn fwy i berchnogion sy'n byw yn Lloegr). Yn achos perchnogion sy'n byw yng Nghymru, bydd y gwahaniaethau yn sylweddol fwy. A fydd canrannau ar y lefelau hyn yn cymhell perchnogion i ddefnyddio arferion osgoi trethi, megis newid i ddefnydd busnes, neu hawlio newid i unig neu brif gartref? A fyddai rhai perchnogion yn dioddef caledi ariannol o ganlyniad i bremiymau'r Dreth Gyngor a bennir ar y lefelau hyn, ac o ganlyniad i hynny a ddylai'r Cyngor Llawn, cyn 1 Ebrill 2017, gyflwyno canllawiau polisi o dan Adran 13A Deddf 1992 sy'n golygu y gall ddefnyddio pwerau dewisol i ostwng atebolrwydd y dreth gyngor sy'n deillio o bremiwm y dreth gyngor i'r graddau y mae'n credu sy'n addas?

4.4 Penderfyniad 4:

4.4.1 Ar ôl penderfynu codi premiymau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2017 neu beidio, a chyn iddo benderfynu ar ofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20, gofynnir i'r Cyngor (os bydd wedi penderfynu codi premiymau'r Dreth Gyngor) gytuno i gynnal adolygiad o'i bolisi o godi premiymau o'r fath er mwyn sefydlu'r canlynol -

- a fu i'r polisi gyflawni ei amcanion o sicrhau bod cartrefi gwag/ail gartrefi yn cael eu defnyddio eto naill ai o ganlyniad i werthu neu rentu?
- a fu i'r polisi greu'r lefel ddisgwylidig o incwm, a sut y defnyddiwyd yr incwm hwnnw;
- pa effaith gafodd cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor ar weinyddu a gorfodi'r premiymau?
- a oes yna dystiolaeth bod yna fwy o osgoi trethi?

4.4.2 Yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad hwn, allai gynnwys mwy o ymgynghori cyhoeddus, gall y Cyngor Llawn, wrth benderfynu ar ofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20, benderfynu amrywio neu ddiddymu ei benderfyniad.

5. Goblygiadau Ariannol

5.1 Bydd yr Awdurdod yn gallu cadw unrhyw arian ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiymau, a bydd diwygiadau i gyfrifiadau rheoliadau'r sylfaen dreth yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i hwyluso hyn. Bydd hyn yn negyddu'r angen i addasu Grant Cynnal Refeniw'r Awdurdod o ganlyniad i'r cynnydd yn sylfaen y dreth. Gall yr Awdurdod wario'r arian ychwanegol a gynhyrchir fel y dymuna, ond bydd Llywodraeth Cymru yn annog yr Awdurdod i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir er mwyn helpu i fodloni anghenion tai lleol, yn unol ag amcanion polisi'r premiymau.

- 5.2 Bydd trafodaethau a phenderfyniadau mewnol yr Awdurdod ynghylch sut fydd yr arian ychwanegol a gynhrychir yn cael ei wario yn gymwys yn ystod y cylch pennu cyllideb 2017/18, yn ddibynnol ar y referniw ychwanegol a gynhrychir gan y premiymau a bennwyd, a hefyd ar unrhyw gynlluniau a gofynion gwario a gyflwynir gan y Gwasanaethau Tai er mwyn cyflawni amcanion polisi'r premiymau.
- 5.3 Mae'n debyg y bydd angen mwy o adnoddau er mwyn gweinyddu a gorfodi casglu premiymau'r Dreth Gyngor, os cânt eu cyflwyno. Amcanir y bydd hynny'n cynnwys swyddog ymholi/ymweld ychwanegol a swyddog referniw/adennill ychwanegol. Bydd hyn yn golygu cost referniw flynyddol o tua £50k.
- 5.4 Disgwylir y bydd cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn gostwng os cyflwynir premiymau'r Dreth Gyngor. Mae'r risg eisoes yn gynwysedig yng nghyfrifiad sylfaen y dreth a bydd hyn yn cael ei fonitro yn yr un modd.

6. Goblygiadau cyfreithiol

- 6.1 **Y Cyngor Llawn** ddylai benderfynu codi premiwm y Dreth Gyngor o dan adran 12A a 12B Deddf 1992.
- 6.2 Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn wneud ei benderfyniad cyntaf ynghylch codi premiwm ar ail gartrefi neu beidio erbyn 1 Ebrill 2016 er mwyn i hynny ddod i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae'n rhaid penderfynu codi premiwm ar gyfer 2018 cyn 1 Ebrill 2017, ac yn y blaen.
- 6.3 Ni ellir amrywio neu ddiddymu penderfyniad ynghylch premiymau'r Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi dim ond cyn cychwyn y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn gymwys iddi e.e. mae'n rhaid i benderfyniad i amrywio neu ddiddymu penderfyniad i godi premiwm ar gyfer 2018 gael ei wneud cyn 1 Ebrill 2018.

7. Goblygiadau risg

- 7.1 Cyfeiriwyd at y rhain yn anuniongyrchol yn gynharach yn yr adroddiad, ond mae'r canlynol yn grynodeb o'r risgiau tybiedig -
 - Nid yw data'r Dreth Gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi wedi cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ers i'r Cyngor Llawn sefydlu polisi o beidio cymhwyso disgowntiau ar gyfer anheddau o'r fath. Mae'r Dreth Gyngor safonol llawn yn daladwy ar anheddau o'r fath. Bu i adolygiad diweddar gan gwmni cyfeirnod credyd, a wiriodd eu cofnodion gyda chofnodion y Cyngor, sefydlu bod yna risg canolig i uchel fod 22% i 25% o'r anheddau gwag hirdymor neu'r ail gartrefi sydd ar gofnodion y Cyngor yn cael eu meddiannu fel unig neu brif gartref person. Ni ellir codi premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo o'r fath ac felly mae yna risg wrth amcangyfrif yr incwm ychwanegol fydd yn cael ei gynhyrchu;
 - A fydd yna fwy o berchnogion yn gwrthod talu premiwm y Dreth Gyngor neu'n methu ei dalu?
 - A fydd yna fwy o berchnogion yn osgoi talu premiwm y Dreth Gyngor e.e. newid defnydd i gyfraddau busnes, newid o ail gartrefi i gartrefi gwag hirdymor, ceisio gwerthu'r eiddo neu ei rentu er mwyn hawlio eithriad, hawlio bod yr annedd yn cael ei meddiannu, neu newid i fod yn unig neu brif gartref? A fydd hyn yn arwain at ostyngiad ar y Gofrestr Treth Gyngor eiddo domestig?
 - A fydd hyn yn effeithio ar enw da'r Cyngor?
 - A fydd cynnydd yn nifer yr apeliadau a heriau cyfreithiol?
 - Sut fydd hyn yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth leol?

8. Goblygiadau i Gydraddoldebau

- 8.1** Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar godi premiymau'r Dreth Gyngor yn ystod yr amser cyfyngedig oedd ar gael. Mae'r ymgynghoriad yn helpu'r Cyngor i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n gynwysedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Ceir canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn **Atodiad 8**.
- 8.2** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau yn dilyn ei ymgynghoriad, a chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau yn lleol ac mae copi ar gael drwy wneud cais i'r Gwasanaeth Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau). Hefyd, cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg, ac eto, mae copi ar gael trwy wneud cais i'r Gwasanaeth Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau).

Dogfennau Cefndirol

- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i diwygiwyd gan Adran 7 Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch Cymru) 2015
- Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau wedi'u Heithrio) 1992
- Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Weithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru, Rhagfyr 2015.
- Ymgynghoriad ar Y Dreth Gyngor a Chartrefi Gwag Hirdymor yng Nghymru: 31 Gorffennaf 2012 - 30 Hydref 2012;
- Ymgynghoriad ar Bwerau Dewisol i awdurdodau lleol gynyddu'r dreth gyngor ar Ail Gartrefi: 16 Medi 2013 - 28 Hydref 2013;
- Ymgynghoriad ar Eithriadau i Bremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi yng Nghymru: 13 Mawrth 2015 - 13 Mehefin 2015;
- Ymgynghoriad ar Eithriadau i Bremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor yng Nghymru: 13 Mawrth 2015 - 13 Mehefin 2015;
- Ymgynghoriad technegol ar reoliadau'r dreth gyngor (eithriadau rhag symiau uwch) (Cymru) 2015: 16 Hydref 2015 - 13 Tachwedd 2015;
- Cyfrifiad 2011: KS401EW Anheddau, aelwydydd a math o lety;
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol - Iefelau'r Dreth Gyngor a bennwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr 2015/16 (adolygwyd);
- Llywodraeth Yr Alban "Arweiniad ar ddigresiwn Llywodraeth Leol i: leihau'r Disgownt Dreth Gyngor ar Ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor; a gosod cost ychwanegol i gartrefi gwag hirdymor": 21 Mai 2013;
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol "Y Dreth Gyngor - premiwm tai gwag. Canllawiau ar gyfer eiddo ar werth neu ar gyfer gosod": Mai 2013;
- Cyngor Dosbarth De Lakeland - Y Cabinet 30 Hydref 2013 "Adolygiad Disgowntiau'r Dreth Gyngor a Phremiwm y Dreth Gyngor";
- Cyngor Dosbarth De Gwlad yr Haf - Y Cyngor Llawn 27 Chwefror 2014 "Adolygiad Diwygiadau'r Dreth Gyngor - Premiymau'r Cartrefi Gwag".

Crynodeb o'r prif faterion

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio deddfwriaeth sylfaenol er mwyn caniatáu awdurdodau lleol i ddefnyddio pwerau dewisol i godi premiymau'r Dreth Gyngor o hyd at 100% o'r Dreth Gyngor safonol sy'n daladwy o Ebrill 2017 ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi;
2. Gall yr awdurdod lleol gadw'r arian ychwanegol a gynhrychir;
3. Mae'n ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar lefel y premiymau ar gyfer ail gartrefi cyn 1 Ebrill 2016 ac ar gyfer anheddau gwag hirdymor erbyn 1 Ebrill 2017;
4. Mae gwahanol benderfyniadau ar gael i'r Cyngor Llawn er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen, a darperir hynny yn Adran 4 yr adroddiad hwn;
5. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Llawn ystyried amcanion Llywodraeth Cymru wrth roi digresiwn i awdurdodau lleol godi premiwm, a'r anghenion tai penodol a'r amgylchiadau yn ardal yr awdurdod wrth benderfynu codi premiymau neu beidio; a
6. Ar 1 Mawrth 2016 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i argymhell i'r Cyngor Llawn yn ei chyfarfod ar 10 Mawrth 2016 i:-

Argymhellion

1. Bod Cyngor Sir Ynys Môn ("Cyngor Llawn"), fel awdurdod bilio yng Nghymru, yn defnyddio ei bwerau dewisol, o dan adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt/disgowntiau a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i gymhwyso mwy o'r dreth gyngor (a elwir yn Bremiwm y Dreth Gyngor) a bod hynny'n dod i rym o 1 Ebrill 2017.
2. Bod Premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei osod i fod yn 25% o'r dreth gyngor safonol i'r ddau, sef anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel rheol yn ail gartrefi), a bod adolygiad o breimiymau'r Dreth Gyngor yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ystod 2018/19 (ar ôl blwyddyn gyntaf lawn o weithredu premiymau'r Dreth Gyngor) er mwyn penderfynu a yw'r premiymau a bennwyd wedi bodloni amcanion y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ac o ganlyniad, a oes angen i lefelau'r premiwm a bennwyd cael eu hamrywio neu eu diddymu pan fo'r Cyngor Llawn yn pennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20. Yna, os yn gymwys, bydd y premiymau diwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2019.
3. Bod y Cyngor Llawn yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i:-
 - i. I gyhoeddi hysbysiad o'i benderfyniad i godi premiwm mewn papur newydd o fewn 21 diwrnod yn dilyn ei benderfyniad;
 - ii. I gyfathrebu ei benderfyniad, hefyd o fewn 21 diwrnod, ac yn arbennig i'r rhai y bydd hyn efallai yn effeithio arnynt, drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, darparu gwybodaeth mewn gwefannau neu ddefnyddio dulliau eraill o godi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn atebol i dalu'r premiwm, ac yn arbennig y rhai hynny sydd fel arfer yn byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol;
 - iii. I sicrhau bod trefniadau gweinyddol wedi eu sefydlu er mwyn amcangyfrif (cyn i'r Pwyllgor Gwaith gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 a bod y Cyngor Llawn yn pennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18) faint o anheddau sy'n wag am gyfnod hir a faint o anheddau a feddiennir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) fydd yn gymwys i godi premiwm y Dreth Gyngor arnynt o dan Ddeddf 1992, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2014, yn amodol ar eithriadau a ganiateir gan reoliadau;
 - iv. I sicrhau bod trefniadau gweinyddol yn cael eu sefydlu er mwyn gweinyddu a gorfodi premiwm y Dreth Gyngor yn briodol o 1 Ebrill 2017, a nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno mewn egwyddor (yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith) ag unrhyw adnoddau ychwanegol y tybir sydd eu hangen (gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151), er mwyn sicrhau bod premiwm y Dreth Gyngor yn cael ei weinyddu a'i orfodi yn briodol, fydd ar y cychwyn yn cynnwys amcangyfrif faint o anheddau fydd yn gymwys i dalu premiwm y Dreth Gyngor.
4. Bod y Cyngor Llawn hefyd yn cyfarwyddo ac yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 (cyn i'r Pwyllgor Gwaith gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 ac i'r Cyngor Llawn bennu gofynion y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18) i gynghori'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn (fel awdurdod bilio yng Nghymru) ynghylch a fydd angen penderfynu, o dan adran 13A Deddf 1992, defnyddio ei bwerau dewisol i ostwng atebolrwydd y dreth gyngor fydd yn deillio o godi premiwm y Dreth Gyngor, i'r graddau y mae'n credu sy'n briodol. Er mwy tegwch a thryloywder, petai angen penderfyniad o'r fath, bydd cyngor yn cael ei roi petai'r Cyngor Llawn yn mabwysiadu polisi clir ynghylch a ddylid defnyddio'r pwerau hyn neu beidio ag ym mha fodd, gydag awdurdod gwneud penderfyniadau dirprwyedig priodol yn cael ei ddarparu yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ond hefyd byddid yn cydnabod bod angen i bob achos gael ei ystyried ar sail teilyngdod gan ystyried amgylchiadau pob achos unigol.

Dosbarthiadau wedi'u Heithrio rhag talu'r Premiwm	Diffiniad
Dosbarth 1.	Anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu (cyfyngir yr amser i un flwyddyn)
Dosbarth 2.	Anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod (cyfyngir yr amser i un flwyddyn)
Dosbarth 3.	Estyniadau sy'n rhan o, neu yr ystyrir fel rhan o'r prif annedd.
Dosbarth 4.	Anheddau fyddai'n unig neu brif gartref i rywun pe na bai'n byw mewn llety'r lluoedd arfog.
Dosbarth 5.	Lleiniau carafannau ac angorfeydd cychod a feddiannir
Dosbarth 6.	Cartrefi tymhorol y gwaherddir byw ynddynt drwy gydol y flwyddyn
Dosbarth 7.	Anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith

Dosbarthiadau Eithrio Safonol

- Eiddo na feddiannir ac a ddodrefnwyd yn sylweddol am lai na 6 mis neu 12 mis os bydd gwaith atgyweirio strwythurol yn cael ei wneud er mwyn gallu byw yn yr eiddo, neu os oes angen gwneud y gwaith hwnnw
- Eiddo na feddiannir ac a oedd, neu a fydd yn unig neu brif gartref person sydd yn y ddalfa
- Eiddo na feddiannir pan fo'r gyfraith yn gwahardd meddiannu'r eiddo hwnnw
- Eiddo na feddiannir ac sydd ar gael i'w feddiannu gan weinidog crefyddol
- Eiddo na feddiannir a feddiannwyd diwethaf gan berson sy'n byw yn rhywle arall ac yn darparu gofal
- Eiddo na feddiannir a feddiannwyd diwethaf gan fyfyrwr neu fyfyrwr yn unig
- Eiddo na feddiannir, sy'n rhan o eiddo unigol sy'n cynnwys annedd arall na ellir ei osod ar wahân i'r annedd arall heb dorri rheolau cynllunio
- Pan fo'r preswilydd mewn gofal preswyl hirdymor neu yn yr ysbyty
- Pan fo'r annedd yn cael ei atgyweirio'n strwythurol (cyfyngir yr amser i un flynedd)
- Pam fo'r preswilydd wedi mawr (am hyd at chwe mis ar ôl grant profiant / llythyrau gweinyddu)

KS401EW Anheddau, aelwydydd a math o lety

ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 3 Chwefror 2016]

Cyfrifiad 2011

Ardal	Pob categori: Math o annedd	Pob categori: Aelwydydd	Aelwydydd gydag o leiaf un preswlydd arferol	Aelwydydd heb unrhyw breswlydd arferol	Canran
Wardiau Ynys Môn	34,168	34,183	30,594	3,589	10.50%
Aberffraw	718	718	629	89	12.40%
Porth Amlwch	1,234	1,235	1,131	104	8.43%
Amlwch Wledig	604	604	555	49	8.11%
Biwmares	1,132	1,132	980	152	13.43%
Bodffordd	696	696	654	42	6.03%
Bodorgan	807	807	717	90	11.15%
Braint	646	646	617	29	4.49%
Bryngwran	825	825	778	47	5.70%
Brynteg	1,009	1,009	899	110	10.90%
Cadnant	652	656	609	47	7.21%
Cefni	721	721	665	56	7.77%
Cwm Cadnant	1,046	1,047	942	105	10.04%
Cyngor	930	930	891	39	4.19%
Gwyngyll	682	682	653	29	4.25%
Tref Caergybi	642	645	579	66	10.28%
Kingsland	664	664	642	22	3.31%
Llanbadrig	752	752	646	106	14.10%
Llanbedrgoch	843	843	691	152	18.03%
Llanddyfnan	629	629	558	71	11.29%
Llaneilian	1,075	1,075	968	107	9.95%
Llanfaethlu	802	802	689	113	14.09%
Llanfair-yn-neubwll	1,170	1,171	1,107	64	5.47%
Llanfihangel	916	916	859	57	6.22%
Ysgeifiog					
Llangoed	689	690	580	110	15.97%
Llanidan	844	844	773	71	8.41%
Llannerchymedd	866	866	802	64	7.39%
Ffordd Llundain	731	731	718	13	1.78%
Maeshyfyd	1,048	1,051	997	54	5.15%
Mechell	738	738	659	79	10.70%
Moelfre	662	662	491	171	25.83%
Morawelon	714	714	697	17	2.38%
Parc a'r Mynydd	542	542	520	22	4.06%
Pentraeth	916	916	804	112	12.23%
Porthyfelin	1,092	1,092	1,040	52	4.76%
Rhosneigr	853	853	489	364	42.67%
Rhosyr	1,130	1,130	986	144	12.74%
Trearddur	1,475	1,476	1,009	467	31.66%
Tudur	653	653	637	16	2.45%
Tysilio	946	946	910	36	3.81%
Y Fali	1,074	1,074	1,023	51	4.75%

Er mwyn gwarchod rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae'r cofnodion wedi cael eu cyfnewid rhwng ardaloedd daearyddol gwahanol. Effeithir ar rai niferoedd, yn arbennig niferoedd isel yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

**EIDDO GWAG HIRDY MOR (Treth Gyngor –
01.02.16)**

Cymuned	Nifer	Cymuned	Nifer
Caerdybi	118	Y Fali	15
Llangefni	71	Llanfaethlu	15
Amlwch	36	Bryngwran	15
Llanfair Mathafarn Eithaf	31	Llaneilian	14
Llanfaelog	31	Rhosybol	13
Llanbadrig	28	Llangristiolus a Cherrigceinwen	14
Trearddur	27	Llanddyfnan	13
Llanfairpwll	24	Llanddona	10
Biwmares	24	Bodorgan	11
Rhosyr	23	Rhoscolyn	9
Porthaethwy	22	Llanfair yn Neubwll	8
Llanfihangel Esceifiog	22	Aberffraw	7
Moelfre	19	Tref Alaw	6
Llannerch-y-medd	19	Trewalchmai	6
Cylch y Garn	18	Llanddaniel	7
Cwm Cadnant	17	Llanidan	6
Bodedern	17	Bodffordd	6
Mechell	17	Penmynydd	5
Llangoed	16	Llanfachraeth	4
Pentraeth	16	Llaneugrad	4
		Cyfanswm	784

AIL DAI (Treth Gyngor 01.02.16)

Cymuned	Nifer	Cymuned	Nifer
Llanfaelog	343	Llanfaethlu	30
Trearddur	295	Llanfair yn Neubwll	28
Llanfair Mathafarn Eithaf	182	Mechell	27
Moelfre	119	Y Fali	27
Biwmares	111	Llanfairpwll	25
Caergybi	106	Bodffordd	24
Llanbadrig	87	Llaneugrad	24
Rhoscolyn	72	Llanidan	23
Rhosyr	72	Llanddyfnan	21
Llangoed	71	Llanddaniel	19
Amlwch	63	Rhosybol	19
Porthaethwy	63	Llangristiolus a Cherrigceinwen	17
Cylch y Garn	50	Llannerchymedd	16
Cwm Cadnant	50	Penmynydd	16
Bodorgan	48	Bryngwran	14
Pentraeth	47	Llanfihangel Esceifiog	14
Llanddona	43	Bodedern	13
Llangefni	38	Tref Alaw	10
Aberffraw	34	Llanfachraeth	10
Llaneilian	31	Trewalchmai	9
		Cyfanswm	2,311

**EIDDO GWAG HIRDYMOR (Treth Gyngor –
01.02.16) FESUL BAND Y DRETH**

Band y Dreth	Eiddo	Cyfateb i Fand D
A	157	105
B	144	1120
C	150	133
Ch	153	153
E	114	139
F	42	61
G	23	38
H	0	0
I	1	2
Cyfanswm	784	743

**AIL DAI (Treth Gyngor 01.02.16)
FESUL BAND Y DRETH**

Band y Dreth	Eiddo	Cyfateb i Fand D
A	155	103
B	246	191
C	479	426
Ch	572	572
E	453	554
F	237	342
G	117	195
H	31	62
I	14	33
U	7	7
Cyfanswm	2,311	2,485

Amcangyfrif o'r incwm ychwanegol (ar sail Treth Gyngor 2015/165)

Eiddo	Nifer	Cyfateb i Fand D	Premiwm Ychwanegol (%)				
			25%	30%	50%	75%	100%
Tai Gwag	784	743	£240,745	£288,895	£481,495	£722,240	£962,990
Ail Dai	2,311	2,485	£805,190	£966,225	£1,610,380	£2,415,570	£3,220,760
	3,095	3,228	£1,045,935	£1,255,120	£2,091,875	£3,137,810	£4,183,750
Llai 30%	-	-	(£313,780)	(£376,535)	(£627,560)	(£941,345)	(£1,255,125)
Incwm Ychwanegol	-	-	£732,155	£878,585	£1,464,315	£2,196,465	£2,928,625

Nifer yr eiddo gwag yn ôl cyfnodau
(Cronfa Data Tai Gwag : 1.4.15)

Hyd at 12 mis		1 i 2 flynedd		2 i 3 blynedd		3 i 4 blynedd		Tros 4 blynedd	
168	20%	163	19%	147	17%	81	9%	304	35%

CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD

Oherwydd bod yr ymgynghoriad yn gorffen canol dydd ar 4 Mawrth 2016, bydd dadansoddiad yn cael i gyflwyno ar wahân i'r adroddiad.

This page is intentionally left blank

Adroddiad ar ymateb yr Ymgynghoriad ar godi Premiwm ychwanegol ar Ail gartrefi / Tai Gwag Tymor Hir

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgymryd ar ymgynghoriad i gyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir. Cyfnod yr ymgynghoriad oedd rhwng 16 Chwefror a 4 Mawrth 2016.
- 2.2 Fe ddiffiniwyd ail gartrefi yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r Ddeddf yn diffinio ail gartrefi fel "annedd nad yw'n unig gartref nac yn brif gartref rhywun ac y mae wedi dodrefnu yn sylweddol".
- 2.3 Fe ddiffinnir eiddo gwag tymor hir oddi tan yr un Ddeddfwriaeth sef, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel "annedd nas meddiannwyd ac sydd heb ei ddodrefnu yn sylweddol". At bwrpas codi premiwm ar eiddo gwag hirdymor, rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag am flwyddyn a bod hynny yn cael ei fesur o 1 Ebrill 2016.

2. Pam rydym yn ymgynghori? Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys: -

- 2.1 Ymgynghorwyd ar gynnig i gyflwyno premiwm Treth y Cyngor hyd at 100% ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.
- 2.2 Mae cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy'n flaenoriaeth leol a chenedlaethol. Gall ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor leihau nifer y tai sydd ar gael i bobl leol.
- 2.3 Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos nad oes preswylwyr arferol mewn 10.5% o gartrefi ar yr Ynys. Mae hyn yn amrywio o 1.8% yn ward London Road, yng Nghaerdybi i 42.7% o eiddo yn Rhosneigr sydd naill ai'n wag neu'n ail gartrefi.
- 2.4 Mae niferoedd uwch o ail gartrefi'n tueddu i fod mewn ardaloedd arferol lle mae prinder tai fforddiadwy, efo niferoedd uwch o eiddo gwag hirdymor ym mhrif drefi'r Ynys. Mae hyn yn effeithio ar y nifer o dai fforddiadwy yn yr ardaloedd yma ac yn gyffredinol.
- 2.5 Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y diwydiant twristiaeth at ein heconomi leol. Sylwer bod 292 o eiddo a ddefnyddir i'w gosod ar gyfer gwyliau'n cael eu rhestru fel busnesau ac, felly, nid yw'r newid hwn yn effeithio arnynt.

3. Gyda phwy rydym wedi ymgynghori?

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda: --
- 3.2 35 o Gynghorau Cymuned oddi fewn i'r Sir
- 3.3 5 o Gynghorau Tref oddi fewn i'r Sir
- 3.4 Cyhoeddiad ar gyfrif Twitter y Cyngor, roedd yn cael ei ddiweddarau bod diwrnod i gadw'r ymgynghoriad yn 'fyw'.
- 3.5 Cyhoeddiad ar dudalen 'Facebook' y Cyngor
- 3.6 Manylion ar dudalen gartref y Cyngor
- 3.7 Erthyglau yn y wasg leol yn son am yr ymgynghoriad ynghyd a phapurau newydd rhanbarthol e.e. Daily Post.

4. Dulliau ymateb

4.1 Roedd gan yr ymatebwyr nifer o ffyrdd i ymateb i'r ymgynghoriad naill ai drwy:

4.2 Oddi ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y linc briodol roedd yn mynd a'r unigolyn yn syth i dudalen flaen yr ymgynghoriad;

4.3 Drwy lawrlwytho'r ffurflen a'r argraffu gartref yna ei anfon i mewn drwy'r post;

4.4 Drwy lenwi'r holiadur ar lein a'i anfon drwy e-bost yn uniongyrchol tuag at Adain Refeniw, Cyngor Sir Ynys Môn.

5. Ymatebion ar godi Premiwm ar ail gartrefi a thai gwag hirdymor -

5.1 Cafwyd 331 o ymatebion i gyd ac mae crynodeb o'r canlyniadau ynghlwm. . Mae yna i fyny at 75 o dudalennau ychwanegol sy'n cynnwys sylwadau'r rhai sydd wedi ymateb i'r gwahanol gwestiynau - ac y mae'r rhain ar gael u ei gweld gan y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

5.2 Mae rhan fwyaf o'r ymatebion, sy'n rhedeg trwy'r cwestiynau i gyd, yn gwrthwynebu'r bwriad o godi unrhyw fath o bremiwm ar ail gartrefi ond y mae cymysgedd barn o fewn yr ymatebion a ddylid codi premiwm ar dai gwag hirdymor. Roedd nifer fawr o'r atebion yn cyfeirio at ddiffyg cyfleusterau mae perchenogion ail gartrefi a thai gwag hirdymor yn defnyddio gan y Cyngor a'r swm o arian ac sydd yn cael ei wario yn y gymuned leol gan y perchnogion hyn. Golyga hyn wario arian mewn bwytai, tafarndai, modurdai ynghyd a defnyddio gweithwyr lleol i wneud gwaith cynnal a chadw. Roeddynt yn unfrydol yn tybio byddai codi unrhyw fath o bremiwm yn cael effaith negatif ar yr economi leol ac ar dwristiaeth. Dyma enghreifftiau o'r ymatebion -

- *“There is a basic problem in the proposal. Second homes bring in income to the Isle of Anglesey; empty properties do not. Second homes may be let when the owner is not in residence and both when let, and when the owner is in residence, this benefits local traders, businesses and industries - particularly the tourist industry. In addition, second homes already pay 100% Council Tax whereas long-term empty homes normally pay little or nothing for the first year.*

In fairness and recognising that second homes have a positive benefit, second homes and long-term empty properties should therefore be considered as two separate categories. Whilst it may make sense for the Council to derive income from long-term empty properties, and also to encourage their use and occupation and hence added benefit for local traders and businesses, it is likely to be counter-productive to penalise those second homes which are already well used.”

- *“Holiday and second homes should be afforded a discount as per Government guidelines of up to 50% and not be penalised. Council tax is for the provision of local services which, for second homes, are not used in their entirety supporting a logical discount. Tourism supplements coastal areas and the communities to a significant level, the impact holiday homes has on affordable house prices is a poor argument, no matter the cost, and potential home owners need work and a sustainable income! Surely the Council should be focusing on creating jobs rather than potentially decimating the tourist industry! This smells of another poorly thought through local government initiative with no forethought to cause and effect.”*
- *“I believe that any second home owners would look at raising their prices to reflect the difference you may impose thus making Anglesey a less attractive tourist destination. Some may even sell their properties and choose to move their holiday letting businesses elsewhere which would be bad for the tourist and general economy on the island. The reality is that even if all of the holiday homes in Rhosneigr were made available for local residents, the majority of them could not afford the properties. You could lessen the impact by not doing it!”*

- *“Many second home owners have spent large amounts of money renovating run down properties and bringing them back up to a modern standard. It would be penalising those second home owners and discourage others from putting money into these properties. We bought a run down tiny cottage for our own use. We use it every weekend from Friday to Monday. We have re wired, installed a shower, replaced leaking gutters and fascias and fully decorated and carpeted. The garden was a complete wilderness it is now a pleasant and tidy garden much improving the look of the street. The cottage had been on the open market for more than 6 months with no offers from local people. We have used all local people for the renovation as well as putting an enormous amount of time and effort into the refurbishment. We shop locally and feel we add to the local community as well as benefitting ourselves as we love Anglesey so much. If the Council Tax were to be doubled this would possibly mean our selling up. The market could well be flooded with homes that second home owners would have to sell. Young people struggle to obtain mortgages and I am not sure that this would benefit those people. I understand that new homes need to be made available to young people to enable them to remain in their communities but that can only work if there are jobs available to support them and their families. Young people living locally and living on benefits is not the answer. Jobs are needed not penalising second home owners. Capping the increase to say 25% would give funds to the Council without impacting too much on those second home owners who do give something back to the communities that they love.”*
- *“If people have to pay for their 2nd home they may be more likely to rent it out or sell”*
- *“I don't have all the facts and figures but imagine rich people with two houses won't sell up due to 500 or 1000 quid extra a year”*
- *“logic suggests it will reduce the supply of holiday accommodation. however if the supplementary charge is so drastic as to cause a mass sell off of second homes price levels on the Island might fall far enough to make investment for private rental a more attractive proposition.”*
- *“I don't think a 100% increase would have a great impact on house prices. The local people generally can't afford the house prices anyway. Why penalise people who bring money into the village and risk losing it”*
- *“Y farchnad sydd yn penderfynnu prisiau tai ac eiddo, Mae,n amhosib i ddarogan beth fydd y prisia hyn yn y dyfodol yn fy marn I”*
- *“As a resident of the Isle of Anglesey since birth and now a young person employed in the Island I am struggling to be able to afford a deposit to buy my first home in the area that I have lived and grown up in, as the house prices are pushed higher and higher by people buying these homes for their second/ holiday home - and then leave them empty for most of the year. If this continues I may be forced to leave a job I love and my home just to be able to afford to buy my own home. If something isn't done about this soon the beautiful Island that I call home may be forced to 'shut down' and only 'open' during the holiday season, much like a holiday camp!*

I strongly believe that if a tax is imposed upon second homes and homes that are left empty for most of the year, people will think twice about buying them and therefore the house prices should be made more affordable for those of us who live and work here all year long.”

- *“The council has not indicated how it would use the revenue from the council tax premium and what level they anticipate. Without a clear business model, it can only be construed that a punitive charge will have a negative effect as it will seek to artificially distort the market.*

If you told us how much money you are going to raise, how and where you are going to spend it, then I might be able to offer some suggestions as to how to mitigate the effects.

Otherwise I can only see this proposed charge as another form of selective taxation for raising general funds without a clear purpose”

- *“Bringing back’ properties to be used as a main residence is a very simplistic term to a complex property ownership situation that has developed over many decades. A lot of the property in Rhosneigr, Treaddur etc was built specifically for the second home market. These properties would not otherwise exist and so it is not a question of ‘bringing them back’ into ‘local’ ownership. Similarly there is not the argument for saying their use as second homes is disadvantaging local people by keeping prices artificially high. They are an artificial adjunct to the property supply.*

When these properties were built in various waves of development from end of WW1 onwards, various ‘local’ land owners and builders were quite happy to accept the value it brought and this will have fed back into the island economy”

- *“I fail to see how Young people would benefit from long-term empty properties and or rental properties coming onto the housing market. They would still need to raise capital to purchase the full market asking price.*

Therefore, other than providing Anglesey Council with revenue (to enable budgets to be met) I cannot see any other individuals benefitting from the introduction of the proposed council tax increase”

- *“The extra money generated from the increase in tax should go to building affordable houses in areas where house prices are way to high like Rhosneigr for instance. i am a local lad from rhosneigr who as had to move out of my home village where i grew up as a kid due to house prices and no support from the council in helping the local people of Rhosneigr. Many of us have had to move away and are now living else where. Myself even with a good budget of £180,000 and 20% deposit couldnt get me a house in Rhosneigr. House should be built to allow us locals who have had to move away the opportunity to move back and to help the next generation of locals a chance to stay where they grew up. so many affordable houses are been built in affordable areas all over the island but the community of Rhosneigr as just been forgotten about. the poor village is a ghost town in the winter and the local business would defintly benefit by having more locals living in Rhosneigr”*
- *“There is no point in bringing back holiday homes to full time residential use if they were not built as that in the first place”*
- *“Second home owners are less of a burden on council services eg waste production, than full time residents. Seems very unfair to be charged more. Will generate bad will from people who until now have viewed the island very positively.”*
- *“Trearddur Bay has 36% second/holiday homes, however, they pay community charge at the standard rate by property size, which is collected by Anglesey Council. If this were to change I suspect the owners would declare their properties a ‘business’ and tax would be paid into ‘central government’. Would Anglesey council then loose out?”*
- *“Mae rhan fwyaf o ail-dai yn ein hardal ni (sef Rhosneigr) yn dai gwyliau sydd yn wag tra mae'r perchnogion yn eu prif gartrefi. Wyddwn bod rhai perchnogion eraill yn rhentu allan am gyfnod bach fel bod y tai yn wag iddyn nhw dros yr haf.”*
- *“Houses that are currently owned & used as holiday homes will not enter the supply chain for private rented accommodation, this is not the intention of the owners and they will be loath to change. The empty units that are not second homes/ holiday accommodation will be effected and the owners may be encouraged to let them however, I do not see why they would not do that anyway unless the property is not up to required standards and the owner cannot afford to improve in which case a grant should be made available repayable out of pre tax rental income”*

5.3 Gweler crynodeb o'r ymatebion -




Y Dreth Gyngor - ymgynghori 2016 – Cynnigion i gyflwyno premiynau'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn

Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn?						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb	
1	Cytuno'n gryf					14.80%	49	
2	Cytuno					6.34%	21	
3	Dim barn					1.21%	4	
4	Anghytuno					7.85%	26	
5	Anghytuno'n gryf					69.79%	231	
Analysis	Mean:	4.11	Std. Deviation:	1.51	Satisfaction Rate:	77.87	atedwyd	331
	Variance:	2.28	Std. Error:	0.08			skipped	0

Nodwch ar ba lefel rydych yn credu y byddai'n fwyaf priodol i osod premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb	
1	Dim					64.05%	212	
2	25%					3.93%	13	
3	50%					5.14%	17	
4	75%					1.51%	5	
5	100%					12.08%	40	
6	Arall (nodwch):					13.29%	44	
Analysis	Mean:	2.34	Std. Deviation:	1.96	Satisfaction Rate:	26.71	atedwyd	331
	Variance:	3.85	Std. Error:	0.11			skipped	0

Am eiddo gwag hirdymor, a ddylai'r Awdurdod bennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100%) ar sail yr hyd o amser y mae'r eiddo wedi bod yn wag?						Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb	
1	Cytuno'n gryf					14.50%	48	
2	Cytuno					20.54%	68	
3	Dim barn					14.50%	48	
4	Anghytuno					11.18%	37	
5	Anghytuno'n gryf					39.27%	130	
Analysis	Mean:	3.4	Std. Deviation:	1.52	Satisfaction Rate:	60.05	atedwyd	331
	Variance:	2.31	Std. Error:	0.08			skipped	0




Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn yn ei chael ar dwristiaeth yn Ynys Môn?

					Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cadarnhaol				6.34%	21
2	Niwtral				15.11%	50
3	Negyddol				78.55%	260
Analysis	Mean:	2.72	Std. Deviation:	0.57	Satisfaction Rate:	86.1
	Variance:	0.33	Std. Error:	0.03		
					atebwyd	331
					skipped	0

Os ydych wedi nodi effaith 'negyddol', dywedwch wrthym sut gellid lleihau hyn.

					Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agored				100.00%	223
					atebwyd	223
					skipped	108




Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn ei chael ar gyflenwad llety rhent preifat?

					Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cynydd cyffredionol				20.85%	69
2	Dim effaith				50.76%	168
3	Gostyngiad cyffredinol				28.40%	94
Analysis	Mean:	2.08	Std. Deviation:	0.7	Satisfaction Rate:	53.78
	Variance:	0.49	Std. Error:	0.04		
					atebwyd	331
					skipped	0

Defnyddiwch y lle hwn i wneud sylwadau ar effeithiau posibl ar gyflenwad llety rhent

					Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agoredn				100.00%	171
					atebwyd	171
					skipped	160




Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn ei chael ar brisiau tai ar yr Ynys?

					Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cynydd cyffredionol				6.04%	20
2	Dim effaith				54.38%	180
3	Gostyngiad cyffredinol				39.58%	131
Analysis	Mean:	2.34	Std. Deviation:	0.59	Satisfaction Rate:	66.77
	Variance:	0.34	Std. Error:	0.03		
					atebwyd	331
					skipped	0

Defnyddiwch y lle hwn i wneud sylwadau ar effeithiau posibl ar brisiau tai. Please use this space to make any comments on possible impacts on house prices

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agored Open-Ended Question	100.00%	182
		atebwyd	182
		skipped	149




Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn ei chael ar gyflenwad tai fforddiadwy yn Ynys Môn?

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cadarnhaol 	12.69%	42
2	Niwtral 	64.35%	213
3	Negyddol 	22.96%	76
Analysis	Mean: 2.1	Std. Deviation: 0.59	Satisfaction Rate: 55.14
	Variance: 0.35	Std. Error: 0.03	
		atebwyd	331
		skipped	0

Os ydych wedi nodi 'effaith negyddol', dywedwch wrthym sut gellid lleihau hynlf you have indicated 'negative impact' please tell us how this could be lessened

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agored	100.00%	60
		atebwyd	60
		skipped	271



Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn yn ei chael i ddod yn ôl â'r fath eiddo u ei defnyddio fel prif

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cadarnhaol 	14.50%	48
2	Niwtral 	63.44%	210
3	Negyddol 	22.05%	73
Analysis	Mean: 2.08	Std. Deviation: 0.6	Satisfaction Rate: 53.78
	Variance: 0.36	Std. Error: 0.03	
		atebwyd	331
		skipped	0




Os ydych wedi nodi 'effaith negyddol', dywedwch wrthym sut gellid lleihau hyn.

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agored	100.00%	59
		atebwyd	59
		skipped	272

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn medru cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhrychir drwy weithredu'r premiwm a gwario'r cyllid ychwanegol fel y dymunir. Mae Llywodraeth Cymru, serch hynny, yn annog awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhrychir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae'r Cyngor yn gofyn sut dylai'r refeniw ychwanegol a gynhrychir cael ei wario -

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Dylid defnyddio'r refeniw ychwanegol i ddod yn ôl â rhagor o ail gartrefi neu eiddo gwag hirdymor at y pwrpas i'w defnyddio'n barhaol gan drigolion lleol,		32.33% 107
2	Dylid gwario'r refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol?		67.67% 224
Analysis	Mean: 1.68 Std. Deviation: 0.47 Satisfaction Rate: 67.67	atebwyd	331
	Variance: 0.22 Std. Error: 0.03	skipped	0

Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn Ynys Môn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg ar yr Ynys?

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cadarnhaol		11.78% 39
2	Niwtral		77.04% 255
3	Negyddol		11.18% 37
Analysis	Mean: 1.99 Std. Deviation: 0.48 Satisfaction Rate: 49.7	atebwyd	331
	Variance: 0.23 Std. Error: 0.03	skipped	0

Os ydych wedi nodi effaith 'negyddol', dywedwch wrthym sut gellid lleihau hyn.

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestiwn agored	100.00%	29
		atebwyd	29
		skipped	302

Defnyddiwch y lle hwn i wneud sylwadau neu awgrymiadau eraill sydd gennych. please use this space to make any other comments or suggestions you have

		Canran Ymateb	Cyfanswn Ymateb
1	Cwestien agored	100.00%	208
		atebwyd	208
		skipped	123

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	CYNGOR LLAWN
Dyddiad:	10 Mawrth 2016
Pwnc:	Adroddiad ar yr Adolygiad o Bolisi Trwyddedu yr Awdurdod
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyng. John Arwel Roberts
Pennaeth Gwasanaeth:	Jim Woodcock
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Dafydd Merfyn Jones 01248 752847 dmjpp@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Aelod Portffolio Richard Dew

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

I gymeradwyo'r adroddiad a mabwysiadu'r Polisi diwygiedig - yn dilyn Adolygiad o Bolisi Trwyddedu yr Awdurdod

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'n ofynnol o dan dermau'r Ddeddf Trwyddedu 2003 i'r Awdurdod adolygu ei Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Fodd bynnag mae dyfodiad y Mesur Dadreoli ynghyd a newidiadau mewn rhannau eraill o ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu bod angen adolygiad cynnar. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal fel rhan o weithred cydweithiol gyda'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae unrhyw beth sy'n ymwneud ar Polisi Trwyddedu yn fater i'r Cyngor Llawn.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy – Mae unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â Trwyddedu, o dan termau Rhan 5 – 8 or Ddeddf Trwyddedu 2003 yn priodol i'r Cyngor Llawn

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw gost ychwanegol i'r Awdurdod a gallai'r Policy arwain at gynnydd mewn incwm.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylwadau
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Dim sylwadau
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Wedi cymeradwyo'r polisi.
4	Safonau Y Masnach Iechyd yr Amgylchedd Cynllunio Twristiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	Ni dderbyniwyd sylwadau
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Heddlu – Dim sylwadau Gwasanaeth Tân Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Mae'r Polisi Trwyddedu'n nodi'r broses broses briodol a'r sylw a roddir gan yr Awdurdod i fater gwerthu a chyflenwi alcohol, adloniant a reoleiddir a lluniaeth sydd ar gael yn hwyr y nos ar hyd a lled yr ardal.
2	Gwrthdodi	Darparu ar gyfer amrediad eang o gyfleon cyflogaeth mewn amgylchedd a gymeradwywyd ac sy'n ddiogel.
3	Trosedd ac Anhrefn	Mae Rheoli Trosedd ac Anhrefn yn un o 4 prif amcan y Ddeddf a'r Polisi a gymeradwywyd gan yr Awdurdod
4	Amgylcheddol	Mae'r amgylchedd lleol yn cael ei gwarchod gan Amodau
5	Cydraddoldebau	Rhodddwyd sylw llawn i Asesiad o'r Effaith o ran Cydraddoldeb. Fodd bynnag, gan fod y Polisi Diwygiedig wedi ei seilio i raddau helaeth ar y

		Polisi cyfredol a fabwysiadwyd yn hwyr yn 2013, mae'n parhau i gydymffurfio gyda'r Deddf a chanllawiau cyffredinol ac ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol.
6	Arall	Mae'n gwella'r cydweithio gyda Gwasanaethau Argyfwng eraill, Awdurdodau Cyfrifol eraill ac Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

F - Atodiadau:

Atodiad A – Y Polisi diwygiedig yn cynnwys yr egwyddorion, rheolau a chanllawiau, dull defnyddio, ystyriaethau iechyd cyhoeddus, newidiadau diweddar i'r ddeddfwriaeth a rhestr o'r termau.

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Deddf Trwyddedu 2003
 Mesur Dadreoli 2015
 Canllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003
 Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

POLISI TRWYDDEDU

1. Cefndir
2. Sgôp a graddau'r Ddeddf Trwyddedu
3. Amcanion Trwyddedu
4. Effaith Gronnol, Ardoll Hwyr y Nos, Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore
5. Cynllunio/Rheolaeth Adeiladu
6. Ceisiadau am Grantiau Newydd ac Amrywiad o'r Telerau ac Amodau
7. Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro
8. Trwyddedau Personol
9. Trwydded Adeilad Clwb
10. Atodlen Weithredu
11. Oriau Gweithredu
12. Camau Gorfodi
13. Proses Drwyddedu
14. Pwyllgor Trwyddedu
15. Gwybodaeth ychwanegol

Atodiad "A" - Cyfarwyddyd ynglŷn â'r drefn ar gyfer Ymgeiswyr/Dirprwyo
Swyddogaethau

Atodiad "B" – Iechyd Cyhoeddus

Atodiad "C" Amodau Trwyddedu Mandadol

Atodiad "D" Newidiadau Deddfwriaethol Diweddar

Atodiad "E" Rhestr Termau

1. Cefndir

1.1 Seiliwyd y Datganiad Polisi Trwyddedu ar Ddeddf Trwyddedu 2003. Gwelir yn y ddogfen hon y polisiau hynny y bydd y Cyngor yn eu gweithredu pan fydd yn penderfynu ynglŷn â cheisiadau ar gyfer y canlynol:

- Mân-werthu alcohol;
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o'r clwb;
- Darparu lluniaeth hwyrnos (bwyd neu ddiodydd poeth o unrhyw adeiladau rhwng 23.00 a 05.00) a
- Darparu adloniant rheoledig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o glwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys :
 - Perfformiad theatr neu arddangos ffilm
 - Chwaraeon dan do
 - Gornest baffio/reslo
 - Cerddoriaeth fyw
 - Cerddoriaeth wedi ei recordio
 - Perfformiad dawn
 - Darparu cyfleusterau i chwarae cerddoriaeth – *i'w dynnu oherwydd y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw*
 - Darparu cyfleusterau dawn.
 - Deddf Cerddoriaeth Fyw – gweler Atodiad D

1.2 Ceir cyfarwyddyd yn Atodiad A ynglŷn â'r drefn gywir i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gwneud sylwadau.

1.3 Mae Ynys Môn yn ardal wledig a chanddi boblogaeth o 70,000. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw yn nhrefi Caergybi, Llangefni, Amlwch a Biwmares ac mae amryw o bentrefi'n amgylchynu'r trefi hyn, pob un â'i gymeriad unigryw ei hun. Mae gan yr ynys 129 milltir o arfordir ac mae'n denu nifer helaeth o ymwelwyr, yn enwedig dros y prif gyfnodau gwyliau.

1.4 Ychydig iawn o 'glybiau nos' cydnabyddedig neu grynodiad dwys o eiddo trwyddedig sydd yno ar yr ynys, ac mae neuaddau pentref ac ysgolion yn darparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Mae nifer o gyngherddau a sioeau awyr agored yn ffurfio'r digwyddiadau mwy eu maint a digwyddiadau dros dro.

2. Sgôp a graddau'r Ddeddf Trwyddedu

2.1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw cyflawni ei ddyletswyddau dan ddarpariaethau'r Ddeddf er mwyn hybu'n gyfartal yr amcanion trwyddedu a ganlyn:

- **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- **Diogelwch y Cyhoedd;**
- **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- **Amddiffyn Plant rhag Niwed.**

- 2.2 Cydnabyddir mai un ffordd yn unig o gyflawni'r amcanion hyn yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cymunedau Lleol, yr Heddlu, busnesau lleol a chydranddeiliaid a phartneriaid perthnasol arall.
- 2.3 Mae'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio gyda deddfwriaethau eraill wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu:

- Yn unol ag Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988 rhaid i awdurdodau wneud cymaint ag sy'n rhesymol i rwystro trosedd ac anrhefn yn y gymuned.
- Dan ddarpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a weithredir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1988, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i amddiffyn hawliau'r unigolyn dan amgylchiadau amrywiol .
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Deddf Iechyd 2006 (Adeiladau Di-fwg 2007);
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus dynodedig) 2001. Deddf Iechyd 2006
- Deddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 a Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 ac Atodlen 7 Deddf Plismona a Throsedd 2009
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y cafodd ei diwygio gan ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000
- Deddf Hapchwarae 2005. Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008
- Cyfarwydddeb Gwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd. Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
- Deddf Cydraddoldebau 2010
- Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Gymdeithasol 2011
- Y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisona 2014, y Ddeddf Mewnffudo.

Nodiadau:- Pan fydd y gyfraith eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar yr ymgeiswyr ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu rai tebyg fel amod ar drwydded yr adeilad, deilydd y drwydded na'r clwb.

- 2.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau hynny a ddynodir mewn Strategaethau eraill gan y Llywodraeth i'r graddau y byddent yn cael effaith ar amcanion y Mesur Trwyddedu. Gweler yr enghreifftiau isod o'r Strategaethau hyn:

- Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â throseddau, anrhefn a niwsans sy'n gysylltiedig ag alcohol;
- Mynychu Clybiau yn ddiogel;
- Rheoliad Llywodraeth Leol / Côt Ymarfer y Sefydliad Safonau Masnach ar Bryniannau Prawf
- Strategaeth Gostwng Trosedd ac Anrhefn
- Concordat Gorfodi
- Strategaeth Alcohol y Llywodraeth a gyflwynwyd i'r Senedd ym Mawrth 2012

Nid yw llawer o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ond cânt effaith anuniongyrchol arnynt. Mae cydgysylltu ac integreiddio polisiâu, strategaethau a chynlluniau o'r fath felly yn hanfodol ac fe'u hamlinellir yn Strategaeth y

Llywodraeth y disgwylir iddi edrych ar isafswm pris fesul uned, gan integreiddio strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol ac addysg.

- 2.5 Bydd y Cyngor hefyd yn dwyn i sylw fentrau sydd yn berthnasol i faes trwyddedu:
- *Camerâu Teledu CC yng nghanol y dref*
 - *Gorchmynion Gwahardd o Ganol y Dref*
 - *Canllawiau Mynychu Clybiau yn ddiogel*
 - *Cynllun "Pub Watch"*
 - *Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau*
- 2.6 Diben y drefn drwyddedu yw caniatáu parhau i werthu alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedig mewn modd fydd yn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac na fydd er afles i drigolion nac ychwaith yn amharu ar fwynderau. Dymuniad y Cyngor yw hwyluso adeiladau sydd dan reolaeth dda gyda deiliaid trwyddedau yn dangos sensitifrwydd i'r effaith ar drigolion lleol.
- 2.7 Mae'r Cyngor yn sylweddoli fod y diwydiant adloniant yn y Sir hon yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Mae'n denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwr mawr. Yn ogystal bydd gan deiliaid masnachol ddisgwyliadau dilys o ran cael amgylchedd sydd yn ddeniadol i fusnesau. Ond dylid sicrhau cydbwysedd hefyd gydag anghenion y trigolion y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i'w gwarchod.
- 2.8 Bydd y Cyngor hefyd yn edrych ar yr ystyriaethau ehangach sy'n cael effaith ar fwynderau'r ardal. Bydd y rhain yn cynnwys taflu sbwriel a baeddu, sŵn, troseddu ar y strydoedd a chapasiti isadeiledd y sir ac adnoddau'r heddlu i ymdopi gyda mewnlif o ymwelwyr, yn enwedig gyda'r nos.
- 2.9 Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Cyngor ac mae'n amlinellu sut y bydd yn trin ceisiadau am drwyddedau adeiladau a thrwyddedau personol. Wrth fabwysiadu'r polisi hwn mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd pob un cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
- 2.10 Diben y Datganiad o'r Polisi Trwyddedu yw cynorthwyo swyddogion ac aelodau i wneud penderfyniad ar gais penodol gan fanylu ar y materion hynny y rhoddir ystyriaeth iddynt fel arfer. Yn ogystal, mae'r Polisi yn ceisio rhoi gwybodaeth glir i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid a buddsoddwyr eraill i'w galluogi hwynt i drefnu symud i'r Sir, neu aros neu fuddsoddi ynddi gyda rhywfaint o sicrwydd.
- 2.11 Mae Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu ac ymgynghori ar y polisi hwn (a weithredwyd gyntaf yn Ionawr 2005) o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 cafodd y polisi ei adolygu yn Ebrill 2012 ac wedyn ym mis Ionawr 2013.
- Canolbwyntiodd yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2012 ar Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2011 a ddaeth i rym ar 1 Hydref a'r Ardoll Hwyr y Nos a Chyfyngiadau Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore a ddaeth i rym ar 31 Hydref 2012. Adolygwyd y fersiwn ddiweddaraf a chyfredol hon yn hwyr yn 2015 a daeth yn ddeddf ar 24 Chwefror, 2016.
- 2.12 Fel arfer bydd y polisiau'n berthnasol ar gyfer unrhyw gais am drwydded y penderfynir arno ar ôl y dyddiad pryd y penderfynodd y Cyngor weithredu'r polisiau hyn, beth bynnag fo dyddiad cyflwyno'r cais yn y lle cyntaf. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â;

- 2.13 Os bydd y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 yn cael eu diwygio ar unrhyw adeg, bydd raid i'r Awdurdod Trwyddedu gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth lle maent yn gwyro oddi wrth y Polisi hwn.
- 2.14 Bydd raid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan yr Awdurdod Iechyd Cyhoeddus sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol ychwanegol yr ymgynghorir â nhw ynghylch Trwyddedau Adeiladau. Er nad oes Amcan Trwyddedu penodol sy'n ymwneud â'r maes Iechyd, mae'n rhesymol i Awdurdod Iechyd wneud sylwadau ar ddiogelwch y cyhoedd o fewn sgôp yr economi gyda'r nos ac ar unrhyw straen a roddir ar ei wasanaethau a'i adnoddau.
- 2.15 Bydd raid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan yr Adran Trwyddedu sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol ychwanegol yr ymgynghorir â hwy ynghylch Trwyddedau Adeiladau. Bydd hyn yn galliogi yr Awdurdod Trwyddedu i gymryd camau ymhellach yn ogystal ar swyddogaeth cydcysyllty presenol a gellir gwrthod, cael gwared ar neu arolygu trwyddedau heb orfod derbyn sylwadau gan bartïon eraill.

3.0 Amcanion Trwyddedu Rhwystru Trosedd ac Anrhefn

- 3.1 Dylai'r Datganiad Polisi Trwyddedu, ynghyd â'r trefniadau a'r amodau sydd yn rhan o'r broses, hybu'r Amcanion Trwyddedu (gweler paragraff 1.3):
- 3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys rheolaeth gynllunio, rheolaeth trafndiaeth, polisiau a phwerau trosedd ac anrhefn. Bydd y Cyngor yn sefydlu partneriaethau er mwyn cyd-weithio'n agos gyda'r heddlu, yr awdurdod tân, y Bwrdd Iechyd Lleol, busnesau lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.
- 3.3 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sydd yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i rwystro/gostwng trosedd ac anrhefn yn y gymuned.
- 3.4 Gostwng lefelau troseddu mewn ardaloedd penodol yw un o flaenoriaethau pwysicaf Strategaeth Trosedd ac Anrhefn y Cyngor. Felly bydd y polisi yn rhoi sylw i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anrhefn ar yr ynys, yn enwedig pan fydd yn ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau tebygol am drwydded a cheisiadau i adnewyddu neu amrywio trwyddedau.

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, ac eithrio lle mae tystiolaeth glir nad ydynt yn berthnasol, a bydd yn ymgynghori gyda hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sydd yn ymwneud â cheisiadau am Drwyddedau Adeiladau a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro.

3.5 **Mynychu Clybiau yn Ddiogel**

Dymuna'r Cyngor hybu egwyddorion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel". Bydd yn argymhell canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref yn y cyswllt hwn i Ddeiliad Trwyddedau Adeilad a Deiliaid Tystysgrif Adeilad Clwb. Gellir gosod amodau trwyddedu priodol a chymesur i reoli'r amgylchedd mewn rhai adeiladau perthnasol er mwyn cyflawni amcanion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel".

3.6 **Cyffuriau**

Bydd angen gosod amodau arbennig ar rai mathau o leoliadau er mwyn gostwng y posibilrwydd o werthu a defnyddio cyffuriau ac i greu awyrgylch mwy diogel ar gyfer y rheini na fyddent efallai yn ymwybodol o faterion o'r fath. Bydd yr amodau hyn yn ystyried yr arweiniad a gafwyd gan y Swyddfa Gartref ac y cyfeiriwyd ato uchod ynglŷn â Mynychu Clybiau yn Ddiogel. Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r Heddlu a chyda'r Timau Gweithredu Cyffuriau lleol ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn.

3.8 **Goruchwylwyr ar y Drysau**

1. Ym mis Mehefin 2010, penderfynwyd y byddai'r gwasanaeth polisi cynllunio yn cael ei ddarparu ar y cyd rhwng Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ac Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd. Er mwyn gallu darparu gwasanaeth polisi cynllunio ar y cyd, gwelwyd y byddai angen creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Byddai'r Pwyllgor yma yn gweithredu fel corff trawsffiniol i wneud penderfyniadau ar ran y ddau Gyngor ar adegau penodol yn y broses o baratoi'r Cynllun.
2. Ym mis Hydref 2010 fe benderfynodd y ddau Gyngor unigol i weithredu ar y penderfyniad a gafodd ei wneud ym mis Mehefin i greu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd trwy:
 - a. roi'r newidiadau angenrheidiol i'w cyfansoddiadau yn eu lle, a

- b. chymeradwyo cytundeb ffurfiol rhwng y ddau Gyngor sy'n manylu ar gyfrifoldebau'r Pwyllgor a'r trefniadau cyfansoddiadol, gweithredol a gweinyddol ar ei gyfer.
3. O dan y cytundeb, a gafodd ei arwyddo gan y ddau Gyngor unigol, mae cyfrifoldeb y ddau Gyngor yn unigol a chyfrifoldeb y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei osod.
4. O dan y cytundeb rôl y Cynghorau unigol ydi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni a mabwysiadu'r Cynllun. O dan y cytundeb, rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ydi cynghori ar y Cytundeb Cyflawni, cynghori ar y ddogfen Hoff Strategaeth, cytuno ar y Cynllun Adnau, cytuno ar y newidiadau â ffocws, ac yn olaf derbyn adroddiad yr Arolygydd cyn ei gyflwyno i'r ddau Gyngor unigol am gymeradwyaeth.
5. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio ers 2011 i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac ardal Cyngor Sir Ynys Môn.

Cytundeb Cyflawni - amserlen ddiwygiedig

6. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y bydd y ddau Gyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae hi wedi cymryd mwy o amser na ragwelwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol i fynd trwy'r camau statudol. Mae'r rhesymau am y llithriad yn cynnwys ymdopi gyda dau etholiad lleol (etholiadau Cyngor Gwynedd ym mis Mai 2012 ac etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Mai 2013); newidiadau polisi cynllunio cenedlaethol oedd angen rhoi ystyriaeth iddo; gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth hanfodol yn cymryd mwy o amser na ragwelwyd; heriau yn datblygu yn gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni. Cafodd y Cytundeb Cyflawni presennol ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor unigol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2014. Fe gafodd ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015.
7. Fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2015. Mae'r tabl sydd yn y Cytundeb Cyflawni cyfredol yn adnabod amserlen ddangosol ar gyfer mynd trwy'r camau ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus. Nid oedd yn bosib rhoi amserlen derfynol hyd nes oedd modd cofrestru a dechrau dadansoddi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.
8. Yn unol â'r Rheoliadau ynglŷn â pharatoi cynlluniau datblygu lleol, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu Cytundebau Cyflawni yn rheolaidd er mwyn, e.e. sicrhau bod yr amserlen yn un gyfredol.
9. Cafodd Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wybod am yr amserlen ddiwygiedig pan ddaru o gwrdd ym mis Mehefin 2015. Mae aelodaeth y Panel 'run fath ag aelodaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Fe wnaeth Rhifyn 5 Newyddlen y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd roi gwybodaeth am yr amserlen ddiwygiedig. Cafodd y Newyddlen ei yrru i randdeiliaid penodol a chyffredinol ynghyd ag unigolion a mudiadau sydd ar y gofrestr cysylltiadau. Mae copi i'w weld ar wefan y ddau Gyngor yn <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Newyddlenni/Newyddlen-Gorffennaf-2015.pdf> . Cafodd aelodau Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ac

aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd wybodaeth am yr amserlen yn ystod Tachwedd 2015.

10. Yn unol â'r cytundeb sydd rhwng y ddau Gyngor fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ystyried yr amserlen ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2016. Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd benderfynu argymhell bod y ddau Gyngor unigol yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig a welir yn **Atodiad 1 i'r adroddiad yma**. Pwysleisir felly mai unig bwrpas yr adroddiad yma yw cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn (yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol) i'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun.
11. Cafodd adroddiad tebyg i hwn ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ar 3ydd Mawrth 2016 ac fe wnaeth Cyngor Gwynedd benderfynu cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig.
12. Ar ôl i'r Cynghorau gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig fe gaiff y Cytundeb Cyflawni ei ddiwygio yn unol â hynny a'i yrru i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth. Yna fe gaiff y Cytundeb Cyflawni diwygiedig a llythyr Llywodraeth Cymru ei roi ar wefan y ddau Gyngor.

Gweithredu ar benderfyniadau eraill y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

13. Gwelwch fod y tabl yn Atodiad 1 yn nodi'r camau statudol sydd yn rhan o broses paratoi cynlluniau datblygu lleol yn ogystal â rhoi amserlen ar eu cyfer. Mae'r camau statudol yma yn cynnwys gwneud penderfyniad am gynnwys y Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac wedyn gwneud penderfyniad am sut i ymateb i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.
14. Fel y gwyddoch, mae datblygiad y Cynllun Adnau wedi bod yn seiliedig ar gasglu a dadansoddi tystiolaeth amrywiol. Mae'r dystiolaeth yma yn cynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Cydraddoldeb, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac Asesiad Effaith Iechyd. Mae'r broses yn gysylltiedig â'r asesiadau yma wedi bod yn ailadroddus ac yn dilyn methodoleg gydnabyddedig. Mae'r ddolen i allu gweld adroddiadau am yr asesiadau yma wedi cael ei gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad yma, er gwybodaeth.
15. Cafodd unrhyw un a oedd efo diddordeb yn y Cynllun gyfle i fynegi barn amdano yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn ystod Chwefror a Mawrth 2015. Yn unol â'r cytundeb rhwng y ddau Gyngor cafodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wybod am y gwrthwynebiadau mewn cyfarfod ar 29 Ionawr 2016, er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sut i'w taclo. Mae'r ddolen i'r adroddiad a'r atodiadau a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor i'w weld ar ddiwedd yr adroddiad yma. Ar ddiwedd ei gyfarfod ar 29 Ionawr penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i gymeradwyo:

- (i)
 - a. Ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau
 - b. Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau
 - c. Mân Newidiadau i'r Cynllun Adnau.
 - (ii) cyflwyno'r Cynllun ac atodiad o newidiadau â ffocws i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymchwiliad
 - (iii) cyhoeddi newidiadau â ffocws ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
16. Beth bynnag oedd penderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ynglŷn â'r gwrthwynebiadau a gafwyd am y Cynllun Adnau, mae gan y gwrthwynebwyr hawl i'w gwrthwynebiadau dderbyn ystyriaeth gan Arolygydd annibynnol yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun un ai yn ysgrifenedig neu ar lafar mewn gwrandawiadau.
17. Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 29 Ionawr 2016, mae ymgynghoriad cyhoeddus am gofrestr o Newidiadau â Ffocws wedi cychwyn ers 25 Chwefror, 2016. Bydd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn dod i ben ar 13 Ebrill 2016. Bydd y sylwadau a dderbynnir am y Newidiadau â Ffocws yn cael eu cofrestru ac fe fydd copi cyflawn o bob un sylw yn cael eu gyrru i'r Arolygydd a fydd wedi cael ei benodi i gynnal Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun.
18. Mae Swyddog Rhaglen yr Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun wedi cael ei phenodi. Mae'r Swyddog wrthi, er enghraifft: yn creu Llyfrgell galed ac electronig yr Archwiliad; yn trafod gofynion yr Arolygiaeth Cynllunio o ran lleoliad swyddfa ar gyfer yr Arolygydd a sesiynau Gwrandawiadau Cyhoeddus; yn casglu deunydd swyddfa, e.e. papur ysgrifennu efo cyfeiriad a manylion cyswllt arno'n barod.
19. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Cynllunio wedi cael ei arwyddo gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (ar ran y ddau Gyngor) a'r Arolygiaeth Cynllunio.
20. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wrthi'n cwblhau dogfennau sydd eu hangen er mwyn i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio.
21. Mae'r Arolygiaeth Cynllunio wedi adnabod Arolygydd i arwain yr Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun ac fe yrrwyd 2 gopi caled o'r Cynllun Adnau i'r Arolygiaeth Cynllunio yn barod er mwyn i'r Arolygydd a chynorthwydd ddechrau dod yn gyfarwydd efo'i gynnwys. Bydd yr Arolygiaeth Cynllunio yn cyhoeddi enw'r Arolygydd ac unrhyw gynorthwydd yn ystod mis Mawrth 2016.
22. Mae'r Arolygiaeth Cynllunio a Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod faint o gopiau caled o'r Papurau Testun a Phapurau Cefndir fyddant eu hangen. Mae'r gwaith o argraffu digon o gopiau caled wedi dechrau.

23. nelir i roi'r deunydd angenrheidiol i'r Arolygiaeth Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos yn cychwyn 7 Mawrth 2016 er mwyn cwblhau'r broses cyflwyno.

Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Dim sylw
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylw
5	Adnoddau Dynol (AD)	Dim yn berthnasol
6	Eiddo	Dim yn berthnasol
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Dim yn berthnasol
8	Sgriwtini	Dim yn berthnasol
9	Aelodau Lleol	Dim yn berthnasol
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Dim yn berthnasol

Argymhelliad

24. **Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig a welir yn Atodiad 1 i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaeth.**

Atodiad: Amserlen ddiwygiedig paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Papurau cefndir:

Papurau testun a Phapurau Cefndir amrywiol

<http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-ar-y-cyd-ynys-mn-a-gwynedd/dogfennau-cefndirol/>

Adroddiadau am asesiadau amrywiol

<http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-ar-y-cyd-ynys-mn-a-gwynedd/asesiadau-ac-arfarniadau/>

Adroddiad Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 29/1/16

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=159&MId=2865&Ver=4&LLL=1>

ATODIAD 1: Amserlen ddiwygiedig paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Cam yn y broses baratoi		Amserlen yn y Cytundeb Cyflawni cyfredol	Amserlen ddiwygiedig
1.	Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflenwi terfynol (<i>Rheoliad 5 - 10</i>)	Ionawr -Tachwedd 2011	amherthnasol
2.	Adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth	Ionawr 2011 - Hydref 2012	amherthnasol
3.	Cyfranogiad Cyn-Adnau - paratoi'r dogfennau cyn-Adnau a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (<i>Rheoliad 14</i>). Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLI ar y Cyd	Ionawr 2011 - Hydref 2012	amherthnasol
4.	Ymgynghoriad Cyn-Adnau - cyfnod o 6 wythnos (<i>Rheoliad 15</i>). Ymgynghoriad ffurfiol ar y dogfennau cyn-Adnau a'r adroddiad arfarnu cynaliadwyedd	Mai - Mehefin 2013	amherthnasol
5.	Cyfranogiad - datblygu'r sail dystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLI ar y Cyd Adnau (cynllun drafft llawn) sydd wedi'i seilio ar y sail dystiolaeth, gan gynnwys yr ymateb i'r dogfennau cyn-Adnau	Gorffennaf 2013 - Rhagfyr 2014	amherthnasol
6.	Gosod y CDLI ar y Cyd a dogfennau cysylltiedig ar adnau - cyfnod ymgynghori 6 wythnos (<i>Rheoliad 17</i>)	Chwefror 2015 - Mawrth 2015	amherthnasol
7.	Ystyried sylwadau am y CDLI ar y Cyd Adnau (<i>Rheoliadau 18 & 19</i>)	Ebrill 2015 - Tachwedd 2015	Ebrill 2015 - Rhagfyr 2015
8.	Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori arnynt - cyfnod o 6 wythnos (<i>Rheoliadau 20 & 21</i>)	Mehefin - Gorffennaf 2015	Nid oes ei angen mwyach
9.	Cyflwyno'r CDLI ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus (<i>Rheoliad 22</i>)	Rhagfyr 2015	Chwefror 2016

10.	Cyfnod yr Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (<i>Rheoliad 23</i>)	Ebrill 2016	Chwefror 2016 - Ionawr 2017
11.	Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (<i>Rheoliad 24</i>)	Hydref 2016	Ionawr 2017
12.	Mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd (<i>Rheoliad 25</i>)	Rhagfyr 2016	Chwefror 2017
13.	Monitro ac Adolygu	Adroddiad blynyddol	Adroddiad blynyddol

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor
Dyddiad:	Pwyllgor Gwaith Anffurfiol – 30 Tachwedd 2015 Pwyllgor Gwaith – 14 Rhagfyr 2015 Cyngor – 10 Mawrth 2016
Pwnc:	Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau 2015-2020
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd J Arwel Roberts
Pennaeth Gwasanaeth:	Dewi R Williams (Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	ChrisStaddon (Rheolwr Trawsnewid Asedau Corfforaethol) 2273 ChrisStaddon@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	D/B

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymhell i'r Cyngor llawn ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau am y cyfnod 2015-2020.

RHESWM

Mae angen y penderfyniad hwn er mwyn disodli'r Cynllun Rheoli Asedau blaenorol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2009 ac sydd bellach wedi dyddio.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol hwn ar gyfer Tir ac Adeiladu'n ddogfen strategol lefel uchel sy'n pennu cyfeiriad ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor am y bum mlynedd nesaf. Ei bwrpas yw:

1. Sicrhau dull cydlynol, corfforaethol a chyfannol o reoli ein hasedau.
2. Sicrhau aliniad ein hasedau gyda'r ddarpariaeth o wasanaethau rŵan ac yn y dyfodol.
3. Herio'r 'status quo' er mwyn nodi cyfleon i werthu'r asedau hynny nad oes eu hangen i ddarparu gwasanaethau rheng-flaen er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf ac arbedion referniw.

Bydd y cynllun yn sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag eiddo'r Cyngor er

mwyn sicrhau bod asedau'n addas i'r pwrpas, y gwneir y defnydd gorau posib ohonynt gan leihau i'r eithaf ar y costau er mwyn sicrhau bod y portffolio eiddo yn gynaliadwy i'r dyfodol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd diweddarau cynllun gwreiddiol 2009 ond penderfynwyd peidio gwneud hynny oherwydd bod amcanion y sefydliad wedi newid a symud ymlaen ers adeg drafftio'r cynllun.

Gyda'r angen i arbed oddeutu £17 miliwn dros y tair blynedd nesaf, nodwyd yn y Strategaeth Effeithlonrwydd ddrafft nifer o syniadau ar gyfer gwneud arbedion sy'n gysylltiedig ag asedau. O'r herwydd, gall rheoli asedau gyfrannu tuag at ysgafnhau'r pwysau ariannol cyfredol a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol a chynorthwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ddarparu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ar gyfer Tir ac Adeiladau.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Oherwydd bod y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau 2015-2020 yn rhan o'r Fframwaith Polisi, rhaid i'r Cyngor ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

NI fydd angen cyllideb ar gyfer gweithredu'r argymhellion yn y cynllun.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae'r cynllun drafft wedi cael ei drafod gan yr UDA ar ddau achlysur. Yn dilyn y drafodaeth gyntaf, awgrymodd yr UDA nifer o ychwanegiadau a rhoes ei gymeradwyaeth i ymgynghori gyda'r Gwasanaethau. Yn yr ail drafodaeth, adolygodd yr UDA y newidiadau yn dilyn ymgynghori gyda'r gwasanaethau a chymeradwyo wedyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Yr Adran Gyllid wedi ei chynnwys fel rhan o ymgynghori ehangach gyda'r gwasanaeth a dim sylwadau i'w gwneud. Mae'r Swyddog Adran 151

		wedi bod yn rhan o'r broses o adolygu'r cynllun yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Yr Adran Gyfreithiol wedi cael ei chynnwys fel rhan o'r ymgynghori ehangach gyda'r gwasanaeth ac wedi gofyn yn benodol i gael gweld data a allai fod yn fasnachol sensitif. Cadarnhaodd y Gwasanaeth nad oes unrhyw ddata masnachol sensitif yn yr adroddiad a fyddai'n cyfiawnhau ei eithrio o'r parth cyhoeddus.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Yr Uned Adnoddau Dynol wedi eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghori ehangach gyda'r gwasanaeth a dim sylwadau i'w gwneud.
5	Eiddo	Mae eiddo wedi chwarae rôl hanfodol yn y broses o ddrafftio'r adroddiad hwn.
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	TGCh wedi eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghori ehangach gyda'r gwasanaeth a dim sylwadau i'w gwneud.
7	Sgriwtini	Mae'r cynllun wedi cael ei ystyried gan y Panel Canlyniad Sgriwtini Cael Gwared ar Asedau ar 8 Hydref pryd cytunwyd ar nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cynnwys yn y drafft terfynol.
8	Aelodau Lleol	D/B
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Na

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthdodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall

F - Atodiadau:
Atodiad 1 – Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau 2015-2020

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

--



CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL AR GYFER TIR AC ADEILADAU 2015 - 2020



CYNNWYS

Rhan 1- Adran Statig

Crynodeb Gweithredol _____	3
1.1 Cyflwyniad _____	6
1.2 Sgôp a Gyrwyr _____	8
1.3 Y Sylfaen Asedau Tir ac Eiddo _____	11
1.4 Rheoli'r Asedau _____	15

Rhan 2 - Adran Gwaith

2.1 Trawsnewid Gwasanaeth _____	18
2.2 Effeithlonrwydd Ynni _____	40
2.3 Adeiladau Rhestredig _____	41
2.4 Rhesymoli Asedau _____	43
2.5 Casgliad a Chynllun Gweithredu _____	45
Atodiad 1 - Cyllidebau Cyfalaf _____	49
Atodiad 2 - Model Llywodraethu CLBAG _____	54
Atodiad 3 - Data ynghylch Cyflwr _____	55
Atodiad 4 - Rhestr o Asedau Priffyrdd _____	57
Atodiad 5 - Cofrestr Adeiladau Rhestredig _____	60
Atodiad 6 - Cofrestr Rhesymoli _____	61

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2015-2020.

Fel y gwyddom, mae'r ynys yn wynebu degawd o fuddsoddi a newid sylweddol gyda phrosiectau isadeiledd mawr fel Wylfa Newydd a phrosiectau gwyddoniaeth, technoleg a hamdden eraill yn cael eu cynllunio ar draws yr ynys. Bydd y prosiectau hyn yn cynnig heriau, risgiau a chyfleoedd sylweddol a fydd yn effeithio ar wasanaethau'r Cyngor a'i asedau.

Pwrpas y cynllun hwn yw sicrhau bod ein hasedau wedi eu halinio â'r ddarpariaeth o wasanaethau er mwyn ymateb i'r heriau hyn a nodi cyfleoedd i werthu'r asedau hynny nad oes eu hangen mwyach ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen fel bod modd cynhyrchu derbyniadau cyfalaf ac arbedion refeniw y mae gwir angen amdanynt.

Gydag angen i arbed tua £ 17,000,000 yn ystod y tair blynedd nesaf, nodwyd yn y Strategaeth Effeithlonrwydd ddrafft nifer o syniadau ar gyfer gwneud arbedion sy'n gysylltiedig ag asedau. O'r herwydd, gall rheoli asedau gyfrannu tuag at leddfu'r pwysau cyllidebol cyfredol a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol a chynorthwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd.

Dyma benawdau allweddol y cynllun hwn:

Moderneiddio Ysgolion: Rhaglen pymtheng mlynedd yw hon wedi ei rhannu'n bedwar cyfnod Band A i Band D sy'n cynnig newid radical i'r portffolio Ysgolion cyfredol er mwyn ymdrin â'r gorgyflenwad presennol o leoedd mewn ysgolion. Mae Band A y rhaglen hon, sy'n ymwneud â'r cyfnod 2013 - 2019 yn cynnig adeiladu 4 ysgol gynradd newydd, ailfodelu 1 ysgol gynradd a chau a gwerthu'r rhai hynny nad oes mwyach eu hangen er mwyn cyllido'r rhan hon o'r rhaglen. Hyd yma, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi a chau tair ysgol, ac adeiladu ysgol gynradd newydd yn ardal Llanfachraeth / Llanfaethlu a chau tair. Cymeradwywyd cyllid ar gyfer y ddwy ysgol hyn.

Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn: Mae'r ddarpariaeth bresennol drwy gartrefi gofal preswyl yn ddrud iawn ac mewn perygl o fod yn anfforddiadwy oherwydd nifer o faterion sy'n wynebu'r gwasanaeth sef bod llai o bobl yn dewis gofal preswyl, yr angen am ailfodelu a buddsoddiad helaeth yn y cartrefi i gwrdd â safonau'r 21ain Ganrif, ac nid yw'r cyfleusterau yr ydym yn eu cynnig cystal â'r sector preifat ac maent yn ddrutach. Daeth y gwasanaeth i'r casgliad y bydd yn fwy cost-effeithiol i ddarparu Gofal Ychwanegol mewn partneriaeth gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn ardaloedd Amlwch a Llangefni a de'r Ynys.

Bydd gwerthu Garreglwyd yng Nghaerdybi a'r cartrefi yn Amlwch a Llangefni unwaith y bydd y cyfleusterau Gofal Ychwanegol wedi eu hagor yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf oddeutu £ 3M ac arbedion oddeutu £ 7.8m dros gyfnod o ddeng mlynedd. Hyd yma, cymeradwywyd lleoli cyfleusterau Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni, a daethpwyd i gytundeb gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu a rhedeg y cyfleuster Llangefni.

Y Prosiect Gweithio'n Gallach: Y gyrrwr gwreiddiol ar gyfer creu'r Prosiect Gweithio'n Gallach oedd awydd yr Awdurdod i resymoli ei bortffolio swyddfeydd am amryw o resymau, gan gynnwys costau cynnal a chadw parhaus ac addasrwydd adeiladau fel swyddfeydd. Mae nifer o adeiladau wedi cael eu nodi ar gyfer eu cau yn y dyfodol agos sy'n golygu bod angen cynllun clir ynghylch sut i ail-leoli'r staff sy'n gweithio ym mhob un ohonynt i'r Prif Adeilad; mae'r rhain yn cynnwys:

- Parc Mount;
- Rovacabin;
- Tŷ Penyrsedd;
- Canolfan Hyfforddiant Môn;
- Hen Ysgol y Graig
- Adeiladau Cynnal & Genesis

Dros ddwy flynedd, bydd y prosiect yn rhyddhau arbedion a fydd fe ragdybir, oddeutu £ 729k a derbyniadau cyfalaf o £ 563k o werthu'r asedau uchod. Mae angen buddsoddiad cyfalaf o £ 1.1M ar gyfer y prosiect hwn sydd ac mae hynny wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Tai: Mae'r Gwasanaeth Tai Cyngor bellach wedi tynnu allan o'r HRAS ac mae'n ariannu ei hun. Ers 2 Ebrill 2015, mae holl asedau ac incwm tai'r Cyngor yn yn cael eu neilltuo'n benodol i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r risg a nodwyd yn sgil yr angen i ddarparu ar gyfer miloedd o weithwyr ychwanegol yn ystod y gwaith o adeiladu Wylfa Newydd yn creu'r angen am lety ychwanegol a'r risg o ddadleoli o aelwydydd presennol lle nad yw hynny'n digwydd.

Strategaethau ar gyfer Asedau Hamdden a Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth ac Ieuencid: Ar hyn o bryd, mae'r strategaethau hyn wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r cynllun hwn unwaith y byddant wedi eu cwblhau.

Mân-ddaliadau: Y ddau brif fater y mae angen mynd i'r afael â hwy yw:

- Mae incwm rhentol y mân-ddaliadau wedi ei neilltuo'n benodol ar eu cyfer hyd oni fydd y rhaglen wella wedi'i chwblhau. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, dylid cadw £200k o'r incwm rhentol o £500k i gynnal a chadw'r mân-ddaliadau er mwyn atal unrhyw ddirywiad pellach.

- Yr angen i herio'r cyfiawnhad dros gadw'r stad hon drwy ymarfer gwerthuso opsiynau i ystyried gwerthu'r stad er mwyn manteisio ar y derbyniadau cyfalaf oddeutu £ 7.9m y gellid eu sicrhau drwy eu gwerthu.

Asedau Diwydiannol a Manwerthu: Mae angen herio'r cyfiawnhad dros gadw'r asedau hyn drwy werthuso'r opsiynau i ystyried eu gwerthu lle mae amodau grant yn caniatáu hynny, ac ildio'r buddion refeniw blynyddol. Mae'r portffolio diwydiannol yn cynhyrchu incwm oddeutu £ 355k ac ar hyn o bryd mae'n werth £ 3.39M. Gyda'r cyfleoedd sydd ar y gweill yn y sector ynni, disgwylir i'r galw gynyddu ac ni fydd modd i'r sector preifat ei ddiwallu. Os gwneir penderfyniad i gadw'r portffolio hwn, mae angen i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a chynyddu ei incwm trwy ddeall sgôp, graddfa a lleoliad y galw.

Ar hyn o bryd, mae'r portffolio Manwerthu yn cynhyrchu incwm blynyddol o £ 55k ac mae'n werth £ 615k.

Yn ogystal â'r asedau uchod, mae yna Eiddo Amrywiol, Tir a Ddefnyddir, Tir heb ei ddatblygu, Tir Pori, Parciau a Llecynnau Agored nad oes eu hangen i ddarparu gwasanaethau rheng flaen ac sydd, yn aml, yn faich ar y Cyngor. Mae angen cynnal ymarfer gwerthuso opsiynau ar gyfer bob un o'r asedau hyn gyda golwg ar eu gwerthu os yw hynny'n briodol er mwyn sicrhau derbyniadau cyfalaf y mae gwir angen amdanynt.

Camau gweithredu ychwanegol y cynllun hwn yw:

- Adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â gwerthu asedau gyda'r bwriad o gyflymu'r broses lle mae hynny'n bosibl.
- Adolygu'r meini prawf ar gyfer dewis i drosglwyddo ased yn hytrach na'i werthu lle mae angen sicrhau'r derbyniadau Cyfalaf mwyaf posib o werthu ein hasedau.
- Angen datblygu Polisi Effeithlonrwydd Ynni er mwyn cynorthwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd, gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a gwneud arbedion ar gostau'r ynni a dŵr a ddefnyddir er mwyn lleihau ein hól-troed carbon.
- Cynnal adolygiadau ardal er mwyn nodi gwasanaethau tebyg sy'n cael eu darparu gan gyrrff cyhoeddus eraill neu'r sector preifat a allai gymryd drosodd rai gwasanaethau anstatudol petai'r Cyngor yn penderfynu eu tynnu'n ôl.
- Cynnal gwerthusiad opsiynau i benderfynu ar y defnydd a wneir o Neuadd y Sir yn y dyfodol.

RHAN 1

1.1 Cyflwyniad

Yn 2009, cymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Asedau (CRhA) Corfforaethol cyntaf ar gyfer Tir ac Adeiladau ar gyfer y cyfnod 2009 i 2013, ac eithrio Tai Cyngor, yr isadeiledd Priffyrdd a pharciau cyhoeddus.

Ystyriwyd bod y Cynllun Rheoli Asedau yn hanfodol ar gyfer sicrhau ffocws strategol ar reoli'r portffolio eiddo a oedd yn gysylltiedig â'r amcanion corfforaethol a strategaethau gwariant cyfalaf y Cyngor ar y pryd.

Y bwriad hefyd oedd darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag eiddo'r Cyngor ac i sicrhau bod adeiladau gweithredol yn ddiogel, yn addas i'r pwrpas a bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o asedau eiddo a'r costau'n cael eu lleihau i'r eithaf er mwyn sicrhau bod y portffolio eiddo yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, sef nod y cynllun hwn hefyd.

Mae'r CRhA bellach yn hen ac o ganlyniad mae angen cynllun newydd i ddiweddarau'r Cynllun Rheoli Asedau gwreiddiol ar adeg pan mae'n rhaid i'r Cyngor wynebu heriau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen ac sy'n debygol o barhau am rai blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn mynd drwy newid mawr ei hun gyda moderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau a'r modd y darperir gwasanaethau a'r awydd i resymoli ei bortffolio asedau sef yr ail beth mwyaf costus i'r Cyngor ar ôl ei staff.

Mae hyn ar adeg pan mae prosiectau seilwaith mawr o bwys yn cael eu cynllunio fel Wylfa Newydd, Land & Lakes ym Mhenrhos a chynllun glannau Caergybi a fyddant, os cânt eu datblygu i'w potensial llawn, yn dod â chyfleoedd gwaith i'r ynys ond byddant hefyd yn golygu y bydd cynnydd o bosib yn y galw am wasanaethau a bydd angen i'n hasedau gwasanaeth fod ar gael i ymateb i'r rhain.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r Cyngor fod yn ymatebol ac yn hyblyg yn y ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn o reolaeth ariannol dynn, cynnydd yn nisgwyliadau a gofynion ein dinasyddion yn awr ac yn y dyfodol. Bydd angen i ni ddarparu mwy am lai drwy sicrhau:

- ***Gwasanaethau allweddol yn parhau o sylfaen asedau sy'n gynaliadwy.***
- ***Bod asedau yn y lleoliad cywir.***
- ***Bod asedau'n addas i'r pwrpas.***
- ***Bod asedau'n cael eu defnyddio'n dda.***
- ***Bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.***

... a hynny er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen rŵan ac yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau newydd a fydd, fe ragamcenir yn parhau am bum mlynedd, wedi cael ei adolygu a'i gytuno gan y Cyngor a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ymhellach er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn gofynion mewnol neu allanol fel a phan fyddant yn digwydd.

Er mwyn hwyluso hyn, bydd rhan 1 y cynllun hwn yn parhau i fod yn sefydlog yn ystod y pum mlynedd a bydd rhan 2 a'r atodiadau, sef rhannau gweithredol y ddogfen, yn cael eu diweddarau pan a phryd y bydd penderfyniadau a newidiadau yn cael eu cynllunio ar gyfer ein hasedau tir ac adeiladau.

1.2 Sgôp a Gyrwyr

Mae sgôp y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau yn cynnwys asedau megis:

- Yr holl dir ac adeiladau gweithredol y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ohonynt, e.e. ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, cartrefi gofal a swyddfeydd ac ati
- Pob darn o dir ac adeiladau anweithredol megis unedau diwydiannol, unedau manwerthu, tir pori, asedau amrywiol ac asedau nad oes eu hangen
- Y stad mân-ddaliadau
- Tai Cyngor
- Isadeiledd Priffyrdd
- Parciau ac Ardaloedd Agored
- Asedau Arforol

Mae asedau fel yr isod y tu allan i'r sgôp:

- Darnau o waith celf
- Y fflyd gerbydau.
- Dodrefn a gosodiadau a ffitiadau cysylltiedig
- Offer TG

Y gyrwyr allweddol ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau yw:

Gyrwyr Allweddol 1 - Y Cynllun Corfforaethol 2013-2017

Yn y Cynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi datgan yr angen i drawsnewid ei wasanaethau a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio ac wedi nodi'r saith amcan a ganlyn fel ffordd o gyflawni hyn:

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
- Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd angen cwrdd â'r amcanion corfforaethol hyn drwy wella gwasanaethau ac mae angen i'n hasedau adlewyrchu a chefnogi gweledigaeth y Cyngor wrth symud ymlaen.

Gyrrwr Allweddol 2 – Sicrhau Effeithlonrwydd

Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, roedd y Cyngor wedi datblygu Strategaeth Effeithlonrwydd ddrafft ar gyfer 2014-2017 ac mae'n ymgynghori yn ei chylch ar hyn o bryd. Diben y strategaeth yw darparu cyfeiriad clir o ran sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf.

Nodir yn y strategaeth hon nifer o syniadau ar gyfer gwneud arbedion sy'n gysylltiedig ag asedau, megis:

- Lleihau nifer y swyddfeydd ac asedau tir ac adeiladau eraill yn ein perchenogaeth
- Gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau
- Moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithredu a symleiddio swyddogaethau cefn swyddfa
- Moderneiddio gofal cymdeithasol i bobl hŷn
- Moderneiddio ysgolion
- Adolygu'r ddarpariaeth o Lyfrgelloedd, gwasanaethau Hamdden a Diwylliant a gwasanaethau leuenctid.

Oherwydd yr awydd hwn i sicrhau effeithlonrwydd o ran y modd yr ydym yn defnyddio ein hasedau eiddo ar gyfer darparu gwasanaethau, a hefyd i ddarparu gwasanaethau trwy ddulliau mwy cost effeithiol sy'n golygu na fyddwn efallai angen rhai o'n hasedau. Mae cyfle i leihau costau rhedeg trwy gau asedau ychwanegol nad ydym eu hangen gyda'r posibilrwydd o gynhyrchu derbyniadau cyfalaf yn sgil eu gwerthu.

Gyrrwr Allweddol 3 - Darparu Gwasanaethau yn y Dyfodol

Mae hwn yn gyrrwr allweddol ar gyfer unrhyw ymagwedd strategol tuag at reoli asedau oherwydd mae darparu gwasanaethau yn ganolog i bopeth a wnawn.

Mae'n debygol na fydd darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn golygu defnyddio asedau fel yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd ac efallai y byddir yn mynd ati i chwilio am ddatrysiadau nad ydynt yn seiliedig ar eiddo gyda TG yn alluogwr allweddol wrth gyflawni hyn. Bydd hyn yn anochel yn arwain at resymoli ein hasedau eiddo sylfaenol wrth drawsnewid a moderneiddio gwasanaethau.

Mae'n bwysig fod gwasanaethau allweddol yn parhau i gael eu cynnal o sylfaen asedau sy'n gynaliadwy; asedau sydd yn y lleoliad cywir, yn addas i'r pwrpas, yn cael eu defnyddio'n dda ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn awr a'r hyn y mae angen cynllunio ar ei gyfer yn y dyfodol. Dylai'r ddogfen hon gael ei hystyried fel arf i gynorthwyo i ymateb i'r her hon.

Gyrrwr Allweddol 4 – Lleihau'r Baich Gwaith Trwsio

Mae llawer o'n hadeiladau a adeiladwyd yn ystod y 1960au a'r 1970au yn awr yn dangos eu hoed a hynny'n bennaf oherwydd diffyg buddsoddiad dros y blynyddoedd. Bellach, mae angen buddsoddi'n sylweddol ar ffabrig yr adeiladau a'r gwasanaethau ynddynt er mwyn eu gwneud yn fwy ynni effeithlon a chost effeithiol i'w rhedeg ac i sicrhau eu bod yn gallu parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol heb y risg o fethu a gorfod cau adeiladu'n ddirybudd.

Amcangyfrifir bod cost y gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni oddeutu £18 miliwn a hynny'n seiliedig ar ddata 2013/2014. Nid yw'n cynnwys y stad mân-ddaliadau a thai. Y swm a wariwyd ar waith cynnal a chadw ac adnewyddu yn ystod yr un cyfnod oedd £2,500,000. Petai lefelau gwariant cyfredol yn parhau, byddai'n cymryd rhyw 7 mlynedd i gwblhau'r gwaith cynnal a chadw sy'n angenrheidiol ar hyn o bryd ac, yn ystod yr un cyfnod, byddai gofynion ychwanegol yn dod i'r fei gyda hynny'n rhoi straen ychwanegol ar yr adnoddau cyfyngedig hyn.

Mae'n amlwg nad oes gan y Cyngor ddigon o adnoddau i ddod â'r ffigwr ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni i lawr i lefel y gellir ei chynnal drwy'r cyllidebau sydd ar gael ac er mwyn lleihau'r baich, bydd yn rhaid cwtogi nifer yr asedau sydd gennym.

Ceir crynodeb o'r Gyllideb Gyfalaf gyfredol ar gyfer 2014/2015 yn **Atodiad 1** ac mae'n rhoi manylion am wariant cyfalaf cynlluniedig sy'n cael ei fuddsoddi yn ein hasedau.

Gellid ymchwilio i ddulliau amgen ar gyfer ymdrin â gwaith cynnal a chadw adeiladau megis ymgysylltu â'r gymuned i gynorthwyo gyda gwaith cynnal a chadw cyffredinol mewn ysgolion er enghraifft.

1.3 Y Sylfaen Asedau Tir ac Eiddo

Mae gan y Cyngor bortffolio mawr ac amrywiol o asedau tir ac adeiladau a ddefnyddir yn bennaf i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, ond hefyd, yn fwy cyffredinol, i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor sydd, ac eithrio asedau Priffyrdd, werth £315m¹ ar hyn o bryd. Ar y naill law mae llawer o'r asedau hyn yn cael eu hystyried yn adnodd gwerthfawr, ar y llaw arall, fodd bynnag, maent hefyd yn faich ac mae angen cyllid refeniw a chyfalaf sylweddol i'w rhedeg a'u cynnal.

Mae Tabl 1 isod yn rhestru'r safleoedd yn ôl Categori'r Asedau (ac eithrio Isadeiledd Priffyrdd).

Safleoedd yn ôl Categori Asedau

Categori	Cyfanswm	Categori	Cyfanswm
Safleoedd Manwerthu	10	Ysgolion Cynradd	47
Canolfannau Cymunedol	5	Toiledau Cyhoeddus	19
Addysg - Arall	12	Ysgolion Uwchradd	5
Tir Pori	20	Mân-ddaliadau	89
Safleoedd Diwydiannol	29	Gweithfeydd Trin Carthion	22
Canolfannau Hamdden	4	Ysgol Anghenion Arbennig	1
Safleoedd Hamdden ac Arforol	25	Amrywiol Eiddo	15
Llyfrgelloedd	10	Tir Heb ei Ddatblygu	62
Tir sy'n cael ei feddiannu	171	Clybiau Ieuencid	3
Swyddfeydd	10	Canolfannau Gofal Dydd	5
Parciau ac Ardaloedd Agored	35	Cartrefi Gofal Preswyl	6
Safleoedd Tai	360	Eiddo Dros Ben	11

Tabl 1 Safleoedd Asedau o'r System TF 2014/10/04

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor hefyd yn rheoli ond nid yn berchen ar Stad David Hughes sydd y tu allan i sgôp y cynllun hwn.

Mae'r tabl isod yn torri'r data hwn i lawr ymhellach i ddangos y cysylltiad rhwng gwasanaethau / asedau.

Gwasanaeth / Cat Asedau.	Math o Ased	Gwasanaeth / Cat Asedau.	Math o Ased
Addysg	47- Ysgolion Cynradd 5 - Ysgolion Uwchradd 1 – Ysgol Arbennig 4 - Tai Ysgolion 8 – Adeiladau Addysgol Eraill	Gwasanaethau Cymdeithasol	6 - Cartrefi Gofal Henoed 5 - Canolfan Gofal Dydd Gerddi Haulfre Canolfan Byron

¹ Wedi ei gymryd o Ddatganiad Cyfrifon 2013/14 y Cyngor

Dysgu Gydol Oes ac Amgueddfeydd a Diwylliant	10 - Llyfrgelloedd 5 - Amgueddfeydd ac Oriellau 1 – Archifdy 13 - Canolfannau Ieuenctid a Chymuned	Tai	360 - Safleoedd Tai 3805 - Tai a Fflatiau 700 - Garejis 1 – Canolfan J O 'Toole Y Tollidy, Llanfairpwll
Economaidd	3 – Canolfan Hamdden gyda Phwll 1 – Canolfan Hamdden heb bwll 1 - Cwrs Golff a Llain Ymarfer 5 – Safleoedd Hamdden Eraill 5 - Llithrfeydd / Pierau / Dociau Nifer o Barciau a Mannau Agored Angorfeydd Arforol	Priffyrdd a Rheoli Gwastraff	19 - Toiledau Cyhoeddus 2 - Canolfan Ailgylchu Gwastraff 1 - Gwaith Compostio mewn Cynhwysydd 1 - Depo Priffyrdd 1 – Ysgubor Halen, Sied Peiriant Graeanu a Chanolfan Ailgylchu Priffyrdd 1 - Depo a Swyddfeydd Biffa 1 – Garej Fflyd 4 – Uned Storio 76 – Meysydd Parcio 2 - Pontydd i Gerddwyr 1 - Terfynell Maes Awyr Cyfeiriwch at Atodiad 7 am fanylion am Km o ffyrdd, palmentydd a strwythurau Priffyrdd.
Eiddo	15 - Eiddo Amrywiol 92 - Mân-ddaliadau 20 - Safleoedd Tir Pori 171 - Safleoedd sy'n cael eu Defnyddio 62 – Safleoedd heb eu Datblygu 11 – Eiddo nad oes eu hangen 18 - Unedau Manwerthu 18 – Stad David Hughes 5 - Stadau Diwydiannol 90 – Unedau Diwydiannol	Asedau Cymunedol	35 – Parciau ac Ardaloedd Agored
		Gweinyddol	9 - Adeiladau Swyddfa
		Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	-Bythynnod, Goleudy a Chytiau Cychod Llanddwyn - Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, adeiladau, oriel a strwythurau.

"It has been identified that a poor fit between service requirements and the property asset from which it is delivered is a risk to the Authority. If the asset does not support service delivery, it will detract from the Council's service to its citizens."²


Er mwyn sicrhau bod gennym sylfaen asedau sy'n gynaliadwy ac sy'n gallu cefnogi'n llwyr y ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol, mae angen i ni herio'r sefyllfa sydd ohoni o ran y modd y mae ein hasedau wedi eu halinio ar hyn o bryd gyda'r ddarpariaeth o wasanaethau ac i benderfynu ar y newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau y byddant yn cefnogi trawsnewid gwasanaethau wrth i ni symud ymlaen.

Mae angen i wasanaethau'r Cyngor sgrwtineiddio a herio defnydd, effeithiolrwydd, rheolaeth a hyd yn oed y cyfiawnhad dros gadw llawer o'u hasedau a'r model a ddangosir isod yw'r mecanwaith y bwriedir ei ddefnyddio i wneud hyn.

² Canllawiau Arfer Orau RICS ar gyfer Rheoli Asedau'r Sector Cyhoeddus

Model Strategaeth Asedau

Tudalen 224



1.4 Rheoli'r Asedau

Mae angen cymryd ymagwedd strategol, gydlynol, corfforaethol a chyfannol tuag at reoli ein hasedau ac mae'r holl asedau tir ac eiddo yn cael eu hystyried yn asedau corfforaethol er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn. "Our Land and Building Assets are a strategic resource that needs to be actively managed at both corporate and service level with ongoing property issues and maintenance needs being considered at a strategic corporate level, not as an afterthought"³.

Drwy fabwysiadu dull Landlord Corfforaethol, caiff elfennau o'r cyfrifoldeb dyddiol ar gyfer gweithrediadau adeiladu eu dirprwyo i'r gwasanaethau a'u rheolwyr adeiladau sydd, mewn rhai achosion, â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Gwasanaethau Eiddo i ddelio â materion cynnal a chadw o ddydd i ddydd fel y maent yn codi. Rôl Eiddo fel y Landlord Corfforaethol yw sicrhau bod asedau yn ddiogel i'w defnyddio, bod fframweithiau cyfreithiol yn eu lle ac nad yw gwerth yr asedau'n cael ei danseilio.

Mae rheolaeth ein hasedau'n cael ei hatgyfnerthu gan amrywiaeth o gyfrifoldebau deddfwriaethol a statudol megis Diogelwch Tân, Rheoli Asbestos, Legionella, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Cyfraith Iechyd a Diogelwch ac ati. Yn ogystal â'r rhain, mae awydd i leihau ein hallyriadau carbon a'n defnydd o ynni.

Ac eithrio asedau Tai a Phrifyrdd ac Asedau Arforol sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaethau perthnasol, mae'r rhan fwyaf o'n hasedau tir ac adeiladau yn cael eu rheoli ar lefel weithredol gan y Tîm Gwasanaethau Eiddo er mwyn sicrhau bod unrhyw risg o dorri ein cyfrifoldebau statudol yn cael ei chadw i'r lefel isaf bosib. Gwneir hyn drwy gynnal arolygon cyfnodol rheolaidd o offer a chyfarpar trydanol, asbestos, legionella, risg tân, gwydr diogelwch, archwiliadau mynediad ac arolygon cyflwr.

Caiff arolygon o gyflwr yr eiddo hyn eu cynnal ar 20% ohonynt bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y data diweddaraf ar gael i hysbysu'r Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Rheoli Asedau Iechyd y mae'n rhaid eu cwblhau yn flynyddol a hefyd i nodi gwaith sydd ei angen i gynnal asedau mewn cyflwr defnyddiol dros y pum mlynedd nesaf. Mae DP ar gyfer Data Cyflwr ar gyfer 2013/2014 yn **Atodiad 3** sy'n nodi'r % o adeiladau sydd mewn cyflwr A = Da, B = Boddhaol, C = Gwael a D = Drwg

Oherwydd bod ein hasedau yn gyffredinol yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal, gellir sicrhau arbedion os gellir eu defnyddio'n ddwysach neu leihau eu costau. Yr her yw dod o hyd i ffyrdd o weithio asedau'n galetach neu ddod o hyd i ddulliau eraill o ddarparu gwasanaethau gan leihau nifer yr asedau yn ein perchnogaeth a'r allwedd i hyn yw;

³ Adroddiad Archwilio Hot Property 2005

- Herio ein defnydd o'n hasedau yn seiliedig ar ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau sydd bellach yn bosib oherwydd newidiadau technolegol.
- Ymchwilio i'r berthynas rhwng asedau'r Cyngor ac asedau sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ein hardal er mwyn nodi cyfleoedd i rannu asedau neu drosglwyddo'r gwasanaethau a ddarperir.

Ar hyn o bryd, mae Byrddau'r Rhaglenni Trawsnewid ar gyfer Gweithio'n Gallach, Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn ac Addysg yn edrych ar sut yr ydym yn gweithio, sut y gallwn weddnewid a moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio a sut ac ym mhle y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu a chan bwy.

Mae strategaethau ar gyfer Llyfrgelloedd, Hamdden, Ieuenctid a Diwylliant ac Amgueddfeydd yn cael eu datblygu gyda'r bwriad o drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau hyn ac mae'n bosibl y gall y rhain arwain at gyfleoedd i resymoli asedau.

Mae cynnydd y rhaglenni a'r strategaethau allweddol hyn yn cael ei fonitro'n gorfforaethol drwy un o'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol:

- Angen diweddariad
- Angen diweddariad

1.4.1 Rôl y Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol (CLBAG)

Mae'r CLBAG yn grŵp sy'n gweithio ar lefel uchel ac yn eistedd ochr yn ochr â'r Grŵp Dyrannu ac Adolygu Cyfalaf Corfforaethol a'i bwrpas yw sicrhau, drwy arferion rheoli effeithiol a chyfannol, y defnydd gorau o dir ac asedau adeiledig yr awdurdod.

Rôl y grŵp yw:

- Adolygu achosion busnes y rhaglenni a phrosiectau asedau sy'n deillio o'r rhaglen gorfforaethol er mwyn sicrhau bod pob achos busnes yn cydymffurfio â gofynion statudol, blaenoriaethau y mae'r Cyngor wedi cytuno arnynt a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol hwn.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer rhannu'r defnydd o asedau a chyfrannu at gyflwyno gwasanaethau gwell, gwell cynaliadwyedd a lleihau costau.
- Herio ac adolygu ceisiadau am arian o gronfeydd refeniw allanol, gwariant refeniw ac ar gyfer cyflawni prosiectau. Ystyried defnydd arfaethedig o asedau, arferion rheoli sy'n gysylltiedig ag asedau a nodi cyfleoedd posib ar gyfer rhesymoli asedau a chael gwared arnynt.
- Adolygu'r amcanion gwreiddiol ar gyfer cael rhai mathau o asedau, e.e. rhai diwydiannol, manwerthu, amaethyddol, diwylliannol ac ati ac os nad ydynt bellach yn cwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor neu ddim mwyach yn flaenoriaeth ganddo. Cyfiawnhau eu cadw.

Amcanion y grŵp yw:

- Sicrhau bod prosiectau a strategaethau sy'n ymwneud ag asedau tir ac adeiladau'n gwneud synnwyr corfforaethol ar draws pob rhaglen a'u bod yn sicrhau'r manteision mwyaf o ran darparu gwasanaethau a chreu incwm.
- Sicrhau hyder yn y broses o waredu a phrynu tir ac asedau adeiledig ar draws yr holl raglenni a chodi proffil rheoli eiddo i lefel gorfforaethol.
- Ysgogi newid a gwelliant yn y modd y mae tir ac asedau adeiledig yn cael eu defnyddio a'u rheoli i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r cynllun corfforaethol a gweithredu fel y corff cymeradwyo y bydd yr holl newidiadau sy'n gysylltiedig ag asedau a gynigir gan y gwasanaethau yn cael eu sianelu drwyddo ac sydd â'r gair olaf ynghylch sut mae gwasanaethau yn cael defnyddio'r asedau hyn.

Mae'r model Llywodraethu a ddangosir yn **Atodiad 2** yn dangos y berthynas rhwng y byrddau rhaglen, strategaethau a phrosiectau, y Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol a'r Grŵp Adolygu Dyraniadau Cyfalaf.

Mae'r rhan hon o'r cynllun wedi ei chytuno a'i chymeradwyo gan:

Arweinydd y Cyngor ----- Prif Weithredwr -----

Cyng Ieuan Williams

Dr Gwynne Jones

ADRAN 2 - DOGFEN WEITHIO

2.1 Trawsnewid Gwasanaethau

Yn y rhan hon o'r cynllun, gwelir y "Prif" gynigion o'r gwahanol raglenni a strategaethau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd ac a fydd yn effeithio ar ein hasedau ac sy'n debygol o newid wrth i'r strategaethau hyn gael eu datblygu ymhellach. Bydd y rhan hon a rhannau canlynol y cynllun hwn hefyd yn newid ac yn cael eu diweddarau i dracio'r newidiadau hyn ac fel y nodwyd yn flaenorol, mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Mae'r adran hon yn cynnwys y gwasanaethau / prosiectau / Asedau canlynol:

- 2.1.1 - Trawsnewid Addysg
- 2.1.2 - Rhesymoli Swyddfeydd a'r Prosiect Gweithio'n Gallach
- 2.1.3 - Neuadd y Sir
- 2.1.4 - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- 2.1.5 – Y Stad Mân-ddaliadau
- 2.1.6 – Y Strategaeth Dai
- 2.1.7 - Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- 2.1.8 - Strategaeth Rheoli Gwastraff
- 2.1.9 - Cynllun Swyddogaeth Hamdden
- 2.1.10 – Strategaeth ar gyfer Asedau Llyfrgell, Ieuenctid, Diwylliant a Threftadaeth
- 2.1.11 - Parciau, Mannau Agored ac Eiddo Amrywiol
- 2.1.12 - Portffolio Diwydiannol
- 2.1.13 - Portffolio Manwerthu
- 2.1.14 – Asedau Arforol

2.1.1 Trawsnewid Addysg

Y prif yrwyr y tu ôl i'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw:

- Mae'r gorgyflenwad o leoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn costio arian i'r Awdurdod.
- Yr adroddiad arolygu beirniadol o'r Awdurdod gan Estyn a gynhaliwyd yn 2012.
- Mae'r rhaglen Ysgolion y 21^{ain} Ganrif a noddur gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddadansoddiad gan yr Awdurdod o ddigonolrwydd ei ysgolion er mwyn denu arian cyfatebol.

Yr egwyddor sylfaenol allweddol sy'n gyrru'r rhaglen moderneiddio ysgolion yw i Awdurdod Lleol Ynys Môn fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru gydag ysgolion a darpariaeth sy'n arwain y sector. Felly, mae'n hollbwysig i unrhyw newid i'r ddarpariaeth ysgolion arwain at brofiad addysgol gwell i ddisgyblion yn yr ardal honno.

Bydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn goruchwyllo'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a fydd yn trawsnewid y stad ysgolion ar Ynys Môn. Mae'r rhaglen pymtheg mlynedd,

sydd wedi'i rhannu'n bedwar band h.y. Band A i Fand D, yn cynnig newid radical a fydd yn y pen draw yn arwain at leihad yn y gorgyflenwad presennol o leoedd ysgol i gwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae archwiliad o bortffolio'r Awdurdod o adeiladau ysgol [gwerth £7.5m o waith cynnal a chadw wedi cronni mewn ysgolion cynradd a £ 5.2m mewn ysgolion uwchradd] yn nodi bod diffygion difrifol o ran addasrwydd nifer o safleoedd ac adeiladau cyfredol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch y mae angen rhoi sylw bris iddynt sy'n codi cwestiwn ynghylchu hyfywedd tymor hir rhai o'n hysgolion cynradd presennol.

Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r isadeiledd ategol yn anghynaliadwy. Mae angen i'r Cyngor sefydlu sylfaen tymor hir a chynaliadwy ar gyfer ysgolion ar yr ynys a fydd yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r Cyngor weithio gyda Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn isadeiledd ein hysgolion.

Bydd y rhaglen foderneiddio felly yn cynnwys:

- Cynlluniau adeiladu o'r newydd sydd eisoes wedi cael eu llunio;
- Cyfuno ysgolion cyfredol drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol a'u cyfuno ar un safle a ffeirir;
- Adolygu a diwygio ffiniau dalgylchoedd;
- Adeiladu ysgolion ardal newydd;
- Cyd-leoli ysgolion cynradd ac uwchradd ar yr un campws [neu'n agos at ei gilydd] fel y cam cyntaf i symud tuag at ddarpariaeth dalgylch ar gyfer addysg 3-18;
- Cau ysgolion nad ydynt yn addas i'w pwrpas.

Bydd hyn yn arwain at:

- Adeiladau ysgolion sy'n creu amgylchedd dysgu deniadol.
- Codi safonau addysgol.
- Lleihad yn nifer y lleoedd dros ben.
- Creu amodau lle gall Penaethiaid lwyddo.
- Sicrhau digon o Benaethiaid ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod y gymuned yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o adeiladau ysgol

2.1.1.1 Amserlen Gweithredu

Yn dilyn mabwysiadu'r Strategaeth gan y Pwyllgor Gwaith, mae cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol wedi eu cynnal yn yr ardaloedd y bwriedir eu hadolygu er mwyn cyflwyno'r rhesymeg ac ystyried opsiynau posibl. Bydd ymgynghori o'r fath yn parhau a bydd y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol hyn yn digwydd dros gyfnod o 4 blynedd fel y dangosir yn y tabl isod.

Band A Ymgynghoriad 2013-14 Gweithredu 2014-18	Band B Ymgynghoriad 2014-15 Gweithredu d 2018-22	Band C Ymgynghoriad 2015-16 Gweithredu 2022-	Band D Ymgynghoriad 2016-17 Cyfnod gweithredu 2022-
Ynys Gybi [Gogledd] - Y Parc, Parchedig Thomas Ellis, Llaingoch	Ardal y Gogledd-ddwyrain - Amlwch, Penysarn, Carreglefn, Llanfechell, Cemaes, Rhosybol	Ardal Llangefni - Y Graig, Talwrn, Corn Hir, Bodffordd, Henblas, Esgeifiog	Ynys Gybi [De] - Kingsland, Morswyn, Llanfawr, Santes Fair
De Ddwyrain Ynys Môn - Llangoed, Llanddona, Biwmares	Gorllewin Canol - Bryngwran, Y Ffridd, Pencarnisiog, Rhosneigr	Arfordir y Gogledd-orllewin - Rhoscolyn, Y Fali, Tywyn, Bodedern, Caergeiliog	Arfordir y Dwyrain - Llanbedrgoch, Goronwy Owen, Moelfre, Pentraeth

Y Llannau - Llanfachraeth, Ffrwd Win, Cylch y Garn.	Canol y Gogledd-orllewin - Llannerchymedd	Arfordir y -De-ddwyrain Llanfairpwll, Llandegfan, Porthaethwy	
Arfordir y De Orllewin - Dwyran, Bodorgan, Niwbwrch, Llangafno, Brynsiencyn, Parc y Bont			

Bydd yr ymatebion o bob cyfarfod ymgynghori ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a fydd wedyn yn penderfynu ar yr opsiwn i'w weithredu ar gyfer ardal / ysgol unigol.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr ysgol, staff a chydranddeiliaid perthnasol eraill yn ystod yr ymgynghoriadau hyn.

Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd caniatâd a chyllid wedi eu rhoi ar gyfer adeiladu Ysgol Gynradd Ardal newydd yng Nghaerdybi a fydd yn arwain at gau tair o'r ysgolion cyfredol ac Ysgol Gynradd Ardal newydd yn ardal y Llannau gyda chau tair o'r ysgolion cyfredol. Mae ymgynghori hefyd wedi cychwyn yn ardal y De Orllewin.

2.1.1.2 Cost Amlinellol y Rhaglen

Amcangyfrifir mai £173,280,000 fydd cost gyffredinol y rhaglen a byddai'r Cyngor yn gofyn am £ 86,640,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. O'r swm hwn, bydd £33,550,000 yn cael ei wario ar y prosiectau a amlinellwyd ar gyfer 'Band A' y rhaglen.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio derbyniadau cyfalaf o'i raglen rhesymoli asedau i gwrdd â rhan o'i gyfraniad cyfatebol. Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd unrhyw ffynhonnell gyllid ychwanegol sylweddol ar gael, ond byddir yn mynd ati'n egnïol i nodi a sicrhau cyllid o'r fath yn unol â rhesymoli asedau. Bydd nifer o ddatblygiadau o bwys yn digwydd ar yr ynys dros y blynyddoedd nesaf, fel y Rhaglen Ynys Ynni, a rhoddi'r ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd y bydd modd sicrhau cyllid o un neu ragor o'r rhain.

Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor wedi cadarnhau bod y lefel o fenthycy digefnogaeth sydd ei angen ar gyfer cwblhau Band A yn fforddiadwy. Y brif risg yw na fydd modd efallai gwireddu'r derbyniadau cyfalaf, ond rhagwelir y gellir gwneud iawn am unrhyw ddiffyg drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth sy'n weddill ar gyfer benthycy darbodus a thrwy reoli'n ofalus weddill Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Gwaith yn parhau i gadw golwg ar fforddiadwyedd cyffredinol gyda'r disgwyliad y bydd raid cymeradwyo'r achos busnes manwl ar gyfer pob prosiect unigol.

Y tu hwnt i'r amserlen ar gyfer materion Band A mae'n anochel y bydd materion yn llai sicr, yn enwedig o ystyried y rhagolygon cynyddol llwm ar gyfer gwariant cyhoeddus, ond ar hyn o bryd, nid oes rheswm i awgrymu na ellir cynnal y proffil cyllid arfaethedig hyd at 2023 o leiaf (hy rhan o'r ffordd drwy Band C). Y tu draw i hyn, mae'r amserlenni hir a nifer o ffactorau amrywiol cysylltiedig yn golygu y bydd yn rhaid parhau i adolygu fforddiadwyedd wrth i'r Rhaglen fynd yn ei blaen.

Felly, yn ystod oes y cynllun hwn (pum mlynedd), rydym yn debygol o weld y ddwy ysgol ardal newydd yn cael eu hadeiladu gyda hynny'n arwain at gau a gwerthu chwech o ysgolion cynradd hŷn.

2.1.2 Rhesymoli Swyddfeydd a'r Prosiect Gweithio'n Gallach

Y gyrrwr gwreiddiol ar gyfer creu'r Prosiect Gweithio'n Gallach oedd awydd yr Awdurdod i resymoli ei bortffolio swyddfeydd am amryw o resymau, gan gynnwys costau cynnal a chadw parhaus ac addaswydd adeiladau fel swyddfeydd. Mae nifer o adeiladau wedi cael eu nodi ar gyfer eu cau yn y dyfodol agos sy'n golygu bod angen cynllun clir ynghylch sut i ail-leoli'r staff sy'n gweithio ym mhob un ohonynt i'r Prif Adeilad; mae'r rhain yn cynnwys:

- Parc Mount;
- Rovacabin;
- Tŷ Penyrsedd;
- Canolfan Hyfforddiant Môn;
- Hen Ysgol y Graig
- Adeiladau Cynnal & Genesis

Nid ystyrir bod yr adeiladu hyn sy'n cael eu defnyddio fel swyddfeydd ar hyn o bryd yn 'addas i'r pwrpas' o ran eu gosodiad a'u dyluniad ac oherwydd eu cyflwr cyffredinol, nid oes unrhyw opsiynau ymarferol ar gyfer eu hadnewyddu. Mae angen ystyried opsiynau ynghylch sut i wneud y defnydd gorau o'r asedau sydd ar gael i'r Awdurdod tra'n ceisio gwella argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau i'r sawl a fydd yn eu defnyddio yn y pen draw.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 200 o staff yn gweithio yn y swyddfeydd lloeren sy'n cael eu defnyddio gan yr Awdurdod a bydd angen eu symud unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud i gau eu llefydd gweithio presennol. Bydd y Prosiect Gweithio'n Gallach yn ceisio trawsnewid yr amgylchedd gwaith fel y gall nifer fwy o staff i ddefnyddio'r prif Swyddfeydd y Cyngor ac/neu leoliadau cymunedol fel eu prif lefydd gweithio ac i wneud hynny, bydd angen mabwysiadu ymagwedd fwy modern o ran y modd y darperir gwasanaethau.

Mae costau cynyddol cynnal a chadw adeiladau sy'n heneiddio, ynghyd â'r cynnydd mewn costau tanwydd, yn golygu bod rhaid i ni ystyried a ydym ar hyn o bryd yn gwneud y defnydd gorau o'n portffolio o swyddfeydd. Mae cost gofod swyddfeydd ar draws y DU yn amrywio, fodd bynnag, cydnabyddir bod 45% i 50% o swyddfeydd yn wag ar unrhyw un adeg⁴ a bod gweithle penodol ar gyfer pob gweithiwr yn awr foethusrwydd drud.

⁴ Flexibility.co.uk

Mae'n rhaid i'r Awdurdod leihau ei wariant yn sylweddol, a chyda bwlch ariannol o tua £ 21miliwn⁵ y mae angen ei gau dros y 3 blynedd nesaf, mae angen i'r Cyngor groesawu newid er mwyn wynebu heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y dyfodol.

Yn seiliedig ar werthusiad a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Eiddo o'r adeiladau swyddfa y bwriedir eu cau, gwnaed y rhagdybiaethau / brasamcanion canlynol mewn perthynas â'r arbedion a ddisgwylir yn sgil gwagio'r safleoedd hyn:

Arbedion blynyddol:

Rovacabin - £ 30k

Parc Mount - £ 52k

Hyfforddiant Môn - £ 24k

Tŷ Penyrsedd - £ 13k

Hen Ysgol y Graig - £ 38k

Cynnal - £ 6.5k

Tŷ William Jones - £ 15k

Cyfanswm - £ 178.5k y flwyddyn

Derbyniadau Cyfalaf Posib:

(DS Mae'r ffigurau hyn yn dibynnu ar gyflwr y farchnad pan gânt eu gwerthu ac yn amodol ar eu gwirio yn ystod datblygu'r Achos Busnes Llawn)

Rovacabin - £ 130k

Parc Mount - £ 300k

Hyfforddiant Môn - derbyniadau net bychan iawn ar ôl caniatáu ar gyfer costau clirio a dymchwel y safle

Tŷ Penyrsedd - £ 133k

Hen Ysgol y Graig - mae'r derbyniadau cyfalaf eisoes wedi eu neilltuo mewn perthynas ag adleoli Ysgol y Graig ac Ysgol y Bont

Cyfanswm - tua £ 600k

Cymerwyd o'r Achos Busnes ar gyfer y Prosiect Gweithio'n Gallach

2.1.2.1 Ail-leoli Ystafelloedd Hyfforddi o Tŷ William Jones

Ystyrir nad yw lleoliad presennol yr ystafelloedd hyfforddi yn addas oherwydd eu bod mewn adeilad nad yw'n cydymffurfio gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'u bod ar lawr cyntaf adeilad na ellir ond cael mynediad iddo trwy ddringo grisiau cul, serth. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn prydlesu'r rhan hon o'r adeilad am £15,800 y flwyddyn a bydd angen adnewyddu'r brydles yn hydref 2016. Felly mae cyfle i wneud arbedion os gellir dod o hyd i lety arall.

Ystyriwyd Pencadlys y Cyngor fel un posibilrwydd ar gyfer lleoli'r ystafelloedd hyfforddi ond oherwydd prinder lle a'r angen i wneud darpariaeth ar gyfer staff a fydd yn adleoli o adeiladau eraill a fydd yn cau, mae angen lleoliad arall. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae astudiaeth wedi cychwyn i ddod o hyd i leoliadau eraill posib.

⁵ Wedi ei nodi yn yr adroddiad ar Gyllideb 2014/15 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf, 2013

2.1.3 Neuadd y Sir

Mae'r llawr gwaelod yn Neuadd y Sir yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y Cofrestryddion a'r Cyngor Tref ac mae ardaloedd yr hen Lys yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y Tîm Arfarnu Swyddi a thimau eraill yn y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae cefn yr adeilad a ddefnyddiwyd gynt gan yr Heddlu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio dogfennau am dymor byr ac fel canolfan ar gyfer Tîm Cludiant Cymunedol Môn.

Nid yw'r ail lawr yn cael ei ddefnyddio ac mae angen gwneud gwaith i gryfhau strwythur y llawr. Nid oes mynediad 'chwaith ar gyfer pobl anabl ac mae angen ei adnewyddu a'i atgyweirio'n gyffredinol. Os yw am gael ei ddefnyddio ar gyfer swyddfeydd, bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ddefnyddio rhan o'r adeilad ar gyfer Ystafelloedd Hyfforddi fel rhan o'r Prosiect Gweithio'n Gallach neu i gwrdd â dyheadau prosiectau eraill fel y Cynllun Gofal Ychwanegol i Oedolion Hŷn, ond ystyrir nad yw'n addas ar gyfer y naill brosiect na'r llall.

Mae angen gwerthuso'r opsiynau er mwyn dod i benderfyniad am ddyfodol yr adeilad hwn. Dylai'r opsiynau gynnwys ymhlith pethau eraill:

- Gwneud dim a chynnal y 'status quo' gan ddefnyddio mannau gwag ar gyfer storio.
- Adnewyddu a gwella ardaloedd gwag i ddarparu lle modern a hwylus ar gyfer swyddfeydd i'w rhentu neu y gall y Cyngor eu defnyddio.
- Ail-leoli'r Cyngor Tref a'r Cofrestryddion gyda'r bwriad o werthu'r adeilad.

Felly, o fewn oes pum mlynedd y Cynllun Rheoli Asedau rydym yn debygol o weld staff yn cael eu hail-leoli o adeiladau Parc Mount, Hyfforddiant Môn, y Rovacabin, Y Graig, Pen yr Orsedd, Cynnal a Genesis oherwydd y bydannt yn cau, a'r ystafelloedd hyfforddi yn symud o Tŷ William Jones.

2.1.4 Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar sut y darperir gwasanaethau yn y dyfodol mewn perthynas â'i gartrefi gofal preswyl. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio rhagwelir y bydd cynnydd o 40% yn nifer y bobl 65+ oed, sef o 40% o 14,000 yn 2008 i 20,100 yn 2023 ac mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd tua hanner y dynion a thraean o'r merched angen cymorth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae'r ddarpariaeth bresennol a gynigir drwy'r cartrefi gofal preswyl yn ddrud iawn ac mewn perygl o fod yn anfforddiadwy. Mae nifer o faterion yn gorfodi'r gwasanaeth i edrych ar ddyfodol y ddarpariaeth hon megis:

- Mae llai o bobl yn dewis gofal preswyl ac mae gwaith ymgynghori a wnaed gyda thrigolion yr ynys wedi dangos bod yn well ganddynt aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl. Mae lefel y defnydd yn ystod y tair blynedd diwethaf yn dangos bod yna 18 o welyau yn wag ar gyfartaledd yn y gwasanaeth bob wythnos.
- Mae angen buddsoddiad i wella cyflwr y stad breswyl. Amcangyfrifir bod angen gwario oddeutu £700,000 ar waith cynnal a chadw dim ond i sicrhau bod y cartrefi'n cwrdd â safon dderbyniol.
- Bydd angen gwaith ailfodelu helaeth yn y rhan fwyaf o'r cartrefi er mwyn cwrdd â safonau'r unfed ganrif ar hugain, gofynion statudol a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth. Mae cost y gwaith hwn yn debygol o fod oddeutu £1M - £2M.
- Mae stad breswyl y Cyngor yn amrywio o ran ansawdd y cyfleusterau sydd ar gael ac maent yn ddrutach yn gyffredinol nag yn y sector preifat.
- Mae lefelau uchel o absenoldeb staff.

Mae'r gwasanaeth wedi dod i'r casgliad nad yw cynnal y 'status quo' yn opsiwn ac nid yw darparu mwy am yr un gost yn bosib nac yn wir yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned ac ystyrir mai'r opsiwn a ffeirir yw newid i ddarpariaeth "Gofal Ychwanegol" yn y gymuned, sef darpariaeth y gwyddys bod galw ac angen amdani. Mae datblygu Gofal Ychwanegol bellach yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth wedi nodi mai'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer datblygu Gofal Ychwanegol yn y lle cyntaf yw Amlwch a Llangefni ac wedyn De'r ynys.

Trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi digwydd yn y ddwy ardal hyn, mae'n amlwg bod pobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain yn awyddus iawn i barhau i fyw'n annibynnol. Mae "Gofal Ychwanegol" yn cefnogi hynny ac mae'r rhan fwyaf yn bendant nad ydynt yn dymuno mynd i ofal preswyl.

Yn ogystal, bydd yn fwy cost effeithiol i'r Cyngor ddarparu Gofal Ychwanegol yn hytrach na Gofal Preswyl. Mae'r Gwasanaeth a'r Adran Gyllid wedi rhagweld y

byddai symud i Ofal Ychwanegol yn y manau hyn a pheidio â rhedeg cartrefi gofal preswyl yno yn creu tua £7.8m o arbedion dros gyfnod o ddeng mlynedd.⁶

O safbwynt asedau, y goblygiadau yw y ceir gwared ar o leiaf ddau gartref gofal arall sydd ym mherchnogaeth y Cyngor unwaith yr agorir cyfleusterau Gofal Ychwanegol newydd ac mae'n bwysig nodi na fydd y cyfleusterau Gofal Ychwanegol newydd yn asedau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Elfen allweddol ar gyfer sicrhau gweithrediad llwyddiannus Cynlluniau Gofal Ychwanegol yw cael partneriaethau effeithiol gyda'r trydydd sector / sector preifat. Y model arferol yw bod Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), sef Cymdeithas Dai fel arfer, yn darparu'r buddsoddiad ac yn gwneud y gwaith datblygu mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. Mae'r Awdurdod Lleol ei hun yn gwneud ceisiadau am y grantiau sydd ar gael ac mae'r trigolion yn talu rhent i'r LCC.

Cynhaliwyd cyfarfodydd archwiliadol cychwynnol rhwng y gwasanaeth a Phrif Weithredwyr y tri Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngogledd Cymru er mwyn sefydlu pa ddiddordeb sydd ganddynt mewn datblygu cyfleusterau Gofal Ychwanegol ar yr ynys yn lle'r cartrefi gofal presennol.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno Cynllun Busnes ar gyfer gweithredu Gofal Ychwanegol ac wedi cytuno y gellir defnyddio a gwerthu'r safleoedd a nodwyd ar gyfer datblygiadau Gofal Ychwanegol. Mae proses gaffael yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae cais am gyfalaf ychwanegol wedi ei gyflwyno hefyd i'r Strategaeth Gyfalaf i gynorthwyo, o bosib, gydag adeiladu Cynllun Gofal Ychwanegol.

Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda swyddogion o bob rhan o'r gwasanaethau perthnasol i nodi safleoedd posib yn "Ne'r" ynys ac i ymgynghori yn lleol eto gydag aelodau etholedig a chymunedau lleol. Unwaith y bydd eglurder o ran lleoliad y safleoedd, bydd y cynigion pellach ar gyfer Gofal Ychwanegol ar y rhan hon o'r ynys yn cael eu hystyried.

Mae'n anochel y bydd y newid hwn yn y ddarpariaeth gofal yn cael effaith fawr ar y portffolio o gartrefi gofal preswyl. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo gwerthu Cartref Gofal Garreglwyd ac mae'r gwerthiant hwnnw bellach wedi ei gwblhau. Y cytundeb ar hyn o bryd yw bod Brwynog a Plas Penlan yn cael eu digomisiynu unwaith y bydd Gofal Ychwanegol wedi sefydlu yn yr ardaloedd hyn. Mae'r cartrefi sy'n weddill yn parhau i gael eu hystyried a dylanwadir ar hynny'n rhannol gan gynlluniau ar gyfer Gofal Ychwanegol mewn manau eraill ar yr ynys ac anghenion eraill o fewn y gwasanaeth.

Bydd dyfodol y ddarpariaeth Gofal Dydd a gynigir ar hyn o bryd o Ganolfan Adnoddau Morswyn, Caergybi, Gors Felen yn Llangefni a Blaen y Coed Haulfre a chanolfan Gerddi Haulfre yn cael sylw fel rhan o'r Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu.

⁶ Data o'r adroddiad gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn a gyflwynwyd i CLBAG 17 Gorffennaf 2015

Felly, o fewn oes pum mlynedd y Cynllun Rheoli Asedau rydym yn debygol o weld a gorfod cynllunio ar gyfer cau a gwerthu Brwynog a Plas Penlan ac adeiladu tri chyfleuster Gofal Ychwanegol yn Amlwch, Llangefni a De'r ynys. Yn ystod y cyfnod hwn rhoddir sylw i ddyfodol y cartrefi gofal sy'n weddill o fewn y Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion i gwrdd ag anghenion llety pobl hŷn.

Bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw wariant cyfalaf a refeniw a glustnodir ar gyfer yr adeiladau hyn yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau nad yw adnoddau ariannol yn cael eu gwastraffu ar adeilad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer ei gau.

2.1.5 Y Stad Mân-ddaliadau

Datblygwyd Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer Mân-ddaliadau yn 2010 er mwyn darparu ffocws strategol ar reoli'r portffolio ac fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r portffolio. Mae'n fframwaith i sicrhau bod y tai yn ddiogel ac yn addas i'r pwrpas, bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o asedau'r stad i gwrdd â'r amcanion a bod y costau'n gostwng ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Ei brif nod yw gwneud y gorau o'r stad mân-ddaliadau i ddarparu daliadau addas a digonol er mwyn creu cyfleoedd i ffermwyr ifanc fentro i mewn i'r diwydiant amaeth ar yr ynys a symud ymlaen mewn amser i ddod yn rheolwyr unedau ffermio cwbl fasnachol tra'n sicrhau elw ariannol cynaliadwy ar gyfer y Cyngor.

Un mater o bryder arbennig fu cyflwr yr eiddo, disgwyliadau tenantiaid a chyfrifoldebau'r landlord sy'n golygu bod angen buddsoddi'n rheolaidd mewn gwaith i gynnal a gwella eiddo i fodloni safonau byw modern. Mae angen sicrhau bod unrhyw eiddo a osodir yn cwrdd â'r safonau gofynnol i bobl fyw ynddynt ac, yn hanesyddol, efallai nad yw rhai o'r eiddo wedi bod yn cwrdd â'r gofynion hyn.

Cadarnhawyd hyn yn ystod y rhaglen arolygon cyflwr yn 2009/2010. Allan o 92 o ddaliadau dim ond 36% oedd mewn cyflwr boddhaol. Roedd 42% mewn cyflwr gwael a 22% mewn cyflwr drwg .

Lluniwyd rhaglen ar gyfer gwneud y gwelliannau angenrheidiol a gyllidwyd trwy werthu rhai eiddo gyda'r arian cyfalaf a'r rhenti'n cael eu neilltuo'n benodol i'w hailfuddsoddi yn y portffolio i wella cyflwr y tai. Bydd y buddsoddiad hwn yn y pen draw yn arwain at fwy o refeniw ac yn cynyddu gwerth cyfalaf y stad.

Hyd yma gwerthwyd saith mân-ddaliad i dalu am y rhaglen hon a derbyniwyd £2,943,000 amdanynt. Ar hyn o bryd, mae un ar ddeg o fân-ddaliadau wedi cael eu cynnig i'r tenantiaid eu prynu a byddai'r rheini'n denu £ 3,055,000 fe dybir. Adnewyddwyd naw ar hugain o fân-ddaliadau hyd yma, mae wyth yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd ac adnewyddir deuddeg arall yn 2015/2016.

Bydd angen opsiynau ar gyfer cynyddu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael drwy werthiannau pellach er mwyn adnewyddu gweddill y stad petai'r Cyngor yn penderfynu cadw'r portffolio hwn. Mae angen herio a chyfiawnhau'r arfer cyfredol o neilltuo £500,000 o'r incwm rhentol i'w wario ar y stad gan nad oes digon o arian ar gael ar hyn o bryd i wneud gwelliannau y mae wir eu hangen i asedau a ddefnyddir ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen.

Unwaith y bydd y gwaith ar adnewyddu'r stad wedi ei gwblhau, bydd angen i'r Awdurdod, drwy'r CLBAG, herio a chyfiawnhau'r angen i gadw'r stad hon a phwyso a mesur y budd economaidd – sef incwm rhent tymor hir a'r manteision economaidd-gymdeithasol yn sgil cefnogi a chynorthwyo'r gymuned ffermio - yn erbyn y derbyniadau cyfalaf tymor byr y gellid eu cael drwy werthu'r rhan fwyaf o'r stad, os nad y cyfan ohoni, sydd ar hyn o bryd yn werth £ 7.9m.

2.1.6 Y Strategaeth Dai

Mae'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer 2014 - 2019 yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio ar draws yr holl ddeiliadaethau tai gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys cymdeithasau tai, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cartrefi a chymunedau. Mae gan y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Dai yn ei dro gysylltiadau pwysig â'r Strategaeth Datblygu Lleol ar y Cyd a fydd yn dyrannu tir ar gyfer codi tai i gwrdd ag anghenion ac yn diweddarau polisiau cynllunio.

Fel rhan o rôl strategol y gwasanaeth a'i gyfrifoldeb corfforaethol, mae angen iddo nodi cyfleoedd datblygu a thir ar gyfer y tri maes allweddol canlynol. Gellir cynorthwyo'r rhain trwy aildefnyddio asedau'r Cyngor o bosib – bydd hynny'n dibynnu ar eu lleoliad. Mae hyn yn amlygu'r cysylltiad rhwng y cynllun hwn â'r amcan Tai yn y Cynllun Corfforaethol.

2.1.6.1 Tai Fforddiadwy

Mae'r gallu i ddarparu tai fforddiadwy er mwyn cwrdd ag anghenion dinasyddion lleol yn amcan pwysig. Gall tai fforddiadwy gynnwys tai cymdeithasol a thai "canolraddol" ar gyfer pobl nad oes arnynt angen tai cymdeithasol ond sy'n methu fforddio prisiau tai ar y farchnad. Mewn rhai ardaloedd yn y dyfodol bydd yn anodd darparu tai fforddiadwy trwy unrhyw ddull ar wahân i ddefnyddio Cymdeithas Dai neu'r Cyngor. Mae hefyd yn bwysig nodi bod tai fforddiadwy yn cefnogi cynaliadwyedd gwledig a'r iaith Gymraeg.

2.1.6.2 Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os bydd yr Aseiad o anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn dangos bod angen amdanynt. Nododd yr aseiad diwethaf bod angen safle parhaol a mannau aros ar yr ynys. Bydd aseiad newydd yn cael ei gynhyrchu'n ddiweddarach eleni er mwyn

nodir angen a lleoliadau addas posib ar gyfer y safleoedd hyn. Mae hwn yn gyfrifoldeb corfforaethol sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Tai.

2.1.6.3 Yr Angen am Dai yn y Dyfodol

Yn ychwanegol at yr anghenion am dai ar hyn o bryd, mae prosiectau isadeiledd mawr a gynlluniwyd ar gyfer yr ynys yn debygol o gael effaith fawr ar yr angen am dai yn y dyfodol gyda hyd at 8,000 o weithwyr adeiladu angen tai yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer Wylfa Newydd.

Mae perygl y bydd aelwydydd yn cael eu dadleoli gan y mewnlifiad o weithwyr medrus ar gyflogau uchel y bydd landlordiaid yn dymuno manteisio ohonynt os na ddarperir llety ychwanegol.

2.1.6.4 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2014 - 2044 yn nodi sut y gellir cyflawni amcanion a nodau tymor canol a thymor hir y Cyngor ar gyfer y Gwasanaethau Tai fel landlord. Adolygir yr amcanion a'r nodau hyn bob blwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2013, cyflwynwyd Mesur Tai drafft gan y Gweinidog Adfywio, Tai a Chynllunio ar gyfer Llywodraeth Cymru i bwrpas ymgynghoriad. Y rhagolygon yw y bydd y Cynghorau sydd wedi cadw eu stoc dai yn dod yn hunangyllidol o fis Ebrill, 2015. Bydd cyfle i Gynghorau adael y System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS).

Mae'r Gwasanaeth Tai bellach wedi dod allan o'r HRAS sy'n golygu bod yr holl asedau ac incwm tai yn cael eu neilltuo'n benodol i'w defnyddio ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Bydd pa mor uchelgeisiol y byddwn wrth fuddsoddi mewn tai newydd yn dibynnu'n rhannol ar y cyfyngiadau a roddir ar ein gallu i fenthycu. Bydd hynny'n destun trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a chyllidwyr yn ystod 2014/2015. Bydd y gwasanaeth yn ystyried datblygu ein tai ein hunain ar dir CRT ar yr amod bod hynny'n fforddiadwy ac o fewn canllawiau cost. Byddwn hefyd yn parhau i drafod a datblygu atebion tai fforddiadwy gyda'r tri Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr yn yr ardal, sef rhai a gyllidir gyda chymorth grant a rhai heb gymorth grant.

2.1.6.5 Dadansoddiad o'r Stoc Dai

Mae gan y Cyngor stoc o 3,805 o anheddau a 767 o garejys. Mae'r garejys yn gyfuniad o flociau annibynnol wedi eu hadeiladu o friciau neu goncrid, rhai gyda tho asbestos a drysau sydd naill ai'n rhai pren traddodiadol neu'n rhai metel o fath 'i fyny a throsgodd'. Mae eraill yn garejys unigol o fewn cwrtail tai unigol.

Stoc Tai Cyngor	2012/13	2013/14
Fflatiau 1 ystafell wely	316	316
Fflatiau 2 ystafell wely	402	402
Fflatiau 3 ystafell wely	15	15

Tŷ / byngalo 1 ystafell wely	395	395
Tŷ / byngalo 2 ystafell wely	933	931
Tŷ / byngalo 3 ystafell wely	1674	1,674
Tŷ / byngalo 4/5 ystafell wely	72	72
CYFANSWM	3,807	3805

2.1.6.6 Maint y llety sydd ei angen

Mae'r tabl isod yn dangos maint y tai sydd eu hangen. Mae dosbarthiad y cyflenwad yn deillio o wybodaeth sydd gennym ar broffil y bobl sydd wedi symud i fyw yn ddiweddar i lety fforddiadwy. Mae'r golofn olaf yn cyfleu'r cyflenwad fel canran o'r angen. Cyfrifir hyn drwy rannu'r nifer yr anheddau o faint penodol gyda nifer y bobl sydd angen cartref o'r maint hwnnw. Po isaf y ffigur po fwyaf yw'r angen am dai fforddiadwy yn yr ardal gan nad yw'r cyflenwad cyfredol yn debygol o gwrdd â'r angen a nodwyd.

Maint yr unedau ychwanegol sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion tai					
<i>Maint y cartref</i>	<i>Angen</i>				
	<i>Angen blynyddol gros</i>	<i>Cyflenwad blynyddol gros</i>	<i>Angen blynyddol net</i>	<i>Fel % o gyfanswm yr angen blynyddol net</i>	<i>Cyflenwad fel % o'r angen gros</i>
Un ystafell wely	458	65	393	61.9%	14.1%
Dwy ystafell wely	283	216	67	10.6%	76.3%
Tair ystafell wely	237	134	104	16.3%	56.4%
Pedair ystafell wely neu fwy	71	0	71	11.3%	0.0%
Cyfanswm	1,049	414	635	100.0%	39.5%

Ffynhonnell: Asesiad Ynys Môn o'r Farchnad Dai Leol, 2013

Mae'r tabl yn awgrymu bod yna angen net am dai fforddiadwy o bob maint. Mae'r angen net mwyaf am lety un ystafell wely, wedi'i ddilyn gan gartrefi tri a dwy ystafell wely. Mae'r galw am gartrefi un ystafell wely yn dod yn rhannol o du aelwydydd un person.

2.1.6.7 Blaenoriaethau Tai Allweddol 2014/2015

Y blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y gwasanaeth dros y deuddeng mis nesaf yw:

- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi Gosod Tai er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

- Gostyngiadau pellach mewn dyledion rhent sydd gan denantiaid a chyn-denantiaid.
- Ailosod eiddo cyn gynted ag y bo modd er mwyn lleihau'r angen am dai a sicrhau'r incwm rhent mwyaf i'r CRT.
- Sicrhau bod stadau tai yn darparu amgylchedd deniadol i drigolion lleol drwy gynnwys tenantiaid a chymunedau yn y gwaith o nodi, cynllunio a blaenoriaethu gwelliannau amgylcheddol.
- Cymryd camau cadarn yn erbyn y rheini sy'n torri amodau eu tenantiaeth ac sy'n ymddwyn yn wrthgyrddedol.
- Cefnogi Pobl – aifodolu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.
- Gweithredu'n llawn weddill y modiwlau TG (Orchard) i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwaith o reoli stoc dai'r Cyngor.
- Gweithredu model opsiwn a ffafrir ar gyfer yr Uned Cynnal Adeiladau Tai (a elwid gynt hefyd yn Sefydliad Llafur Uniongyrchol).
- Cwblhau Asesiad o Anghenion Dysgu'r Gweithlu.
- Ar yr amod bod cyllid ar gael a bod yr Aelodau Etholedig yn cytuno, dechrau gweithredu'r opsiwn y cytunwyd arno ar gyfer dyfodol Llawr y Dref
- Blaenoriaethau ar gyfer Gwaith Cyfalaf a diweddarau Strategaeth Rheoli Asedau
- Cyflwyno taliadau gwasanaeth clir a thryloyw, dadgronni'r taliadau o'r rhent.
- Diwygio Lles – Cyflawni Cynllun Gweithredu i liniaru effeithiau Diwygio Lles ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a chefnogi tenantiaid sydd wedi eu hallgau'n ariannol.
- Gofyn am gyngor arbenigol ynghylch cyllido'r CRT yn y dyfodol o ganlyniad i'r system hunangyllido arfaethedig newydd.
- Tynnu allan yn llwyddiannus o'r System Cymhorthdal CRT ar yr amod bod y Pwyllgor Gwaith a Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo.

2.1.7 Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (Y Cynllun)

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn disgrifio sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli ei asedau priffyrdd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Ei brif nod yw dangos bod asedau cludiant lleol sydd wedi eu cynnal yn dda, ynghyd â'r isadeiledd cysylltiedig, yn hanfodol i sicrhau canlyniadau cludiant gwell ac i gyflawni'r Cynllun Cludiant Lleol⁷.

Mae'r Cynllun yn ddogfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun ac a ddatblygwyd gan bob un o'r 22 Awdurdod yng Nghymru yn cydweithio o dan arweiniad yr Ymgynghorwyr Opus. Yn seiliedig ar y wybodaeth o fewn y Cynllun, derbyniodd y Sir £170m o fenthyciadau darbodus ar gyfer gwneud gwaith i gynnal a chadw priffyrdd am y cyfnod 2012/2013 i 2014/2015.

Er y byddai'n ddymunol cynnwys yr holl asedau priffyrdd yn y Cynllun Rheoli Asedau, bydd y grwpiau asedau canlynol yn cael eu hystyried yn fanwl yn y lle cyntaf yn y broses cynllunio cylch bywyd gyda'r nod o sicrhau bod yr asedau'n cael eu cynnal yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol ac amserol.

⁷ Mae copi o'r HAMP ar gael drwy gysylltu gyda'r Adain Briffyrdd

- Ffyrdd (Cerbydlonydd)
- Palmentydd (Troedffyrdd)
- Strwythurau (Pontydd ac ati)
- Systemau Draenio
- Goleuadau Stryd
- Signalau Traffig a Chroesfannau i Gerddwyr
- Coed, ymylon ffyrdd a ffiniau
- Arwyddion, Rhwystrau a Dodrefn Stryd
- Gwaith Cynnal yn y Gaeaf

Mae rhestr o'r asedau sydd o fewn y cwmpas, eu prisiadau, ynghyd â'r gwariant cyfalaf a refeniw arnynt yn ystod 2014 ar gael yn **Atodiad 4**.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cynnwys data manwl am y canlynol:

- **Rhestr o Asedau Priffyrdd.** Mae'r rhestr hon yn nodi pa wybodaeth a gedwir am yr asedau ar hyn o bryd ac yn amlinellu pa fylchau sy'n bodoli yn y data a sut y bwriedir eu cau. Mae'r Rhestr yn cynnwys amcangyfrif o Werth Asedau sy'n seiliedig ar y Gost Amnewid Gros ar gyfer pob grŵp o asedau.
- **Buddsoddi yn yr Ased.** Mae hyn yn rhoi manylion am y lefelau gwariant hanesyddol a chyfredol ar bob grŵp o asedau.
- **Cyflwr Asedau.** Mae hwn yn amlinellu'r dulliau cyfredol o asesu cyflwr asedau, yn nodi pa ddata sydd ar gael, yn nodi unrhyw fylchau yn y data ac yn amlinellu cynigion i gynnal lefel o ddata ynghylch cyflwr asedau sy'n ddigonol ar gyfer anghenion rheoli asedau'r sir.
- **Lefelau Gwasanaeth ac Opsiynau Gwasanaeth.** Mae hyn yn disgrifio'r penderfyniadau gwasanaeth cyfredol, gan gynnwys costau, diogelwch a dangosyddion perfformiad ac yn trafod pa lefel arall o Opsiynau Gwasanaeth sy'n agored ar gyfer pob grŵp o asedau, gan gynnwys Cynlluniau Cylch Oes ar gyfer pob grŵp o asedau.
- **Rheoli Risg.** Mae hyn yn darparu asesiad gwrthrychol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â lefelau gwahanol o wasanaeth.
- **Blaenraglen Waith.** Mae rhaglen amlinellol o waith yn cael ei datblygu ar gyfer pob opsiwn gwasanaeth ar draws yr holl grwpiau asedau ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio i gostio a chymharu opsiynau gwasanaeth amgen a datblygir rhaglenni gwaith manwl o'r rheini.
- **Bylchau mewn Perfformiad.** Mae'r adran hon yn nodi'r gwahanol fylchau mewn perfformiad sy'n bodoli o fewn pob grŵp asedau.
- **Datblygiadau yn y Dyfodol / Camau Gwella.** Mae'r adran hon yn rhestru'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i newid y broses fusnes a neu ddiwylliant y sefydliad er mwyn cyflawni dull rheoli asedau.

Y nod oedd datblygu a chynnal y cynllun hwn ar yr un pryd â'r 21 o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, a thrwy hynny sefydlu safonau a pharamedrau cyffredin y gellir wedyn eu defnyddio i gymharu perfformiad a sefydlu anghenion cyllido ar lefel genedlaethol gyffredin. Bydd y Cynllun hefyd yn esblygu i gymryd i ystyriaeth ddatblygiad polisïau, blaenoriaethau, dangosyddion a chanlyniadau.

Mae'r manteision posibl yn sgil y Cynllun hwn yn cynnwys:

- Llai o gostau cylch bywyd
- Y gallu i fonitro perfformiad gan ddefnyddio lefelau diffiniedig o wasanaeth
- Gwell tryloywder wrth wneud penderfyniadau
- Y gallu i ragweld canlyniadau penderfyniadau cyllido
- Gwell rheolaeth o risgiau ariannol, gweithredol a chyfreithiol, a
- Y gallu i gyflawni cyfrifoldebau o ran prisio a chyflwyno adroddiadau ariannol.

Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd bob pum mlynedd a bryd hynny datblygir "Cynllun Gwella" newydd i gynorthwyo gyda gwelliant parhaus y gwasanaeth.

2.1.8 Strategaeth Rheoli Gwastraff

Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff (SRhG) Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn amlinellu sut y bydd Ynys Môn yn rheoli'r broses o gasglu, trin a chael gwared ar wastraff a gesglir gan Gyngor Sir Ynys Môn dros y cyfnod 2014/15 - 2017/18. Un o nodau allweddol y Strategaeth yw gwella ein perfformiad amgylcheddol a lleihau ein hól-troed ecolegol tra'n gwneud y defnydd mwyaf o wastraff a darparu gwerth gorau.

Mae'r canlynol yn amlygu rhannau perthnasol o'r strategaeth sy'n ymwneud â Thir ac Adeiladau.

2.1.8.1 Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff Domestig (CAGD)

Mae dwy Ganolfan o'r fath yn Ynys Môn ar hyn o bryd ac maent yn cael eu rhedeg gan y Cyngor. Mae'r rhain yng Ngwalchmai a Phenhesgyn (ger Porthaethwy). Mae'r ddau safle ar agor o 10:00-17:00 bum niwrnod yr wythnos (ac eithrio Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Gŵyl San Steffan a Dydd Calan).

Agorodd y Ganolfan newydd ym Mhenhesgyn ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n gyfleuster o'r radd flaenaf ar lefelau gwahân sy'n gwasanaethu gorllewin y sir. Nid yw'r ddau safle (ers Gorffennaf 2013) ond yn derbyn gwastraff ailgyrchadwy a rhaid didoli'r holl wastraff cyffredinol cymysg ar y safleoedd. Gyda gwelliannau yn digwydd bob blwyddyn, mae'r canolfannau ar hyn o bryd yn dargyfeirio dros 80% o'r holl wastraff a dderbynnir fel y gellir eu hailddefnyddio, eu hailgyrchu neu eu compostio.

2.1.8.2 Toiledau Cyhoeddus

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu rhwydwaith o 19 o gyfleusterau cyhoeddus ledled y sir. Mae rhai ohonynt ar agor drwy gydol y flwyddyn ac mae eraill yn rhai tymhorol. Mae darparu cyfleusterau cyhoeddus yn swyddogaeth anstatudol ac o'r herwydd mae nifer y cyfleusterau cyhoeddus wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf o 32 i 19 er mwyn gwneud arbedion. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu gwerthu i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf ac mae nifer o rai eraill wedi cael eu cymryd drosodd

gan gynghorau Tref a Chymuned i'w rhedeg a'u cynnal. Mae'n anorfod y bydd toriadau pellach yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

2.1.9 Cynllun Swyddogaeth Hamdden

Ar adeg drafftio'r cynllun hwn 'roedd y Strategaeth Hamdden wrthi'n cael ei datblygu. Unwaith y bydd y Strategaeth wedi bod trwy'r broses ymgynghori a chymeradwyo, bydd yn cael ei defnyddio i lywio'r cynllun hwn. Fodd bynnag, ar ddiwedd mis Ionawr 2015 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo'r gwaith o redeg Cwrs Golf a Maes Ymarfer Llangefni i grŵp cymunedol lleol tan 2017. Yna bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu pan fydd yr amodau ynghylch crafangau'r grant yn ôl wedi dod i ben a fyddai'n golygu wedyn y byddai modd gwerthu'r safle o bosib.

2.1.10 Strategaethau ar gyfer Llyfrgelloedd, leuenctid ac Asedau Diwylliant a Threftadaeth

Ar adeg drafftio'r cynllun hwn roedd Strategaethau ar gyfer y Llyfrgelloedd, leuenctid ac Asedau Diwylliant a Threftadaeth yn y broses o gael eu datblygu. Unwaith y byddant wedi bod trwy'r broses ymgynghori a chymeradwyo, byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r cynllun hwn.

Mae'r tîm Amgylchedd Adeiledig yn y Gwasanaeth Cynllunio yn datblygu prosiect dan y Rhaglen Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi i brynu adeilad Neuadd y Farchnad Caergybi. Mae'r prosiect yn bwriadu adnewyddu'r adeilad i ddarparu hyb cymunedol / economaidd a fyddai'n gartref newydd i'r llyfrgell ac a fyddai'n darparu cyfleusterau addysgol, ystafelloedd cymunedol, swyddfeydd a chaffi.

Drwy symud y llyfrgell o'i lleoliad cyfredol gellir rhyddhau mynediad i safle cyfagos Ysgol y Parc a fydd yn cau, os cymeradwyir hynny, fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer y dref gan ganiatáu gwerthu dau safle fel un i bwrpas ei ddatblygu.

2.1.11 Parciau, Mannau Agored ac Eiddo Amrywiol

- Mae'r Parciau a'r Ardaloedd Agored yn cynnwys ardaloedd sylweddol o harddwch naturiol eithriadol fel Ynys Llanddwyn, Parc Gwledig Caergybi, Nant y Pandy yn Llangefni a Melin Llynnon sy'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr ac felly'n cynhyrchu incwm i'r Cyngor. Mae safleoedd Llanddwyn, Parc Gwledig Caergybi a Nant y Pandy yn cael eu rheoli gan Adain Cefn Gwlad yr Adran Gynllunio a oedd, ar adeg drafftio'r cynllun hwn, yn y broses o ddatblygu cynlluniau strategol ar gyfer pob un o'r tri safle er mwyn sicrhau eu hyfywedd i'r dyfodol a bydd y cynlluniau strategol hynny'n llywio'r cynllun hwn unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo.

- Mae yna hefyd nifer o barciau cyhoeddus, mannau chwarae, mannau picnic a mwynderau a thraethau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hamdden sy'n cael eu rheoli gan gynghorau Tref a Chymuned a'r Gwasanaeth Arforol a Hamdden.
- Yn ogystal, mae ardaloedd sylweddol o dir pori ar wahân i'r stad mân-ddaliadau sy'n cael eu rhoi ar brydles gan y Cyngor ac sy'n cynhyrchu incwm o tua £ 17,000 y flwyddyn ac sy'n costio dim i'r Cyngor eu cynnal. Argymhellir cadw'r safleoedd hyn oherwydd maent yn darparu incwm bychan ond hefyd o bryd i'w gilydd rydym yn gallu manteisio ar amodau'r farchnad a gwerthu safle i dderbyn arian cyfalaf sylweddol.
- Mae yna hefyd 171 o "Diroedd a Ddefnyddir" sy'n cynnwys Gwaith Carthffosiaeth, is-orsafoedd trydanol, ardaloedd draenio tir a pharseli o dir ger y priffyrdd a hefyd 62 o "Diroedd Heb eu Datblygu" sy'n cynnwys darnau o dir moel ar stadau Tai Cyngor, ardaloedd mynediad i draethau a nifer o blotiau adeiladu gwag sy'n cael eu marchnata ar hyn o bryd.

Nid oes angen y rhan fwyaf o'r asedau hyn ar gyfer darparu gwasanaeth; nid oes unrhyw gyfrifoldebau statudol i'w darparu; does ond ychydig o arian i'w cynnal, os o gwbl; nid ydynt yn addas i'w gwerthu ac mewn llawer o ffyrdd maent yn rhwymedigaethau i'r Cyngor nad oes ganddo unrhyw ddewis ond eu cadw am wahanol resymau.

- Mae'r grŵp bach o eiddo Amrywiol a ddangosir yn y tabl isod yn cynnwys yn bennaf asedau nad oes eu hangen mwyach ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae rhai ohonynt yn cael eu defnyddio yn y tymor byr ar gyfer storio, neu fel swyddfeydd neu'n cael eu rhoi ar brydles hyd nes nad oes eu hangen mwyach a phan ellir eu gwerthu.

Eiddo	Defnydd Presennol	Cynnig i'r dyfodol
Y Lanfa Olew, Amlwch	Mae'r gweithdai ar brydles yn lleol a defnyddir rhan o'r prif adeilad fel canolfan ar gyfer Peilotiaid Morol.	Anhysbys
Ardal Cadw Cychod, Porth Llechog	Darn o dir a ddefnyddir ar gyfer storio cychod	Cynnal y sefyllfa bresennol
Hen Ysgol-Llandegfan	Yn segur	I'w gyfnewid â thir LCC
Hen Ddepo'r Cyngor - Caergybi	Ar brydles i Grŵp Sgowtiaid lleol	Cadw hyd nes y daw'r brydles i ben
Pont Droed uwchben Llinell-Caergybi	Ddim yn cael ei defnyddio	Anhysbys
Tir dan yr Adeilad Siandler, Caergybi	Ar brydlesu i fusnesau lleol	Ildio'r brif brydles
Tŷ Ffridd, Llangefni	Tŷ Ceidwad Griniau Cwrs	Yn dibynnu ar ddyfodol y

	Golff Llangefni	Cwrs Golff
Hen Ysgol Y Graig-Llangefni	Swyddfa a lle storio tymor byr. Yn cael ei gwagio a'i marchnata ar hyn o bryd.	Dymchwel yr adeilad a gwerthu'r safle.
Hen Ysgol Y Bont-Llangefni	Ddim yn cael ei defnyddio.	Dymchwel yr adeilad a nodi'r safle ar gyfer Cyfleuster Gofal Ychwanegol posib
Môn Hyfforddiant-Llangefni	Dymchwelwyd yr adeilad yn ddiweddar.	I'w werthu neu ei ddatblygu gan yr Adran Datblygu Economaidd gydag unedau busnes ychwanegol.
Adeilad Storffeydd yn yr hen orsaf, Llangefni	Storio Offer	Ei wagio a'i drosglwyddo i'r gymuned leol.

2.1.12 Y Portffolio Diwydiannol

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod 18 o safleoedd diwydiannol o wahanol faint sy'n cynnwys rhyw 89 o unedau diwydiannol unigol fel y dangosir yn y tabl isod. Mae'r safleoedd hyn yn parhau i gael eu datblygu gan y gwasanaeth Datblygu Economaidd ac yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Tîm Stadau yn y Gwasanaethau Eiddo. O'r 89 o unedau, mae 5 yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod (gweithredol) megis y depos, ac mae'r 11 uned i Bysgotwyr yng Nghaergybi ar brydles gan Stena sy'n gadael 69 o unedau a'u safleoedd sy'n cael eu gosod i fusnesau lleol ac mae 7 uned ar safle Penyrsedd yn Llangefni.

1	11ID01000	Biniau Copr - Porth Amlwch	2
2	11ID04000	Unedau Diwydiannol – Stad Ddiwydiannol Amlwch – Amlwch	4
3	11ID05000	Hen Ysgol Genedlaethol – Amlwch	3
4	13ID01000	Unedau Diwydiannol Bodedern	4
5	14ID02000	Unedau Diwydiannol – Mona	12
6	19ID03000	Unedau Pysgotwyr - Ardal Doc Pysgod - Caergybi	11
7	19ID04000	Canolfan Fenter Caergybi – Caergybi	12
8	31ID01000	Unedau Gweithdai – Llanfairpwll	3
9	33ID02001	Depo Cyngor - DLO – Gaerwen	1
10	33ID02002	Depo Cyngor - Gaerwen (BIFFA)	1
11	33ID02003	Depo Cyngor Gaerwen (Gweithdy Gwaith Saer)	1
12	33ID03000	Depo Priffyrdd – Gaerwen	1
13	34ID03000	Safle Datblygu Penyrsedd 1 – Llangefni	4
14	37ID01000	Hen Ysgol Gynradd – Brynsiencyn	7
15	39ID01000	Hen Ysgol Gynradd - Pont Menai	2
16	39ID02000	Depo Priffyrdd Newydd - Four Crosses -	1

17	45ID01000	Gweithdai Rhosyr – Niwbwrch	4
18	46ID03000	Unedau Diwydiannol Penrhos – Caerdybi	16

Ar adeg drafftio'r cynllun hwn mae 79 o unedau'n cael eu defnyddio ac mae 10 yn wag sy'n golygu bod 88.76% yn cael eu defnyddio ac wedi cynhyrchu tua £ 355,000 o incwm yn y 12 mis diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r tenantiaid ar brydles atgyweirio mewnol sy'n golygu eu bod yn gyfrifol am gynnal y tu mewn i'r unedau gyda'r Cyngor ond yn gyfrifol am gynnal llecynnau cymunedol a'r tu allan iddynt. Mae hynny'n golygu bod rhywfaint o gost i'r awdurdod o gael yr unedau hyn.

Dros y 12 mis blaenorol diwethaf gwariwyd oddeutu £17,000 ar gynnal yr unedau hyn ac o'r data a gafwyd yn sgil yr arolwg diweddaraf, mae gwerth £58,000 o waith cynnal wedi cronni sy'n golygu bod costau cynnal a chadw'r unedau hyn yn gymharol isel. Byddai adolygu rhenti a chyflwyno tâl gwasanaeth yn helpu tuag at fynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw hyn ac unrhyw gynnydd mewn costau yn y dyfodol. Yn ôl y prisiad diweddaraf mae'r portffolio yn werth £3.39m ac mae gwaith gwella ar weddill yr unedau ym Mhenrhos drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Mae gan yr Awdurdod hwn ddau reswm dros gadw'r portffolio diwydiannol hwn. Rheswm economaidd yw'r rheswm cyntaf, sef ei fod yn darparu incwm sylweddol i'r Awdurdod. Rheswm cymdeithasol-economaidd yw'r ail yn yr ystyr bod y portffolio'n rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint a fyddai, fel arall, yn ei chael yn anodd darganfod a fforddio eiddo addas ar gyfer cynnal eu busnesau a darparu cyflogaeth leol.

Mae'r unedau hyn wedi darparu ffynhonnell gyson o incwm i'r Cyngor ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae'r defnydd a wneir o'r unedau hyn wedi aros yn gyson hyd yn oed yn ystod y dirwasgiad diweddar. Gyda'r cyfleoedd sydd ar y gweill yn y sector ynni, disgwylir i'r galw gynyddu ac nid oes disgwyl y bydd y sector preifat yn medru cwrdd â'r holl alw. Mae angen i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a chynyddu ei incwm trwy ddeall sgôp, maint a lleoliad y galw.

Mae'r Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol o'r farn bod datblygu adeiladau busnes modern newydd i ateb y galw a ddisgwylir gan y sector ynni yn hanfodol i wella ein perfformiad economaidd. Mae unedau busnes modern newydd yn llai beichus o ran gwaith cynnal a chadw a bydd hynny'n goresgyn methiant yn y farchnad ac yn cynhyrchu llif incwm uwch i'r Cyngor.

Mae angen i ni sicrhau hefyd bod y gwasanaethau Economaidd, Eiddo a Chyllid yn gweithio trwy'i gilydd, felly pan fo tenant symud i mewn, y caiff y rhent ei gasglu ar y dyddiad y mae'n ddyledus gan fod sicrhau'r incwm mwyaf posib o rent yr asedau hyn yn hanfodol i sicrhau eu cynnaladwyedd.

Fodd bynnag, mae angen i'r awdurdod trwy'r CLBAG herio'r cyfiawnhad dros barhau i fod yn berchen y portffolio Stadau Diwydiannol a dylai'r opsiynau a ganlyn gael eu hystyried:

1. Gwneud dim a chynnal y status quo.
2. Buddsoddi yn y stad ein hunain drwy gyflwyno taliadau gwasanaeth i dalu am ein costau presennol a mynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni. Bydda hynny'n y pen draw yn arwain at fwy o refeniw ac yn gwella gwerth cyfalaf y stad.
3. Gwerthu'r stad fel portffolio, os yw amodau grant yn caniatáu, ac ildio'r buddion refeniw blynyddol am swm cyfalaf unwaith ac am byth.
4. Trosglwyddo'r stad i asiant rheoli, ymddiriedolaeth neu bartner a rhannu'r ymrwymadau a'r buddion yn y dyfodol.

Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol y gallai materion Adennill Grant fod yn berthnasol i rai o'r unedau a adeiladwyd yn fwy diweddar y bydd angen eu nodi a byddai angen i'r Awdurdod gadw'r rhain petai penderfyniad yn cael ei wneud i werthu'r portffolio Diwydiannol.

2.1.13 Portffolio Manwerthu

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod 10 safle Manwerthu sy'n cynnwys 19 o unedau masnachol unigol sydd ar les i fusnesau lleol fel y dangosir yn y tabl isod. Cânt eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Tîm Stadau yn y Gwasanaethau Eiddo.

1	12CM02000	Sgwâr y Farchnad - Biwmares	7
2	12CM03000	Ciosg y Pier - Biwmares	1
3	19CM03000	Adeilad Landmark - Caergybi	1
4	25CM01000	Unedau Siop – Llannerch-y-medd	3
5	30CM01000	Ciosg Benllech - Benllech	1
6	30CM02000	Caffi Wendon - Benllech	1
7	30CM03000	Ciosg Hufen lâ - Benllech	1
8	34CM02000	Iard yr Orsaf - Llangefni	1
9	39CM01000	Unedau Siop – Porthaethwy	2
10	37CM01000	Uned Siop Brynsiencyn - Brynsiencyn	1

Ar adeg drafftio'r cynllun hwn, mae 17 o unedau wedi'u meddiannu ac mae 2 o unedau gwag, sydd wedi cynhyrchu incwm o £54,800 dros y deuddeng mis diwethaf, on fe allai fod wedi bod yn £82,370 petaent wedi'u gosod yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o denantiaid ar brydles atgyweirio mewnol sy'n golygu mai eu cyfrifoldeb hwy yw cynnal a chadw'r unedau'n fewnol. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw ardaloedd mewnol cymunedol a thu allan yr unedau'n unig, sy'n golygu bod rhywfaint o gost i'r awdurdod o gael yr unedau hyn.

Dros y 12 mis blaenorol gwariwyd oddeutu £20,585 ar gynnal a chadw'r unedau hyn ac yn ôl y data o'r arolwg cyflwr diweddaraf, nodir ffigwr o £78,900 ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni. Prisiad asedau diweddaraf y portffolio hwn yw £615,000.

Mae dau reswm pam fod gan yr Awdurdod y portffolio Manwerthu hwn. Yn gyntaf am resymau economaidd am ei fod yn darparu incwm i'r Awdurdod, ac yn ail am resymau cymdeithasol-economaidd am ei fod yn darparu cymorth gwerthfawr i fusnesau bychain a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd canfod a ffordio eiddo addas i leoli eu busnes ynddo a darparu cyflogaeth leol.

Ac eithrio Caffi Wendon ac adeilad Landmark, byddai'n bosib gwerthu'r eiddo hyn. Mae Caffi Wendon yn destun cynllun aiddatblygu tymor canol ac mae potensial i hynny ddod â buddion cyfalaf sylweddol i'r safle pan ddaw'r Cynllun Datblygu ar y Cyd newydd i rym yn 2016. O ran yr adeilad Landmark, mae symiau sylweddol o grant UE yn cael eu hawlio'n ôl sydd werth llawer mwy na'r derbyniad cyfalaf y byddem yn ei gael o werthu'r ased ac ar y sail honno dylai'r Cyngor gadw'r ased.

Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod trwy CLBAG gyfiawnhau'r rheswm dros barhau i gadw'r asedau sy'n weddill o fewn y portffolio hwn a dylai'r opsiynau a ganlyn gael eu hystyried:

1. Gwneud dim a chynnal y status quo.
2. Buddsoddi yn y stad ein hunain drwy gyflwyno taliadau gwasanaeth i dalu am ein costau presennol a mynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni. Bydda hynny'n y pen draw yn arwain at fwy o refeniw ac yn gwella gwerth cyfalaf y stad.
3. Gwerthu'r stad fel portffolio, os yw amodau grant yn caniatáu, ac ildio'r buddion refeniw blynyddol am swm cyfalaf unwaith ac am byth.
4. Gwerthu'r unedau hynny nad ydynt yn creu llawer o incwm a chadw'r rheini sydd yn gwneud incwm.
5. Trosglwyddo'r stad i asiant rheoli, ymddiriedolaeth neu bartner a rhannu'r ymrwymadau a'r buddion yn y dyfodol.

2.1.14 Asedau Arforol

Mae gan yr Adain Arforol yr asedau a ganlyn:-

1. Porth Amlwch – yn cynnwys yr hen Lanfa Olew, dau forglawdd allanol, Cei Arforol, Hen Harbwr, Pier y 'Watch House' a'r Cei Isaf a'r Llithrfa a Wal yr Harbwr.
 - Cael ei ddefnyddio gan amrediad o wahanol grwpiau defnyddwyr gan gynnwys peilotiaid, pysgotwyr, cychod preifat ar gyfer teithiau pysgota a hamdden a defnyddwyr preifat eraill.
 - Derbynnir incwm gan Mersey Docks and Harbour Pilotage o rentio gweithdai, storio, angorfeydd, swyddfa a defnydd rhannol o'r Lanfa Olew.
 - Treftadaeth a chymeriad cryf sy'n apelio i'r diwydiant twristiaeth sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr.
 - Yn agos at ddatblygiadau ynni yn y môr.
 - Wedi buddsoddi'n ddiweddar i wella mynediad, parcio, cyfleusterau toiled ac ardaloedd amwynder.
2. Pier Biwmares – yn cynnwys cawsai 100m solet, strwythur jeti 75m sefydlog a phontŵn sy'n arnofio ar wyneb y dŵr.
 - Ased allweddol ar gyfer sector twristiaeth Ynys Môn sydd wedi cael ei ailddatblygu'n sylweddol.
 - Mae'r pier yn cefnogi nifer o fusnesau sy'n ei ddefnyddio i lansio tripiâu cychod. Yn ddiweddar, mae wedi denu busnesau newydd ac wedi galluogi eraill i ehangu.
 - Gwneir defnydd helaeth o'r pier gan drigolion lleol a thwristiaid fel lle i fynd am dro ac eistedd ac ar gyfer gweithgareddau pysgota ac mae'n ganolbwynt y promenâd ehangach.
3. Doc Pysgod Caergybi – yn cynnwys pier pontŵn arnofiol, llithrfa'r Cei Deheuol, Swyddfa'r Harbwrfeistr, Gweithdai'r Pysgotwyr, Tanciau Storio Tanwydd a chompownd wedi ei ffensiō sy'n cael ei brydlesu gan Stena Line Ports Limited.
 - Y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio bron yn gyfan gwbl fel harbwr pysgota a ddefnyddir gan y fflyd bysgota leol a chychod ac fel lle y gall cychod sy'n ymweld angori, glanio a chael eu cynnal a'u cadw.
 - Mae ailwerthu olew arforol yn cynhyrchu incwm da i'r Adain Arforol.
 - Mae â'r potensial i gefnogi prosiectau ynni ar y môr yn y dyfodol.
4. Pier San Siôr, Porthaethwy – yn cynnwys pier, pontŵn sy'n arnofio ar wyneb y dŵr, mynediad i gerddwyr a thir o flaen glannau'r afon
 - Fe'i defnyddir yn bennaf fel lle ar gyfer angori llong Prifysgol Bangor
 - Mae rhan o'r cyfleuster hefyd yn cael ei ddefnyddio gan gychod sy'n darparu profiadau ar gyfer twristiaid.
5. Angorfeydd
Mae gan yr Adain Arforol 468 o angorfeydd sydd wedi eu lleoli o gwmpas arfordir yr ynys sy'n cael eu prydlesu i fusnesau lleol a pherchenogion cychod preifat

sydd o gymorth i gefnogi'r diwydiant hamdden. Maent hefyd yn ffynhonnell incwm da i'r Adain Arforol.

2.2 Effeithlonrwydd Ynni

Mae awydd i wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau, lleihau ein hól troed carbon a gwneud arbedion effeithlonrwydd ar gost y pŵer a'r dŵr a ddefnyddir, a hefyd buddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag ar hyn o bryd, nid oes Polisi Effeithlonrwydd Ynni a gymeradwywyd ar waith ar gyfer ein hadeiladau i hwyluso hyn, mae'r polisi'n parhau i fod ar ffurf drafft, a methwyd â chyflawni camau gweithredu i gwrdd â'r datganiadau polisi yn y gorffennol oherwydd diffyg adnoddau.

Mae aelodau etholedig a'r UDA wedi gofyn yn ddiweddar i brosiect gael ei sefydlu i ddatblygu hyn ac ar adeg drafftio'r cynllun hwn mae PID wedi cael ei gymeradwyo i wneud hyn gyda'r amcanion canlynol.

1. Sefydlu llinell sylfaen o sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â thargedau Cenedlaethol a Lleol.
2. Cael penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar yr opsiynau a ffeirir ar gyfer mentrau gwella ynni ar gyfer yr Awdurdod i gynnwys eglurhad ar (i) y cyfraddau elw posib ar fuddsoddiadau cyfalaf, a (ii) gallu'r Awdurdod i gwrdd â thargedau cenedlaethol a lleol.
3. Yr Awdurdod i fabwysiadu *Polisi Effeithlonrwydd Ynni*.
4. Cael cynllun gweithredu yn ei le.

Bydd amcanion pellach yn cael eu diffinio gan ganlyniadau Amcan 4

Y gyrrwyr allweddol ar gyfer cyflawni'r prosiect hwn yw:

- Bydd diffyg buddsoddiadau yn effeithio ar ein gallu i gyrraedd targedau Sector Cyhoeddus yn y *Ddeddf Newid Hinsawdd 2008* gan Lywodraeth Cymru
 - i leihau allyriadau i uchafswm o 0.83 tonnell fetrig o garbon deuocsid (MtCO₂e), yn erbyn llinell sylfaen o 1.13 MtCO₂e.
 - gostyngiad o 3% mewn allyriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gosod targed lleol o 5% o ostyngiad mewn defnydd ynni a dŵr
- Nid oes gennym ddarlun clir o ble rydym yn sefyll mewn perthynas â'r targedau rhanbarthol neu genedlaethol hyn / meincnodi

- Angen deall y cyfraddau adenillion ar wahanol opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn ynni (mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf yn arbennig)
- Mae Aelodau Etholedig a'r UDA wedi gofyn i brosiect gael ei sefydlu i symud ymlaen â gwelliannau yn y maes hwn.

Cymeradwywyd y Polisi Effeithlonrwydd Ynni gan y Cyngor ym mis Mawrth 2015 a bydd ei ganlyniadau'n cael eu defnyddio fel sylfaen i'r cynllun hwn.

2.3 Adeiladau Rhestredig

Mae'r Cyngor yn berchen neu mae ganddo fudd mewn 22 o wahanol adeiladau rhestredig sy'n amrywio o ysgolion, Neuadd y Sir, i ffermdai a hen felinau ac ati. Mae'r rhan fwyaf wedi'u rhestru'n adeiladau gradd II ac mae 5 yn adeiladau gradd II*. Mae'r Gofrestr Adeiladau Rhestredig i'w gweld yn **Atodiad 5** y cynllun hwn.

Yn 2002 cynhaliwyd Arolwg Cyflwr Adeiladau Rhestredig gan ymgynghorwyr ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ar ran y Cyngor. Adnabuwyd fod tri adeilad mewn perygl, ac y dylai dau gael eu monitro.

Gwnaed arolygon cyflwr ar ddeuddeg o'r adeiladau hyn hefyd fel rhan o arolygon Rheoli Asedau'r Gwasanaethau Eiddo yn 2003/2004, a nodwyd nifer o faterion oedd angen eu cywiro am gost o thua £2,391,208.

Mae angen diweddarau'r arolygon cyflwr hyn bellach gan gynnwys yr adeiladau hynny a gafodd eu hepgor yn flaenorol, ac nid oes amheuaeth y bydd hynny'n adnabod materion pellach y bydd raid ymdrin â hwy ar amcan gost uwch nag a nodwyd yn flaenorol. Mae'n bosib y bydd yr arolygon newydd hyn hefyd yn cynyddu nifer yr eiddo a nodir fel rhai sydd mewn perygl neu sydd angen eu monitro.

Gall adeiladau rhestredig sy'n eiddo i'r Cyngor fod yn gyfle da i hyrwyddo arfer dda o ran cadwraeth os oes digon o adnoddau ar gael ac y gwneir defnyddiau priodol o'r adeiladau. Fodd bynnag, gall yr adeiladau hyn ddirywio'n sylweddol os cânt eu gadael yn wag am beth amser a heb fawr ddim adnoddau'n cael eu gwario arnynt. Pan fydd hyn yn digwydd, gall adeiladau rhestredig gael eu gweld yn faich gostus ar y Cyngor.

Mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol fod ganddo ddyletswydd i sicrhau bod yr adeiladau rhestredig hyn yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Ar ben hynny, "Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i awdurdodau i ddelio gyda'u hadeiladau eu hunain mewn ffyrdd a fydd yn darparu enghreifftiau o arfer dda i berchnogion eraill. Mae'n

arbennig o bwysig bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal adeiladau hanesyddol mewn cyflwr da ... " (Cylchlythyr 61/96).

Fe wnaeth y Gwasanaeth Cynllunio ynghyd â'r Gwasanaeth Eiddo baratoi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu a ganlyn yn flaenorol i ddiogelu'r stoc adeiladau rhestredig ac i leihau'r nifer oedd mewn perygl neu oedd angen eu monitro:

- Sefydlu a chadarnhau cofnod/cronfa ddata gyfredol a therfynol o / adeiladau rhestredig ar brydles/ym meddiant y Cyngor.
- Creu un man cyswllt sy'n gyfrifol am wybodaeth ynghylch adeiladau rhestredig sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.
- Ceisio cefnogaeth ac ymrwymiad corfforaethol / gwleidyddol i warchod y stoc adeiladau rhestredig sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Llunio llawlyfr adeiladau rhestredig unigol.
- Cynnal arolwg manwl diweddaredig o'r adeiladau sydd fwyaf mewn perygl.
- Paratoi rhaglen o gynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer adeiladau mewn perygl a sefydlu rhestr flaenoriaeth ar gyfer atgyweiriadau brys.
- Gwneud darpariaethau ar gyfer cynllunio cyllidebol a bidiau am gyllid allanol.
- Sefydlu trefn gynnal a chadw bob pum mlynedd.
- Sefydlu rhaglen i fonitro adeiladau gwag yn rheolaidd.
- Ystyried strategaethau marchnata ar gyfer ailddefnyddio adeiladau gwag.
- Sefydlu canllawiau ar gyfer ffyrdd posib o gael gwared arnynt.

Yn anffodus, oherwydd diffyg adnoddau a chyfyngiadau cyllidebol mae rhai o'r argymhellion yn y cynllun gweithredu wedi cael eu gohirio hyd nes y daw cyllid ar gael ar ffurf grantiau neu fidiau cyfalaf / refeniw, a hyd yma ni wnaed unrhyw gynnydd pellach.

Er hyn, mae nifer o'r asedau ar hyn o bryd yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosiectau a strategaethau trawsnewid gwasanaeth sy'n mynd rhagddynt, er mwyn adnabod ffordd ymlaen a sicrhau nad yw'r asedau hyn yn dod yn ddyledion i'r Cyngor. Mae angen i CLBAG adolygu a diweddarau'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn i adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau cyfredol y Cyngor a sut maent yn "gweddu" i'r cynllun hwn.

Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant wedi cynnal arolygon cyflwr ar Garchar a Llys Biwmares sydd wedi arwain at gyflwyno bid Cyfalaf am £231,000 i ddelio â'r gwaith hanfodol y nodwyd sy'n angenrheidiol yn dilyn yr arolygon hyn.

2.4 Rhesymoli Asedau

Yn ystod cyfnod pum mlynedd y cynllun rheoli asedau blaenorol, roedd y Cyngor wedi adnabod amryw o asedau tir ac adeiladau gweithredol ac anweithredol i gael gwared arnynt o bosib. Mae dwy nod i'r rhaglen rhesymoli asedau, sef lleihau costau refeniw a gwella'r cyfleoedd am dderbyniadau cyfalaf trwy werthu asedau dros ben.

Caiff Polisi a Gweithdrefnau Asedau'r Cyngor eu defnyddio ar gyfer pob proses waredu, caffael a threfniadau prydlesu. Trwy'r broses hon, mae potensial i unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor aildefnyddio'r asedau ac ystyried materion lleol posibl hefyd. Mae cael gwared ar eiddo yn ddibynnol ar gynnal asesiad o rymoedd ac amodau'r farchnad sy'n gyffredin ar y pryd, cyfyngiadau cynllunio, ffactorau strategol yn y dyfodol a'r angen am dderbyniadau i gefnogi ei raglen gyfalaf. Dylid nodi na fydd y ddogfen Polisi a gweithdrefnau yn newid ar ôl mabwysiadu'r cynllun hwn.

Mae'r tebygolrwydd y ceir llif uwch o dderbyniadau cyfalaf yn dibynnu ar rymoedd y farchnad ac argaeledd eiddo dros ben. Mae'r Cyngor wedi adnabod asedau eiddo ar gyfer rhaglen waredu a chafwyd llwyddiant sylweddol wrth waredu asedau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn dal banc mawr o asedau eiddo a fyddai'n gwerthu am bris uchel ac y gellid eu defnyddio i gefnogi'r bwlch ariannol sy'n bodoli yn y rhaglen gyfalaf, ac ni fedr y Cyngor bontio'r bwlch hwn trwy defnyddio cyfleoedd cyllido mewnol yn unig. Felly, bydd angen i'r Cyngor fod yn effro i gyfleoedd posib am arian grant allanol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae arian o'r fath yn dueddol o gael ei neilltuo tuag at gynlluniau cyfalaf, tra bod y galw a adnabuwyd hyd yma trwy'r broses rheoli asedau yn dangos yr angen am fwy o arian refeniw i ddelio â'r materion cynnal a chadw sydd wedi cronni dros y blynyddoedd, ac a gafodd eu hamlygu yng Ngyrrwr Allweddol 4 y cynllun hwn.

Mae rhesymoli asedau a darparu cyfleusterau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn faterion allweddol y bydd raid mynd i'r afael â hwy os ydym am adfer y diffyg hwn er mwyn sicrhau bod maint delfrydol stad y Cyngor yn cwrdd yn agos â'r amcanion o fod yn addas at y diben, yn ddigonol, mewn cyflwr da, ac yn fwy na dim, yn fforddiadwy.

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n bosib y bydd yna 20 o adeiladau na fydd ar y gwasanaethau eu hangen mwyach os bydd y prosiectau'n rhedeg ar amser ac yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am arian cyfalaf. Yn ogystal â'r rhain efallai y bydd rhagor

o asedau tir ac adeiladau dros ben y gellir eu gwerthu, yn dibynnu ar ganlyniad yr arfarniadau opsiynau a argymhellwyd i gyfiawnhau bod y Cyngor yn cadw rhai o'i asedau eiddo.

Wrth i'r eiddo dros ben hyn gael eu rhyddhau i'w gwerthu, cânt eu hychwanegu at y Rhaglen Gwaredu Eiddo a reolir gan y Tîm Stadau yn y Gwasanaethau Eiddo. Mae'r rhaglen hon yn olrhain cynnydd yr asedau a werthir, o'r pwynt pan roddir hwy ar y farchnad hyd nes cwblheir y gwerthiant.

Mae angen adolygu a, lle bo raid, diwygio'r gweithdrefnau a ddefnyddir ar hyn o bryd i werthu ein hasedau gan ei bod yn cymryd gormod o amser ar hyn o bryd i werthu ased a bancio'r derbynneb Cyfalaf y mae ei angen yn ddirfawr.

Yn ogystal, mae angen adolygu a herio'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu trosglwyddo ased yn hytrach na'i werthu. Mae yna nifer o gyrff a allai wneud achos am werth asedau'n trosglwyddo a dylid meddwl yn ofalus am yr effaith ar gymunedau cyn gwneud unrhyw benderfyniad i leihau cyfleoedd am drosglwyddiadau o'r fath.

Mae **Atodiad 6** y cynllun hwn yn dangos tabl sy'n rhestru'r asedau hynny sydd wedi'u nodi i'w cysoni o bosib gan yr amrywiol brosiectau a rhaglenni sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ynghyd â dyddiad posib pan na fydd efallai eu hangenmwyach. Byddwn yn ychwanegu at y rhestr hon wrth i'r gwaith dan y prosiectau eraill fynd rhagddo i adnabod asedau pellach a all fod y tu hwnt i'n hanghenion yn ystod oes y cynllun hwn.

2.5 Casgliad a Chynllun Gweithredu

Mae Ynys Môn yn wynebu degawd o drawsnewid posib gyda phrosiectau mawr megis Wylfa Newydd, Land & Lakes a phrosiectau gwyddonol, technoleg a thwristiaeth eraill yn cael eu cynllunio ar draws yr ynys. Bydd y rhain yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella ffyniant economaidd yr ynys a chânt effaith sylweddol ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Mae'r Cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu mewn cyfnod o newid nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen ac mae mwyafrif y gwasanaethau'n mynd drwy adolygiadau a thrawsnewid mawr y sonnir amdano yn adran 2.1. Bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r rhain yn arwain at newidiadau sylweddol yn natur y gwasanaethau a ddarperir a'r modd y cânt eu cyflwyno.

Bydd y modd y cyflenwir gwasanaethau yn y dyfodol yn wahanol iawn i unrhyw beth y byddem wedi medru ei ragweld ar yr adeg yr adeiladwyd y rhan fwyaf o'n hasedau ac fe gaiff hynny effaith ar y stad asedau. Trwy'r cynllun hwn mae angen i'r Cyngor adolygu a oes ganddo'r asedau y mae arno ei angen yn awr, ac adnabod yr hyn y mae'n debygol o fod ei angen er mwyn bodloni gofynion ei ddinasyddion yn y dyfodol.

Yn ogystal, gyda'r angen i arbed tua £17,000,000 dros y tair blynedd nesaf, mae'r Strategaeth Effeithlonrwydd ddrafft wedi nodi nifer o syniadau ar gyfer gwneud arbedion sy'n gysylltiedig ag asedau. Felly, mae gan Reoli Asedau gyfraniad i'w wneud i leddfu'r pwysau cyllidebol hyn a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol a chynorthwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd.

Mae'r cynllun gweithredu canlynol wedi cael ei ddatblygu sy'n rhestru'r camau gweithredu a adnabuwyd hyd yma o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn a bydd yn parhau i esblygu a chofnodi gweithredoedd yn y dyfodol wrth i strategaethau gwasanaeth gael eu datblygu ymhellach yn ystod oes y cynllun hwn.

Cynllun Gweithredu Rheoli Asedau

Cyf	Gweithred	Perchen	Canlyniadau	Dyddiad Targed	Cynnydd Diweddariad	Dyddiad Cwblhad
1	Cadarnhau'r penderfyniad strategol o ran y ddarpariaeth Hamdden, Llyfrgelloedd, Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant yn y dyfodol	Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth	Datblygu strategaethau gwasanaeth sy'n cytuno ar gyfeiriad darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol ac yn tynnu sylw at yr effaith ar asedau. CRhA yn cael ei ddiweddarau.	Ebrill 2017	Strategaethau gwasanaeth yn cael eu drafftio ar hyn o bryd	
2	Datblygu a mabwysiadu polisi ynni corfforaethol	Gwasanaethau Eiddo	Gostyngiad mewn defnydd ynni a dŵr a chyflawni costau rhedeg cynaliadwy ar gyfer holl eiddo'r Cyngor	Mawrth 2015	PID Drafft yn cael ei ddatblygu	Mawrth 2015
3	Rhaglen gyflawn ar gyfer adnewyddu'r Stad Mân-ddaliadau	Gwasanaethau Eiddo	Gwelliant i bortffolio'r stad, gostyngiad mewn dyledion a chynnydd yng ngwerth y stad	Ebrill 2017	Mae'r grŵp diweddaraf o eiddo'n cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd	
4	Cynnal gwerthusiad opsiynau ar y portffolio diwydiannol i gyfiawnhau cadw'r stad neu argymell ei gwerthu	CLBAG / Economaidd / Eiddo	Derbyniad cyfalaf o werthu neu adnabod modd o gynyddu incwm i ail-fuddsoddi a chynyddu gwerth y stad.	Ebrill 2018		
5	Cynnal gwerthusiad opsiynau ar y portffolio manwerthu i gyfiawnhau	CLBAG / Economaidd /	Derbyniad cyfalaf o werthu neu adnabod modd o gynyddu incwm i ail-	Ebrill 2017		

	cadw'r stad neu argymell ei gwerthu	Eiddo	fuddsoddi a chynyddu gwerth y stad.			
6	Cynnal gwerthusiad opsiynau i bennu pa ddefnydd fydd i Neuadd y Sir yn y dyfodol	CLBAG / Eiddo	Buddsoddi a gwneud defnydd llawn o'r ased neu dderbyniad cyfalaf o'i werthu	Ebrill 2019		
7	Datblygu cynllun strategol ar gyfer Parc Gwledig Caergybi, Ynys Llanddwyn a Nant y Pandy Llangefni	Gwasanaeth Cynllunio Cefn Gwlad	Strategaeth wedi'i datblygu er mwyn sicrhau hyfywedd y 3 safle yn y dyfodol	Ebrill 2018	Mae gan Barc Gwledig Caergybi strategaeth ddrafft y mae gofyn ei mabwysiadu'n ffurfiol	
8	Adolygu a herio strategaethau gwasanaeth drwy gyfarfodydd CLBAG a diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau	CLBAG / Gwasanaethau Eiddo / Rheolwr Asedau	Cynllun Rheoli Asedau diweddar yn cael ei gynnal	Yn parhau	Diweddaru ac adolygu'r Cynllun wrth i benderfyniadau strategol gael eu gwneud ar ddyfodol asedau tir ac adeiladau	
9	Adolygu'r Strategaeth Adeiladau Rhestredig a'r Cynllun Gweithredu	Cynllunio – Amgylchedd Adeiledig / Rheolwr Asedau	Strategaeth Adeiladau Rhestredig / Cynllun Gweithredu wedi'u diweddaru	Mawrth 2017		
10	Cynnal gwerthusiad opsiynau ar y portffolio Mân-ddaliadau i gyfiawnhau	CLBAG	Derbyniadau cyfalaf o werthu neu adnabod modd o gynyddu incwm.	Mawrth 2019		

	cadw'r stad neu argymell ei gwerthu					
11	Adolygu'r ddogfen "Polisi a Gweithdrefnau" ar gyfer gwerthu asedau er mwyn cyflymu'r broses	Eiddo	Y Polisi a Gweithdrefnau wedi'u diweddarau i leihau'r amser a gymerir i farchnata a gwerthu asedau.	Ebrill 2016	Mae'r Panel Sgrwtini wedi edrych ar y Polisi – edrych ar sut rydym yn prynu a gwerthu asedau. Polisi i'w ddiwygio.	
12	Adolygu'r meini prawf ar gyfer dewis trosglwyddo ased yn hytrach na'i werthu	Eiddo	Y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau wedi'i diweddarau. Cynnydd yn yr asedau sy'n cael eu gwerthu am gyfalaf yn hytrach na throsglwyddo i'r gymuned	Ebrill 2016	Mae'r Panel Sgrwtini wedi edrych ar y Polisi – edrych ar sut rydym yn prynu a gwerthu asedau. Polisi i'w ddiwygio.	
13	Cynnal adolygiadau ardal er mwyn canfod gwasanaethau tebyg sy'n cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus eraill neu'r sector preifat a allai gymryd drosodd rai gwasanaethau anstatudol petai'r Cyngor yn penderfynu eu tynnu'n ôl.	CLBAG	Cynllun gofodol i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau	Mawrth 2018		

Atodiad 1 – Crynodeb o'r Gyllideb Gyfalaf Gyfredol 2014/2015

Prosiectau	Cyllideb 2014/15 £ '000	Llithriad 2013/14 £ '000	Cyfanswm £ '000	Gwariant		Sylwadau
				£ '000	%	
Tai	6634	2,365	8999	2,507	28	
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	5734	1,351	7085	1,569	22	Yn ystod Ch1 a Ch2, roedd y gwariant a gafwyd yn deilïo'n bennaf o gynllunio ar gyfer cynlluniau oedd wedi llithro o 2013/14. Erbyn hyn, rydym wedi caffael y rhaglen 2014/15 a disgwyliar i'r gwariant gynyddu yn Ch3.
Preifat: Grantiau a Benthyciadau	900	621	1,521	870	57	Mae disgwyl i'r cynlluniau grantiau a benthyciadau fod wedi cael eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn.
Tai Fforddiadwy	0	393	393	68	17	Mae blaenoriaethau'n parhau i gael eu hystyried ar y cyd â'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y cynllun achub morgeisi / cynllun cymorth prynu, a fydd yn elwa o gyfraniad gan Gymdeithas Tai Eryri.
Addysg	1,720	1,049	2769	737	27	
Arian wrth Gefn Ysgolion yr 21ain Ganrif	0	789	789	0	0	
Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	0	61	61	16	26	Dim ond ychydig iawn o wariant fu ar y rhaglen Ysgolion 21 ^{ain} Ganrif ar gyfer y flwyddyn hyd yma, a hynny ar archwiliadau safle ac arfarnu safleoedd.
Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg	720	0	720	25	3	Ychydig iawn o wariant fu hyd at ddiwedd Chwarter 2 ar gais cynllunio, ecoleg a gwasanaethau peirianneg. Mae gwaith i fod i ddechrau ar y safle yn yr hydref ond, oherwydd risg o orwariant sylweddol, mae costau'r prosiect bellach yn cael eu hail-werthuso.
Addysg: Arall	1,000	199	1,199	696	58	Mae hyn yn berthnasol i gynlluniau mân waith mewn gwahanol ysgolion. Mae'r cyllidebau wedi'u hymrwymo'n llawn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ac mae dros hanner y gyllideb wedi cael ei gwario hyd at ddiwedd Chwarter 2.
Adfywio	4491	2,106	6597	2,213	34	
Dat. Econ: Isadeiledd Strategol – Safleoedd ac Adeiladau	1,666	215	1,881	820	44	Mae gwaith adeiladu'r 4 uned ym Mhen yr Orsedd bellach wedi'i gwblhau a disgwyliar y cânt eu trosglwyddo yn Ch3. Mae cais i sicrhau cyllid WEFO ychwanegol i adeiladu 3 uned arall wedi cael ei gymeradwyo, gyda'r gwaith i fod i ddechrau yn Ch3.
Dat. Econ: Arall	650	721	1,371	328	24	Mae hyn yn ymwneud â chyllid cyfatebol y Cynllun Cyfenter, Grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol, Cynlluniau Estyniad Canolfan Fusnes Ynys Môn, Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn a Thioledau Cyhoeddus.
Eiddo: Rhaglen Welliannau i Fân-ddaliadau	250	0	250	74	30	Mae'r rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau, a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu mân-ddaliadau ac o incwm rhent, yn ei phumed blwyddyn. Mae'r 8 cynllun sydd ar y safle ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen gosodiadau trydanol bron wedi'u cwblhau. Mae gwaith adnewyddu pedwar tŷ yn mynd rhagddo ac mae un cynllun arall i fod i ddechrau tua diwedd y flwyddyn ariannol, tra bydd dau gynllun adnewyddu pellach yn cael eu tendro yn yr hydref. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg ar gost uwch na'r cyfalaf a dderbynnir – trosglwyddwyd diffyg o £2,051k ymlaen o 2013/14, a bydd raid ei ychwanegu at unrhyw wariant yn 2014/15. Mae'r rhaglen o gynhyrchu incwm yn dangos arwyddion o welliant, gyda derbyniadau cyfalaf o £631k wedi'u cytuno y flwyddyn ariannol hon a rhagwelir i werthiannau mawr ddigwydd yn ail hanner y flwyddyn.
Rheoli Gwastraff: Compownd Cynwysyddion yn Mona	125	0	125	0	0	Y cynllun gwreiddiol ar gyfer y gwariant oedd ei wario ar safle Penhesgyn. Ond ystyrir nad yw'r safle hwn yn addas bellach; felly, caiff yr arian ei wario ar Gompownd Storio Cynwysyddion Gwastraff ym Mona, a fyddai'n cymryd lle'r ardal a ddefnyddir ar hyn o bryd ym Mryn Sunsur.
Adfywio Ffisegol (3 Tref)	0	1,170	1,170	633	54	Bydd y gyllideb yn cael ei gwario ar brosiectau ac eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun Caerbybi.
Priffyrdd: Menter Benthycia Llywodraeth Leol 2014/15	1,800	0	1,800	358	20	Disgwylir i'r gwaith ennill momentwm yn ystod y flwyddyn, gan y bydd mwy ohono'n digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr holl waith a raglennwyd wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.
Arall	1,947	1,407	3354	813	24	
Priffyrdd: Arall	650	378	1,028	473	46	Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â cherbydau, strwythurau, cerbydlonydd, meysydd parcio a goleuadau stryd, sy'n symud ymlaen fel y rhagwelwyd.
Eiddo: Arall	770	453	1,223	117	10	Mae hyn oll yn ymwneud â mynediad i'r anabl a gwaith rheoli risg adeiladu, Doc Pysgod Caerbybi ac

						estyniadau i ddwy fynwent, un yn Llanddona a'r llall yn Llanbedrgoch.
TGCh: Strategaeth	150	456	606	0	0	Dim gwariant ar TGCh: Strategaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma.
Gwasanaethau Cymdeithasol: Eraill	377	120	497	223	45	Mae'r gwariant a gafwyd yma yn cynnwys ailwampio Cartref Gofal Brwynog, prynu nifer o liniaduron a phrynu cyfarpar arbenigol, megis gwelyau proffilio.
Cyfanswm	14,792	6927	21,719	6270	29	

Llithriad 2013/14 £ '000	Cyllideb 2014/15 £ '000	GWASANAETH	Manylion y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd	Swm y Gyllideb ('000)	Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000)	Y Gost i CSYM ('000)
		Tai				
		Tai Sector Cyhoeddus:				
1,351	5734	Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai	Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio ar Dai Cyngor	5,350	2,600	2,750
			Gwaith Cynlluniedig SATC 2014-15 – arian wrth gefn heb ei ddyrannu	400		400
			SATC Newid Tenantiaeth 2014-15 – arian wrth gefn heb ei ddyrannu	350		350
			Gwaith Amgylcheddol 2014-15 – arian wrth gefn heb ei ddyrannu	250		250
			Adolygiad Tai Gwarchod – arian wrth gefn heb ei ddyrannu	735		735
		Cynlluniau Tai Sector Preifat:				
621	900	Cynlluniau Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat	Grantiau Effeithlonrwydd Ynni, rhaglen 14-15	171		171
			Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf, rhaglen 14-15	314		314
			Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, rhaglen 14-15	851		851
			Grant Atgyweirio Argyfwng	21		21
			Grantiau / Benthyciadau Tai Gwag	140		140
			Grant Diogelwch Tân	24		24
393		Cynlluniau Tai Fforddiadwy	Dim gwybodaeth bellach	393		393
2,365	6634	Cyfanswm Tai		8999	2,600	6399
		Addysg				
	720	Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg	Addasiad i'r Adeilad Dechrau'n Deg, Caerdybi	720	720	
850		Arian wrth gefn Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Costau Cyfalaf a ffioedd dylunio Ysgol y Llannau. Cais cynllunio am Ysgol newydd yng Nghaerdybi	61		61
			Wrth Gefn	789		789
199	1,000	Ysgolion – Adnewyddu	Ysgol Syr Thomas Jones – Adnewyddu Toiledau	100		100
			Ysgol Uwchradd Bodedern – Boeler newydd a gwaith ar y to	525		525
			Ysgol Gyfun Llangefni – Gwaith ar faes parcio'r ysgol, ailweirio, Drysau a'r system Larwm Tân	110		110
			Ysgol David Hughes – Risg Tân	50		50
			Ysgol Uwchradd Caerdybi – Bloc Gwyddoniaeth, To, Boeler	200		200
			Ysgol Gynradd Y Borth – Toiledau	30		30
			Ysgolion – Risg Legionella	50		50
			Ysgolion Gynradd – Ailweirio a Goleuadau	50		50
			Ysgolion Gynradd – Larymau Tân	30		30
			Ysgolion Gynradd – Bwyleri	30		30

Llithriad 2013/14 £ '000	Cyllideb 2014/15 £ '000	GWASANAETH	Manylion y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd	Swm y Gyllideb ('000)	Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000)	Y Gost i CSYM ('000)
		Datblygu Economaidd				
215	1,666	Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Adeiladau	7 uned newydd ar safle Penyrsedd a dymchwel adeilad Hyfforddiant Môn	1,881	1,500	381
277		Cynllun Cyfenter – cyllid cyfatebol	Caiff hyn ei redeg gan Menter Môn ac mae'n nodi cyfraniad y Cyngor drwy roi grantiau i fentrau economaidd cymunedol yn y trydydd sector.	277		277
	130	Grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol	Mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i fusnesau lleol	130	100	30
	25	Cynlluniau Estyniad Canolfan Fusnes Môn	Mae cynlluniau yn 2007 i ymestyn y ganolfan. Wrthi'n diweddar ac adolygu'r cynlluniau hyn i gyflwyno cais cynllunio i ymestyn y Ganolfan Fusnes.	25		25
	495	Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn	Porth Dafarch, Ynys Gybi	125	125	
			Pontynau'r Orsaf Cychod Hwyllo, Porthaethwy	57	57	
			Ffordd y Traeth, Rhosneigr	107	107	
			Llithrfa, Bae Trearddur	57	57	
			Ardal Wyllo'r Harbwr, Bae Cemaes	57	57	
			Traeth Mynediad i Bawb, Bae Cemaes	92	22	70
444		Arall	Dim gwybodaeth bellach	444		444
936	2316	Is-gyfanswm		3,252	2,025	1,227
		Eiddo				
	250	Mân-ddaliadau (rhaglen wedi'i chlustnodi)	Dim Rhaglen ar Fân-ddaliadau	250		250
2	200	Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Cyhoeddus	Ysgol Syr Thomas Jones – Mynediad i'r Anabl	5		5
			Ysgol Gyfun Llangejni – Mynediad i'r Anabl	40		40
			Ysgol Uwchradd Caergybi – Gwaith ar Fynediad i'r Anabl	30		30
			Ysgol Gynradd Fali – Gwaith ar Fynediad i'r Anabl	10		10
			Ysgol Esceifiog – Gwaith ar Fynediad i'r Anabl	30		30
			Ysgol Llanfechell – Gwaith ar Fynediad i'r Anabl	15		15
			Ysgolion uwchradd, DDA heb ei ddyrannu	50		50
			Wrth Gefn: Cyffredinol	22		22
143	450	Rheoli Risg Adeiladau a Chynnal a Chadw Strwythurol	Ysgolion Cynradd – Risgiau Legionella, heb ei ddyrannu	50		50
			Ysgolion Cynradd – LPG, heb ei ddyrannu	30		30
			Ysgolion Cynradd – Ceginau, heb ei ddyrannu	50		50
			Amrywiol – Cydymffurfio â'r Côt Ymarfer Legionella (ACoP)	50		50
			Last Trading Post – Ffenestr Newydd	3		3
			Swyddfa Bost Brynsiencyn – To Fflat	3		3
			Depo'r Cyngor – Tynnu Asbestos	10		10
			Uned 2 Bodedern – Newid ffenestr yn ddrws	2.5		2.5
			Yr Hen Ysgol Genedlaethol – To	15		15
			Yr Hen Ysgol Genedlaethol – Wal Gynnal	5		5
			Mynedfa Foel Fawr - Trac Mynediad	4		4
			Pob eiddo – Risg Tân	17		17

24
2,049

Tudalen 261

			Pob eiddo – Bwyleri	100		100
			Pob eiddo – Rhaglen Diogelwch LPG	50		50
			Wrth Gefn: Cyffredinol	203.5		203.5
(3)	120		Estyniad i Fynwent Llanddona	117		117
110			Estyniad i Fynwent Llanbedrgoch	110		110
130			Doc Pysgod Caergybi	130		130
11			Gwerthusiad Opsiynau Rheoli Asedau	11		11
40			Caffi Wendon	40		40
20			Arall	20		20
453	1,020		Is-gyfanswm	1,473		1,473
Llithriad 2013/14 £ '000	Cyllideb 2014/15 £ '000	GWASANAETH	Manylion y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd	Swm y Gyllideb ('000)	Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000)	Y Gost i CSYM ('000)
		Gwastraff				
	125		Caiff yr arian ei ddefnyddio mewn cysylltiad â Chompwnd Storio			
	125		Compwnd Storio Cynhwysyddion Gwastraff – Penhesgyn	125		125
0	125		Cynhwysyddion Gwastraff ym Mona, byddai'r compownd storio yn cymryd lle'r ardal a ddefnyddir ar hyn o bryd ym Mryn Sunsur.	125		125
			Is-gyfanswm	125		125
			Cynllunio			
1,170			Adfywio Ffisegol (3 Tref)	1,170	1,120	50
1,170	0		Prosiectau ac Eiddo o fewn Menter Dreftadaeth Treflun Caergybi	1,170	1,120	50
			Is-gyfanswm	1,170	1,120	50
			Priffyrdd a Thrafnidiaeth			
	1,800		Menter Fenthycyca Llywodraeth Leol	1,490		1,490
			Ailwynebu'r Ffordd Gerbydau	170		170
			Gwella Draenio	140		140
			Ailadeiladu troedffordd	72		72
(28)	200		Pengorffwysfa i Laneilian	30		30
			Pentref Tregele			
			Ffordd Ravenspoint, Trearddur	70		70
51	50		Nid oes rhaglen ar Feysydd Parcio	101		101
35	180		Aberffraw	90		90
			Llanfairynghornwy	90		90
			Dim gwybodaeth bellach	35		35
(3)	20		Edrych ar oedran y lampau ac amnewid y lampau llai effeithlon	17		17
(3)	50		Dim Rhaglen ar Ffyrdd a Throedffyrdd Stadau	47		47
237	150		I brynu Cerbydau Fflyd – i fod i fynd i dendr	387		387
89			Lliniaru Llifogydd ym Miwmares	89	72	17
378	2,450		Is-gyfanswm	2,828	72	2,756

		Corfforaethol				
456	150	Strategaeth TGCh	System TGCh Wrth Gefn	150		150
			Uwchraddio Windows XP i Windows 7	37		37
			Microsoft Exchange	75		75
			3Comm Refresh	50		50
			PSBA ffibr i ysgolion	50		50
			Costau Ychwanegol ar gyfer Systemau Wrth Gefn	20		20
			Amnewid gweinyddwyr 2003	100		100
			Darpariaeth ar gyfer costau trwyddedu Microsoft ac Oracle	30		30
			Costau ychwanegol ar gyfer amnewid XP	20		20
			Darpariaeth wrth gefn ar gyfer TGCh	74		74
456	150	Is-gyfanswm		606		606
Llithriad 2013/14 £ '000	Cyllideb 2014/15 £ '000	GWASANAETH	Manylion y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd	Swm y Gyllideb ('000)	Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000)	Y Gost i CSYM ('000)
		<u>Gwasanaethau Cymdeithasol</u>				
120		Brwynog	Adnewyddu Cartref Gofal Brwynog	120		120
	377	Cronfa Gofal Canolraddol	Gwasanaeth cymorth 24/7 Iechyd a Gofal Cymdeithasol	5	5	
			Ymgorffori rôl y Fferyllfa gofal canolraddol i mewn i ofal sylfaenol	5	5	
			Darparu Cyfarpar ac Addasiadau	90	90	
			Offer Teleofal	30	30	
			Gweithio Symudol a Gweithio'n Gallach	97	97	
			Offer Arbenigol	50	50	
			Cyd-leoli staff o Dimau Amlasiantaethol	20	20	
			Hybiau Cymunedol	80	80	
120	377	Is-gyfanswm		497	377	120
4,562	8158	Cyfanswm – Cyffredinol		12,720	4314	8406
6927	14,792	CYFANSWM Y GYLLIDEB		21,719	6914	14,805

Tudalen 263

Copiwyd y data o Adroddiad Monitro'r Gyllideb 2^{ll} Chwarter 2014/2015 i'r Pwyllgor Gwaith

Pwyllgor Gwaith

Sgriwtini

UDA

Sgriwtini – Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, adolygu / datblygu polisiau monitro perfformiad a gwelliant.

UDA – Arwain cyfeiriad strategol y Cyngor.

Pwyllgor Gwaith
Awdurdod a goruchwyliaeth dros bopeth yn gyffredinol. Uwchgyfeirio o'r *Byrddau Rhaglen Trawsnewid* yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Cynllun Dirprywo.

Byrddau Rhaglen Trawsnewid – Gwireddu buddion y Cynllun Trawsnewid. Sicrhau y caiff rhaglenni/prosiectau eu rheoli a'u cyflawni. Blaenoriaethu a dyrannu cyllid.

Byrddau Rhaglen/Prosiect – yn llywodraethu'r Rhaglenni / Prosiectau unigol, ac yn adrodd ar gynnydd i'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid penodedig.

Grŵp Asedau Corfforaethol: Tir ac Adeiladau – rheolaeth holistaidd i sicrhau'r defnydd gorau o asedau'r Awdurdod (yn cynnwys cael gwared ag eiddo) – monitro cynlluniau llety ar raddfa fawr.

Grŵp Dyriadau Cyfalaf ac Adolygu – (yn seiliedig ar geisiadau Achosion Busnes) dyrannu'r Gyllideb Gyfalaf yn y tymor byr, canolig a thymor hir ac adolygu'r gwariant.

Y Rhaglen (Cyllideb) Gyfalaf
Y cofnod o gyllideb gyfalaf yr Awdurdod.



Gwaith Cynnal a Chadw Parhaus
Cynnal a chadw asedau – wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio.

Strategaethau
Y cyfeiriad strategol i'r Gwasanaeth dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Rhaglenni/Prosiectau
Cyflawni newid cymhleth mewn ymateb i'r Strategaeth.

Achos Busnes Llawn
Yn rhoi manylion am hyfywedd y newid ac yn nodi'r opsiwn a ffeifrir.

Tudalen 264



Atodiad 2 – ‘Grŵp Asedau Corfforaethol – Tir ac Adeiladau’ a'r ‘Rhaglen Gyfalaf’

Atodiad 3 – Crynodeb o Ddata Cyflwr Asedau (Ac eithrio Asedau Tai a Phrifyrdd)

Dangosydd	Eitem(au) Data	2013-14	2012-13
Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr A - Da	Faint o'r AMG sydd yng nghategori cyflwr A - Da (m ²)	34,903	29,519
	Cyfanswm yr holl AMG yn holl adeiladau'r awdurdod lleol (m ²)	168,640	164,041
	Gwerth DP	20.7	18.0
Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr B - Boddhaol	Faint o'r AMG sydd yng nghategori cyflwr B - Boddhaol (m ²)	124,731	124,876
	Cyfanswm yr holl AMG yn holl adeiladau'r awdurdod lleol (m ²)	168,640	164,041
	Gwerth DP	74.0	76.1
Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr C - Gwael	Faint o'r AMG sydd yng nghategori cyflwr C - Gwael (m ²)	7197	7837
	Cyfanswm yr holl AMG yn holl adeiladau'r awdurdod lleol (m ²)	168,640	164,041
	Gwerth DP	4.3	4.8
Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr D - Drwg	Faint o'r AMG sydd yng nghategori cyflwr D - Drwg (m ²)	1,809	1,809
	Cyfanswm yr holl AMG yn holl adeiladau'r awdurdod lleol (m ²)	168,640	164,041
	Gwerth DP	1.1	1.1
Canran o gyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd i waith blaenoriaeth lefel 1 - Brys	Gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 1	3,925,148	3,809,448
	Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol am y flwyddyn	18,019,256	19,337,304

	Gwerth DP	21.8	19.7
Canran o gyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd i waith blaenoriaeth lefel 2 - Hanfodol	Gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 2	7,878,495	9,301,243
	Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol am y flwyddyn	18,019,256	19,337,304
	Gwerth DP	43.7	48.1
Canran o gyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd i waith blaenoriaeth lefel 1 (Brys) neu lefel 2 (Hanfodol)	Gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 1 a 2	11,803,643	13,110,691
	Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol am y flwyddyn	18,019,256	19,337,304
	Gwerth DP	65.5	67.8
Canran o gyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd i waith blaenoriaeth lefel 3 - Dymunol	Gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 3	6,215,613	6,226,613
	Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol am y flwyddyn	18,019,256	19,337,304
	Gwerth DP	34.5	32.2
Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar gyfer adeiladau'r awdurdod lleol fesul metr sgwâr o'r arwynebedd mewnol gros (AMG)	Cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol am y flwyddyn	18,019,256	19,337,304
	Cyfanswm yr AMG yn holl adeiladau'r awdurdod lleol (m ²)	168,640	164,041
	Gwerth DP	106.85	117.88

**Atodiad 4 – Rhestr Asedau Priffyrdd, Prisiadau a Buddsoddiad 2014
(Cymerwyd y Data o Adroddiad Prisio Asedau Ffyrdd, Mehefin 2014)**

Tabl 1.1 Asedau Ffyrdd				
Math o Ased	Faint	Y maint a ychwanegwyd yn ystod y Flwyddyn		Sylw
Cerbydlonydd	1180.8 km	0.3	km	
Troedffyrdd	440.746 km	0	km	
Traciau Beicio	km		km	
Strwythurau: Pontydd	207 nif.	0	nif.	
Strwythurau: Waliau Cynnal	350 nif.	0	nif.	
Goleuadau Priffyrdd	8046 nif.	22	nif.	
Dodrefn Stryd (yn fras)	24,575.6 nif.	0	nif.	
Signalau Traffig (cyffyrdd)	1 nif.	0	nif.	
Croesfannau i Gerddwyr	22 nif.	0	nif.	
Tir	ha.		ha.	

Tabl 1.1A Asedau Fyrdd a Ychwanegwyd yn ystod y Flwyddyn		
Math o Ased		
Cerbydlonydd	0.3	km
Troedffyrdd	0	km
Traciau Beicio	0	km
Strwythurau: Pontydd, cylfatiau, isffyrdd	0	Na
Strwythurau: Waliau Cynnal	0	Na
Goleuadau Priffyrdd (Colofnau)	22	Na
Goleuadau Priffyrdd (<i>Luminaires</i>)	160	Na
Dodrefn Stryd (yn fras)	0	Na
Signalau Traffig (cyffyrdd)	0	Na
Croesfannau i Gerddwyr	0	dim.

Tabl 1.1b Asedau Ffyrdd y cafwyd Gwared â hwy yn ystod y Flwyddyn		
Cerbydlonydd		
Cerbydlonydd	0	km
Troedffyrdd	0	km
Traciau Beicio	0	km
Strwythurau: Bridges, cylfatiau, isffyrdd	0	Na
Strwythurau: Waliau Cynnal	0	Na
Goleuadau Priffyrdd (Colofnau)	0	Na
Goleuadau Priffyrdd (<i>Luminaires</i>)	155	Na
Dodrefn Stryd (yn fras)	0	Na
Signalau Traffig (cyffyrdd)	0	Na
Croesfannau i Gerddwyr	0	dim.

Tabl 1.2 Crynodeb o'r Prisiad Asedau Ffyrdd			
Math o Ased	Cost Amnewid Gros (000)	Cost Amnewidiol wedi'i Ddibrisio (000)	Cost Dibrisiant Blynnyddol (000)
Cerbydlonydd	£ 852,480	£ 794,482	£ 4,478
Troedffordd	£ 29,242	£ 7,011	£ 2,333
Strwythurau	£ 51,665	£ 48,321	£ 264
Goleuadau Stryd	£ 30,192	£ 20,081	£ 789
Dodrefn Stryd	£ 9,337	£ 4,672	£ 468
Signalau Traffig	£ 803	£ 613	£ 44
Tir	£ 0		£ 0
Cyfanswm	£ 973,719	£ 875,179	£ 8,376

Tabl 1.5 Cyllidebau Ffyrdd Presennol yn ôl Cyfalaf a Refeniw (000)				
Cyllideb Ffyrdd Bresennol	Cyfanswm £	Refeniw £	Cyfalaf £	Nodiadau
Ffyrdd Cerbydau	£ 3,307	£ 3,107	£ 200	£ 1,280,000 (LGBI)
Troedffyrdd a Llwybrau Beicio	£ 295	£ 245	£ 50	£ 170,000 (LGBI)
Strwythurau	£ 540	£ 334	£ 207	
Goleuadau Priffyrdd	£ 544	£ 524	£ 20	
Dodrefn Stryd	£ 95	£ 95	£ 0	
Systemau Rheoli Traffig	£ 77	£ 77	£ 0	
Tir	na	na	na	
Costau Gweithwyr	£ 0	£ 0	£ 0	
Gorbenion	£ 0	£ 0	£ 0	
Cyfanswm	£ 4,857	£ 4,380	£ 477	

Sylw

Mae lefelau buddsoddi ar gyfer ffyrdd cerbydau yn llai na'r dibrisiant blynyddol o gryn dipyn. (21%) sy'n dangos y swm isel a gaiff ei wario ar gynnal yr asedau hyn

Atodiad 5 – Cofrestr Adeiladau Rhestredig

38SSO1000	Old Rectory Llanfechell (Not at risk)	Social Services	£21,500
46LEO 2000	Part South Stack Holyhead (Not assessed)	Museums & Culture	£75,000
45POO1000	Llandwyn Lighthouse & Cottages (Not assessed)	Planning	£20,000
39POO4000	St Georges Pier & Booking Office Menai Bridge (Not at risk)	Property	
46SSO2000	Toll House Holyhead (Not at risk)	Property	£16,000
11EDO2000	Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch (Not at risk)	Education	£1,300,000
35HEO2000	Haulfre Stables & Outbuildings (Not assessed)	Social Services	£85,000
47LEO1001	Melin Llynonn Llanddeusant (Not at risk)	Museums & Culture	£17,000
31HE07000	Tollgate Llanfairpwll (Not at risk)	Housing	
12LEO3000	Beaumaris Gaol (Not at risk)	Museums & Culture	£231,000
12LEO4000	Beaumaris Court House (Not at risk)	Museums & Culture	Included in above
11SPO4000	Mona Windmill Amlwch (To be monitored)	Property	
11SPO1000	Lighthouse & Watchtower Amlwch Port (Not at risk)	Property	
11EDO5000	Old National School Amlwch (Not at risk)	Property	
34OFO2000	Shire Hall Llangefni (At risk, structural overloading Archives)	Property	
12SSO1000	David Hughes Community Centre/Library Beaumaris (Not assessed)	Museums & Culture	
13EDO2000	Ysgol Gynradd Beaumaris (Not assessed)	Education	£538,000
18SHO3000	Caerau Llanfairynghornwy (Small Holding) (At risk)	Property	
45SH05000	Quirt Dwyran (Small Holding) (At risk)	Property	£84,800
41SHO7000	Braint Farmhouse (Small Holding) (At risk)	Property	
46OLO4000	Old Customs Post Porthdafarch (At risk)	Property	
19ED08000	Cybi Block Holyhead High School (At risk)	Education	
	Gunpower Magazine, Breakwater Country Park (Not at risk)	Planning	

Atodiad 6 – Cofrestr Rhesymoli

Eiddo	Y dyddiad posibl y rhoddir y gorau i'w defnyddio ⁽¹⁾	Prisiad yr Ased (2013) ⁽²⁾	Arbediad Posibl ar Gynnal a Chadw'r Adeilad ⁽³⁾
Ysgol Parch Thomas Ellis – Caergybi	2016/2017	£ 1M	£ 234k
Ysgol Gynradd Llaingoch – Caergybi	2016/2017	£ 826K	£ 154k
Ysgol Y Parc – Caergybi	2016/2017	£ 1.1M	£ 120K
Ysgol Llanfachraeth	2017/2018	£ 580 mil	£ 158K
Ysgol Llanfaethlu	2017/2018	£ 510k	£ 28K
Ysgol Llanddona	Ar gau 2014	£ 375k	£ 51K
Swyddfeydd Parc Mount – Llangefni	2015/2016	£ 300K	£ 93K
Swyddfeydd Pen yr Orsedd – Llangefni	2014	£ 133k	£ 14K
Hyfforddiant Môn – Llangefni	2014	£ 297K	£ 176K
Swyddfeydd Cynnal – Llangefni	2015/2016	£ 78K	£ 180K
Swyddfeydd Genesis – Llangefni	2015/2016	£ 27K	£ 18K
Rovacabin – Llangefni	2015/2016	£ 130K	£ 20K
Cartref Gofal Garreglwyd – Caergybi	2015	£ 575k (MV)	£ 72K
Cartref Gofal Plas Penlan – Llangefni	2017/2018	£ 1.8M	£ 55K
Cartref Gofal Brwynog – Amlwch	2017/2018	£ 884k	£ 70K

1. Dyddiadau posib pan fydd yr ased uwchlaw'r gofynion, ac mae hynny'n ddibynnol iawn ar gynnydd y prosiectau.
2. Mae'r prisiadau'n Brisiadau Asedau, h.y. yr hyn maent werth i ni yn awr ar gyfer darparu gwasanaethau ac nid yr hyn y byddem yn gobeithio ei gael o'u gwerthu.
3. Ffigyrau Cynnal a Chadw Adeiladau o Arolygon Cyflwr 2012/2013

Dyddiad: Hydref 2015
Statws: Drafft
Fersiwn: I'w Gymeradwyo
Awdur: Chris Staddon – Rheolydd Trawsnewid Asedau Corfforaethol
Dyddiad Cymeradwyo:

DRAFT

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

(Teitl yr Adroddiad/Title of Report) Datganiad Polisi Tâl/Pay Policy Statement 2016

<p>Paragraff(au) Paragraph(s) 13, 14</p>	<p>Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972</p>
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae budd i'r cyhoedd wybod am faterion sy'n ymwneud â sefydliad y Cyngor a gweithwyr y Cyngor gan eu bod yn weithwyr cyhoeddus. Mae diddordeb uniongyrchol gan y cyhoedd yng nghostau gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd.</p> <p>There is public interest in knowing of matters which relate to the Council's establishment as public sector workers. The public have direct interest in the cost of services and efficiency savings.</p>	<p>Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae yna ddisgwyliad rhesymol fod pob mater sy'n ymwneud â gweithiwr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae'r adroddiad hwn â goblygiadau cyflogaeth sy'n ymwneud ag uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor a mae'n bosib adnabod unigolion o deitl y swydd.</p> <p>There is a reasonable expectation that all matters relating to an individual employee of the Council are treated confidentially. This report has implications in relation to the remuneration of senior leadership team posts and it will be possible to identify individuals from post titles.</p>
<p>Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilêwch y geiriau amherthnasol] Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank